

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 14eg Chwefror, 2023
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home
PWYNT CYSWLLT	Sioned Mai Jones 01286 679665 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig Siencyn	Arweinydd y Cyngor
Nia Wyn Jeffreys	Dirprwy Arweinydd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Beca Brown	Aelod Cabinet Addysg
Berwyn Parry Jones	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC
Dafydd Meurig	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Elin Walker Jones	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Menna Jones	Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION Y CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 24 IONAWR 2023			4 - 13
6	YSGOL HIRAEI	Cyng. Beca Brown	Garem Jackson, Pennaeth Addysg a Debbie A. Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Addysg	14 - 27
7	CYNLLUN ARBEDION 2023/24 - 2024/25	Cyng. Dyfrig Siencyn	Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr	28 - 47
8	CYLLIDEB 2023-24	Cyng. Ioan Thomas	Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid	48 - 92
9	CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-28	Cyng. Dyfrig Siencyn	Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes	93 - 146

10	STRATEGAETH CYFRANOGIAD - DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021	Cyng. Menna Jones	Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ac Iwan Evans, Swyddog Monitro	147 - 193
11	CYNLLUN ECONOMI YMWELD CYNALIADWY GWYNEDD AC ERYRI	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys	Sioned E. Williams, Pennaeth Economi a Chymuned a Roland Evans, Pennaeth Cynorthwyol - Diwylliant	194 - 259
12	CRONFA FFYNIANT BRO - CYNLLUN LLEWYRCH O'R LLECHI	Cyng. Dyfrig Siencyn	Sioned E. Williams, Pennaeth Economi a Chymuned	260 - 276
13	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys	Sioned E. Williams, Pennaeth Economi a Chymuned	277 - 311
14	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL	Cyng. Menna Jones	Ian Jones, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol	312 - 322
15	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI AC EIDDO	Cyng. Craig ab Iago	Carys Fon Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo	323 - 331

Y CABINET DYDD MAWRTH, 24 IONAWR 2023

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Sioned E. Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) a Dylan Griffiths (Rheolwr Rhaglenni Datblygu'r Economi).

Eitem 7-9: Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol).

Eitem 10: Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Kevin Sheret (Rheolwr Ffilyd).

Eitem 11: Garem Jackson (Pennaeth Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirionnydd).

Eitem 13: Garem Jackson (Pennaeth Addysg) a Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).

1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater bryd.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd a 13 Rhagfyr 2022 fel rhai cywir.

6. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG – TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Economi a Chymuned.

PENDERFYNIAD

1. Cytunwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r rôl 'awdurdod arweiniol' ar gyfer gweithredu Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngogledd Cymru ar ran chwe sir y Gogledd.
2. Cytunwyd i'r trefniadau llywodraethu rhanbarthol ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngogledd Cymru fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.
3. Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr – i sefydlu cytundeb cyfreithiol rhyng-awdurdod ac amodau ariannu gyda siroedd eraill Gogledd Cymru i warchod buddiannau Cyngor Gwynedd.
4. Cytunwyd i'r trefniadau llywodraethu lleol ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG yng Ngwynedd fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad.
5. Awdurdodwyd sefydlu Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd i gynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, ynghyd â'r hawl i benodi dirprwy ar y Panel, i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn cael eu dewis i dderbyn arian ar sail y meini prawf nodir yn adrannau 3.30 a 3.31 yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ei gadarnhau a'i ddilysu gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022. Eglurwyd y bydd arian yn cael ei dderbyn i'r rhanbarth fel lwmp swm ac nid i Awdurdodau Lleol yn unigol. O ganlyniad bydd angen corff arweiniol i arwain ar y cynllun yn y rhanbarth.

Nodwyd bod llythyr memorandwm Cyd-ddealltwriaeth eisoes wedi ei dderbyn ac yn cynnig arian hyd at fis Mawrth 2025. Eglurwyd bod cryn dipyn o waith angen ei wneud er mwyn rhoi'r trefniadau yn eu lle. Manylwyd ar rolau Cyngor Gwynedd yn ymwneud â rheoli'r gronfa gan nodi y bydd tair swyddogaeth gan Gyngor Gwynedd sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad. Amlinellwyd y gwahaniaeth yn y rôl Sirol a'r rôl rhanbarthol gan nodi bod y gwaith Sirol yn cynnwys asesu a chefnogi ceisiadau a'r gwaith rhanbarthol yn ymwneud â phrosiectau traws-sirol a'u hwyluso ynghyd a chyfrifoldebau eraill.

Amlinellwyd y trefniadau a ragwelir ar gyfer y rhanbarth a'r bwriad o sefydlu tîm o 5 o swyddogion ar gyfer ymgymryd â'r gwaith a soniwyd am y costau megis costau cyfreithiol a chyfathrebu. Awgrymwyd trefn o ran strwythur llywodraethu ar yr ochr rhanbarthol. Yn ogystal awgrymwyd adnodd i gyflawni'r gwaith yn Sirol a'r bwriad o sefydlu Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd yn ogystal â Phanel fydd yn ystyried argymhellion y Grŵp Ymgynghorol.

Rhedwyd drwy'r camau o ran ymgeisio a gobeithir gallu agor y gronfa a chychwyn derbyn ceisiadau erbyn diwedd Ionawr. Amlygwyd fod yr amserlen yn dynn iawn ar gyfer cyflawni'r gwaith ar ran y rhanbarth a bod sawl proses yn rhedeg yn gyfochrog.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Gwnaethpwyd ychwanegiad i bwynt 5 o'r argymhelliad. Cytunwyd i ychwanegu "a'r hawl i benodi dirprwy ar y Panel" fel rhan o'r penderfyniad rhag ofn i'r gofyn amlygu yn y dyfodol.

- Gwnaethpwyd sylw fod y drefn o arian yn deillio o San Steffan yn ddiffygiol yn enwedig pan disgwylir i Awdurdodau Lleol greu cynlluniau a gwario'r arian mewn cyfnod byr.
- Mynegwyd rhwystredigaeth fod yr Adran wedi gorfod sefydlu'r holl rwydweithiau mewn cyfnod mor fyr. Amlygwyd fod y broses yn rhwystredig a mynegwyd y byddai'n braf cael defnyddio'r arian i gyfarch blaenoriaethau'r Sir yn hytrach na gorfod dilyn trefn San Steffan.
- Ychwanegwyd bod yr arian yn agored i Awdurdodau flaenoriaethu ond oherwydd y cyfyngiadau amser doedd dim amser i drefnu na blaenoriaethu.
- Mynegwyd ei bod yn braf gweld Gwynedd yn cymryd rôl arweiniol a diolchwyd i'r Adran am eu parodrwydd i ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol yma.
- Eglurwyd y gellir cyflwyno cais neu brosiect ar draws nifer o Awdurdodau Lleol a bydd cydweithio agos yn digwydd efo Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Nodwyd bod y symiau ariannol gafodd eu dyrannu rhwng yr Awdurdodau Lleol yn amrywio felly gellir cael sefyllfaoedd ble bydd efallai 4 allan o 6 Sir y Gogledd efo diddordeb mewn ambell brosiect yn hytrach na'r holl ranbarth. Eglurwyd bod y fformiwla i ddyrannu'r arian yn ymwneud â demograffig a chyflwr yr economi yn y Sir yn ogystal â dehongliadau o anghenion y Sir.

7. CYLLIDEB REFENIW 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2022

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2022 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Cymeradwywyd trosglwyddiad o £3.188 miliwn o danwariant ar gyllidebau Corfforaethol i Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor.
- Argymhellwyd mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwloch ariannol fydd defnyddio:
 - yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r costau ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymhorthyddion, staff gweinyddol a thrydan sydd uwchlaw lefel y gyllideb yn yr ysgolion.
 - yn ail, defnyddio'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor i gyllido'r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd.
 - yn olaf, defnyddio'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad sy'n manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2022/23 a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Eglurwyd bod rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Addysg, Economi a Chymuned, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Thai ac Eiddo yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Ychwanegwyd bod gorwariant sylweddol gan bump o'r chwe Adran sydd yn gorwario, tra bod gweddill Adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Nodwyd o ran Covid, er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, mae costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn parhau mewn rhai meysydd. Ychwanegwyd bod hefyd oediad mewn gwireddu arbedion sydd wedi cyfrannu tuag at rai Adrannau yn gorwario. Tynnwyd sylw at y prif feysydd ble mae gwahaniaethau sylweddol.

Rhagwelir gorwariant o dros £2.2 miliwn eleni yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a hynny yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu gwerth £930,000 o arbedion. Amlygwyd eleni bod pwysau ar lety cefnogol a pheynnau taliadau uniongyrchol yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn tra bod staffio uwchlaw lefel y gyllideb a diffyg incwm yn faterion yng Ngwasanaethau Gofal Cymunedol.

Manylwyd ar y gorwariant o £1.6 miliwn sy'n cael ei ragweld gan yr Adran Addysg sydd o ganlyniad i effaith cost ychwanegol chwyddiant cyflogau athrawon, cymhorthyddion a staff gweinyddol £1,031,000 uwchlaw'r gyllideb eleni. Rhagwelir hefyd bod effaith prisiau trydan uwch ar yr ysgolion am y chwe mis o Hydref 2022 ymlaen yn £614,000. Mynegwyd ei bod yn briodol i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni o ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig.

Tynnwyd sylw at broblemau gorwariant yn y maes Gwastraff ac Ailgylchu a'r trafferthion mae'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol yn ei gael i wireddu arbedion gwerth £608,000. Nodwyd hefyd bod Byw'n lach yn gorwario oherwydd prisiau trydan uwch a gan fod sgil effaith covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar allu Cwmni Byw'n lach i gynhyrchu incwm. Cyfeiriwyd at y pwysau yn y maes Digartrefedd oherwydd goblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud â Digartrefedd; rhagwelir gorwariant net o £2.7 miliwn eleni o fewn yr Adran Tai ac Eiddo.

Yn Gorfforaethol, nodwyd fod rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 a newid i ddeddfwriaeth trethiant yn ffactor sydd yn cyfrannu at gynnyrch treth ychwanegol. Ar ddiwedd y flwyddyn rhagwelir y bydd yn rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn Ysgolion a'r Cyngor i gyllido'r bwlch ariannol o £7.4 miliwn sydd yn cael ei ragweld am 2022/23.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd bod y Cyngor mewn dwylo diogel ac yn ymddiried yn llwyr yng ngwaith y tîm Cyllid.

8. TROSOLWG ARBEDION – ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodwyd y cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2022/23 a blynyddoedd blaenorol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad sy'n crynhoi sefyllfa arbedion y Cyngor. Eglurwyd ers 2015/16 bod gwerth £35.4 miliwn o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu ar gyfer y cyfnod 2015/16 - 2022/23. Amlygwyd bod cyfanswm o £33.5 miliwn o'r arbedion yma wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 95% o'r swm gofynnol dros y cyfnod.

Edrychwyd ar y flwyddyn ariannol gyfredol gan fynegi bod 22% o arbedion 2022/23 eisoes wedi eu gwireddu a 2% pellach ar drac i gyflawni'n amserol. Cyfeiriwyd at yr Adrannau sydd efo'r gwerth uchaf o ran cynlluniau sydd eto i'w cyflawni sef yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

I gloi soniwyd am werth yr arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2023/24 ymlaen gan nodi bod cynlluniau arbedion a thoriadau ychwanegol ar gyfer 2023/24 eisoes dan ystyriaeth gan y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd bod rhaid cofio bod gwireddu'r arbedion yn golygu effaith uniongyrchol ar drigolion y Sir o ganlyniad i safon rhai gwasanaethau yn gostwng. Eglurwyd ei bod yn bwysig cyflawni'r arbedion ond eu bod yn deillio o bolisiau llymder y Llywodraeth ac nid o ddewis Cyngor Gwynedd.
- Cyfeiriwyd hefyd ar yr effaith yr holl arbedion dros y blynyddoedd ar staff y Cyngor.
- Credwyd bod angen gwneud rhywfaint o arbedion yn flynyddol er mwyn bod yn effeithlon sy'n ran o egwyddorion Ffordd Gwynedd ond bod gorfod gwireddu gymaint o arbedion dros yr holl flynyddoedd wedi bod yn anodd.

9. RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2022

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2022) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwywyd ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
 - cynnydd o £30,000 mewn defnydd o fenthyca
 - cynnydd o £2,947,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - cynnydd o £101,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - cynnydd o £20,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - cynnydd o £1,167,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai prif ddiben yr adroddiad oedd i gyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mynegwyd fod yr adroddiad yn nodi dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf o £140.6 miliwn am gyfnod o dair blynedd o 2022/23 - 2024/25.

Cyfeiriwyd at y ffynonellau i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £4.3 miliwn ers yr adolygiad diwethaf. Mynegwyd fod gan y Cyngor gynlluniau pendant mewn lle i

fuddsoddi oddeutu £53 miliwn eleni, gyda £20 miliwn wedi'i ariannu drwy grantiau penodol.

Eglurwyd bod effaith ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf gyda 40% o'r gyllideb wedi ei gwario hyd at ddiwedd Tachwedd eleni, o'i gymharu â 37% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl; 31% ddwy flynedd yn ôl a 51% yn 2019/20 cyn amhariad Covid. Nodwyd fod £28.7 miliwn o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24 a 2024/25 gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys £11.4 miliwn Cynlluniau Strategaeth Tai, £5.5 miliwn Cynlluniau Ysgolion a £4.1 miliwn Adnewyddu Cerbydau.

Tynnwyd sylw at y grantiau ychwanegol y llwyddodd y Cyngor i'w denu ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys £2 miliwn Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, £0.9 miliwn Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol a £0.4 miliwn Grant Llywodraeth Cymru tuag at Gynllunio Gwledig (Gwella Mynediad).

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd bod y maes yn ddyrys ond bod y newyddion yn ymddangos yn gadarnhaol.

10. CYNLLUN FFLYD WERDD 2023-29

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Berwyn Parry Jones

PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd y Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 (a weler yn Atodiad 1) a cytunwyd:

- bod Adrannau'r Cyngor ddim i brynu, adnewyddu, neu waredu unrhyw gerbyd cyn yn gyntaf trafod ei anghenion gyda'r Rheolwr Fflyd, a chael ei gydsyniad;
- bod angen creu system pŵl corfforaethol yn lle rhai Adrannol;
- bod y Rheolwr Fflyd i arwain ar y gwaith o chwynnu'r stoc bresennol o gerbydau'r Cyngor, a chreu strwythur cerbydau i bob Adran.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gyfeirio nôl at gyhoeddiad y Cyngor o Argyfwng Newid Hinsawdd ym mis Mawrth 2019 a arweiniodd at gyhoeddi Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur gan y Cabinet ym mis Mawrth 2022 oedd yn gosod targed y bydd y Cyngor yn garbon sero net erbyn 2023. Nodwyd bod y Cynllun Fflyd Werdd yn cynnwys nifer o brosiectau sy'n mynd ati i helpu i wireddu'r amcan yma drwy leihau allyriadau carbon sydd yn deillio o ddefnydd Fflyd y Cyngor. Nodwyd bod cost yn gysylltiedig â hyn ond byddai cost uwch o lawer yn deillio o wneud dim.

Cyflwynwyd y Cynllun hwn ar weledigaeth y Gwasanaeth Fflyd i'r Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur ym mis Tachwedd 2022 a chytunwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am gymeradwyaeth. Adroddwyd bod cryn waith i'w gyflawni a gall unrhyw oedi amharu ar y rhaglen waith o gyrraedd y nod.

Amlygwyd rhai agweddau o'r Cynllun gan y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Cyfeiriwyd at y targedau sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru a'r gofyn i edrych

ar newid y drefn o ran sut mae'r Cyngor yn prynu cerbydau. Erbyn 2030 mae disgwyliad bod unrhyw gerbyd bychain mae'r Cyngor yn ei brynu efo allyriadau isel.

Soniwyd am faint Fflyd y Cyngor sydd yn cynnwys o gwmpas 550 o gerbydau ar draws y Sir sy'n cwmpasu ystod eang o wahanol gerbydau. Cyfeiriwyd at y camau fydd yn cael eu dilyn gan y Gwasanaeth sy'n cynnwys gwaith chwynnu o ran adolygu cerbydau a herio os oes gwir angen y cerbyd yn y lle cyntaf. Yna bydd gwaith arloesol yn dilyn o ail edrych ar y dechnoleg sydd ar gael ac yna'r gwaith adnewyddu fydd yn cynnwys gosod allan y cyfeiriad y mae'r Cyngor yn dymuno ei ddilyn efo'r Cynllun Fflyd.

Nodwyd bod y rhaglen o ran sut fydd y Gwasanaeth yn gweithio wedi ei osod yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at ddatblygiadau eraill sydd yn digwydd ynglŷn â threialu yn ogystal â datblygiadau ar y cyd fel y Cynllun Defnydd Hydrogen sydd yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Fflint ar gyfer cerbydau trymion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nid oedd sylwadau oni bai am ddymuno'r gorau i'r Adran a'r Gwasanaeth Fflyd a mynegwyd ei fod yn waith pwysig o ran ymdrechion y Cyngor i ostwng allyriadau.

11. ADRODDIAD YMGYNGHORIAD STATUDOL YSGOL CHWILOG A DIWEDDARIAD O'R GRANT CYFALAF ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

PENDERFYNIAD

Ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar gynyddu capasiti Ysgol Chwilog ynghyd â'r ymatebion i'r sylwadau hynny, a phenderfynwyd:

- Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig i ehangu safle'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 o 1 Medi 2023, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad positif hwn sydd yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad statudol i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95 sydd yn gynydd o dros 25%. Nodwyd mai arian o grant cyfalaf y Gymraeg yw hon ac mae ymgais yma i geisio cyfarch rhai o anghenion y cymunedau rheini sydd â dros 70% o'r bobl yn siarad Cymraeg.

Mynegwyd bod cefnogaeth glir i'w weld wrth ystyried ymatebion yr ymgynghoriad a bod plant yr ardal hefyd yn credu y bydd yn gam positif i Ysgol Chwilog. Credwyd bod yr adroddiad yn dangos dyhead yr Adran Addysg i gefnogi Cymraeg holl blant y Sir ac yn benodol i gryfhau'r iaith Gymraeg yn ardal Chwilog.

Nodwyd heblaw am y gefnogaeth bod ambell i sylw wedi eu derbyn am faterion fel neuadd yr Ysgol ac yr ystafell athrawon sy'n dangos bod rhai wedi dal ar y cyfle yn ystod yr ymgynghorid i gyfleu negeseuon eraill.

Nid oedd sylwadau pellach dim ond cefnogaeth gan y Cabinet.

12. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn adrodd ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y maes Cyllid dros y misoedd diwethaf. Nodwyd bod perfformiad da yn yr Adran gyda chynnydd boddhaol yn cael ei wneud ar y prosiect blaenoriaeth perthnasol o fewn Cynllun y Cyngor.

Cyfeiriwyd at amryw o wasanaethau megis y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Gwasanaeth Budd-daliadau. Nodwyd bod y Gwasanaeth Budd-daliadau yn parhau i berfformio yn erbyn ei fesurau cyflawni craidd ond bod cyfartaledd yr amser y cymerir i brosesu cais budd-dal newydd wedi cynyddu o 20.7 diwrnod ym mis Tachwedd 2021 i 24.1 diwrnod ar gyfer mis Tachwedd 2022. Eglurwyd bod hyn yn gyfuniad o swyddi gwag a salwch yn ogystal â chynnydd yn y gwaith yn sgil taliadau tanwydd gaeaf. Adroddwyd bod brwdfrydedd o fewn y Gwasanaeth a'u bod yn cymryd rhan mewn dau gynllun corfforaethol sef Cynllun Datblygu'r Gweithlu a'r Cynllun Meithrin Talent.

Nodwyd bod yr un problemau staffio yn bodoli o fewn Gwasanaethau eraill megis y Gwasanaeth Trethi ble mae recriwtio a chadw staff yn broblem gynyddol. Amlygwyd rhwystredigaeth o fewn y Gwasanaethau Cyllid a Chyfrifeg ynghylch derbyn anfonebau yn amserol gan weddill Adrannau'r Cyngor er mwyn eu prosesu. Credwyd bod cyfrifoldeb ar yr holl Aelodau Cabinet i geisio sicrhau bod yr Adrannau yn anfon anfonebau heb oedi.

Nodwyd bod y Gwasanaeth TG wedi bod yn llwyddiannus gyda'u hymdrechion diweddar i lenwi swyddi gwag yn dilyn cyfnod o fethu penodi. Mynegwyd dymuniad i fwy o adborth gael ei roi i'r Gwasanaeth Cefnogol TG ar draws holl Adrannau'r Cyngor. Soniwyd bod yr adborth sy'n cael ei dderbyn ar y cyfan yn bositif iawn ond prin yw'r adborth hwn. I gloi cyfeiriwyd at y Gwasanaeth TG Dysgu Digidol sydd yn wasanaeth newydd gyda chryn dipyn o waith wedi ei gyflawni hyd yn hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Soniwyd am y llythyr diweddar gafodd ei dderbyn gan y Gweinidog Julie James ynglŷn â'r cynllun taliad tanwydd gaeaf Llywodraeth Cymru. Roedd y llythyr yn nodi bod 72% o'r taliadau wedi eu talu ar gyfartaledd ar draws Cymru ond bod Gwynedd wedi talu 95% ac yn parhau i chwilio am y 5% arall i dalu sydd yn glod mawr i waith yr Adran. Gofynnwyd i'r Pennaeth Cyllid gyfleu'r clod hwn i'r Gwasanaeth.
- Nodwyd bod yr Adran wedi bod yn chwilio am ffyrdd gwahanol o wneud y gwaith hwn drwy ddefnyddio'r Swyddfa Bost sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn.

13. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan fynegi balchder ym mherfformiad yr Adran a'r gwaith da sy'n digwydd o fewn Ysgolion Gwynedd. Cyfeiriwyd at yr Ysgol newydd fydd yn cael ei hadeiladu yng Nghriccieth er mwyn gwella'r amgylchedd ddysgu a sicrhau'r adnodd gorau i'r disgyblion a'r balchder sy'n bodoli o ganlyniad i'r datblygiad. Eglurwyd bod oedi wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf wrth gyflwyno'r weledigaeth newydd ar gyfer addysg ôl-16 ond bellach fod yr Adran mewn sefyllfa i allu bwrw mlaen efo'r prosiect hwn. Soniwyd am y prosiect Cyflwr ac Addasrwydd oedd wedi profi heriau ar brydiau. Serch hyn adroddwyd bod y buddsoddiad yng nghyflwr ac addasrwydd Ysgol Bethel, Ysgol Glan y Môr ac Ysgol Cymerau wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn gyda gwaith yn parhau ar safleoedd Ysgolion eraill ar draws y Sir.

Adroddwyd bod y cyfnod Covid wedi amlygu bregusrwydd plant yn y grŵp oedran 0-5 a 16-24 a bellach bod gagendor lles a chyrhaeddiad yn un o brif flaenoriaethau'r Adran Addysg. Adroddwyd bod anghysondeb ar draws y Sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau yn y sector blynyddoedd cynnar; bydd grŵp prosiect yn cytuno ar ffrydiau gwaith penodol ac wedi blaenoriaethu cynnal asesiad.

Mynegwyd balchder yn y cwricwlwm newydd i Gymru gan gyfeirio at y sylw cyhoeddus dderbyniodd rhai agweddau o'r cwricwlwm megis y cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb. Cymerwyd y cyfle i fynegi gwerthfawrogiad o broffesiynoldeb, cefnogaeth ac ymrwymiad yr Ysgolion a mynegwyd pob ffydd yn y Penaethiaid a'r athrawon i fedru dehongli a chyfleu'r cod hwn yn addas i oedran a datblygiad pob plentyn.

Cyfeiriwyd at y Gyfundrefn Addysg Drochi sy'n weledigaeth newydd gan nodi bod cefnogaeth y gyfundrefn drochi ar gael i bob Ysgol yn y Sir. Soniwyd am waith cyffrous ac arloesol sydd wedi digwydd yng Ngwynedd fel y cynllun trochi newydd gafodd ei ysgrifennu a'i ddatblygu yng Ngwynedd a fydd yn cael ei rannu yn genedlaethol. Adroddwyd ar y drefn categoreiddio ysgolion ddaeth i rym ym mis Medi 2022 gan nodi y bydd yr Adran Addysg yn gweithio gyda phob Ysgol sydd yn disgyn i gategori 3 yn y Sir er mwyn sicrhau cynnydd priodol.

I glo mynegwyd diolch i'r Adran Addysg ac yn arbennig i'r athrawon a holl staff yr Ysgolion yng Ngwynedd am eu gwaith diflino mewn cyfnod heriol i sicrhau'r addysg gorau i blant y Sir gan ofalu am eu hiechyd, diogelwch a'u lles a chyflawni ystod anferth o waith.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Dymunwyd longyfarch yr Adran am eu gwaith i uchafu lles plant a phobl ifanc ar draws y Sir.
- Holiwyd am y Gwasanaeth GwE ac os fydd y Cabinet yn debygol o dderbyn adborth o berfformiad GwE. Mynegwyd bod cyfeiriad at GwE yn yr adroddiad ond bod GwE yn rhan o eitem flynyddol yr Adran Addysg yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ac adroddir ar eu perfformiad yn y Pwyllgor hwnnw.
- Ychwanegwyd bod bwriad dros y 12 mis nesaf i adolygu sut mae GwE wedi gweithredu hyd yma a chynllunio mlaen ynghylch eu cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y flwyddyn nesaf a bydd cyfle i gynniad arweiniad a rhoi sylwadau.
- Cyfeiriwyd at yr arian gafodd ei dderbyn gan y Llywodraeth tuag at y gost o ddarparu cinio ysgol am ddim gan holi os yw'r arian yno wedi bod yn ddigonol i ddigolledu'r Cyngor. Holiwyd hefyd os oes cynnydd wedi bod yn y niferoedd sy'n derbyn cinio ysgol.
- Mewn ymateb nodwyd fod y darlun wedi bod yn un cymysg ar draws y Sir gyda'r galw heb fod mor uchel â'r hyn oedd wedi ei ragweld. Nodwyd bod angen adolygu pam bod y darlun mor amrywiol yn enwedig o ardal i ardal. Nodwyd bod yr arian cyfalaf gafodd ei dderbyn wedi cyfarch anghenion Gwynedd o ran y costau hyd yma.
- Ychwanegwyd bod dwy elfen i'r ariannu sef yr elfen gyfalaf a'r elfen cost o ddarparu'r cinio sydd wedi ei seilio ar gyfradd benodol gan Lywodraeth Cymru. Adroddwyd nad yw'n bosib darparu'r cinio am y gost yma sy'n mynd i arwain at ddiffyg ariannol. Bydd hyn yn cael ei ystyried mewn bid refeniw o chwarter miliwn fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol agos.
- Yn dilyn cwestiwn am y gyfundrefn drochi nodwyd bod dwy wedd o arian cyfalaf wedi ei dderbyn o 1.1 miliwn yr un. Buddsoddwyd mewn 3 safle efo gwedd gyntaf yr arian gyda 2 allan o'r 3 o'r canolfannau hyn yn y lleoliadau newydd bellach wedi agor. Adroddwyd bod trafferthion wedi bod efo'r drydydd safle yn Nhywyn felly dros dro lleolir y ganolfan iaith ar safle Ysgol Bro Idris fel bod presenoldeb ychwanegol ym Meirionnydd. Gobeithir gallu agor y safle yn Nhywyn erbyn mis Medi. O ran ail wedd yr arian bwriedir cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth ar gyfer rhyddhau'r arian yma.

14. BLAEN RAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd y Blaen Raglen er gwybodaeth

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:20pm

CADEIRYDD

Eitem 6

ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad y cyfarfod: 14 Chwefror 2023

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Beca Brown

Swyddog Cyswllt: Debbie Anne Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Addysg,
Gwasanaethau Corfforaethol

Teitl yr eitem: Ysgol Hirael

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR:

- 1.1** Caniatáu neilltuo £3,000,000 o gyfanswm o £18m o gyllideb Gwedd 2 Bangor, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynladwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael. Byddai'r gyllideb yn ddarostyngedig i gyflwyno achos fusnes lwyddiannus i Lywodraeth Cymru.
- 1.2** Gofyn i'r Cabinet ragdybio adolygiad y Cynllun Asedau drwy gadarnhau cyfraniad o £1,050,000 o'r Cynllun Asedau ar gyfer 35% o arian cyfatebol i wireddu prosiect Ysgol Hirael.
- 1.3** Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet yn 1.1 uchod, ac yn dilyn hynny, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael, gofynnir am ganiatâd y Cabinet i lunio a chyflwyno achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

2. CEFNDIR

2.1 YSGOL HIRAEI

Mae Ysgol Hirael wedi'i lleoli yng nghanol dinas Bangor a chanddi gapasiti o 208, gyda 188 o ddysgwyr rhwng 3-11 oed ar y gofrestr (Medi 2022). Mae saith dosbarth yn yr ysgol gyda 21 dysgwr ar gyfartaledd ym mhob dosbarth. Yn 2022-23, bu i Ysgol Hirael dderbyn dyraniad cyllidol o £624,000 gyda chost y disgybl o £4,312.

Mae Ysgol Hirael yr unig ysgol gynradd yn nalgylch Bangor sydd heb dderbyn unrhyw fuddsoddiad fel rhan o gyllid Band A neu Band B. Byddai buddsoddi £3m yn Ysgol Hirael yn parhau i alluogi'r Adran Addysg i fuddsoddi'n ddigonol yn yr uwchradd yn ardal Bangor. Mae'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael ac uwchradd Bangor yn ddarostyngedig i gyflwyno achos fusnes lwyddiannus i Lywodraeth Cymru.

Erbyn hyn, mae cyflwr ac addasrwydd ysgolion cynradd Bangor ar gyfartaledd yn dda iawn yn dilyn buddsoddiad diweddar, ond mae cyflwr ac elfennau hygyrchedd Ysgol Hirael angen sylw penodol gan ei bod ar hyn o bryd yn disgyn i gategori C, sydd yn sylweddol is na gweddill yr ysgolion (oni bai am Ysgol Ein Harglwyddes sydd yn derbyn buddsoddiad fel rhan o Band B).

Cyswllt:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



Daeth anghenion Ysgol Hirael i sylw'r Adran pan sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Bangor ym mis Mehefin 2017. Yn ystod y cyfarfodydd ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer y weledigaeth ar gyfer addysg ym Mangor, a chododd cyflwr Ysgol Hirael yn rhai o'r paneli adolygu dalgylch rheiny a nodwyd bryd hynny bod yr adeilad yn annigonol.

Fel rhan o'r trefniadau yn nalgylch Bangor gyda rhaglen Band A, bu i Ysgol y Faenol gael estyniad sylweddol, derbyniodd Ysgol Glancegin sydd ar gyrion y ddinas ysgol newydd sbon, ac yn ddiweddar adeiladwyd ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd. Yn anffodus, ni lwyddwyd i ymestyn y gyllideb a oedd ar gael ar gynffon diwedd cyfnod Band A i fuddsoddi a diwallu anghenion Ysgol Hirael, ac yn sgil y buddsoddiad diweddar yn yr ysgolion cynradd eraill ym Mangor, mae anghenion Ysgol Hirael a'r anghyfartaledd sydd yn bodoli rhyngddi a chyflwr ac amgylchedd dysgu ysgolion cynradd eraill yn y ddinas wedi eu hamlygu fwyfwy.

Yn sgil y pandemig cafwyd rhywfaint o oedi i raglen Band B, ond mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i fuddsoddi a gwella cyflwr adeiladau ac amgylchedd dysgu Ysgol Hirael, ac adlewyrchir hynny yn yr ymrwymiad a nodir yng [Nghynllun y Cyngor](#) (tud 21). Nodir yr angen i fuddsoddi a gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael er mwyn cael gwared â'r anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor.

Yn ychwanegol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sirchau y bydd cyflwr ein hysgolion ar draws y stad yng nghanegori A neu B, ac mae adeiladau newydd sydd wedi derbyn buddsoddiad yn golygu llai o wariant ar gynnal a chadw adeiladau, ynghyd â llai o gostau ynni.

Gweler y tabl isod ar gyfer categori cyflwr Ysgolion Cynradd Bangor -

	Ysgol Hirael	Ysgol Cae Top	Ysgol Faenol	Ysgol Garnedd	Ysgol Ein Harglwyddes	Ysgol Glancegin	Ysgol Llandygai
Categori cyflwr adeiladau (criterïa'r Cyngor)	C	A	A	A	C	A	B

Derbyniwyd amcangost o £3 miliwn gan yr Uned Datblygu Eiddo i gyflawni'r gwaith yn Ysgol Hirael gyda'r bwriad o:

- leihau'r anghyfartaledd yng nghyflwr ac addaswydd adeiladau ysgolion cynradd yn ninas Bangor
- codi categori cyflwr Ysgol Hirael i A
- wella'r elfennau addaswydd a hygyrchedd
- wella'r adeilad ar gyfer defnydd cymunedol
- dymchwel ac ail-adeiladu un o adeiladau'r ysgol sydd o wneuthuriad Vic Hallam



- sicrhau amgylchedd dysgu sydd yn cwrdd â gofynion yr unfed ganrif ar hugain a Chwricwlwm i Gymru.

2.2 CAMAU WEDI EU CWBLHAU

2.2.1 Cais i Lywodraeth Cymru am addasiad i gyllideb Band B

Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, bydd angen caniatâd gan Lywodraeth Cymru y bydd modd trosglwyddo £3m o fewn amlen Band B er mwyn symud ymlaen efo'r prosiect a llunio achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

2.2.2 Mae cais i neilltuo cyllideb o £3,000,000 ar gyfer Ysgol Hirael wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 13 Ionawr 2023. Bydd angen cadarnhau penderfyniad y Cabinet cyn eu cyfarfod Panel Buddsoddi ar 16 Chwefror 2023 er mwyn iddynt ystyried cefnogi ein cais i drosglwyddo cyllid i brosiect Ysgol Hirael o brosiect arall yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy.

2.3 CYLLID CYFALAF

2.3.1 Grant Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy

Cyflwynwyd Rhaglen Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru yn 2017 er mwyn gwireddu prosiectau'r Adran Addysg (Band B). Mae dull ariannu'r rhaglen yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 65% o'r costau, tra bod y Cyngor yn cyfrannu'r 35% sydd yn weddill.

Yng nghyd-destun cyllideb Ysgol Hirael, golyga hynny £1,950,000 gan Lywodraeth Cymru, sef 65% o gyllideb llawn o £3,000,000 ar gyfer gwneud gwelliannau yn Ysgol Hirael, gyda Chyngor Gwynedd yn cyfrannu'r 35% arall.

2.3.2 Grant Gofal Plant

Yn ychwanegol i gyllid Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaladwy, mae'r Adran Plant wedi cynnwys anghenion darpariaeth gofal plant yn Ysgol Hirael ar gyfer y wedd nesaf o arian cyfalaf er mwyn ymgorffori gofod pwrpasol ar gyfer y gwasanaeth yn yr ysgol. Nid oes unrhyw ymrwymiad ariannol wedi ei gytuno hyd yma.

3. RHESYMAU DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD

3.1 Amgylchedd dysgu ac adnoddau'r ysgol yn anaddas

Bellach, nid yw'r adnoddau a'r amgylchedd ddysgu yn Ysgol Hirael yn cwrdd â gofynion yr 21ain ganrif oherwydd bod cyflwr yr ysgol wedi dirywio. Byddai costau cynnal a chadw yn debygol o gynyddu yn sgil diffyg buddsoddiad amserol sydd yn rwystr i'r ysgol allu cyflwyno modelau dysgu arloesol.



3.2 Sicrhau buddsoddiad o fewn amserlen Band B

Byddai sicrhau cefnogaeth y Cabinet er mwyn symud ymlaen gydag Ysgol Hirael fel prosiect yn galluogi'r Adran Addysg i lunio a chyflwyno achos fusnes ar gyfer Ysgol Hirael yn ddi-rwystr (gan nad oes proses statudol nac ad-drefnu).

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 4.1 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo £3,000,000 o gyllideb gweddill amlen Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynladwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael.
- 4.2 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet yn 1.1 uchod, ac yn dilyn hynny, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael, rhagwelir y byddai modd bwrw ati'n syth i lunio achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDY CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023". Bwriedir rhoddi ystyriaeth i ofnyon y ddeddf llesiant a chynnal asesiad yng nghyd-destun 7 nod llesiant y Ddeddf yn sgil yr ymgysylltu gyda'r rhanddeiliaid perthnasol.

Cydraddoldeb

Mae gan yr Adran Addysg gyfrifoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb ynghyd â dyletswyddau cyffredinol er sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor i ystyried effaith unrhyw newid i bolisi neu weithdrefn o'r newydd ar bobl efo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig, sef hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol wedi ei lunio a bydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd yn sgil ymgysylltu gyda'r rhanddeiliaid perthnasol. Gweler **Atodiad 1**.

6. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

6.1 Swyddog Monitro

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."



6.2 Pennaeth Cyllid

“Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir. Yn amlwg, canlyniad hyn fyddai lleihau’r adnoddau fyddai ar gael er mwyn gwireddu cynlluniau eraill, a bydd angen i awdur yr adroddiad argyhoeddi’r Cabinet fod blaenoriaethu cynllun Ysgol Hirael yn briodol.”

6.3 Barn yr Aelod Lleol – Y Cynghorydd Nigel Pickavance.

“Mae’n bleser mawr gennyf gyfrannu at yr adroddiad sydd i’w roi gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Mae corff llywodraethu’r Ysgol a minnau fel yr aelod lleol o’r farn bod Ysgol Hirael wedi’i gadael ar ôl o ran y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ac o ganlyniad mae’r Ysgol yn wynebu costau cynnal a chadw cynyddol, yr adeilad wedi dyddio ac yn dadfeilio a yn bwysicaf oll, mae hyn yn cael effaith andwyol ar addysg yr holl ddisgyblion.

Rwyf felly’n croesawu’r adroddiad hwn ac yn diolch i’r swyddogion a fu’n allweddol i’w roi at ei gilydd. Mae’r adroddiad yn amlgu’r holl faterion yr ydym wedi’u codi fel ysgol a chorff llywodraethu a’r gwelliannau y bydd y buddsoddiad yn ei gael ar yr ysgol.

Roedd yn arbennig o dda darllen y bydd yr ysgol yn cynnwys adnoddau modern a fydd yn addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag unrhyw anghenion corfforol penodol, y bydd yr ysgol yn cynnig gwell adnoddau a chyfleusterau ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol i gryfhau’r Gymraeg.

Rwyf wedi cael tair merch sydd wedi cael profiad o addysg yn Ysgol Hirael ac o ystyried safon wael y cyfleuster mae’r safonau addysgu a phroffesiynoldeb yn rhagorol. O’r pennaeth i’r rheolwyr a’r holl staff, maent yn sicr yn haeddu’r offer i hybu eu cynnig o addysgu perffaith.

Gorffennaf drwy fynegi diolchgarwch am welliant ym mhrofiad pob disgybl yn Ysgol Hirael ac maent ar flaen y gad o ran blaenoriaeth a chyfleoedd addysgol. Bydd y buddsoddiad newydd yn gwella safon bywyd ysgol i’r disgyblion, yn cynnig cyfleoedd newydd iddynt a gwell profiadau yn ystod amserau ysgol a thu allan.

Ar ran yr etholwyr yr wyf yn eu gwasanaethu, disgyblion Ysgol Hirael a’r holl staff sy’n ffurfio’r awyrgylch deuluol, rwy’n mawr obeithio y bydd Ysgol Hirael yn derbyn y cyllid y mae’n ei haeddu er mwyn iddi allu parhau i ffynnu wrth ddal i fyny â gweddill Bangor.”

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1) Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Buddsoddi £3 miliwn i wella cyflwr Ysgol Hiracl.

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Yr ydym yn awyddus i ymrwymo £3m o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy er mwyn cyfarch anghenion Ysgol Hiracl sef yr unig ysgol gynradd ym Mangor sydd eto i dderbyn unrhyw fuddsoddiad fel rhan o gyllid Band A neu Fand B. Mae'r swm o £3m yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau i ddymchwel un adeilad Vic Hallam yn Ysgol Hiracl sydd mewn cyflwr gwael iawn, a sicrhau adeilad newydd yn ei le a fyddai'n cwrdd â gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru ac addysg yn yr 21ain ganrif.

Pwrpas y prosiect yw:

- Lleihau'r anghyfartaledd yng nghyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgolion cynradd yn ninas Bangor
- Codi categori cyflwr Ysgol Hiracl i A
- Gwella'r elfennau addasrwydd a hygyrchedd
- Gwella'r adeilad ar gyfer defnydd cymunedol posibl
- Dymchwel ac ailadeiladu un o adeiladau Vic Hallam yr ysgol
- Sicrhau amgylchedd dysgu sy'n bodloni gofynion yr unfed ganrif ar hugain a Chwricwlwm i Gymru.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Sioned Medi Hughes (Swyddog Moderneiddio Addysg)

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Ionawr 2023.
Fersiwn gyntaf.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Adran Addysg Cyngor Gwynedd ac Ysgol Hiracl

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Bangor ym mis Mehefin 2017 a roedd y panel yn cynnwys cynrychiolaeth o ysgolion dalgylch Bangor. Yn ystod y cyfarfodydd ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer y weledigaeth ar gyfer addysg ym Mangor a bu trafodaethau ynglŷn â chyflwr gwael rhannau o adeilad Ysgol Hiracl.

Y bwriad yw ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid, gan gynnwys y grwpiau a nodir unwaith y bydd yr elfen gyllidol wedi ei gadarnhau.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Y bwriad ydi ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid, gan gynnwys y grwpiau a nodir unwaith y bydd yr elfen gyllidol wedi ei gadarnhau.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mynegi eu pryder am gyflwr yr adeilad presennol. Mae asesiad cyflwr gan yr Uned Cynnal a Chadw yn nodi fod yr ysgol yng nghategori cyflwr C. Mae gwaith uwchraddio wedi ei adnabod ar gyfer rhan o'r adeilad sydd o wneuthuriad Vic Hallam.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Dim ar hyn o bryd.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	dim	O safbwynt hil, nid oes dystiolaeth y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
Anabledd	positif	<p>Byddai buddsoddi mewn adeilad newydd i ysgol Hiracl yn golygu bydd yr ysgol yn cynnwys adnoddau modern fydd yn addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag unrhyw amhariadau corfforol penodol. Mae rheolau adeiladu ysgolion modern yn datgan fod yn rhaid adeiladu ysgol a fyddai'n addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag amhariadau penodol. Yn ogystal, byddai yn caniatáu i blant anabl gael gwell mynediad at weithgareddau tu allan i'r ysgol hefyd.</p> <p>Bydd yr Uned yn cynnwys mynediad hygyrch addas i bob plentyn, a bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg. Byddai hefyd yn cynnwys mynediad addas</p>

		<p>ar gyfer rhieni sydd gyda amhariad corfforol i fynd mewn ac allan o'r ysgol yn ddiogel.</p> <p>Mae'r Cwricwlwm yng Nghymru wedi newid yn sylweddol, gan ddefnyddio dull trawsgwricwlaidd ac integredig, sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu'n gyfannol. Mewn ymateb i hyn, bydd gofodau o fewn yr ysgol yn adlewyrchu'r angen am ddysgu amlweddol.</p> <p>Byddwn yn gweithio er mwyn gwella yr amgylchedd ar gyfer addysg a'r gymuned ehangach, gan wella deilliannau addysgol a llesiant. Ystyrir yr argymhellion yn y PAS 6463 newydd er mwyn gwneud y gofod yn gynhwysol i bawb gan fynd i'r afael ag ystyriaethau dylunio synhwyrdd gan gynnwys goleuo, acwsteg, lloriau ac addurniadau.</p>
Rhyw	dim	Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
Oedran	Positif	Bydd gwella'r amgylchfyd dysgu ar gyfer y plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn cael mynediad at fwy o weithgareddau.
Cyfeiriadedd rhywiol	dim	Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	dim	Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
Ailbennu rhywedd	dim	Nid oes tystiolaeth eto y bydd y newid yn effeithio ar y nodwedd yma.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Gwell cyfleusterau ar gyfer staff.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif / negyddol / dim	Ddim yn berthnasol
Yr iaith Gymraeg	Positif	<p>Rhagwelir y bydd buddsoddiad sylweddol i Ysgol Hirael yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned a'r ardal ehangach. Bydd yn cael effaith positif ar yr iaith Gymraeg, yn bennaf, oherwydd byddai mwy o gyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn addysgiadol, gan bydd yr ysgol newydd yn cynnig gwell adnoddau ar gyfer cynnal mwy o weithgareddau tu allan i oriau ysgol.</p> <p>Mae Bangor yn gartref i nifer fawr o ieithoedd a diwylliannau sy'n gwneud Bangor yn ddinas amlddiwylliannol, mae Prifysgol Bangor yn sefydliad</p>

		<p>allweddol sydd yn denu nifer fawr o mewnfudwyr i'r ddinas, ac o ganlyniad yn cynyddu niferoedd ysgolion Bangor.</p> <p>Er mwyn cefnogi newydd-ddyfodiaid i ymdoddi i'r gyfundrefn addysg a'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, mae gan yr Adran Addysg Ganolfannau Iaith wedi eu lleoli ar draws y Sir, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer 'Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt' yn Gorffennaf 2021, gan fuddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd, ac mae Bangor yn un o'r lleoliadau sydd wedi derbyn buddsoddiad. Felly bydd Penaethiaid ac athrawon ysgolion prif lif y dalgylch yn gallu cyfeirio dysgwyr sydd heb y Gymraeg neu yn ddi-hyder eu sgiliau siarad, ysgrifennu a gwrandao y Gymraeg i sylw'r Gyfundrefn Addysg Drochi. Yn ddiweddar, mae staff y Gyfundrefn Addysg Drochi hefyd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i athrawon a chymorthyddion ysgolion ledled y sir, er sicrhau bod trochi priodol yn digwydd yn y Cyfnod Sylfaen. At hyn, mae gan y Canolfannau Iaith draddodiad hir o ddarparu cynhaliath Gloywi Iaith i ddysgwyr prif lif sydd angen hwb ychwanegol efo'u sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg. Gan fod y Gyfundrefn Drochi newydd wedi dod yn weithredol ers dechrau Ionawr 2023, bydd yr Adran yn sicrhau parhad o'r arfer yma o allu cynnig sesiynau gloywi iaith i blant a phobl ifanc yn ein hysgolion, er mwyn atgyfnerthu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg ymhellach.</p>
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	<p>Drwy fuddsoddi £3 miliwn o arian Band B yn Ysgol Hiracl, byddwn yn sicrhau gofod addas ar gyfer disgyblion y dalgylch a creu'r amodau gorau ar gyfer ffyniant y gymuned a byddai yn lleihau'r anghyfarfartaledd yng nghyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgolion cynradd yn ninas Bangor. Mae hyn yn fantais economaidd ac yn fodd o sicrhau fod y gwasanaeth mae'r teuluoedd eu hangen o fewn eu cymuned leol.</p>

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
-----------------------------------	------------------------------	--

Ddeddf Cydraddoldeb		
Cael gwared â cham- wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Bydd dyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn parhau yn sgil y cynnig.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	<p>Bydd buddsoddi yn yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy wella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu er mwyn dileu'r anghyfartaledd sy'n bodoli rhwng ysgolion cynradd dalgylch Bangor. Bydd hyn yn fodd o hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i holl blant y dalgylch a'r gymuned, ac ar gyfer plant anabl.</p> <p>Mae gwersi ABCh yn cael eu cynnal yn yr ysgol sydd yn addysgu plant ynglŷn â hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Bydd trefniadau presennol yr ysgol yng nghyd-destun hyrwyddo cyfleoedd cyfartal yn parhau yn sgil y cynnig. Bydd y cynnig yn gwella gallu'r ysgol i <i>“gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn”</i> yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.</p>
Meithrin perthnasau da	Ydi	<p>Bydd buddsoddi yng nghyflwr yr ysgol yn fodd o feithrin perthnasau da drwy sicrhau amgylchedd dysgu gwell i'r staff a'r disgyblion a gwella'r adeilad ar gyfer defnydd cymunedol posibl. Bydd hyn yn fodd o sicrhau fod holl blant y dalgylch yn gallu derbyn addysg cyfartal yn eu cymuned leol, gan felly fod yn fodd o feithrin perthnasau da rhwng y plant â'i gilydd, ynghyd a rhwng yr ysgol a'r gymuned.</p> <p>Mae gwersi ABCh yn cael eu cynnal yn yr ysgol sydd yn addysgu plant ar sut i feithrin perthynas dda. Bydd trefniadau presennol yr ysgol yng nghyd-destun meithrin perthnasau da yn parhau yn sgil y cynnig.</p>

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n

ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Wedi ystyried yr hyn sydd yn yr asesiad hwn, rydym o'r farn y byddai buddsoddi yn Ysgol Hiracl yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg, yn bennaf, oherwydd byddai mwy o gyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn addysgiadol, gan bydd yr ysgol newydd yn cynnig gwell adnoddau ar gyfer cynnal mwy o weithgareddau tu allan i oriau ysgol.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Ni rhagwelir y bydd buddsoddiad yn Ysgol Hiracl yn newid y ffordd mae'r ysgol yn ymdrin â'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd, a bydd yr ysgol yn parhau i fanteisio ar pob cyfle i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned. Bydd gwella'r adeilad yn gyfle am fwy o ddefnydd cymunedol posibl sydd yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy greu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn creu cysondeb ar draws y Sir, ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwyr elwa o'r amodau gorau un. Mi fydd yn fodd o leihau anfantais i blant y dalgylch ac yn sicrhau fod plant ag amhariad corfforol yn gallu aros yn eu dalgylch.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Yn sgil y cynnig, bydd yr ysgol yn parhau i weithredu yn unol â'i pholisiau a disgygliadau'r Adran Addysg i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Credwn bod y buddsoddiad o £3 miliwn i Ysgol Hirael yn debygol o gael effaith bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb, a'r yr iaith Gymraeg ac ar anfantais Economaidd-Gymdeithasol.

Byddai buddsoddi mewn adeilad newydd i ysgol Hirael yn golygu bydd yr ysgol yn cynnwys adnoddau modern fydd yn addas ar gyfer disgyblion a staff sydd ag unrhyw amhariadau corfforol penodol. Bydd buddsoddi yn yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal drwy wella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu er mwyn dileu'r anghyfartaledd sy'n bodoli rhwng ysgolion cynradd dalgylch Bangor. Bydd hyn yn fodd o hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i holl blant y dalgylch a'r gymuned. Rhagwelir y bydd buddsoddiad sylweddol i Ysgol Hirael yn creu'r amodau gorau un i gefnogi ffyniant y Gymraeg ymysg y plant a'r gymuned a'r ardal ehangach. Bydd yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg, yn bennaf, oherwydd byddai mwy o gyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn addysgiadol, gan bydd yr ysgol newydd yn cynnig gwell adnoddau ar gyfer cynnal mwy o weithgareddau tu allan i oriau ysgol.

Ein egwyddor pwysicaf yw sicrhau bod lles y dysgwyr yn ganolog i bopeth. Ac felly mae buddsoddi a sicrhau gwell adnoddau sy'n gwella profiad pob disgybl, a gwell adeiladau yn ymdrech i wella'r amgylchedd dysgu a'r profiad dysgu i disgyblion Ysgol Hirael, beth bynnag fo eu cefndir, oedran, gallu, rhyw, hil a chenedligrwydd.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol negyddol ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg nac Anfantais economaidd-gymdeithasol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Er nad ydym yn rhagweld unrhyw effaith negyddol byddwn yn parhau i fonitro ac yn gweithredu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn ôl y galw. Byddwn yn newid y cynllun a'r asesiad petai unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu hamlygu ar ôl ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a grwpiau perthnasol.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Does dim effaith negyddol wedi ei adnabod ar y cam yma.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Y bwriad ydi ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid a grwpiau perthnasol yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet a Llywodraeth Cymru, a bydd modd addasu'r cynlluniau a'r asesiad yn dilyn sylwadau yr ymgysylltiad. Byddwn yn monitro effaith unrhyw newid er mwyn sicrhau bod y deilliannau'n bositif ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith negyddol.

Eitem 7

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y cyfarfod:	14eg Chwefror 2023
Aelod Cabinet perthnasol:	Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor
Swyddog Cyswllt:	Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr
Teitl yr Eitem:	Cynllun Arbedion 2023/24 – 2024/25

Y Penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- a) Gymeradwyo'r arbedion effeithlonrwydd a restrir yn Atodiad A (£6.4M) fel gwedd gyntaf o arbedion y gallwn eu defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2023/24 – 2024/25.
- b) Gomisiynu gwaith pellach i sefydlu'r wedd nesaf o arbedion a thoriadau (oddeutu £1.6M - £2.2M) cyn gosod cyllideb 2024/25.
- c) Gwneud darpariaeth o £1.6M i gyfarch y lefel risg sydd yn ynghlwm a gwireddu y cynllun arbedion effeithlonrwydd.
- ch) Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion hwn wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol a nodir isod.

Cefndir

1. Mae'r lefelau chwyddiant eithriadol presennol, yn arbennig yr effaith ar gyflogau a chostau ynni, ynghyd â'r cynnydd sylweddol yn y galw am rhai gwasanaethau megis digartrefedd oherwydd yr argyfwng tai cenedlaethol, yn golygu fod costau'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol mewn cyfnod byr.
2. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer lefel chwyddiant, nac ychwaith ein gwaith o amcanu'r galw am wasanaethau, yn rhoi lle i ni obeithio y bydd pethau'n gwella yn y tymor byr.
3. Rydym bellach yn gwybod beth fydd lefel ein Grant Cefnogaeth refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 (cynnydd o 7%, felly cryn dipyn yn is na lefel chwyddiant) ac wedi derbyn amcan o'r Grant ar gyfer 2024/25 (3% yw'r cyfartaledd

cededlaethol tebygol) sydd yn debygol o fod gryn bellter islaw'r hyn fyddwn ei angen i gynnal gwasanaethau.

4. Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa lle bo ambell i adran yn gorwario, yn bennaf oherwydd anallu i gyflawni cynlluniau arbedion y gorffennol a chynnydd parhaus yn y galw am eu gwasanaethau.
5. Yn dilyn ystyriaeth fanwl i'r ffactorau uchod, oni bai fod newid arwyddocaol cyn cyhoeddi setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2024/25, rydym yn gallu cyfrifo y bydd ein bwllch ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesa oddeutu £12.4M.
6. Bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn yr un cyfarfod a'r adroddiad hwn, a fydd yn amlinellu sut ydym am ymdopi gydag effaith y bwllch yma wrth osod ein cyllideb ar gyfer 2023/24. Bydd y gyllideb yn cynnwys cyfuniad o orfod cynyddu'r dreth Cyngor, lleihau cyllidebau ysgolion a newid ein polisi ad-dalu benthyciadau. Bydd hefyd yn cynnwys yr angen i gyflawni arbedion mewn cyllidebau ar draws y Cyngor a phwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu sut yr ydym wedi mynd ati i ganfod yr arbedion hyn a sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'w gweithredu, nid yn unig er mwyn gallu gosod cyllideb 2023/24 ond hefyd cyllideb y flwyddyn ddilynol.
7. Bydd Aelodau eisoes yn ymwybodol fod lefelau chwyddiant cenedlaethol a'r pwysau yn y maes digartrefedd wedi codi'n gyflym iawn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol sydd wedi arwain at orwariant eleni oddeutu £7M. Gan nad oedd cyfle i gynllunio ymlaen llaw o gwbl ar gyfer y bwllch hwn, byddwn yn gorfod defnyddio arian wrth gefn ar gyfer ymdopi â'r sefyllfa.
8. Yn yr un modd, nid ydym ychwaith wedi cael cyfnod rhagbaratoi rhesymol ar gyfer ceisio darganfod arbedion i allu ymdopi ag effaith hyn oll ar ein cyllideb yn 2023/24 ac felly rydym wedi gorfod mynd ati yn llawer fwy cyflym nag y byddem wedi ei ddymuno i geisio sefydlu Cynllun Arbedion fel un ffordd o gyfrannu at ein bwllch ariannol.
9. Bu i ni gychwyn ar y gwaith o sefydlu Cynllun Arbedion ar gychwyn Tachwedd drwy ofyn i bob Pennaeth Adran gyflwyno cynigion o fewn eu meysydd gwaith a fyddai'n arwain at arbedion neu doriadau ariannol. Rhoddwyd cyfarwyddyd fod angen i bob uned waith gyflwyno cynigion gyfwerth â 20% o'u cyllideb craidd er mwyn i'r Aelodau Cabinet fynd ati i flaenoriaethu'r cyfan gan geisio darganfod y cynigion oedd yn cael yr effaith lleiaf ar drigolion Gwynedd.
10. Cyflwynwyd 320 o gynigion gyda chyfanswm eu gwerth oddeutu £23M. Fe aseswyd pob un o'r rhain unai gennyf i neu gan un o'r Cyfarwyddwyr gan osod pob cynllun yn y categorïau canlynol er mwyn helpu'r Aelodau i allu mynd ati i flaenoriaethu gydag ymwybyddiaeth o beth fyddai'r lefel risg o weithredu unrhyw gynig unigol.

Arbediad effeithlonrwydd	Dim angen y gyllideb, neu'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn ffordd wahanol gyda dim effaith o sylwedd ar drigolion Gwynedd
Arbediad effeithlonrwydd	Gwasanaeth yn parhau, ond bydd y cyhoedd yn gweld gwasanaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd wahanol i'r hyn mae nhw wedi arfer ei weld (cynyddu ffioedd yn fan hyn hefyd)
Toriad	Y gwasanaeth yn dal i gael ei gyflawni ond yn arafach, i safon is neu ar raddfa llai na'r hyn mae'r cyhoedd wedi arfer ei dderbyn. Risg isel o niwed i unigolion mewn rhai meysydd.
Toriad	Y gwasanaeth yn dod i ben gydag oblygiadau negyddol clir i drigolion Gwynedd, gan gynnwys risg uchel o niwed i unigolion mewn rhai meysydd.

11. Bu i ni hefyd gynnal asesiad cyfreithiol ag asesiad ariannol lefel uchel ar bob cynllun unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gynlluniau oedd yn bosibl eu cyflawni.
12. Pan yn cyflwyno eu cynigion, roedd yr Adrannau yn cynnwys asesiad o effaith pob cynnig ar drigolion Gwynedd ynghyd ag ystyriaeth gychwynnol i ystyriaethau cydraddoldeb. Gofynnwyd hefyd i bob Pennaeth Adran flaenoriaethu eu cynigion gan adnabod y rhai fyddai'n cael lleiaf o effaith ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd.
13. Dros gyfnod o dri diwrnod bu i bob Pennaeth Adran gyflwyno eu cynigion i weithdai o Aelodau Cabinet, Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Craffu ynghyd ag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol yn y Cyngor.
14. Drwy gydol y broses hon ein prif nod oedd ceisio darganfod cynigion fyddai'n cael y lleiaf o effaith ar drigolion Gwynedd pe byddent yn cael eu gweithredu. Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng arbedion effeithlonrwydd a thoriadau, ac felly mae'n destun balchder fod y broses hon wedi arwain at allu darganfod oddeutu £6.4M o arbedion effeithlonrwydd y gallwn eu gweithredu.
15. Roedd consensws bras ymysg yr aelodau a gymerodd ran yn y gweithdai, i benderfynu pa gynlluniau y dylid eu blaenoriaethu. Y casgliad oedd fod posib i ni weithredu oddeutu £6.4M o'r cynigion dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, yn unol â phroffil bras fel a ganlyn:

2023/24	2024/25	2025/26
£3.1M	£2.86M	£0.45M

16. O ran y cynigion sydd wedi eu blaenoriaethu i'w gweithredu, gellir gweld rhestr gyflawn o'r rhain yn Atodiad A. Yn fras gellir eu gosod yn y grwpiau canlynol o ran y math o gynllun sydd dan sylw:

1	Lleihau cyllidebau sy'n tanwario o ganlyniad i ffordd newydd o weithio wedi'r cyfnod Covid Mae costau teithio a chostau argraffu yn enghreifftiau o faterion lle mae'r gwariant wedi gostwng yn sgil trefniadau i weithio'n hybrid a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithiol yn hytrach nag wyneb yn wyneb.	£1.2M
2	Arbedion effeithlonrwydd - addasu trefniadau gweithio. Er mwyn cyflawni arbedion yn y meysydd yma byddwn yn newid y ffordd yr ydym yn mynd ati i ddarparu'r gwasanaeth a'i ddarparu mewn ffordd mwy effeithlon.	£1.7M
3	Cytuno i geisiadau gan fudiadau eraill a throsglwyddo adnoddau. Bydd hyn yn rhoi gwell rheolaeth i fudiadau sydd eisoes yn defnyddio yr adnoddau hyn.	£40k
4	Mewnoli trefniadau mewn amryw feysydd Bydd hyn yn golygu darparu rhai gwasanaethau ein hunain yn hytrach na defnyddio contractwyr allanol e.e. Lladd chwyn	£0.4M
5	Cynyddu incwm Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r ffi am wasanaethau Ymgynghoriaeth Gwynedd	£0.9M
6	Dileu swyddi gwag / Lleihau cyllidebau staffio i fynd efo'r gwir gost. Mae rhai gwasanaethau wedi ymdopi am gyfnodau hir heb lenwi swyddi swyddfa gefn heb effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau ac awgrymir parhau gyda'r trefniadau hynny ac ildio'r cyllidebau.	£0.3M
7	Arbedion o ganlyniad i newid systemau neu ddefnydd amgen o systemau Gwell defnydd o offer a thechnoleg er mwyn gweithio yn fwy effeithlon gan gynnwys datblygu systemau a proffilio anghenion defnyddwyr i resymoli trwyddedau meddalwedd	£0.2M
8	Defnyddio ffynonellau eraill i ariannu Uchafu'r defnydd o grantiau sydd ar gael i ariannu swyddi a gweithgareddau heb effeithio y gwasanaeth.	£0.4M
9	Lleihau cyllidebau hyfforddiant mewn rhai meysydd Mae costau wedi lleihau o ganlyniad i ffyrdd newydd o ddarparu hyfforddiant e.e. e-fodiwlau.	£50k
10	Ailstrwythuro o fewn gwasanaeth i weithio yn fwy effeithlon. Ailedrych ar strwythurau rhai gwasanaethau sydd yn golygu gwneud pethau yn fwy effeithlon.	£0.3M
11	Lleihau adnoddau gan fod y galw a'r gofyn bellach wedi newid. Mae'r galw ar rai gwasanaethau wedi newid dros y blynyddoedd, ac felly awgrymir lleihau cyllidebau i gyd-fynd â'r galw.	£0.2M

12	Peidio rhoi chwyddiant ar gyllidebau. Fe fydd y gyllideb yn parhau i gael ei ddyrannu, ond ni fydd yn derbyn chwyddiant. Cyllidebau yma yn tanwario yn hanesyddol.	£0.3M
13	Arbediad o ganlyniad i broses gaffael e.e. canlyniad tendr diweddar yn rhatach na'r hen gytundeb.	£0.4M
	Cyfanswm	£6.4M

17. O ystyried ein bod yn wynebu bwlch o £12.4M dros y ddwy flynedd nesaf, ac yn dilyn sefydlu faint o'r bwlch hwn sy'n rhesymol tybio y gallwn ei gyfarch mewn ffyrdd heblaw cyflawni arbedion, gallwn gasglu na fydd y wedd gyntaf yma o arbedion (£6.4M) yn ddigonol i gyfarch yr angen a byddwn angen ail ymweld â gweddill y cynigion a gyflwynwyd gan yr adrannau dros y misoedd nesaf.
18. Ar sail ein rhagdybiaethau ariannol heddiw, mae'n debygol y byddwn yn chwilio am gyfanswm o rhwng £8M ac £8.6M tuag at ein bwlch ariannol o £12.4M. Golyga hyn y byddwn angen darganfod rhwng £1.6M a £2.2M o arbedion ychwanegol i'r rhai a restrir yn Atodiad A cyn i ni osod cyllideb 2024/25. Mae'n debygol y bydd hynny yn ein gwthio i diriogaeth toriadau yn hytrach na'r arbedion effeithlonrwydd sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn, a bydd angen mwy o gymorth gan y Pwyllgorau Craffu unigol wrth i ni wynebu'r her anoddach hwnnw.
19. Fodd bynnag, cyn dod i unrhyw gasgliadau ar yr arbedion ychwanegol ar gyfer 2024/25 bydd gennym amser i gynnal ymarferiad blaenoriaethu cyflawn gyda holl Aelodau'r Cyngor a bwriedir cwblhau'r ymarferiad hwn dros y misoedd nesaf. Yn dilyn hynny bydd adroddiad pellach ar gasgliadau'r trafodaethau hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.
20. Fel y bu i mi grybwyll uchod, cyfnod byr iawn oedd ar gael i gyflawni'r cynllun arbedion hwn a bu'n rhaid cywasgu proses aml gam i gyfnod eithriadol o fyr. Rhaid bod yn effro felly i'r ffaith nad oedd amser i ymchwilio i bob cynllun yn drwyadl nac i greu achosion busnes manwl ar eu cyfer. Mae'r Penaethiaid Adran wedi cyflyno'r cynigion gorau oedd posib iddynt eu llunio mewn cyfnod mor fyr ac mae nifer fawr o staff wedi rhoi ymdrech sylweddol i geisio sicrhau fod y cynigion oedd gerbron yr Aelodau yn y gweithdai yn rhai ymarferol a hyfyw.
21. Fodd bynnag, nid yw'n synhwyrol tybio y bydd pob cynllun yn bosib i'w wireddu unwaith y byddwn yn symud ymlaen gyda'r camau gweithredu. Gwyddom hefyd o brofiad y gorffennol y bydd yr arbedion ariannol mewn rhai achosion yn llai na'r hyn y gallwn eu proffwydo ar hyn o bryd.
22. Felly, er mwyn cynllunio'n ddarbodus mae angen i ni gynnwys rhagdybiaeth risg rhesymol yn y Cynllun Arbedion hwn ac felly argymhellaf ein bod yn rhoi £1.6M o'r cyfanswm o £8M-£8.6M y byddwn angen ei ganfod fel swm i'w ddynodi "dan risg".

23. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Paratowyd y cynllun o fewn egwyddorion y Ddeddf.
24. Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Ddeddf") (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.
25. Cloriannwyd yr oblygiadau ac ardrawiadau yn unol â'r dyletswydd dan y Deddf wrth ddatblygu a blaenoriaethu y cynigion. Mae Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi ar gyfer y Gyllideb sydd yn cloriannu ardrawiad yr arbedion a argymhellir ac mae wedi ei atodi yn Atodiad 8 o'r adroddiad Cyllideb 2023/24. Mae natur yr ardrawiadau a nodir yn gymharol isel. Cydnabyddir fod rhai cynlluniau yn golygu camau gweithredu pellach fydd yn destun unai asesiadau penodol ynglŷn â'r modd gweithredu. Mae'n fwriad fod yr agweddau yma yn cael eu cadw dan adolygiad cyson wrth symud i wireddu'r cynlluniau penodol.

Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Mae'r cynlluniau arbedion arfaethedig yma wedi bod yn destun proses gloriannu manwl. Fel y nodir mai natur y cynlluniau yn cynrychioli arbedion effeithlonrwydd sydd arwain at leihau yr ardrawiad posib. Mae rhai yn ddarostyngedig i ddilyn prosesau cyfreithiol neu asesiadau pellach a chydabyddir hyn yn y trefniadau risg. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb yr argymhellion. Mae penderfynu ar y cynllun arbedion yma yn caniatáu i'r Cabinet argymhell y Gyllideb i'r Cyngor Llawn.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Mae swyddogion yr Adran Gyllid wedi cydweithio'n agos gydag awdur yr adroddiad, a gallaf gadarnhau gywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys ynddo. Mae gwireddu arbedion o'r gwerthoedd a nodir yn hanfodol er mwyn ein galluogi i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24. Gallaf gadarnhau hefyd bydd disgwyl i ysgolion wireddu arbedion, sy'n ychwanegol i'r cynlluniau a nodir yn yr adroddiad yma.

Atodiadau

Atodiad A: Cynigion Arbedion 2023/24

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Addysg

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£17,590	Lleihau cyllideb ar gyfer systemau data yn dilyn cynnal proses gaffael diweddar
£8,920	Lleihau cyllideb di angen ar gyfer argraffu
£28,185	Rhannu cost swyddog ansawdd Ôl-16 (40%) gyda Chyngor Môn
£1,000	Lleihau swm dros ben yn y gyllideb Costau Clercod Achlysurol
£62,060	Arbedion a ddarganfuwyd pan sefydlwyd yr Uned Gefnogi Addysg a'r Swyddfeydd Ardal
£204,210	Toriad ar nifer o gyllidebau amrywiol (gweinyddol/cefnogol eu natur) sy'n tanwario yn hanesyddol
£6,540	Darparu swyddfeydd i staff leuenctid o fewn swyddfeydd y Cyngor.
£25,865	Lleihau cyllideb Datblygiadau yr Adran i gyd-fynd â'r gwariant
£21,900	Lleihau'r adnodd gweinyddol yn y Tîm gweinyddol ADYaCh
£114,690	Gwneud defnydd o ffynhonnell ariannol allanol i Ariannu darpariaeth Feithrin gyda dim newid yn y gwasanaeth.
£50,000	Lleihau'r gyllideb all-sirol i gyd-fynd â'r gwir wariant
£6,000	Torri cyllid Hyfforddiant y tîm Cynhwysiad
£30,711	Dileu swydd yn dilyn lleihad yn y llwyth gwaith yn sgil newid deddfwriaethol
£10,000	Lleihau'r gyllideb cyfraniad i CAMHS i gyd-fynd â'r gwir gost
£28,650	Defnyddio ffynhonnell ariannu gwahanol ar gyfer y Gwasanaeth Cerdd heb gwtogi ar y gwasanaeth.
£35,710	Dileu swydd wag Cymhorthydd Personol i'r Pennaeth Addysg
£47,609	Lleihau'r adnodd yn yr uned Moderneiddio
£93,000	Lleihau cyllidebau costau teithio i gyd-fynd â'r gwir gost yn dilyn Covid
£14,283	Lleihau'r gyllideb Cydlynedd Blynnyddoedd Cynnar i gwrdd â'r gwir gost.
£9,425	Cwtogi Cytundeb Glanhau Canolfannau leuenctid
£57,043	Peidio penodi i swydd wag swyddog Datrys Anghydfod a chyflawni'r gwaith mewn ffordd amgen

£73,515	Ailstrwythuro Tîm Rheoli Addysg
£946,906	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Amgylchedd

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£1,470	Ail leoli storfa ac arbed talu rhent
£4,370	Hysbysebu marchnadoedd a ffeiriau mewn ffordd ratach
£62,500	Busnes Gweinyddiaeth - Lleihau'r Gyllideb Adrannol ar gael ar gyfer argraffu/cyflenwadau
£50,000	Gwasanaeth Gwastraff - Rhesymoli trefniadau dosbarthu cynhwysion
£11,610	Rheolaeth Adeiladu: Lleihau cyllideb ar gyfer ffioedd proffesiynol
£30,000	Lleihau/ Rhesymoli nifer cerbydau pwl [3 cerbyd]
£30,000	Gwasanaeth Gwastraff – Cwtogi cyllideb cynnal a chadw i gwrdd â'r gwir gost
£70,000	Gwella effeithlonrwydd y defnydd o safleoedd trin/trosglwyddo gwastraff
£12,810	GYC Bwyd a Diogelwch - dod a threfniadau ffurfiol "ar alwad" i ben
£80,000	Parcio a Gwaith Stryd - Cynyddu Incwm Gwaith Stryd
£30,000	Gwasanaethau Gwastraff – Gwell rheolaeth ar ddyledion gan gwsmeriaid masnachol
£20,000	Adran- Lleihau'r gyllideb Adrannol ar gael ar gyfer hyfforddiant
£5,000	GYC Llygredd a Thrwyddedu - dod a threfniadau ffurfiol "ar alwad" i ben
£1,180	GYC Bwyd a Diogelwch - dod a threfniadau ffurfiol "ar alwad" i ben a pheidio talu costau llinell ffôn
£8,220	Safonau Masnach - dod a threfniadau ffurfiol "ar alwad" i ben
£35,510	GYC Llygredd a Thrwyddedu - Cynyddu Ffioedd
£150,000	Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol
£18,498	Trefniadau mwy effeithlon ar gyfer diogelwch y ffyrdd.
£40,000	Gwasanaethau Gwastraff - Marchnata Gwasanaethau Masnachol - cynyddu incwm
£150,000	Gwasanaeth Gwastraff - Cynyddu incwm o werthiant deunyddiau ailgylchu, yn enwedig wrth i wastraff masnachol gael ei gasglu ar wahân o 2023/24.
£2,887	GYC Bwyd a Diogelwch - Cynyddu ffioedd presennol
£400,000	Gwasanaethau Gwastraff - Adolygu Cytundebau Gwastraff

£26,000	Parcio a Gwaith Stryd - Ail edrych ar ffioedd parcio Pen y Gwryd
£50,000	Caniatáu i rhai mathau o gwmnïau masnachol ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu
£17,000	Cynyddu pris Tocyn Parcio Blynyddol meysydd parcio o £5 y flwyddyn (+7%)
£25,000	Parcio a Gwaith Stryd - Peidio rhoi Chwyddiant ar y gyllideb Cynnal a Chadw Meysydd Parcio gan ei bo dyn tanwario yn hanesyddol.
£1,332,055	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£7,560	Tîm Democratiaeth - Lleihau cyllideb argraffu adroddiadau pwyllgor (gadael swm ar gyfer copïau hanfodol yn unig)
£8,000	Ymchwil, Iechyd a Diogelwch - Cynyddu Incwm am waith allanol
£8,271	Gweinyddiaeth Adnoddau Dynol - Cywiro'r gyllideb yn dilyn lleihad yn yr adnodd staffio gan fod tasgau gweinyddol wedi dod i ben dros y cyfnod COVID
£25,506	Gweinyddiaeth Adnoddau Dynol - Lleihau adnodd staffio yn sgil datblygiad modiwlau TG yn Hunan Wasanaeth Staff i gyfarch y newid yn y ffordd o weithio
£6,000	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad - Lleihau'r gyllideb staffio i gyd-fynd â'r gwir gost.
£27,330	Traws wasanaeth - Lleihau cyllideb diangen ar gyfer meddalwedd TG
£33,398	Gweinyddiaeth Adnoddau Dynol - Datblygiad y modiwl Recriwtio a Penodi yn galluogi peidio penodi i swydd wag pan fydd aelod o staff yn ymddeol yn Medi 2023
£9,219	Cyfieithu - Cynyddu'r ffioedd a godir am waith cyfieithu
£103,091	Traws wasanaeth - Lleihau cyllidebau cyffredinol (e.e. dodrefn, offer swyddfa, argraffu, costau teithio)
£28,500	Uned Rheoli - Lleihau Cyllideb Hyfforddiant Canolog
£22,350	Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Diddymu swydd wag ac ailraddio un swydd i gyfarch elfennau o'r gwaith
£11,680	Democratiaeth (Aelodau) - Lleihau cyllidebau i gyd-fynd â'r gwir wariant
£30,000	Lleihau'r gyllideb costau teithio Aelodau i gyd-fynd â'r gwir wariant.
£320,905	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Economi a Chymuned

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£9,360	Morwrol - Diddymu Cyllidebau di bennawd
£3,000	Marchnata a Digwyddiadau - Cynyddu incwm hysbysebu ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr
£20,000	Morwrol - Lleihau cyfraniad blynyddol i gronfa adnewyddu cychod gan fod y cyfraniad presennol yn uwch na'r angen.
£4,600	Rhaglenni Datblygu Economaidd - Lleihau cyllideb costau offer a nwyddau
£11,000	Hafan - Cynyddu targed incwm tanwydd
£27,616	Hafan - Arbediad ar gyllidebau hanesyddol sydd tu hwnt i'r angen heddiw
£17,233	Rheolaeth - Lleihau'r gyllideb staffio i gyd-fynd â'r gwir gost.
£8,460	Morwrol -lleihau cyllideb traethau gan fod y costau/gwariant wedi lleihau
£3,620	Cefnogi Cymunedau -lleihau cyllideb gan fod y costau/gwariant wedi lleihau
£11,744	Rhaglenni Datblygu Economaidd - Cwtogi cyllideb un swydd i gyd-fynd â'r gwir oriau gweithio
£29,568	Morwrol - Cynyddu ffioedd ar gyfer Cofrestru Cwch Pŵer, Cofrestru Jet Ski, Lansio Jet Ski a Ffioedd Lawnsio
£12,985	Llyfrgelloedd - lleihau oriau gofalu am adeiladau
£31,290	Llyfrgelloedd - gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth cludo
£8,000	Llyfrgelloedd - Peidio llenwi swydd wag rhan amser
£53,976	Rhaglenni Datblygu Economaidd - Diddymu swydd wag 'Rheolwr Cefnogi Busnes'
£14,860	Hafan - ail strwythuro'r adnodd staffio
£11,109	Llyfrgelloedd - Lleihau'r adnodd dosbarthu i gyd-fynd â'r galw
£4,894	Llyfrgelloedd - Peidio adnewyddu 'Find my past' a pharhau gydag adnodd amgen
£12,900	Trosglwyddo Parc Coed Helen i Gyngor Tref Caernarfon
£10,000	Mewnoli trefniadau archwilio adeilad

£5,000	Arbediad Costau Archwilio
£30,000	Arbediad TAW
£1,600	Trosglwyddo system amseru Byw'n Iach Bangor
£9,090	Arbediad Rent Plas Llanwnda wrth adleoli i Ganolfan Hamdden Arfon
£9,530	Trosglwyddo dau gae pêl droed i ofal y gymuned yn sgil trafodaethau cychwynol cadarnhaol.
£361,435	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Gyllid

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£21,000	Cyflogau - Cynyddu targed incwm gweinyddu cynlluniau aberthu cyflog
£10,750	Cyfrifeg - Cyfraniad ychwanegol o'r Gronfa Bensiwn
£100,000	TG - Rhesymoli trwyddedau Microsoft drwy broffilio anghenion pob defnyddiwr
£102,070	Adrannol - Cynyddu targedau incwm i fod yn gymesur â'r gwaith
£9,068	Uned Rheoli - Lleihau oriau un swydd gefnogol
£35,000	TG - incwm trwy rannu canolfan ddata gyda chorff arall
£12,650	Archwilio Mewnol - Lleihau cyllidebau hanesyddol amrywiol
£125,630	Adrannol - Lleihau Cyllidebau cefnogol/gweinyddol eu natur
£14,110	Ailstrwythuro yn yr uned Incwm
£71,500	Ail strwythuro y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth
£501,778	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£7,100	Uned Gofal Cwsmer: Mân gyllidebau - teithio, argraffu ayyb. Gweithio mewn ffordd wahanol.
£2,110	Uned Rheolaeth Busnes: Mân gyllidebau - teithio, argraffu ayyb. Gweithio mewn ffordd wahanol.
£10,000	Trawsfurfio: Lleihau cyllideb yr Adran ar gyfer gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyllideb yn uwch na'r angen ar hyn o bryd.
£12,860	Uned Systemau a Data: Mân gyllidebau - teithio, argraffu ayyb. Gweithio mewn ffordd wahanol.
£408,139	Uchafu'r defnydd o leoliadau gofal o fewn Gwynedd a lleihau'r defnydd o leoliadau all-sirol Sicrhau cyfraniad teg asiantaethau allanol at ofal iechyd parhaus
£9,000	Uned Rheoli Asedau Cleientau: Codi ffi rheoli eiddo yn unol a cyfarwyddyd ymarfer y Llys Gwarchod
£25,375	Gwneud defnydd o gynllun ad-dalu cenedlaethol i gyllido 25% o gostau cefnogaeth yn y maes camdefnyddio sylweddau
£669,777	Hyrwyddo opsiynau amgen yn y gwasanaeth Gofal Cartref gan gynnwys hwyluso taliadau uniongyrchol a'r defnydd o dechnoleg/offer newydd.
£20,000	Cyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy wneud gwell defnydd o offer/technoleg mewn llety cefnogol i unigolion ag anableddau corfforol.
£20,240	Iechyd Meddwl, Diogelu a Sicrwydd Ansawdd: Cyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy wneud gwell defnydd o offer/technoleg mewn llety cefnogol
£95,000	a)Uchafu'r defnydd o leoliadau llety a chefnogaeth o fewn Gwynedd a lleihau'r defnydd o leoliadau all-sirol b) Ail asesu lleoliadau preswyl efo'r bwriad o hybu annibyniaeth
£36,170	Uned Datblygu Gweithlu (Hyfforddiant): Defnyddio arian grant i ariannu gwaith craidd a pheidio a penodi i swydd wag.
£50,080	Uned Comisiynu a Chontractau (Rheolaeth Categori): Lleihau'r gyllideb teithio, a defnyddio grant i ariannu un swydd
£1,365,851	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£15,932	Arbedion Effeithlonrwydd ar draws y Gwasanaeth Cyfiawnder heb leihau'r gwasanaeth
£13,550	Arbediad oherwydd fod y cynllun Cynnal eisoes wedi dod i ben
£18,730	Cywiro lefel y gyllideb datblygu gofalwyr plant i gyd-fynd â'r gwir gost.
£3,762	Defnyddio arian grant tuag at gost cyllido'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
£150,000	Lleoliadau Plant - Sefydlu Tai Grŵp Bychain ein hunain
£201,974	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£30,000	Darparu rhaglen rheoli chwyn yn fewnol
£60,000	Gwella effeithlonrwydd/rhesymoli safleoedd depos priffyrdd
£49,060	Cynyddu incwm drwy gynnig cefnogaeth dechnegol, wyddonol a pheirianyddol i gynlluniau lliniaru risg llifogydd i Gynghorau ledled Cymru
£10,000	Atal gwaith archwilio lampau stryd dros yr haf
£36,880	Cynyddu adnoddau o fewn Unedau YGC sy'n galluogi'r Gwasanaeth i gynyddu incwm, fydd hefyd yn edrych ar gyflwyno camau effeithlonrwydd o fewn rhai unedau
£200,000	Darparu canran o waith rheolaeth traffig yn fewnol gan ein gweithlu ein hunain
£10,000	Codi cyfraniadau gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng i adlewyrchu'r gwir gost
£120,000	Creu Gwasanaeth Edrychiad Stryd o'r newydd a sicrhau effeithlonrwydd yn yr un modd
£90,000	Codi ffioedd YGC yn y maes gwaith ymgynghorol peirianeg sifil
£605,940	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion yr Adran Tai ac Eiddo

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£59,000	Gosod gofod swyddfa ychwanegol yn adeiladau'r Cyngor i ddod ag incwm rhent i ni
£54,000	Mewnoli mwy o waith technegol ar gynlluniau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
£6,845	Cynyddu'r targed incwm am reoli Unedau Diwydiannol (Gwasanaeth Stadau)
£8,110	Creu incwm o waith rheoli prosiectau adeiladu bychan
£95,500	Lleihau ein gofod swyddfa yn sgil dulliau newydd o weithio
£106,820	Defnyddio ffynonellau cyllido amgen i ariannu gwaith dwy swydd (Rheolwr Prosiect Cynllun Gweithredu Tai a Swyddog Grantiau a Phrosiectau)
£40,000	Arbedion nwy wrth reoli effeithlonrwydd systemau gwresogi yn ganolog
£7,690	Adolygu ffioedd am wasanaeth Difa Pla gan barhau yn rhatach na chwmnïau preifat
£250,000	Peidio rhoi chwyddiant ar gyllidebau cynnal a chadw adeiladau gan fod tanwariant hanesyddol, contractau yn rhedeg dros gyfnod o rhai blynyddoedd a grantiau yn ein cyrraedd yn flynyddol.
£627,965	CYFANSWM

Rhestr Cynigion Arbedion y Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol a gwasanaethau Cyfreithiol

Swm £	Pennawd Cyllideb a Chynigion
£18,940	Lleihau cyllidebau teithio a chyllidebau eraill gweinyddol eu natur
£12,080	Lleihau amryw gyllidebau sydd yn tanwario yn gyson - Cefnogi Busnes
£44,190	Lleihau cyllideb oedd wedi ei hymrwymo i gefnogi Cynllun y Cyngor yn hanesyddol
£1,900	Swyddog Monitro – arbedion
£11,785	Cofrestru Etholiadau - Lleihau Elfennau Cyllideb Cofrestru
£13,590	Tîm Cyfreithiol - Dileu swydd wag Tîm Gweinyddol Tîm Cyfreithiol
£28,710	Tîm Cyfreithiol - Cynaeafu arbedion staffio
£131,195	CYFANSWM

Eitem 8

Cyfarfod: Cabinet

Dyddiad: 14 Chwefror 2023

Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid

Pwnc: Cyllideb 2023/24

Swyddog Cyswilt: Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

CYLLIDEB 2023/24

Y Penderfyniad a geisir

Argymhell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2023) y dylid:

- Sefydlu cyllideb o £317,880,310 ar gyfer 2023/24 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £227,842,930 a £90,037,380 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynydd o 4.95% ar dreth anheddau unigol).
- Sefydlu rhaglen gyfalaf o £67,780,150 yn 2023/24 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

1. CYFLWYNIAD

- Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.
- Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu heriau ariannol, yn arbennig yng nghyd-destun chwyddiant cyffredinol wedi cyrraedd lefelau yn 2022/23 nas gwelwyd ei debyg ers degawdau, ac mae effaith hynny wedi gweithio ei ffordd drwodd i gyllideb 2023/24.
- Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant ar gyfer 2023/24 sy'n welliant sylweddol ar y setliad dangosol ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2021, oedd yn rhagweld cynnydd o 3.5% ar gyfartaledd ar draws Cymru. Mae'r Cyngor wedi derbyn cynnydd grant o 7.0%, sy'n cyfateb i gynydd gwerth £14.6m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae £177k ychwanegol wedi ei gynnwys i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad (materion oedd wedi'u ariannu'n flaenorol drwy grantiau penodol).
- Erbyn 2023/24, byddai angen cynyddu ein gwariant o £27.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £2.75m i gwrdd â

phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2), ac hyn yn ychwanegol i'r £3.0m o gyllideb sydd i'w glustnodi i'r maes digartrefedd – mae'r Cyngor llawn eisoes wedi penderfynu ar 1 Rhagfyr 2022 i gynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi i 150% er mwyn ariannu'r cynnydd yma.

- 1.5 Gwelir yn yr adroddiad hwn fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn dangos fod rhaid ystyried cyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a chyflwyno rhaglen newydd o arbedion a thoriadau os am osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24. Mae cyllideb 2023/24 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymhell cynnydd 4.95% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Hyd yn oed wedyn byddwn angen chwilio am arbedion o £6.4m i osod cyllideb gytbwys, ac mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.
- 1.6 Mae cynlluniau arbedion a thoriadau yn destun adroddiad ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.
- 1.7 Mae'r arbedion sydd wedi cael eu hadnabod wedi bod yn destun ymgynghori gydag aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y pwyllgorau craffu ac arweinyddion y grwpiau gwrthblaid mewn cyfres o weithdai yn Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hystyried gan mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 26 o Ionawr 2023, a wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Chwefror. Swyddogaeth y Cabinet yw argymhell cyllideb cytbwys a phriodol i gyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth ar gyfer 2023/24.
- 1.8 Wrth osod cyllideb 2022/23 roedd modd diddymu neu oedi y mwyafrif o gynlluniau arbedion oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn. Mae cyllideb 2023/24 yn cynnwys cyfransylweddol o'r arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, sydd â gwerth o £0.95m.
- 1.9 Eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £67.8m yn 2023/24, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.
- 1.10 Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2023/24 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2023/24, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2022/23.

2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2023/24. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod.

Grant Cynnal Refeniw 2022/23 – 2023/24	Cyfanswm Awdurdodau Cymru £	Cyngor Gwynedd £
Grant y Llywodraeth 2022/23	5,110,643,128	213,016,800
Grant y Llywodraeth 2023/24	5,513,888,400	227,842,926
	Cynnydd £	403,245,272
	Cynnydd %	7.9%
		14,826,126
		7.0%

Ni fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei setliad terfynol tan 1 Mawrth 2023. Mae manylion pellach am y setliad dros dro ar gael yma –

Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023 i 2024 | LLYW.CYMRU

2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £14.8m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2022/23 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n gynnydd o 7.0%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 7.9%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawl wyr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill. Yn benodol, nodir fod effaith Cyfrifiad 2021 – sy'n dangos gostyngiad ym mhoblogaeth Gwynedd – yn dechrau cael effaith ar y setliad. Ni fydd yr effaith llawn yn cael ei weld am ychydig flynyddoedd eto.

2.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 1 Mawrth, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, a bydd dadl perthnasol yn y Senedd ar 8 Mawrth. Wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylir newid arwyddocaol o'r ffigyrau grant 'dangosol' yn y setliad drafft.

2.6 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2023/24, byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Felly, byddwn naill ai'n defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i gysoni gostyngiad mewn cyllid grant, neu'n cyfrannu at falansau cyffredinol i gysoni cynnydd mewn cyllid grant.

3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR – 2023/24

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn “sefyll yn llonydd” yn 2023/24.

Gofynion Gwario Ychwanegol

	£	£
Cyllideb Sylfaenol		295,232,820
Chwyddiant Cyflogau Staff	14,185,140	
Chwyddiant Arall (cyflenwyr)	11,075,410	
Ardollau (Tân, CNC a CBC)	773,650	
Demograffi	261,320	
Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau	5,748,170	
Addasiadau Cyllideb Amrywiol	(872,060)	
Cost Benthycu / Llog ar Falansau	(1,506,900)	
Trosglwyddiad i'r Setliad	176,980	
Addasiadau Incwm Gwasanaethau	400,000	
Darpariaeth Lleiafswm Refeniw	(2,400,000)	
Cyfanswm net yr ychwanegiadau		<u>27,841,710</u>
Cyfanswm gofynion gwario 2023/24 cyn arbedion		<u>323,074,530</u>

3.2 Cyllideb Sylfaenol 2022/23

Er mai £295m yw gwariant net 2022/23, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £501m, oherwydd ein bod yn derbyn llw o grantiau penodol gwerth £136m, yn codi incwm cyffredinol o £68m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu a defnyddiwyd £2m o reserfau i ariannu bidiau un tro.

3.3 Chwyddiant Cyflogau £14.2m

Daethpwyd i gytundeb ar gyflogau y gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2022 i Mawrth 2023 drwy gytuno cynnydd o £1,925 ar bob pwynt cyflog. Yn unol â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill roeddem wedi cyllidebu'n ddarbodus ar gyfer cynnydd o 4%, ond roedd y cytundeb terfynol yn uwch na'r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano. Canlyniad hyn yw fod y chwyddiant cyflogau yng nghyllideb 2023/24 yn cynnwys elfen i gywiro'r bwlch yma yn ogystal ystyried chwyddiant tybiannol 2023/24.

Mae'r gyllideb yma yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2023/24 o 5% ar gyfer yr holl weithlu (athrawon o Medi 2022, gweddill y gweithlu o Ebrill 2022).

3.4 Chwyddiant Arall £11.1m

Mae hwn yn swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol. Mae'r prif feysydd lle gwelir cynnydd yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol £1.5m
- Gofal Di-breswyl:
 - Llety Cefnogol £937k,
 - Gofal Cartref £396k,
 - Gwasanaethau eraill £240k
- Ynni (Trydan) £3.3m
- Tanwydd (Disel a Petrol) £658k
- Cynnydd prisiau eraill:
 - Yswiriant £174k
 - Ail brisio trethi eiddo £155k

3.5 Ardollau £774k

Bydd y lefiau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2022/23 a 2023/24:

- | | |
|--|-------|
| • Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | £701k |
| • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £0 |
| • Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) | £7k |
| • Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd | £64k |

3.6 Demograffi £261k

Cyfanswm net sy'n adlewyrchu +£229k oherwydd lleihad net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion a +£32k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r ffigur net o +£229k i ysgolion yn ganlyniad i sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£49k, arbennig +£315k a cynradd -£135k.

3.7 Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau £5.75m

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £2.75m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Mae hyn yn ychwanegol i'r £3m o ychwanegiad i'r gyllideb Digartrefedd sy'n cael ei ariannu o'r Premiwm Treth Cyngor, yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 i gynyddu'r Premiwm.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwarianty flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Oherwydd y pwysau ariannol eleni, mae nifer y bidiau sydd wedi eu cymeradwyo eleni yn sylweddol is nag a fu'n bosib ar gyfer 2022/23.

Mae'r eitemau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, cyflwynwyd yr holl geisiadau gwariant hyn yn y Seminar Cyllideb a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023.

3.8 Ystyriaethau Eraill (£1.8m)

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys effaith cynnydd mewn derbyniadau llog o (£1.5m) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor, lleihad mewn cyfraniad pensiwn y cyflogwr o (£1.1m) yn sgil yr ail-brisiad tair-blyneddol, ond cynnydd cost o £800k oherwydd addasiad ffioedd a phrisiau ac ystyriaethau cyllidebol eraill.

3.9 Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (£2.4m)

Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP) ac mae'r swm sy'n ddyledus yn cael ei alw'n Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC neu CFR).

Er y sonnir am "ddyled" nid oes dyled allanol o reidrwydd wedi ei gymryd – benthycan fewnol wna Cyngor Gwynedd ers nifer fawr o flynyddoedd erbyn hyn.

Nod cyffredinol Canllaw gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2018 yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthycan gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LIC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol, ac yn argymhell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR.

Yn dilyn adolygiad gan ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, fe argymhellwyd addasu'r polisi DLR ar gyfer yr elfen benthyca a gefnogir.

Mae'r polisi cyfredol (a gymeradwywyd ym Mawrth 2022) yn golygu y codir 4% ar y balans sy'n lleihau'n flynyddol a bydd yn cymryd 345 o flynyddoedd i leihau'r balans cyfredol i lai na £100.

Argymhellir defnyddio dull mwy darbodus fydd yn clirio'r ddyled Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn llai o flynyddoedd, ond yn cynnig arbedion am y blynyddoedd cyntaf. Yn benodol, bydd yn golygu fod rhaid i'r Cyngor neilltuo £2.4m yn llai yn 2023/24 nag a fyddai dan y polisi cyfredol.

4. ARBEDION PRESENNOL SYDD WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL

4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £33.5m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.

4.2 Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2022, wrth ystyried adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion, penderfynodd y Cabinet symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol. Roedd yr angen i lithro yn ganlyniad, i raddau helaeth, oherwydd effaith sylweddol y pandemig Covid-19.

4.3 Roedd y cyfanswm yma yn cynnwys arbedion gwerth £950,250 sydd i'w cyflawni yn 2023/24. Mae cyllideb drafft 2023/24 yn ystyried y bydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn hon, a bydd cyrhaeddiad yn cael ei adolygu a'i ystyried yn ystod y flwyddyn. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 3.

4.4 Mae'r holl gynlluniau unigol sydd i'w gweithredu gan yr adrannau yn 2023/24 wedi'u rhestru yn Atodiad 3 er gwybodaeth, ac mae'r cyfansymiau adrannol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

Arbedion sydd eisoes wedi eu rhaglennu i leihau bwlch Cyllideb 2023/24	
	£
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	935,250
Adran Economi a Chymuned	15,000
Arbedion Cynlluniedig Presennol 2023/24	950,250

5. BWLCH ARIANNU 2023/24 A'R DRETH CYNGOR

- 5.1 Fe welir o Rhan 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2023/24 yn £323.1m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £227.8m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £950,250 o arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

Sefydlu Cyllideb 2023/24	
	£
Cyllideb Sylfaenol 2022/23	295,232,820
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>27,841,710</u>
Gofynion Gwario 2023/24 cyn Arbedion	323,074,530
Llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru	(227,842,930)
Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac arbedion pellach	<u>95,231,600</u>

- 5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £95.2m sydd angen ei lenwi. Mae adroddiad ar wahân ar raglen cyfarfod y Cabinet sy'n argymhell gweithredu cynlluniau arbed newydd o £3.1m yn 2023/24 gydag arbedion pellach i'w cyflawni yn 2024/25 a 2025/26, ac argymhellir lleihau cyllidebau ysgolion o £1.1m hefyd yn 2023/24, ar ôl ystyried chwyddiant. O ystyried y £0.95m o arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2023/24 yn flaenorol (gweler Rhan 4 uchod), argymhellir fod cyfanswm o £5.2m o arbedion yn cyfrannu i lenwi'r bwlch ariannol.

Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac Arbedion	95,231,600
Llai Arbedion presennol eisoes wedi eu cymeradwyo	(950,250)
Llai Arbedion newydd	(4,243,970)
Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor	<u>90,037,380</u>

- 5.4 Ceir mwy o wybodaeth am yr arbedion yn Atodiad 3.
- 5.5 Argymhellir cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor. Byddai cynyddu'r Dreth ar anheddau unigol o 4.95% yn cynhyrchu £90,037,380 o incwm, a byddai hyn y ddigonol i lenwi'r bwlch.
- 5.6 Bydd hyn yn £8.0m o incwm Treth Cyngor ychwanegol o'i gymharu â chyllideb 2022/23, sy'n gyfuniad o £3m o arian premiwm ychwanegol tuag at y maes digartrefedd a £5m ar gyfer anghenion gwariant cyffredinol y Cyngor. Mae hynny'n gyfystyr i gynnydd yn

y Dreth Cyngor o £75.59 i eiddo mewn Band D, neu £1.45 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2023/24) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

- 5.7 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.
- 5.8 Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 4.95% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau, darganfod mwy o arbedion a thoriadau, neu gyfuniad o'r ddau.
- 5.9 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2023/24 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 4.95% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau tra'n gosod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yn y gogledd.

6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2023/24

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2023/24 ac er gwaethaf cynnydd grant sy'n uwch na'r hyn a ddisgwylwyd yn wreiddiol, bydd rhaid parhau i gynaeafu rhai arbedion hanesyddol, cyflwyno arbedion newydd, a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.
- 6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £323.1m, wedi ychwanegu £27.8m, sy'n cynnwys darparu £5.7m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £227.8m a dibynnu ar £5.2m o arbedion (£950k o arbedion hanesyddol sydd eisoes wedi eu rhaglennu a £4.2m o arbedion newydd), bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 4.95% i gynhyrchu £90m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2023/24.

Cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24	
	£
Gofynion Gwario 2023/24 cyn Arbedion	323,074,530
Cyfanswm Arbedion 2023/24	(5,194,220)
Cyllideb 2023/24	<u>317,880,310</u>
I'w ariannu drwy -	
Incwm Grant	227,842,930
Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 4.95%)	<u>90,037,380</u>
Cyllideb 2023/24	<u>317,880,310</u>

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o **£317,880,310**. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

7. CYFALAF

- 7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2023/24. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf bresennol yn Atodiad 4.
- 7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2023/24 i 2025/26, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £67,780,150 yn 2023/24, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.
- 7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2023/24, mae £385k o'r gyllideb yma wedi ei glustnodi ar gyfer y 5 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2b.

8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

- 8.1 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2023/24 yn Rhagfyr 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol Cymru ar y cyfan yn derbyn +3.0% yn 2024/25. Disgwylir i Cyngor Gwynedd dderbyn llai na chyfartaledd Cymru fel canlyniad i newidiadau poblogaeth a amlygwyd yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021. Er enghraifft, derbyniwyd +7.0% eleni o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o +7.9%.
- 8.2 Yn ogystal â chynlluniau arbed sydd wedi cael eu cyflwyno er mwyn cwrdd â bwlch 2023/24, mae cynigion pellach fydd i'w gweithredu yn 2024/25, gan gynnwys £0.8m o arbedion ysgolion a £2.8m o arbedion ar gyfer gweddill y Cyngor. Bydd y mater o dan adolygiad parhaus yn ystod 2023/24, gan gynnwys asesu cynigion arbed pellach fel bo'r angen.

9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

- 9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9m. O ystyried y pwysau cynyddol a ddisgwylir ar gyllidebau'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2023/24', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.
- 9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol.
- 9.5 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.
- 9.6 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.
-

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol

Swyddog Monitro:

Er mai mater i'r Cyngor llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2023/24 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

ATODIADAU

- 1 Cyllidebau Arfaethedig
- 2 Crynodeb Bidiau
- 2a Bidiau Refeniw Parhaol
- 2b Bidiau Cyfalaf
- 3 Arbedion
- 4 Cyfalaf
- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2023/24
- 6 Treth Cyngor
- 7 Balansau
- 8 Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- 9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 10 Cadernid yr Amcangyfrifon

CYLLIDBAU ARFAETHEDIG 2023/24 FESUL GWASANAETH												
	Cyllideb Sylfaenol 2022/23	Chwyddiant Cyflogau	Chwyddiant Arall	Demograffi	Incwm, Ffioedd a Phrisiau	Trosglwyddiad Setliad	Pwysau ar Wasanaethau	Arbedion Presennol	Arbedion Newydd	Darpariaeth Lleiafswm Refeniw	Addasiadau Amrywiol	Cyllideb Sylfaenol 2023/24
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
ADRANNAU												
Addysg Canolog	18,224	1,199	89	0	0	0	243	0	(835)	0	(820)	18,100
Cyllideb Ysgolion	83,604	4,037	2,547	229	0	0	0	0	(1,147)	0	(1,940)	87,330
Economi a Chymuned	5,909	379	586	0	0	0	(313)	(15)	(311)	0	(1,147)	5,088
Oedolion, Iechyd a Llesiant	61,660	3,058	3,351	0	0	0	1,585	(935)	(173)	0	1,855	70,401
Plant a Chefnogi Theuluoedd	21,344	1,100	552	32	0	0	(251)	0	(44)	0	(384)	22,349
Priffyrdd, Peirianneg a YGC	15,726	1,678	1,156	0	0	177	0	0	(216)	0	(1,475)	17,046
Amgylchedd	16,338	1,077	1,182	0	0	0	(463)	0	(319)	0	(433)	17,382
Tai ac Eiddo	7,889	515	393	0	0	0	2,869	0	(499)	0	(3,030)	8,137
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,148	111	15	0	0	0	0	0	(131)	0	424	2,567
Cefnogaeth Gorfforaethol Cyllid	8,107	466	99	0	81	0	(495)	0	(275)	0	(496)	7,487
	7,479	704	(26)	0	0	0	(149)	0	(294)	0	(60)	7,654
CYFANSWM ADRANNAU	248,428	14,324	9,944	261	81	177	3,026	(950)	(4,244)	0	(7,506)	263,541
Materion Corfforaethol a Chyfalaf	52,181	(139)	1,905		319					(2,400)	5,375	57,241
CYFANSWM GROS	300,609	14,185	11,849	261	400	177	3,026	(950)	(4,244)	(2,400)	(2,131)	320,782
Llai Praesept Cyngorau Cymuned	(2,654)											(2,654)
CYFANSWM GWARIANT GROS	297,955	14,185	11,849	261	400	177	3,026	(950)	(4,244)	(2,400)	(2,131)	318,128
Balansau a Reserfau Penodol	(2,722)						2,722				(248)	(248)
CYFANSWM GWARIANT NET =	295,233	14,185	11,849	261	400	177	5,748	(950)	(4,244)	(2,400)	(2,379)	317,880
Ariannwyd Drwy:-												
Grant	213,211											227,843
Treth Cyngor	82,022											90,037
Cyfanswm Incwm	295,233											317,880

ATODIAD 2 - CRYNODEB BIDIAU

	Teitl y Bid	Parhaol (£)	Cyfalaf (£)
Adran Addysg			
Bid 1	Pris Darparu Cinio Ysgolion Cynradd, Dilynol ac Arbennig	285,580	
Cyf 1	Bid System Rheoli Gwybodaeth Addysg		100,000
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant			
Bid 2	Bid Cyflogau Staff (Darparu, Anabledd Dysgu a Iechyd Meddwl)	1,570,720	
Bid 3	Oed Trosglwyddo: Anableddau Dysgu	155,760	
Bid 4	Ffioedd Nyrsio EMI	404,110	
Cyf 2	Uwchraddio system CACI		37,000
Adran Amgylchedd			
Cyf 3	Meddalwedd Pontydd Pwyso newydd		25,000
Adran Economi a Chymuned			
Bid 5	Materion Cyllidol Byw'n Iach - cynyddu swm contract	332,000	
Cyf 4	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)		50,000
Ymgynghoriaeth Gwynedd			
Cyf 5	Cynllun Gerddi'r Traphont, Abermaw		173,000
CYFANSWM		2,748,170	385,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

BIDIAU REFENIW PARHAOL 2023/24

Tud. 64

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm Parhaol a argymhellir (£)
ADDYSG			
Bid 1	Pris Darparu Cinio Ysgolion Cynradd, Dilydol ac Arbennig	<p>Mae costau darparu cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilydol yn cynyddu 15.9% yn 2023/24. Mewn blwyddyn arferol, er mwyn cwrdd â'r costau hynny, byddai angen codi pris cinio o £2.50 i £2.90 (cynydd o 16% = 40c). Gan fod y pris wedi ei rhewi dros y blynyddoedd, a chostau wedi cynyddu, mae hyn yn naturiol wedi creu 'sybsidi', rhwng yr hyn mae rhiant yn ei dalu, a'r hyn mae'n costio i gynhyrchu'r pryd.</p> <p>Erbyn Medi 2023, bydd holl ddisgyblion oed cynradd yn derbyn cinio am ddim, gyda disgyblion cyfnod sylfaen (4 i 7 oed), wedi cychwyn yn 2022/23.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cost yr uned (h.y. pris maent yn talu fesul pryd sydd yn cael ei ddarparu), ar £2.90. Oherwydd y 'sybsidi' a'r chwyddiant sylweddol eleni, nid yw'r £2.90 yr uned yn ddigonol i gyfarch cost i gynhyrchu pryd.</p>	285,580
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Bid 2	Bid Cyflogau Staff (Darparu, Anabledd Dysgu a Iechyd Meddwl)	Mae swydd disgrifiadau holl staff rheng flaen y maes gofal oedolion mewnol wedi cael eu hadolygu a'u hail arfarnu. Mae'r bid felly am y gwahaniaeth rhwng y graddfeydd cyflog cyfredol a'r arfarniad newydd.	1,570,720
Bid 3	Oed Trosglwyddo: Anableddau Dysgu	<p>Bydd nifer o unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn troi yn 18 oed ac yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn ystod 2023/24. Mae 10 o'r unigolion yma wedi eu hadnabod yn becynnau gofal lle bydd costau ychwanegol i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu. Yn ogystal, mae 4 unigolyn arall wedi troi yn 18 yn ystod 2022/23 lle mae angen bidio am effaith flwyddyn lawn eu pecynnau gofal. Bydd angen cwrdd ag anghenion yr unigolion a'u gofalwyr yn unol â'r asesiad anghenion, er mwyn cwrdd ag allbynnau llesiant penodol yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p> <p>Pwysleisiwn y bydd nifer uwch o blant yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn ystod y flwyddyn i ddod, ond mae llawer o'r pecynnau gofal yn rhai fydd yr Adran yn eu cyfarch heb adnodd ychwanegol. Mae'r bid ar gyfer yr achosion lle mae costau gofal mwy sylweddol.</p>	155,760

Bid 4	Ffioedd Nyrsio EMI	<p>Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar 28/06/22, penderfynwyd cynyddu ffioedd Preswyl a Nyrsio'r Cyngor ar gyfer 2022/23 er mwyn cefnogi'r farchnad a thalu pris teg am ofal preifat. Ar gyfer lleoliadau Nyrsio EMI, sef gofal nyrsio ar gyfer unigolion sydd yn dioddef o ddementia, penderfynwyd ar ffi o £900 yr wythnos. Roedd y ffi ymysg yr uchaf yng Nghymru ar y pryd, ac mae'n parhau i fod.</p> <p>Serch hynny, mae nifer o'r Darparwyr Nyrsio EMI yng Ngwynedd yn gwrthod derbyn y ffi o £900 yr wythnos, ac yn hawlio ffioedd uwch.</p>	404,110
ECONOMI A CHYMUNED			
Bid 5	Materion Cyllidol Byw'n Iach - cynyddu swm contract	<p>Dyhead Bwrdd Cwmni Byw'n Iach yw cynnal lefelau cyflog sydd yn gymharol â chyflogau staff Cyngor Gwynedd. Bu cynnydd i gyflogau Awdurdodau Lleol eleni, ond 2% oedd codiad cyflog i staff y cwmni oedd eisoes wedi ei gynnwys yng Nghynllun Busnes 2022/23. Mae gwaith cyfrifo yn dangos fod angen codiad cyflog cyfwerth â oddeutu 10.3% erbyn 2023/24, er mwyn cyfarch y blwch a hefyd adeiladu canran isel o chwyddiant ar gyfer codiadau tebygol i'r gweithlu sector cyhoeddus yn 2023/24.</p> <p>Yn hanesyddol, mae'r cwmni wedi defnyddio cynnydd ffioedd i gyfarch costau chwyddiant a chreu cyllideb gytbwys. Yn fras, mae 1% o chwyddiant costau wedi cael ei gydbwysu gan 1% o gynnydd mewn ffioedd. Mae'r bid hefyd yn cyfarch yr hyn a ragwelir ar gyfer 2023/24 o ran CPI. Mae'r cynnydd yma yn ei hun yn golygu codi ffioedd oddeutu 3.5%. Yn sgîl yr argyfwng costau byw, mae risg sylweddol o golli cwsmeriaid pe byddai'r cwmni'n codi ffioedd 13.8% i gwsmeriaid. Y ffigwr sydd wedi'i ddefnyddio i bwrpas y bid yma yw cynnydd o 6% mewn ffioedd i gwsmeriaid.</p>	332,000
CYFANSWM BIDIAU PARHAOL REFENIW			2,748,170

ATODIAD 2b - BIDIAU CYFALAF

BIDIAU CYFALAF 2023/24 - I'W ARIANNU O'R GYLLIDEB O FEWN Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU

Tud. 66

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a argymhellir (£)
ADDYSG			
Cyf 1	Bid System Rheoli Gwybodaeth Addysg	Bid ar gyfer cyflwyno System Rheoli Gwybodaeth Addysg newydd (cwmni Access UK).	100,000
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Cyf 2	Uwchraddio system CACI	Caiff y system CACI ei ddefnyddio i reoli gwaith y gwasanaeth Gofal Cartref Mewnol y Cyngor. Mae'r gweithwyr Gofal Cartref yn defnyddio'r system er mwyn adnabod eu tasgau, cofnodi gwaith, cofnodi'r gofal a ddarparwyd a.y.y.b. Mae gweinyddwr y system CACI yn defnyddio "Windows Servers 2012", mae cefnogaeth y fersiwn yma yn dod i ben yn ystod 2023. Felly, bydd angen uwchraddio'r gweinyddwr. Sydd hefyd yn golygu'r angen i uwchraddio'r system CACI gan nad yw'r fersiwn bresennol yn cael ei gefnogi ar "Windows Server 2019".	37,000
AMGYLCHEDD			
Cyf 3	Meddalwedd Pontydd Pwysu newydd	Mae'r system meddalwedd pontydd pwysu presennol sydd ar waith yn safleoedd Gwasanaeth Trin Gwastraff Ffridd Rasmus, Harlech, Caergyfchu, Caernarfon a Choed Ffridd Arw Dolgellau wedi bod yn weithredol ers tua 15 mlynedd ac erbyn hyn nid yw'n cael ei gefnogi'n llawn gan berchnogion/awduron y meddalwedd, Precia Molen. Ni fydd unrhyw newidiadau 'isadeiledd' gofynnol yn y dyfodol neu atgyweiriadau sydd eu hangen i god y system feddalwedd yn bosib. Felly mae'n risg i'r Gwasanaeth. Gan y byddai anallu'r system i weithredu'n iawn yn peryglu gallu'r Gwasanaeth i gofnodi symudiadau gwastraff yn ddigonol i adrodd yn gywir i Cyfoeth Naturiol Cymru; drwy adroddiadau gwastraff chwarterol, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac yn unol ag amodau'r trwyddedau amgylcheddol y safleoedd.	25,000
ECONOMI A CHYMUNED			
Cyf 4	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)	Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor drwy'r Gronfa Cefnogi Cymunedau wedi cefnogi sawl cymuned ar draws y sir i ddatblygu cynlluniau sydd wedi ymateb i effeithiau'r cynlluniau arbedion a'r cynllun strategol. Mae cymunedau yn parhau i wynebu heriau wrth adfer yn sgil Covid, yn ogystal ag wynebu heriau newydd drwy geisio ymateb i'r argyfwng tlodi presennol. Bydd y gronfa yma, yn ein galluogi i gynnal ac adeiladu ar y gwydnwch cymunedol sydd wedi amlygu ei hun yn y sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r galw gan ein cymunedau am gefnogaeth drwy gronfa Cefnogi Cymunedau (cyfalaf) i ymateb i anghenion yn lleol yn uchel gyda'r arian ar gyfer 2022/23 i gyd wedi ei glustnodi yn y rownd gyntaf.	50,000
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD			
Cyf 5	Cynllun Gerddi'r Traphont, Abermaw	Mae ardal Gerddi'r Traphont, Abermaw yn dioddef o effeithiau llifogydd yn sgil dŵr wyneb ag o'r môr. Mae wal yr harbwr yn yr ardal yma hefyd mewn cyflwr anaddas, amlygwyd hyn wrth i ran o'r wal syrthio yn 2019, gyda gwaith atgyweirio brys angen ei gynnal. Mae Achos Busnes Amlinellol y cynllun Gerddi'r Traphont bellach wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac wedi symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn. Mae amcan bris y gwaith adeiladu yn £4m, bydd y ffigwr terfynol yn cael ei gadarnhau drwy broses dendro. Mae cyfraniad o £312k eisoes wedi ei gymeradwyo drwy'r Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor, gwneir cais am £288k ychwanegol, ac felly cyfanswm arian cyfatebol y Cyngor yn £600k, sef 15% o'r £4m. Gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gweddill. Erbyn hyn mae'r Adran wedi lleihau y cais o £288k i £173k, gan hunan gyllido'r £115k.	173,000
CYFANSWM BIDIAU CYFALAF			385,000

ATODIAD 3

ARBEDION

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £33.5m o gynlluniau arbedion ers 2015/16, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.
2. Mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
3. Mae nifer o gynlluniau arbed sydd yn deillio o'r rhaglenni blaenorol hyn wedi llithro i 2023/24, ac wedi eu hychwanegu i'r cynlluniau oedd eisoes wedi eu rhaglenni i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn hon.
4. Canlyniad hyn yw fod gwerth £950,250 o gynlluniau arbedion oedd eisoes yn bodoli i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2023/24. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor, ac felly ddim yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn prosesau statudol priodol, ac fe'i rhestrir isod er gwybodaeth.

Arbediad	Swm £
ADRAN ECONOMI A CHYMUNED	
Gwelliannau yn Neuadd Dwyfor i'w wneud yn fwy effeithlon wrth baratoi ar gyfer y dyfodol	15,000
ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	
Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn	300,000
Ymestyn egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth	534,000
Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion	101,250
CYFANSWM ARBEDION 2023/24 WEDI EU CYMERADWYO'N FLAENOROL	950,250

5. Mae adroddiad ar wahân ar raglen y Cabinet yn cynnwys rhestr o arbedion pellach arfaethedig ar gyfer eu gwireddu yn 2023/24, gyda chyfanswm gwerth o **£3,097,370**.
6. Yn ogystal â'r arbedion hyn, mae gofyn i ysgolion gyfrannu at y cynlluniau arbed hefyd. Mae Atodiad 5 yn ymdrin yn benodol â chyllidebau'r ysgolion, ac fe welir yno fod gweithredu arbedion a thoriadau ar yr ysgolion hefyd yn anorfod erbyn 2023/24. Argymhellir gweithredu capio y toriad i uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol, a pheidio cyflwyno toriadau ar y sector arbennig. Bwriedir gweithredu'r toriad yma dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academiaidd ysgol. Mae cyfanswm y toriad yn £1.966m ac yn rhannu £1.147m (7/12ed) yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12ed) yn 2024/25, fel y gwelir yn y tabl isod:

Ysgolion (Sector)	2023/24 (7/12ed) £	2024/25 (5/12ed) £	Cyfanswm £
Cynradd	541,600	386,900	928,500
Uwchradd	605,000	432,600	1,037,600
Arbennig	0	0	0
Cyfanswm	1,146,600	819,500	1,966,100

7. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi nodi y bydd y cynnydd yn y setliad yn llai ar gyfer 2024/25 (cyfartaledd Cymru yn gynnydd o 3%), felly disgwylir y bydd angen paratoi i weithredu'r cynlluniau hynny sydd dan sylw yn yr adroddiad arbedion sydd ar raglen y Cabinet. O wireddu gwerth £6.4m o arbedion a argymhellir, byddant yn dod i rym yn unol â'r proffil isod:

PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION NEWYDD 2023/24 YMLAEN

	2023/24 £	2024/25 £	2025/26 £	Cyfanswm £
Proffil arbedion (heb ysgolion)	3,097,370	2,848,630	450,000	6,396,000

8. Felly, i grynhoi, argymhellir gweithredu'r arbedion canlynol yng nghyllideb 2023/24:

	£
Arbedion presennol sydd wedi eu cymeradwyo'n flaenorol	950,250
Arbedion newydd (heb gynnwys ysgolion)	3,097,370
Arbedion Ysgolion	1,146,600
CYFANSWM	5,194,220

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2023/24	2024/25	2025/26
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Asedau'r Cyngor :			
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	6,868	2,901	0
Cynlluniau Tai	4,495	1,300	1,300
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	2,500	0	0
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion	1,787	0	0
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	1,068	2,271	1,700
Atal Llifogydd Arfordirol	1,216	0	0
Cynlluniau Eraill	4,127	1,241	723
Bidiau Cyfalaf	3,063	3,063	500
Cynlluniau Eraill :			
Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor	0	0	2,549
Strategaeth Dai - Prynu i Osod	0	0	2,880
Cynlluniau Eraill Eisoes wedi eu Cymeradwyo :			
Cynlluniau/Strategaeth Tai	17,089	5,442	0
Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	9,722	184	0
Cerbydau Adrannol	4,273	3,042	0
Cynlluniau Eiddo	3,007	0	0
Unedau Diwydiannol	2,925	0	0
Atal Llifogydd Arfordirol	1,822	0	0
Eraill	3,818	400	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	67,780	19,844	9,652

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2023/24	2024/25	2025/26
	£'000	£'000	£'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,061	4,061	4,061
Benthyca Arall	10,038	3,138	2,880
Grantiau a Chyfraniadau	16,874	5,430	2,549
Derbyniadau Cyfalaf	189	0	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	30	0	0
Cronfa Cyfalaf	13,434	0	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	23,154	7,215	162
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	67,780	19,844	9,652

4. Sefydwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2023/24 i 2025/26, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2023/24 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £67,780,150 ar gyfer 2023/24, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

ATODIAD 5

YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2023/24

- Cefndir:** Adroddwyd i gyfarfod 6 Chwefror 2023 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar elfennau perthnasol o gyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2023/24, lle nodwyd y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.
- Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£6.4m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl athrawon, lleihad cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwr o 1.25%, a lleihad yn cyfraniad pensiwn cyflogwr ar gyfer gweithwyr APTaCh o 1.2%. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 5% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2022, ac hefyd cost cynnydd pellach o 4% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2023 (am y 7 mis Medi 2023 – Mawrth 2024). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2022 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 5% Ebrill 2023. Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni, gan gynnwys 120% am drydan, hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.
- Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £573k tuag at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24 oherwydd incrementau a lleihad trosiant staff o -£718k.
- Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2022 i gyfrifo dyraniadau 2023/24. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn cynyddu **£229k**, sy'n cynnwys lleihad -£135k i'r sector Gynradd, cynnydd +£49k i'r sector Uwchradd a chynnydd yn y sector Arbennig o +£315k. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau cymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.
- Bidiau Argymhellir Cymeradwyo:** Gweler yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2023/24 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£286k**, er mwyn ariannu cost uwch darparu cinio cynradd/arbennig.

6. **Arbedion a Thoriadau 2023/24 a 2024/25:** Ers i'r Cyngor, ar 5 Mawrth 2015 fel rhan o 'Her Gwynedd', benderfynu ar darged arbedion £4.3m wrth osod cyllideb 2015/16, ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd am unrhyw arbedion newydd ychwanegol. Ers 2015/16, bydd Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £33.5m o gynlluniau arbedion, gyda £4.3m ohono (13% o'r arbedion) wedi'i gynaeafu o'r ysgolion (sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor). Ond erbyn 2023/24 mae'n anorfod bod rhaid gweithredu arbedion a thoriadau ar yr ysgolion. Yr argymhelliad yw i gapio y toriad i uchafswm o 3% ar ysgol prif lif unigol a dim toriad ar y sector arbennig. Hefyd, bydd y toriad yn cael ei weithredu dros ddwy flynedd ariannol, sydd yn cyd-fynd efo blwyddyn academaidd ysgol. Mae cyfanswm y toriad yn £1.966m ac yn rhannu £1.147m (7/12ed) yn 2023/24 ac yna £0.819m (5/12ed) yn 2024/25.
7. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2023/24 ar lefel tebyg i 2022/23.
8. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2023/24 o'i gymharu gyda 2022/23.

ATODIAD 6

TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2023/24. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth i adlewyrchu'r bwlch oedd yn bodoli yn sgil setliad grant Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn 2019/20 bu'n rhaid cynyddu'r dreth 5.8%, o 3.9% yn 2020/21, o 3.7% yn 2021/22 ac o 2.95% yn 2022/23.
3. Eleni, erbyn 2023/24 argymhellir codi'r dreth 4.95%. Byddai hynny'n cynhyrchu £90m o dreth (o'i gymharu â £82.1m yn 2022/23), sy'n cynnwys £9m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £75.59 i eiddo mewn Band D, neu £1.45 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2023/24) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 8,300 o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £857,905. Felly, byddai 3.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £3,002,668 tra byddai 5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £4,289,525.

5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2016/17:

Blwyddyn	Cyngor	
	Gwynedd	Cymru
2022/23	2.95%	2.2%
2021/22	3.7%	3.6%
2020/21	3.9%	4.6%
2019/20	5.8%	6.2%
2018/19	4.8%	4.9%
2017/18	2.8%	3.0%
2016/17	4.0%	3.6%

Yn 2022/23 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,527 tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,433.

Ceir mwy o fanylion yn ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): [Council Tax Levels in Wales, 2022-23 \(llyw.cymru\)](#)

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2023/24, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yw bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 4.95% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol mewn fforymau aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 4.95%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.45 neu £75.59 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,602.58 am 2023/24.**

CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2023/24 ond i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi i 150%. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £9m o incwm ychwanegol yn 2023/24 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo £6m o'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau, a £3m i'r gyllideb digartrefedd.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2023/24.

ATODIAD 7

BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £7.9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.6% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, gyda'r cynnydd parhaus mewn galw am wasanaethau gofal, digartrefedd a gwastraff yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.
4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd ar 30 Mehefin 2022, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £746k o gronfeydd i gynorthwyo'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol oedd wedi gorwario yn 2021/22 a throsglwyddo £105k i falansau cyffredinol y Cyngor. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2023**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
5. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

*"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, **ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn**. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

6. Ategwyd y neges yma ymhellach gan Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru o ganlyniad i bandemig Covid-19. Tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartil uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

*“(9) fod rhai cyngorau mewn sefyllfa well o lawer na’i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gyngorau”, a (18) **bod “lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnheredd a chynaliadwyedd ariannol”.***

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:

[Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales](#)

7. Rwy’n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau yn weithred gwbl briodol.
8. Mae balansau’r Cyngor wedi bod yn arf allweddol. Gan bydd y Cyngor â balansau o tua £7.9 miliwn, byddwn wedi cadw’r swmp o’r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i ‘bontio’r’ sefyllfa ariannol os y bydd angen.

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1) Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae gosod cyllideb flynyddol yn ofyn statudol ar y Cyngor, yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y drefn o gynnal stiwardiaeth ariannol dda.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mawrth 2022, wrth ystyried rhagolygon ariannol y Cyngor ar gyfer blynyddoedd 2023/24 a 2024/25 yn syth ar ôl sefydlu Cyllideb 2022/23. Bryd hynny roedd disgwyl y byddai modd gosod cyllidebau cytbwys yn y ddwy flynedd yma heb orfod darganfod arbedion pellach.

Fodd bynnag, mae'r gwaith parhaus o ystyried effaith chwyddiant, setliad tâl 2022/23 ayyb wedi crisialu sefyllfa'r Cyngor o ran adnabod yr hyn fydd effaith y penderfyniadau bydd rhaid eu cymryd wrth sicrhau ein bod yn gosod cyllideb gytbwys.

Mae'r gwaith manwl wedi cychwyn ar 14 Rhagfyr 2022, sef dyddiad cyhoeddi setliad referniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023 i 2024.

Mae'r setliad dros dro wedi dangos bydd rhaid i'r Cyngor barhau i chwilio am arbedion ariannol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 os ydym am osod cyllideb gytbwys. Mae pob un o'r cynlluniau arbed unigol wedi bod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu cymryd pan yn paratoi'r gyllideb yma:

- Trafodaethau rhwng cyfrifwyr gwasanaeth ac uwch swyddogion yr adrannau i ystyried bidiau a chynlluniau arbed
- Holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu gwahodd i seminar cyllideb ar 26 Ionawr 2023
- Cydweithio agos rhwng y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a swyddogion cyllid wrth ystyried bidiau
- Aelodau'r Cabinet wedi cael cyfle i fynegi barn ar yr asesiad o'r bidiau
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i graffu'r gyllideb ar 9 Chwefror
- Y Cabinet i ystyried y gyllideb ddrafft ar 14 Chwefror a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn
- Y Cyngor Llawn i osod y gyllideb ar gyfer 2023/24 a phennu cyfradd Treth Cyngor ar 2 Mawrth

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae'r gyllideb a amlinellir yma yn ceisio parhau i ddarparu deilliannau priodol i holl drigolion y sir. Nid yw'r cynnydd yng ngrant y Llywodraeth eleni yn ddigonol i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, felly er mwyn sefydlu cyllideb gytbwys rhaid chwilio am arbedion ariannol pellach.

Mae pob cynllun arbedion sydd eisoes yn y rhaglen i'w weithredu wedi bod yn destun asesiad ariannol ac asesiad cyfreithiol Effaith Cydraddoldeb ar yr adeg y cafodd ei gyflwyno. Mae cydnabyddiaeth fod posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.

Gan fod yr angen i gyflwyno cynlluniau arbed wedi dod yn amlwg yn ystod y flwyddyn ariannol, a'r gwir sefyllfa heb ddod yn amlwg tan Rhagfyr 2022, nid oedd amser yn caniatáu proses ymgynghori.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Ni fu proses ymgynghori.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cyllideb 2023/24 wedi ei lunio ar egwyddor "gynyddol". Hynny yw, defnyddir cyllideb 2022/23 fel cyllideb sylfaenol, gan wneud nifer o addasiadau cyn dod at gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24:

- Chwyddiant Cyflogau Staff
- Chwyddiant Arall (cyflenwyr)
- Cynnydd mewn ardollau (Awdurdod Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd)
- Addasiadau i adlewyrchu newidiadau mewn demograffi
- Bidiau ariannol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau
- Addasiadau technegol i'r gyllideb
- Cynnydd neu ostyngiad mewn costau benthyca a llog ar falansau
- Gwireddu arbedion sydd eisoes wedi cael eu cytuno
- Adnabod arbedion pellach sy'n rhaid eu cyflwyno

Mae pob un o'r bidiau ariannol a chynlluniau arbed wedi bod yn destun asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain.

Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.

Yn ogystal â chwrdd â phwysau chwyddiant, mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Anabledd	Positif	Mae'r drefn bidiau sydd wedi ei fanylu yn Atodiad 2 yn cynnwys gwariant ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol, ac yn oedi neu ddileu arbedion yn y maes yma.
Rhyw	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Oedran	Positif	Mae'r gyllideb a argymhellir yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Ailbennu rhywedd	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif	Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith positif ar fywydau pobl Gwynedd.

<p>Yr iaith Gymraeg</p>	<p>Positif</p>	<p>Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys sicrhau fod adnoddau wedi cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwasanaethau dwyieithog llwyr.</p> <p>Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.</p> <p>Wrth lunio'r gyllideb rhoddwyd sylw penodol i Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod llesiant. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i'r chweched nod sef 'Diwylliant a'r Gymraeg'.</p>
<p>Anfantais Economaid- Gymdeithasol</p>	<p>Positif</p>	<p>Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn diwallu anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau a argymhellir i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.</p> <p>Mae cyllidebau'r Cyngor, ac yn enwedig y bidiau llwyddiannus, wedi eu llunio i sicrhau fod yr awdurdod yn gallu parhau i gyfeirio adnoddau i leihau gwahaniaethu ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Mae unrhyw gynnydd yn y gyfradd Treth Cyngor yn bwysau ariannol ar bobl Gwynedd, ond mae dros 8,300 yn derbyn peth cymorth tuag at eu Treth Cyngor drwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.</p>

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Ni chredir bydd unrhyw effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Positif	Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn seiliedig ar waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd o sicrhau fod cyllideb yn ei le sydd adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Gwynedd
Meithrin perthnasau da	Niwtral	Mae'r gwaith o osod cyllideb yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir, ac mae'r balans o fidiau llwyddiannus ac arbedion yn ymateb i'r gwir bwysau sydd ar wasanaethau.

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae Cynllun newydd ar gyfer 2023-28 yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 2 Mawrth 2023. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.

Eleni, wrth lunio Cyllideb 2023/24, bu'n rhaid i'r Cyngor adnabod cynlluniau arbedion newydd, yn ogystal ag ystyried ymarferoldeb yr arbedion oedd wedi cael eu hadnabod yn flaenorol fel rhai i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23 ac sydd eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y prosesau statudol yn cynnwys cwblhau asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am effaith ar yr iaith Gymraeg. Wrth drin penderfyniadau am arbedion yn adroddiad Cyllideb 2020/21, casglwyd fod **dim effaith** wedi ei ganfod ar yr iaith Gymraeg ond fod angen cadw golwg wrth weithredu.

Wrth baratoi adroddiadau Cyllideb 2021/2022 a 2022/23 rhoddwyd ystyriaeth ar effaith arfaethedig y cyllidebau hyn ar y Gymraeg. Yn unol â'r arfer cwblhawyd asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r drefn yma yn parhau ar gyfer 2023/24.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Polisi ariannol yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith positif ar yr iaith.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Mae'r drefn o sefydlu cyllideb y Cyngor yn ganlyniad i gamau penodol sy'n ystyried cyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol a'r camau sydd angen eu cymryd i wedyn i adlewyrchu addasiadau sydd angen eu hystyried i ymdrin â phwysau ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ychwanegol i hynny mae sefyllfa gyllidebol holl wasanaethau'r Cyngor yn destun adolygiad manwl dair gwaith y flwyddyn, er mwyn adnabod unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu i ymdrin â thanwariant neu gorwariant – yn enwedig os nad ydi cyllidebau yn ddigonol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau. Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn lleihau anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Mae angen cyflwyno cynlluniau arbed newydd eleni yn ychwanegol i'r rhai sydd yn bodoli yn y rhaglen ers blynyddoedd blaenorol. Maent oll wedi dod yn destun asesiad fanwl i sicrhau fod anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei leihau.

Mae rhai o'r bidiau yr argymhellir eu hariannu yn cynnwys nifer sydd wedi eu cynllunio yn benodol i leihau anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae rhain wedi eu manylu yn Atodiad 2, ac yn cynnwys bid i gynyddu cyflogau gweithwyr gofal y Cyngor.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae'r ceisiadau am wariant ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau ("bidiau") wedi bod yn destun asesiadau manwl gan nifer o swyddogion ac aelodau a felly rydym yn hyderus fod pob cam sy'n ymarferol bosib i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r gyllideb wedi cael eu cymryd.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae unrhyw gynnydd mewn Treth Cyngor am gael effaith ar sefyllfa ariannol pobl Gwynedd, ond argymhellir cynnydd is na chwyddiant eleni, sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau efo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar osod y gyllideb a chyfradd y Dreth.

Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad dair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio tair gwaith y flwyddyn.

ATODIAD 9

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.
2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
 - Edrych i'r tymor hir – Mae'r gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, nid ar gyfer 2023/24 yn unig, ac yn cymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
 - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r Seminar Cyllideb Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
 - Cymryd agwedd integredig – Mae polisiau ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni wedi'u ystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
 - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
 - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu wedi cynnwys ymgysylltu â thriogion, cwsmeriaid a phartneriaid.
3. Prif gasgliadau am gyllideb 2023/24 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
 - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
 - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
 - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
 - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
 - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
 - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwyieithog)
 - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)

4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pryd cymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol. Mae cynlluniau arbed newydd sy'n cael eu cyflwyno yn y gyllideb yma – gan gynnwys rhai yn yr ysgolion – yn arbedion effeithlonrwydd yn bennaf ond yn sicrhau fod modd gosod cyllideb gytbwys sy'n amddiffyn adnoddau i'r dyfodol.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

ATODIAD 10

CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:

4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2022/23, yn sgil cyfnod diweddar o chwyddiant cynyddol, caniatwyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am dâl a phrisiau. Fodd bynnag, roedd disgwyl y byddai'r lefel gymharol uchel gyfredol o chwyddiant ar y pryd yn gostwng yn ystod 2022/23, ond cydnabuwyd y risg y byddai chwyddiant yn codi ymhellach. Wrth osod cyllideb 2022/23, nodwyd fod mwy o ansicrwydd nag arfer ynghylch lefel tebygol ac y gallai cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellid lleddfu hyn drwy ddefnyddio cyllideb wrth gefn fel bo'r angen.

Mewn gwirionedd, gwelwyd chwyddiant cyffredinol yn codi i lefelau nas gwelwyd ers degawdau. Mae'r rhagolygon annibynnol sydd wedi eu derbyn yn dangos fod disgwyliad i gyfraddau chwyddiant ostwng yn ystod 2023/24 ond byddant yn aros yn gymharol uchel yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn adlewyrchu hyn ac rwyf yn fodlon fod amcangyfrifon darbodus o lefelau chwyddiant wedi eu cynnwys.

5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor (mewn eitem ddilynol ar raglen y cyfarfod hwn), nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar ddychweliadau rhy uchel. Yn 2021 roedd cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed, ond maent wedi cynyddu ers hynny. Fodd bynnag, er disgwylir cynnydd bychan pellach yn gynnar yn 2023/24, disgwylir i'r cyfraddau llog ddechrau gostwng yn nes ymlaen yn y flwyddyn wrth i'r economi grebachu a lefelau chwyddiant yn gostwng. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel a byddai'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu a gostwng gyda'r llall.

6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Rydym wedi derbyn grantiau penodol sylweddol ym maes gofal cymdeithasol yn ystod blynyddoedd ariannol diweddar, ag ymrwymadau cysylltiedig, sy'n gwneud cynllunio cyllidol yn anodd. Yn gyffredinol, bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan ddaw grant i ben, ond mae'n bosib bydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael am grantiau, ond mae'r cyrrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.

Credaf fod risg uwch na'r arfer yn 2023/24 o safbwynt incwm gan fod nifer o'r cynlluniau arbed arfaethedig ynghlwm â chynyddu incwm.
8. **Risg gyda Covid-19** – Daeth Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru, a fu'n digolledu Cyngor Gwynedd gyda chymorth grant gwerth cyfanswm oddeutu £20m yn 2020/21 a £14.4m yn 2021/22, i ben ar 31 Mawrth 2022. Felly, yng nghyllideb 2022/23 Cyngor Gwynedd, gwnaed darpariaeth parhaol ychwanegol o £1.4m i ddygymod â chostau a colledion o barhad yr argyfwng. Hefyd, mae cronfeydd penodol (y Gronfa Covid, a Chronfa'r Strategaeth Ariannol) wedi cael eu diogelu i fod wrth gefn i gefnogi unrhyw wariant neu golled incwm uwchlaw'r £1.4m yng nghyllideb 2022/23. Yn ystod y flwyddyn, credir fod y gwir wariant fel canlyniad i Covid-19 wedi bod oddeutu £1.9m, a hynny'n bennaf oherwydd pwysau yn y maes digartrefedd. Mae'r swm o £1.4m yn parhau yn y gyllideb ar gyfer 2023/24 ond credaf gellir rhyddhau'r Gronfa Covid mewnol bellach er mwyn ymdrin â phwysau ariannol ar y Cyngor.
9. **Risg ac Arbedion** – Mae cyllideb 2023/24 yn cynnwys £950,250 o arbedion hanesyddol oedd eisoes wedi eu rhaglennu, yn ogystal â £4.2m o arbedion newydd er mwyn gallu gosod cyllideb gytbwys. Fodd bynnag, mae hanes gan rai o adrannau'r Cyngor o fethu cyflawni eu cynlluniau arbed ac mae hynny'n cyflwyno risg arwyddocaol i gynnaladwyedd ariannol hirdymor. Yn unol â'r drefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darpariaeth o 20% o werth cynlluniau arbed newydd er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae cynlluniau arbed yn llithro.

10. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Ni fydd llawer o achosion eleni, ond lle'n briodol caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
11. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth posibl o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.
12. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod :	14 Chwefror 2023
Aelod Cabinet :	Y Cyng. Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswilt :	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Adran / Gwasanaeth :	Tîm Arweinyddiaeth
Teitl yr Eitem	Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28
1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR	
1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 2ail o Fawrth 2023.	
2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD	
2.1 Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y Cynllun a'i fod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod er argymhell bod y Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 2ail o Fawrth 2023.	
3. CYFLWYNIAD	
3.1 Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yw ein datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Mae'n cyfleu ein blaenoriaethau a'n huchelgais ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ynghyd a'r prosiectau y byddwn yn eu cyflawni.	
3.2 Dros y misoedd diwethaf mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn adnabod meysydd y dylid eu blaenoriaethu o ystyried yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Bydd hyn yn gosod cyfeiriad i waith y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023-28. Fel rhan o'r broses, ystyriwyd sawl darn o waith / gwybodaeth, gan gynnwys y prosiectau oedd yn y Cynllun presennol 2018-23, adborth o waith ymgysylltu Fframwaith Adfywio 'Ardal Ni', a'r Asesiadau Llesiant gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.	
3.3 Fel rhan o'r broses o lunio'r Cynllun, cynhaliwyd dau sesiwn gweithdy ar gyfer yr holl Aelodau Etholedig yn ystod mis Rhagfyr 2022. Rhoddwyd cyfle iddynt amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw ar lefel sirol ynghyd â'r ardaloedd y maent yn eu cynrychioli.	
3.4 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 8fed o Ragfyr hyd at 3ydd Ionawr i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy	

gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynggori <<http://www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynggori>>. Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol. Derbyniwyd 643 o ymatebion i'r holiadur.


- 3.5 Yn gyffredinol roedd cytundeb i'r blaenoriaethau drafft ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r Cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn. Un pwynt a godwyd yn yr ymgynghoriad oedd yr angen i ystyried cynnwys prosiect yn ymwneud hefo darparu cyfleoedd chwarae/hamdden i blant a phobl ifanc. O ganlyniad mae prosiect ychwanegol wedi ei gynnwys 'Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir'.
- 3.6 Nodir hefyd fod addasiadau wedi eu gwneud i brosiectau ym Maes Blaenoriaeth 4 o'i gymharu â'r hyn yr ymgynghorwyd ar yn ôl yn yr Hydref. Mae'r prosiectau oedd yn y cynllun blaenorol (Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol ac Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal) wedi eu hail-becynnu o fewn 3 prosiect newydd - Cefnogaeth Ataliol yn Lleol, Byw'n Annibynnol a Gofal Arbenigol o Ansawdd. Y gobaith ydy bod y prosiectau newydd yn adlewyrchu taith unigolyn trwy'r gwasanaethau ac yn fwy dealladwy i'r llysgwr.
- 3.7 Mae Cynllun y Cyngor yn seiliedig ar y deunyddiau hyn a cheir copi drafft yn **Atodiad 1**. Mae'n cynnwys y **penawdau a meysydd blaenoriaeth** ar gyfer 2023-28 (rhain yw ein hamcanion llesiant i bwrpas gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a'r **uchelgeisiau** ar gyfer y meysydd hynny. Yn ogystal, ceir disgrifiad cryno ar gyfer pob **prosiect** y byddwn yn ei weithredu gan amlinellu pam ein bod yn rhoi sylw iddo a'r hyn y byddwn yn ei wneud dros gyfnod y cynllun er mwyn ymateb.
- 3.8 Dylid nodi mae fersiwn drafft ar ffurf naratif yn unig a gyflwynir i'r cyfarfod hwn. Y bwriad ar gyfer y cynllun newydd yw y bydd yn ddogfen gryno fydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y meysydd blaenoriaeth, uchelgeisiau a'r prosiectau blaenoriaeth. Ceir esiampl o ddiwyg drafft ar gyfer cynllun 2023-28 yn **Atodiad 2**.
- 3.9 Rydym yn cyflwyno Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn i'r Cabinet bwysu a mesur os ydi'r prosiectau yn dderbyniol o safbwynt yr effaith a gânt ar bobl sydd ag un neu fwy o'r nodweddion sydd wedi eu gwarchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asesiad i'w weld yn **Atodiad 3**.

4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cynllun.

4.2. Adnoddau

Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a nodir ar gyfer nifer o'r prosiectau o fewn y Cynllun. Heb yr adnodd mae'n bosibl na fydd modd i ni gyflawni'r hyn a nodir. Ar hyn o bryd cynigir bod yr holl



brosiectau yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r Cynllun, yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w hariannu, wedi iddynt ystyried pob achos busnes unigol. Disgwylir i hyn ddigwydd cyn gynted ag y bo'n bosibl.

4.4 Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 rhwng 8fed Rhagfyr 2022 a 3ydd Ionawr 2023. Darparwyd cyfleoedd priodol i unigolion a grwpiau diddordeb gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur oedd ar gael ar wefan y Cyngor neu gopiâu papur oedd ar gael yn Siopau Gwynedd a Llyfrgelloedd y sir. Yn ogystal, cysylltwyd gyda mudiadau trydydd sector i'w hannog i gymryd rhan.

Derbyniwyd 643 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac yn gyffredinol roedd cytundeb i'r blaenoriaethau a'r prosiectau drafft yr ydym wedi eu hadnabod. Ceir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn **Atodiad 5**.

Mae pwyntiau 3.4, 3.5 a 3.6 yn yr adroddiad uchod yn amlygu'r addasiadau sydd wedi eu gwneud i'r cynllun drafft yn dilyn yr ymgynghoriad. Bydd angen ystyried os oes unrhyw faterion eraill wedi codi yn yr ymgynghoriad sydd angen rhoi sylw iddynt.

4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant.

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 rydym hefyd wedi adolygu ein hamcanion llesiant. Wrth adolygu ein hamcanion llesiant, rydym wedi ystyried nifer o ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth o sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd gydag Aelodau Etholedig, ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Cynllun y Cyngor a chanlyniadau Asesiadau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a gyhoeddwyd yn 2022.

Bydd ein hamcanion llesiant yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol ac yn cynnwys y camau ymarferol neu brosiectau y byddwn yn eu gweithredu er mwyn cyfrannu tuag at yr amcan. Y bwriad fydd i'w hadolygu'n rheolaidd.

Fel rhan o'r broses rydym hefyd wedi adolygu ein Datganiad Llesiant (**Atodiad 4**).

4.6 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 2**.

Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 2il o Fawrth 2023.
- 5.2. Ar ôl i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Cynllun, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r modd gorau o gyfathrebu prif negeseuon y cynllun gyda'r cyhoedd, a bydd cyfle i Aelodau Cabinet roi eu barn ar hynny yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun.

6. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Pennaeth Cyllid

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y bum mlynedd nesaf. Gallaf gadarnhau fod cronfeydd penodol, cyfyngedig, yn eu lle i ariannu blaenoriaethau'r Cynllun. Mae cydnabyddiaeth yn yr adroddiad y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, a felly rwyf yn cytuno gyda'r hyn a nodir ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, fod angen ystyried pob achos busnes yn unigol cyn fod cytundeb i'w hariannu.

Mae priodoldeb ariannol yn golygu byddwn yn parhau i sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario.

ii. Y Swyddog Monitro:

Mae mabwysiadu Cynllun y Cyngor yn un o brif swyddogaethau y Cyngor Llawn ac mae argymhelliad y Cabinet yn greiddiol i'r broses. Cydnabyddir yn briodol yn y adroddiad fod y cyd berthynas gyda gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymhlyg yn y cynllun. Mae'n allweddol fod y Cabinet wrth ffurfio yr argymhelliad yn dal sylw penodol i'r wybodaeth sydd yn deillio o'r broses ymgynghori a'r Asesiadau Ardrawiad sydd wedi eu hatodi.

Atodiadau:

- Atodiad 1 – Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (Drafft)
- Atodiad 2 – Copi drafft o'r diwyg ar gyfer y Cynllun newydd
- Atodiad 3 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Atodiad 4 – Datganiad Llesiant 2023/24
- Atodiad 5 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynllun
Cyngor Gwynedd
2023-28



Rhagair Arweinydd y Cyngor

Braint yw cael cyflwyno Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 sy'n gosod ein dyheadau a blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf. Nid dogfen ddi-ddim i'w roi i'r un ochr ac anghofio amdani yw hon, ond yn hytrach dyma lawlyfr sy'n dangos yn glir sut yr ydym am wireddu ein haddewid i'n trigolion dros y cyfnod nesaf.

Heb os, dyma Gynllun uchelgeisiol a hynny mewn hinsawdd heriol tu hwnt. Rydym yn cael ein gwasgu o nifer o gyfeiriadau gyda rhai o sgil effeithiau Covid-19 a Brexit yn parhau, yn ogystal â'r cynnydd mewn costau byw ac ynni sy'n effeithio'n ar ein trigolion o ddydd i ddydd. Mae chwyddiant a phenderfyniadau annoeth gan Weinidogion yn San Steffan yn golygu bod Awdurdodau Lleol yn wynebu toriadau difrifol dros y blynyddoedd nesaf - hynny oll tra bod y galw am wasanaethau a chymorth gennym yn cynyddu.

Rydym yn brwydro yn erbyn y llif, ac ni fyddai hyn yn bosib heb ein gweithlu ymroddedig sy'n parhau i gynig gwasanaeth i bobl Gwynedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae ein diolch yn fawr i bob un ohonynt.

Gwyddom hefyd mai ffôl fyddai ceisio cyflawni'r uchelgeisiau ar ein pen ein hunain. I lwyddo mae angen i ni gyd-weithio a pharhau i fagu perthynas iach gydag ystod eang o bartneriaid - y trydydd sector, y sector breifat, gwasanaethau cyhoeddus eraill ac wrth gwrs ein cymunedau brwdfrydig. Mae Gwynedd yn sir unigryw. Yma mae gennym gymunedau Cymraeg naturiol a bywiog, ac mae ein hymrwymiad i fod ar flaen y gad wrth hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym mhob man ac ar bob achlysur yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth.

O brysurdeb Dinas Bangor, i bendraw Llŷn a lawr i gefn gwlad Dde Meirionnydd, mae'n naturiol na fydd anghenion yr ardaloedd yr un fath ac mae'r Cynllun yn adeiladu ar sgysiau a gynhaliwyd â chymunedau yn ystod 2022. Tra bod llawer o benderfyniadau allan o'n dwylo ac i'w wneud ymhell o Wynedd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, rydym wedi gwneud yn siŵr ein bod yn cyfeirio'r adnoddau prin sydd gennym i'r meysydd lle mae eu hangen fwyaf.

Yn fy marn i, ni fu erioed fwy o angen am lywodraeth leol gref. Mae ein cynllun corfforaethol newydd yn dangos sut y gallwn, fel Cyngor, weithio ar y cyd ar draws Gwynedd i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen fel bod pob un o'n trigolion yn byw bywyd da a diogel.

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd

Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf.

Yn dilyn ymgynghoriad eang gyda pobl Gwynedd fel rhan o gynllun Ardal Ni, ynghyd a nifer o drafodaethau ac adborth gan drigolion y sir a thu hwnt, lluniwyd cyfres o flaenoriaethau a phrosiectau fydd yn ein galluogi i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd ymhellach.

Wrth gwrs, dim ond rhan o weithgareddau'r Cyngor a welir yma, ac mae'r gwaith dyddiol o ddarparu gwasanaethau yn parhau ledled y sir.

Fel mae pawb yn gwybod bellach, mae hi'n gyfnod anodd yn ariannol, a does dim dwywaith y bydd hi'n her i'r Cyngor gyflawni pob un o'r prosiectau ar amser. Fodd bynnag, byddwn yn anelu'n uchel dros y pum mlynedd nesaf ac yn gweithio'n galed er mwyn cyrraedd pob uchelgais sydd wedi ei gosod ar gyfer y blaenoriaethau yn y cynllun. Er mwyn gwneud hynny byddwn yn adolygu'r cynllun yn gyson ac yn gosod cerrig milltir ar gyfer pob brosiect er mwyn caniatáu i ni fesur ein cynnydd yn flynyddol.

Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer y pum mlynedd nesaf o dan saith maes blaenoriaeth:

- **GWYNEDD YFORY** - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- **GWYNEDD LEWYRCHUS** - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- **GWYNEDD GLYD** - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- **GWYNEDD OFALGAR** - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- **GWYNEDD GYMRAEG** - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- **GWYNEDD WERDD** - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- **GWYNEDD EFFEITHLON** - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon.

Y Meysydd Blaenoriaeth o fewn y ddogfen hon yw ein Hamcanion Llesiant dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015). Bydd yr Amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nôd llesiant cenedlaethol.

Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r pum ffordd o weithio o fewn y Ddeddf trwy ystyried yr hirdymor, atal, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio sydd â'i ffocws ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Gweler wybodaeth bellach am hynny yn ein Datganiad Llesiant – gweler Atodiad 4.

Meysydd Blaenoriaeth a Phrosiectau

Mae'r saith maes blaenoriaeth isod wedi eu hadnabod ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

1. Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
2. Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
3. Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
4. Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
5. Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
6. Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
7. Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon.

Mae'r isod yn amlinellu'r prosiectau fesul Maes Blaenoriaeth.

Maes Blaenoriaeth 1 – GWYNEDD YFORY

Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

Ein huchelgais yw sicrhau fod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:

- Eu trin yn gyfartal, eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.
- Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academiaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.
- Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.
- Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas hyd orau ein gallu.
- Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.
- Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol yn ddi-gost i gymaint o ddisgyblion a sy'n bosibl.
- Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol
- Sicrhau fod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael iddynt yn eu hamser hamdden pan yn blant ac yn bobl ifanc.

Prosiectau	Trosolwg
Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod mewn addysg.
Cinio ysgol am ddim	Bydd holl blant ysgolion cynradd y sir yn cael cinio ysgol am ddim, a byddwn yn ystyried os yw'n bosibl ymestyn hyn i ddisgyblion uwchradd hefyd. O ganlyniad, bydd angen i ni uwchraddio ein ceginau a'r manau bwyta er mwyn ymdopi gyda'r niferoedd uwch fydd yn cael cinio ysgol.
Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu	Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol dros y degawd diwethaf, mae nifer o adeiladau ysgolion y sir dal i

	<p>fod yn hen ac angen eu moderneiddio. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir ac yn benodol ardal Bangor a Cricieth, a byddwn yn cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd.</p> <p>Byddwn hefyd yn gorffen ein adolygiad o drefniadau addysg ôl-16 yn Arfon er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y trefniant gorau i ddysgwyr yr ardal.</p>
Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau y gost o anfon plant i'r ysgol	<p>Gyda chostau pethau dyddiol fel gwisg ysgol, bwyd, cludiant, a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd, rydym am ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, tra'n gwarchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr mae ein plant yn gael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.</p> <p>Byddwn hefyd yn ymdrin gyda materion llesiant yn cynnwys effeithiau emosiynol a seicolegol, ac yn cefnogi materion ehangach sy'n effeithio plant a phobl ifanc, er enghraifft magu hyder, cydraddoldeb, iechyd meddwl, problemau cludiant, a sicrhau profiad gwaith a chyfleon am swyddi.</p>
Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir	<p>Mae cyfleon chwarae yn bwysig i ddatblygiad plentyn ac mae darparu meysydd chwarae o safon yn un ffordd y gallwn hybu'r cyfleon hyn. Byddwn felly yn ail edrych ar ein holl feysydd chwarae ac yn datblygu cynllun fydd yn ystyried sut y gallwn eu gwella yn ogystal â'u cynnal.</p> <p>Byddwn hefyd yn edrych ar sut mae'r ddarpariaeth newydd ar gyfer leuenctid yn gweithio ar draws y Sir a pha ddeilliannau y mae'n cyflawni i bobl ifanc</p>

Maes Blaenoriaeth 2 – GWYNEDD LEWYRCHUS

Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Ein huchelgais yw i sicrhau:

- Swyddi o safon
- Cefnogi busnesau i ffynnu
- Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau
- Cymunedau cryf a gwydn
- Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm

Prosiectau	Trosolwg
Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	<p>Byddwn yn cymryd cyfres o gamau er mwyn hyrwyddo ein diwylliant a chreu economi ymweld gynaliadwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a luniwyd ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cael ei lansio yng Ngwanwyn 2023. Bydd prif bartneriaid a rhan ddeiliaid yn cydweithio i gyflawni'r hyn fydd yn y Cynllun gan sefydlu

	<p>Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn sicrhau llewyrch o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru a sicrhau adnoddau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd. • Byddwn yn Rheoli Cartrefi Modur sy'n ymweld â Gwynedd drwy beilota datblygu hyd at 6 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos. • Bydd cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2023 yng Ngwynedd yn lwyfan i ddathlu ein diwylliant a iaith, celfyddydau a chwaraeon a sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol gadarnhaol ar gymunedau Gwynedd.
Adfywio cymunedau a chanol trefi	<p>Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio drwy ddatblygu Cynlluniau Adfywio Lleol ar gyfer 13 dalgylch ar draws y sir ac yn sicrhau trefniadau traws-adrannol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod rhaglenni gwaith yn cyd-blethu a rhannu gwybodaeth gyda chymunedau drwy barhau gyda'r gwaith ymgysylltu. Bydd cynlluniau gweithredu ar gyfer Canol Tref/ Dinas yn cael eu paratoi ar gyfer trefi unigol.</p>
Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith	<p>Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad llafur i ddechreio i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol.</p>
Cadw'r Budd yn Lleol	<p>Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nwyddau a gwasanaethau sylweddol gan gwmnïau allanol ac rydym yn awyddus i weld busnesau lleol yn cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.</p> <p>Bydd y prosiect yma yn sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i gefnogi busnesau lleol i ymgeisio am gyfleon, o fewn y rheolau perthnasol, tra ar yr un pryd yn sicrhau fod y Cyngor yn cael y gwerth gorau am yr arian sy'n cael ei wario.</p>

Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau

Ein huchelgais yw i sicrhau bod gan pob person yng Ngwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd. Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy osod uchelgais i:

- Sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned
- Sicrhau bod tai newydd yng Ngwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Sicrhau fod tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir

Prosiectau	Trosolwg
Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol	<p>Byddwn yn cyflawni'r prosiectau sydd yn rhan o'n Cynllun Gweithredu Tai i gynyddu'r cyfleon i drigolion Gwynedd allu sicrhau cartref addas. Ymysg y 33 prosiect unigol sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai, byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cydweithio gyda'r Cymdeithasau tai lleol i adeiladu mwy o dai cymdeithasol trwy gyflymu'r rhaglen adeiladu gan anelu i godi 500 o dai newydd.• Adeiladu ein tai ein hunain mewn safleoedd ar draws y sir. Byddant ar gael i drigolion lleol ar rent canolraddol neu i'w prynu trwy gynlluniau rhannu ecwiti. Anelir i godi 100 o dai o'r math yma.• Prynu tai preifat er mwyn eu gosod ar rent fforddiadwy i bobl leol. Byddwn yn targedu tai gwag yn y lle cyntaf ond byddwn hefyd yn edrych ar dai sydd ar y farchnad agored. Anelir i brynu 100 o dai fforddiadwy dros oes y Cynllun.• Darparu cymorth ar ffurf cynllun rhannu ecwiti fel y gall prynwyr tro cyntaf lleol gystadlu yn y farchnad dai.• Darparu grantiau er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol. Bydd hyn yn dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd ac yn helpu pobl ifanc a phrynwyr tro cyntaf i fyw mewn tŷ. Anelir i ddod â 250 o dai gwag yn ôl i ddefnydd.• Byddwn yn prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol.
Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd	<p>Mae costau ynni cynyddol yn golygu fod nifer o bobl y sir yn methu fforddio cadw eu tai yn gynnes, ac o ganlyniad mae perygl gwirioneddol i iechyd rhai o'n trigolion.</p> <p>Byddwn yn cydweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo a hwyluso cynlluniau arbed ynni, grantiau, a budd-daliadau er mwyn sicrhau fod cymaint o bobl a phosib yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael ar adeg heriol iawn.</p>
Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd	<p>Er mwyn sicrhau nad ydi pobl digartref yn gorfod treulio amser maith mewn llety dros dro, byddwn yn:</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu uned ‘tai â chefnogaeth’ ein hunain, sef llety lle darperir cefnogaeth i unigolion digartref gan staff arbenigol er mwyn caniatáu iddynt ddysgu a datblygu sgiliau bywyd er mwyn gwella eu gallu i gynnal tenantiaeth yn y dyfodol. • Adnewyddu ac uwchraddio hen adeilad NatWest a GISDA yng Nghaernarfon i ddarparu pump fflat i ieuenctid digartref, ac ymestyn y caffi presennol i greu cyflogaeth i’r digartref, ynghyd â chreu cartref parhaol i GISDA a chreu gofod aml-asiantaethol i gefnogi ieuenctid digartref. • Rhoi pecyn cefnogaeth at ei gilydd i annog landlordiaid preifat i gynnig llety parhaol i’r digartref, yn hytrach na’u gosod am gyfnodau tymor byr neu fel llety gwyliau. Anelir i gael 100 o unedau llety parhaol dros oes y Cynllun. • Gweithio i atal digartrefedd trwy gynyddu ein capasiti i gynorthwyo a chefnogi unigolion bregus i barhau yn eu cartref. • Ceisio symud pobl digartref i lety sefydlog cyn gynted â phosibl, yn hytrach na’u bod yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir.
<p>Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr</p>	<p>Mae’r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sy’n cael eu defnyddio fel ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr yn cael effaith andwyol ar allu pobl y sir i gael mynediad at gartrefi yn eu cymunedau.</p> <p>Mae’r Cyngor wedi cyflwyno ymchwil manwl i’r Llywodraeth yn amlygu’r angen am weithredu ym meysydd cynllunio, trethiant a thrwyddedu er mwyn cael gwell rheolaeth o’r sefyllfa. Yn dilyn cyhoeddiadau diweddar gan y Llywodraeth, gan gynnwys sefydlu Peilot Dwyfor sy’n ymrwymo i gyflwyno camau i daclo problemau yn y maes, mae’r Cyngor yn paratoi i weithredu’r newidiadau deddfwriaethol mor fuan a phosibl. Byddwn hefyd yn gosod premiwm treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag bob blwyddyn ar gyfradd priodol i ymateb i’r sefyllfa ar y pryd.</p>

Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

Mae gofalu am unigolion bregus yn un o brif gyfrifoldebau a'n huchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau drwy:

- Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy'n agored i niwed.
- Gefnogi trigolion i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda'u cymunedau, ac i leihau tloedi a'i effeithiau.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, iechyd a lles.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion Gwynedd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
- Alluogi trigolion Gwynedd i fyw yn annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
- Gefnogi gofalwyr di-dâl.
- Ddarparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Cefnogi ein cymunedau i sicrhau hygyrchedd ac i ddatblygu'n Wynedd Oed-Gyfeillgar.

Prosiectau	Trosolwg
Cefnogaeth Ataliol yn Lleol	<p>Byddwn yn gweithio'n ataliol i gefnogi a diogelu unigolion yn lleol drwy hybu eu llesiant a'u hannog i gyfrannu o fewn eu cymunedau.</p> <p>Ymysg ein cynlluniau mae:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cyfrannu at ddatblygiadau iechyd a gofal ym Mangor a Phenygroes• Ehangu ein rhwydwaith o hybiau cymunedol ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Ganolfan Dolfeurig, Dolgellau• Cyhoeddi rhaglen o weithgareddau a chyfleon i unigolion a gofalwyr ar draws y sir• Sicrhau fod Gwynedd yn sir oed gyfeillgar a bod trigolion o bob oed yn medru cael bywyd da yn eu cymuned leol• Rhannu gwybodaeth gyda'n cymunedau'n fwy effeithiol a gwella ein dulliau o ymgysylltu wrth ddatblygu'n gwasanaethau
Byw'n Annibynnol	<p>Mae anghenion gofal unigolion y sir yn newid ac mae unigolion yn byw'n hirach. Mae angen i ni felly addasu ein gwasanaethau i alluogi pobl i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau.</p> <p>Ymysg ein cynlluniau mae:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ehangu ein darpariaeth gofal dydd ac ysbaid a darparu rhagor o opsiynau llety addas ar gyfer unigolion ag ystod eang o anghenion, megis Tai Gofal Ychwanegol• Cydweithio ar draws sectorau i sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cartref wedi'u teilwra ac ar gael yn brydlon pan fo'u hangen• Arwain ar Gynllun Gofalwyr ar draws y maes gofal Oedolion a Phlant i gefnogi gwaith amhrisiadwy gofalwyr di-dâl ar draws y sir

	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau ein bod yn defnyddio teleofal a thechnoleg i'w lawn botensial i hybu annibyniaeth unigolion • Hwyluso'r broses o dderbyn a darparu gofal drwy daliadau uniongyrchol drwy ystyried dulliau megis Waled Rhithiol
Gofal Arbenigol o Ansawdd	<p>Byddwn yn sicrhau bod gofal priodol ac arbenigol ar gael yn amserol; a hynny ar draws ein holl darpariaethau gofal.</p> <p>Ymysg ein cynlluniau mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau darpariaeth nyrsio a dementia digonol ar draws y sir gan gynnwys datblygu gwlaŵ nyrsio ar safle Penrhos, Pwllheli • Sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i'n galluogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. • Datblygu ein gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau pwyslais digonol ar lesiant unigolion • Cryfhau ein gallu i gefnogi darparwyr gofal i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd • Cyfrannu at brosiect Cynllunio'r Gweithlu i sicrhau sylw priodol i heriau a chyfleon penodol y maes gofal • Rhoi trefniadau newydd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith i warchod hawliau pobl sy'n derbyn gofal yn y sir
Cefnogi Llesiant Pobl	<p>Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach.</p> <p>Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.</p>
Cynllun Awtistiaeth	<p>Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei angen. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau.</p>
Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan	<p>Rydym am wella profiadau'r plant sydd yn ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.</p>

Maes Blaenoriaeth 5 – GWYNEDD GYMRAEG

Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Fel arweinydd cenedlaethol byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Ein huchelgais yw:

- Sicrhau fod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac mewn bywyd cymdeithasol.
- Hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir a sicrhau fod cyfleon digonol i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.
- Gydweithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r gallu i drigolion Gwynedd gael mynediad at holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.

Prosiectau	Trosolwg
Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant	Mae'n hanfodol fod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf, a gaiff ei ledaenu ar draws Cymru. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg hefyd yn cael y cyfle i fagu hyder a gloywi eu Cymraeg drwy gefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi. Rydym hefyd am weld ehangu ein dulliau trochi iaith i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau ble mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a thu allan i'r ysgol yn gyfyngedig. Bydd y prosiect yma mewn cydweithrediad efo'r Gyfundrefn Drochi a'n hysgolion yn rhoi'r cyfle gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd	Byddwn yn cynnal prosiectau penodol fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.

Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, a'n nod yw i fod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Ein huchelgais yw i sicrhau:

- Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd natur.
- Rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.
- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

Prosiectau	Trosolwg
Gweithredu ar risgiau llifogydd	<p>Mae risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol yn cynyddu gyda effaith newid hinsawdd sy'n golygu fod lefelau mor yn codi a stormydd mwy dwys yn digwydd yn fwy aml. Mae gan Wunedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sy'n eu gwasanaethu, ar yr arfordir.</p> <p>Byddwn yn cydweithio gydag asiantaethau eraill, er mwyn blaenoriaethu ein harfordir ar sail risg, ac yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau lle bo hynny'n bosibl.</p> <p>Mae yna hefyd risg o lifogydd mewndirol pan fo dŵr yn cronni ac afonydd yn gorlifo. Byddwn yn llunio cynlluniau dalgylch er mwyn helpu i osgoi/ymateb i fygythiadau presennol a chynyddol i'r dyfodol.</p>
Gwastraff ac ailgylchu	<p>Byddwn yn paratoui strategaeth wastraff ac ailgylchu newydd er mwyn ceisio cynyddu'r lefel ailgylchu yn y sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025. Bydd yn asesu pa mor effeithiol yw'n trefniadau casglu sbwriel presennol o ran hybu ailgylchu (o ddrws i ddrws ac yn ein canolfannau) ac yn cyflwyno trefniadau newydd lle bo angen.</p>
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur	<p>Mae 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' y Cyngor yn gosod uchelgais sy'n nodi y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."</p> <p>Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad eang o brosiectau i leihau allyriadau carbon o'n defnydd o fflyd a theithio, defnydd o adeiladau, caffael, goleuo strydoedd a sawl maes arall. Byddwn yn cychwyn gyda buddsoddiad pellach o £3m mewn cynlluniau ynni adnewyddol a byddwn hefyd yn llunio mesurau penodol i fynd i'r afael â sgil effaith newid hinsawdd ar gymunedau Gwynedd.</p>
Teithio Llesol	<p>Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau fod cerdded a beicio yn dod y dewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, er mwyn gwella iechyd personol, ansawdd yr aer ac yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt.</p>

	Byddwn yn gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicio yn ein cymunedau.
Trafnidiaeth Gyhoeddus	Byddwn yn adolygu ein darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus presennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos. Fel rhan o'r cynllun yma, byddwn hefyd yn cyflwyno bysiau trydan newydd.
Cynllun Datblygu Lleol newydd	Byddwn yn llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Gwynedd fydd yn cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf.
Cymunedau Glân a Thaclus	Mae gwaith ymgysylltu diweddar wedi amlygu fod cymunedau glân a thaclus yn hanfodol os am hybu balchder bro. Mewn ymateb i hyn byddwn yn hwyluso gwelliannau ffisegol i'r amgylchedd adeiledig oddi fewn i ac yng nghyffiniau trefi a phentrefi yng Ngwynedd, trwy ganolbwyntio ar lefydd agored cyhoeddus. Byddwn hefyd yn hybu perchnogaeth leol a datblygu ymdeimlad o falchder bro drwy gydweithio a magu perthnasau â grwpiau/mudiadau lleol, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector.

Maes Blaenoriaeth 7 - GWYNEDD EFFEITHLON

Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Er mwyn sicrhau fod trigolion Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau fod ein trefniadau gweithredu mewnol o'r safon uchaf pob amser. Ein huchelgais yw:

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

Prosiectau	Trosolwg
Cynllunio'r Gweithlu	Prif nod y prosiect ydi sicrhau fod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, a bod modd i ni sicrhau fod y cyflenwad hwnnw yn ei le am y tymor hir. Byddwn yn mynd i'r afael â phroblemau penodol recriwtio staff mewn meysydd allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg.
Datblygu diwylliant y Cyngor	Mae diwylliant y Cyngor yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud ac mae hynny yn golygu cael gwared o rwystrau sy'n atal staff rhag

	<p>gallu cyflawni, gyda penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na thybiaethau.</p> <p>Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.</p> <p>Byddwn yn canolbwyntio ar wreiddio diwylliant o rymuso, galluogi a chyflawni ar draws yr holl weithlu sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol yn ogystal ag yn anuniongyrchol i drigolion Gwynedd.</p>
Sicrhau tegwch i bawb	<p>Byddwn yn parhau gyda gwaith sydd eisoes ar y gweill er mwyn sicrhau fod y Cyngor, yn ei holl weithredoedd, yn rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb.</p> <p>Byddwn yn adnabod gwaith sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn trin pawb mewn ffordd sy'n deg, beth bynnag eu nodweddion cydraddoldeb, cefndir ac anghenion.</p>
Merched mewn arweinyddiaeth	<p>Mae'r nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad y gweithlu cyfan. Byddwn felly yn parhau gyda rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, a chreu ffordd ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd fel rhan o'r rhaglen i annog mwy o ferched i ymgeisio am uwch-swyddi o fewn y Cyngor.</p>
Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol	<p>Mae'r Cyngor eisoes wedi torri ei gyllidebau er mwyn arbed dros £32m ers 2015/16, ond yn sgil y sefyllfa economaidd bresennol, nid yw'r arian bydd y Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn ddigonol i ymdopi â chwyddiant a phwysau gwario newydd.</p> <p>Rydym yn wynebu bwlch ariannol o dros £12 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf,</p> <p>Byddwn yn ymdrechu i wneud popeth y gallwn i leihau'r effaith ar y gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd gan dderbyn na fydd modd gosod cyllideb hafal heb gyfres faith o arbedion/toriadau a chynyddu'r dreth Cyngor yn uwch nag a fyddem yn ddymuno.</p>
Cynllun Digidol	<p>Mae disgwyliadau a thueddiadau pobl wedi newid yn sylweddol yn sgil y pandemig, ac mae hyn yn gyfle i weld os oes modd i ni wella profiad trigolion Gwynedd o wasanaethau rheng flaen a swyddfa gefn ymhellach drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.</p>
Adolygiad strategol ar reolaeth iechyd a Diogelwch	<p>Mae'r prosiect yma yn edrych ar reolaeth strategol iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor a'r ffordd mae hynny yn clymu i systemau llywodraethu a pherfformiad cyffredinol. Mae'n golygu cynnal adolygiad llawn o'r system reoli yn ei chyfanrwydd.</p>
Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol	<p>Byddwn yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo o'r newydd fydd yn amlinellu cynllun y Cyngor o ran y defnyddio'n adeiladau i ddarparu gwasanaethau. Mabwysiadwyd y Cynllun Rheoli Asedau Eiddo diwethaf yn 2016, ac mae newid sylweddol wedi bod mewn trefniadau gweithio a darpariaeth gwasanaeth ers hynny. Mae'n amserol i</p>

	fod yn edrych ar reolaeth a rhesymoli'r stad yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor ac anghenion y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer trigolion Gwynedd. Law yn llaw a hyn byddwn yn cadarnhau ein trefniadau gweithio hyblyg a gweithio hybrid.
--	--

Cyfraniad at y 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

	Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
GWYNEDD YFORY - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc					
Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	✓	✓	✓	✓	✓
Cinio ysgol am ddim	✓	✓	✓		
Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu	✓	✓	✓	✓	✓
Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau'r gost o anfon plant i'r ysgol a heriau llesiant	✓	✓	✓	✓	✓
Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng					
Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	✓	✓	✓	✓	✓
Adfywio cymunedau a chanol trefi	✓	✓	✓	✓	✓
Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith	✓	✓	✓	✓	✓
Cadw'r Budd yn Lleol	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD GLYD - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau					
Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol	✓	✓	✓	✓	
Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd	✓	✓		✓	
Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd	✓	✓		✓	
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD OFALGAR - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn eu cymunedau					
Cefnogaeth Ataliol yn Lleol	✓	✓	✓	✓	✓
Byw'n Annibynnol	✓	✓	✓	✓	✓
Gofal Arbenigol o Ansawdd	✓	✓	✓	✓	✓
Cefnogi Llesiant Pobl		✓	✓	✓	✓
Cynllun Awtistiaeth	✓	✓		✓	✓
Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan	✓	✓	✓	✓	✓

	Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned					
Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant	✓	✓			
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd					
Gweithredu ar risgiau llifogydd	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Gwastraff ac ailgylchu	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur	✓	✓	✓	✓	✓
Teithio Llesol	✓	✓	✓	✓	✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Datblygu Lleol newydd	✓	✓	✓	✓	✓
Cymunedau Glân a Thaclus	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon					
Cynllunio'r Gweithlu	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu diwylliant y Cyngor	✓	✓	✓	✓	✓
Sicrhau tegwch i bawb	✓	✓		✓	
Merched mewn arweinyddiaeth				✓	
Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Digidol	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygiad strategol ar reolaeth lechyd a Diogelwch	✓	✓	✓	✓	✓
Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓

Bydden ni'n gweithio ar
hwn i'w wella -- synaid
bras ar hyn o bryd



2023/2028



Gwynedd 2023-28

Mae Gwynedd a'i phobl yn groesawgar, yn fentrus ac yn arloesol. Mae'r ardal wedi gweld newidiadau sylweddol yn ei hanes, a does dim dwywaith y byddwn yn gweld newidiadau pellach yn y dyfodol.

Tud. 115

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau dros y 5 mlynedd nesaf.

Rydym am sicrhau fod pobl Gwynedd yn derbyn y gwasanaethau gorau posib a byddwn bob amser yn eich rhoi chi gyntaf ym mhopeth a wnawn.

Ceir yma hefyd gipolwg ar yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor – gwasanaeth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn.



Gyda'n gilydd byddwn yn gwella cyfleon ein trigolion, cefnogi ein cymunedau, a datblygu'r ardal ar gyfer y dyfodol.

Ein bwriad a'n uchelgais

Yn dilyn ymgynghoriad eang gyda pobl Gwynedd fel rhan o gynllun A rddal Ni, ynghyd a nifer o drafodaethau ac adborth gan drigolion y sir a thu hwnt, lluniwyd cyfres o flaenoriaethau fydd yn caniatáu i ni gwrdd a'n uchelgais i ddatblygu gwasanaethau ac i ystyried dulliau newydd ac arloesol o ddelio a'r heriau fydd yn ein wynebu.

Tud. 116



Mae'r cynllun am y 5 mlynedd nesaf yn dilyn cyfres o brosiectau a luniwyd ar gyfer 2018-23.

Gyda'r pandemig yn gweddnewid bywydau pawb, bu raid i'r Cyngor ddargyfeirio llawer o'i adnoddau yn ystod y cyfnod hwn i ddelio gyda'r argyfwng.

Gwelwyd cydweithio arwrol yng Ngwynedd, gyda phawb yn ein cymunedau, ein busnesau, ein elusennau, a'n gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud popeth o fewn eu gallu i leddfu effaith y pandemig ar ein cymdeithas.

Bu'r cyngor yn darparu nifer o wasanaethau mewn dulliau hollol newydd, gyda'r defnydd o dechnoleg yn ganolog i'n ymateb.

Er gwaethaf y pandemig, mae mwyafrif y prosiectau a luniwyd yn y cynllun blaenorol wedi eu cyflawni, sy'n glod i'r holl staff fu'n gweithio'n ddiwyd i gynnal gwasanaethau mewn amgylchiadau anodd dros y blynyddoedd diweddar.

Mae rhai meysydd, fel yr economi wedi ei tharo'n galed, nid yn unig gan y pandemig, ond hefyd gan ffactorau eraill fel Brexit, ymosodiad Rwsia ar Wcrain a pholisi economaidd. Mae hyn wedi golygu nad ydi incwm

gwirioneddol pobl Gwynedd wedi dal i fyny gyda chostau byw gwirioneddol. Mae'r sefyllfa economaidd bresennol ym Mhrydain yn debygol iawn o arwain at doriadau i gyllidebau cynghorau, ac wrth i'r galw am ein gwasanaethau gynyddu bydd angen unwaith eto i ni ystyried dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau ynghyd a sut y gallwn gydweithio er mwyn sicrhau fod pawb yng Ngwynedd yn cael y gwasanaeth gorau posib.

Unwaith eto bydd angen i gymunedau Gwynedd sefyll gyda'i gilydd dros ein pobl a dros ein plant.



Maes Blaenoriaeth

Rhoi y cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc

Bydd pob plentyn yng Ngwynedd yn cael mynediad at ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol fydd yn caniatáu iddynt ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyflawn, a bydd mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar gael drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.

Byddwn yn darparu'r addysg mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas, a bydd cefnogaeth broffesiynol ar gael i gwrdd ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd pob disgybl yn cael ei drin yn gyfartal ac mae eu llesiant a'u hapusrwydd bob amser ar frig ein rhestr blaenoriaethau.

Ein huchelgais yw rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i alluogi pob plentyn yng Ngwynedd gyflawni ei lawn botensial

**Dros y 5
mlynedd
nesaf
byddwn yn**

**Trawsnewid
addysg ar gyfer
plant yn eu
blynyddoedd
cynnar**

**Sicrhau fod
plant oed
cynradd ac
uwchradd yn
cael cinio am
ddim**

**Moderneiddio
adeiladau a 'r
amgylchedd
dysgu**

**Lleihau y gost
o anfon plant
i'r ysgol a delio
gyda heriau
llesiant**

**Creu cynllun
newydd
i gefnogi
plant gyda
awtistiaeth**

**Sefydlu cartrefi
lleol i'n plant**

**Datblygu
cynllun ar
gyfer meysydd
chwarae plant**



Prosiectau

Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r mudiad meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod yn yr ysgol.

Tud. 118

Cinio am ddim

Bydd holl blant y sir, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn cael cinio ysgol am ddim.

O ganlyniad, bydd angen i ni uwchraddio ein ceginau a'r manau bwyta er mwyn ymdopi gyda'r niferoedd uwch fydd yn cymryd bwyd ysgol. Byddwn hefyd yn recriwtio mwy o staff er mwyn paratoi a gweini'r prydau ychwanegol.

Moderneiddio ein adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Mae nifer o ysgolion y sir bellach yn hen ac angen eu moderneiddio. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir, a byddwn yn datblygu prosiectau arbennig fel ysgolion ac adeiladau newydd pan fydd grantiau yn cael eu rhyddhau.

Rydym hefyd wedi dechrau ymgynghori ynglŷn ag addysg ôl-16 yn Arfon er mwyn gwella ansawdd a phrofiad dysgwyr yr ardal.

Lleihau y gost o anfon plant i'r ysgol a delio gyda heriau llesiant

Gyda chostau pethau dyddiol fel gwisg ysgol, bwyd, cludiant, a deunyddiau ysgrifennu ar gynnydd, rydym am ail-edrych ar y costau sydd ynghlwm ag anfon plant i'r ysgol gyda'r bwriad o'u lleihau, tra'n gwarchod yr addysg a'r profiadau gwerthfawr mae ein plant yn gael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.

Byddwn hefyd yn delio gyda materion llesiant ehangach sy'n effeithio plant a phobl ifanc, er enghraifft magu hyder, iechyd meddwl, problemau cludiant, a sicrhau profiad gwaith a chyfleon am swyddi.

Cynllun Awtistiaeth

Mae plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei angen. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau.

Sefydlu cartrefi lleol i'n plant

Rydym am geisio gwella profiadau plant gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir er mwyn cael cefnogaeth. Byddwn yn darparu cartref i grwpiau bychan o hyd ar bedwar plentyn, fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynd i ysgolion lleol, a chymryd rhan ym mywyd eu cymunedau.

Datblygu cynllun ar gyfer meysydd chwarae plant

Mae trigolion y sir eisiau gweld cyfarpar chwarae o safon uchel ar gyfer ein plant. Byddwn felly yn cynnal ac yn gwella rhai meysydd chwarae, gan ganolbwyntio'r buddsoddiad er mwyn darparu gwell ansawdd ar nifer llai o feysydd chwarae.



Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2023-28

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2023 a 2028. Dyma flwyddyn gyntaf y Cynllun newydd. Cafodd fersiwn flaenorol y Cynllun (Cynllun 2018-23) ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018.

Mae'r Cynllun newydd yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd i ddod, ac yna bydd pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob prosiect unigol o fewn y Cynllun gael Asesiad ar wahân, yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y prosiectau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor, Tîm Arweinyddiaeth

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Ionawr 2023 – fersiwn 1, asesiad llawn o'r Cynllun

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgyngori . Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.

Anogwyd cymaint â phosib o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaeadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlenni aelodau etholedig a staff y Cyngor.

Cysylltwyd â sefydliadau sy'n cynrychioli neu'n gweithio hefo pobl a/neu blant hefo nodweddion cydraddoldeb i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw o 8fed o Rhagfyr 2022 hyd at 3ydd Ionawr 2023.

Derbyniwyd 643 o ymatebion i'r holiadur. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno a'r meysydd blaenoriaeth a'r prosiectau ac nid oedd unrhyw bryderon penodol yn ymwneud â'r nodweddion cydraddoldeb.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Ardal	Nifer	Canran
Arfon	282	43.9%
Dwyfor	137	21.3%
Meirionnydd	203	31.6%
Tu allan i Wynedd	9	1.4%
Dim ateb	12	1.9%
Cyfanswm	643	100.0%

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb (yn ddewisol) a roedd yr wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

Rhyw

	Nifer	Canran
Dyn / Gwryw	267	41.5
Dynes / Benyw	313	48.7
Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol	1	0.2
Gwell gennyf beidio â dweud	47	7.3
Dim ateb	15	2.3
Cyfanswm	643	100.0

Oed

	Nifer	Canran
15 oed neu iau	4	0.6
16 - 24 oed	11	1.7
25 - 34 oed	59	9.2
35 - 44 oed	60	9.3
45 - 54 oed	119	18.5
55 - 64 oed	162	25.2
65 - 74 oed	128	19.9
75 - 84 oed	38	5.9

85 + oed	4	0.6
Gwell gennyf beidio â dweud	46	7.2
Dim ateb	12	1.9
Cyfanswm	643	100.0

Ydych chi'n deall, siarad, darllen a/ neu'n ysgrifennu'n Gymraeg?

	Nifer	Canran
Siarad Cymraeg	329	51.2
Deall Cymraeg ar lafar	281	43.7
Darllen Cymraeg	279	43.4
Ysgrifennu'n Gymraeg	243	37.8
Ddim yn deall Cymraeg (dim un o'r uchod)	107	16.6
Gwell gennyf beidio â dweud	66	10.3
Arall	75	11.7
Cwestiwn aml-ddewis		

Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol

	Nifer	Canran
Cymreig	304	47.3
Seisnig	83	12.9
Albanaidd	5	0.8
Gwyddelig o Ogledd Iwerddon	1	0.2
Prydeinig	161	25.0
Gwell gennyf beidio â dweud	46	7.2
Arall	30	4.7
Dim ateb	13	2.0
Cyfanswm	643	100.0

Hil

	Nifer	Canran
Gwyn	556	86.5
Du / Affricanaidd / Caribiaidd	0	0.0
Asiaidd	1	0.2
Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig	2	0.3
Cymysg / sawl grŵp ethnig	8	1.2
Gwell gennyf beidio â dweud	57	8.9
Arall	7	1.1
Dim ateb	12	1.9
Cyfanswm	643	100.0

Beth yw eich crefydd

	Nifer	Canran
Dim crefydd	238	37.0
Cristion	286	44.5

Mwslim	0	0.0
Bwdhaidd	4	0.6
Hindŵ	0	0.0
Iddewig	3	0.5
Sïc	0	0.0
Gwell gennyf beidio â dweud	71	11.0
Arall	26	4.0
Dim ateb	15	2.3
Cyfanswm	643	100.0

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?

	Nifer	Canran
Heterorywiol / Strêt	506	78.7
Dyn hoyw	10	1.6
Dynes hoyw / lesbiaidd	8	1.2
Deurywiol (Bisexual)	10	1.6
Gwell gennyf beidio â dweud	79	12.3
Arall	10	1.6
Dim ateb	20	3.1
Cyfanswm	643	100.0

Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni?

	Nifer	Canran
Ydi	10	1.6
Nac ydi	541	84.1
Gwell gennyf beidio â dweud	67	10.4
Dim ateb	25	3.9
Cyfanswm	643	100.0

Nid oedd yn bosib adnabod patrwm yn ymatebion unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb.

Dylai prosiectau unigol ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ac ymgysylltu ymhellach â thrigolion Gwynedd yn ôl yr angen.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, ym mis Gorffennaf 2022, gofynnwyd i Benaethiaid Adran nodi ac ystyried blaenoriaethau a chynlluniau posibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriwyd sawl darn o waith / gwybodaeth, gan gynnwys y prosiectau oedd yn y Cynllun presennol 2022-23, adborth o waith ymgysylltu Fframwaith Adfywio 'Ardal Ni', a'r Aseidiadau Llesiant gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Yn ychwanegol, yn Hydref 2022 cynhaliwyd gweithdy gyda'r Aelodau Cabinet er mwyn trafod cynlluniau posib ar gyfer y Cynllun newydd.

Cynhaliwyd 2 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau etholedig ym mis Rhagfyr 2022 er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol mynegi eu barn ac i amlygu unrhyw faterion ychwanegol a oedd angen sylw.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, penderfynwyd ymgysylltu ar fersiwn 2023-28 o'r Cynllun gyda'r cyhoedd ym mis Rhagfyr 2022 – Ionawr 2023. Roedd hwn yn gyfle i drigolion, busnesau, grwpiau a sefydliadau, aelodau etholedig, a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned gael dweud eu dweud ar y blaenoriaethau drafft.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau herio perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio cynnydd a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd herio perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw.

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 ynghyd a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor am 2024-28 yn ystyried yn arbennig unrhyw faterion yn codi o Gynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol Llywodraeth Cymru.

		Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ o fewn Cynllun y Cyngor yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys hil.
Anabledd	Positif	<p>Mae gofal yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith bositif. Disgwylir i bob cynllun unigol arall edrych ar yr effaith ar anabledd wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Fe nodwyd 9.8% (N=63) o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad cyhoeddus fod ganddynt anabledd.</p> <p>Roedd canran uwch o’r ymatebwyr sy’n nodi bod ganddynt anabledd (95.2%, N=60) yn cytuno hefo Maes Blaenoriaeth 3 o gymharu a pawb a wnaeth ateb i’r ymgynghoriad (85.1%, N=547).</p> <p>Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys anabledd.</p>
Rhyw	Positif	<p>Ceir un cynllun unigol yn y benodol yn y maes yma sef “Merched mewn Arweinyddiaeth” felly disgwylir effaith bositif yma. Wedi dweud hynny nid yw’n bosib adnabod effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd heb gwblhau asesiadau effaith ar y cynlluniau unigol eraill.</p> <p>Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys rhyw.</p>
Oedran	Positif	<p>Mae oedran yn cael ei flaenoriaethu mewn nifer o feysydd felly disgwylir cael effaith bositif ar faes plant, pobl ifanc a phobl hŷn.</p> <p>Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar oedrannau gwahanol wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Roedd 91.3% o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno a Maes Blaenoriaeth 1.</p> <p>Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys oedran.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif	Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys crefydd.

Ailbennu rhywedd	Positif	Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys ailbennu rhywedd.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys beichiogrwydd a mamolaeth.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif	Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys priodas a phartneriaeth sifil.
Yr iaith Gymraeg	Ansicr ar hyn o bryd oherwydd diffyg tystiolaeth	<p>Mae blaenoriaeth benodol o fewn y Cyngor sydd yn ymwneud efo hybu defnydd o’r Gymraeg, gyda dau brosiect wedi eu hadnabod dan y flaenoriaeth honno. Mae nifer o brosiectau unigol o fewn y Cyngor sydd yn cyfrannu at amcan strategol y Cyngor i hybu defnydd o’r Gymraeg hefyd. Gan nad oes asesiadau unigol wedi eu paratoi/cyflwyno ar gyfer y prosiectau unigol, mae’n anodd iawn ar y pwynt yma asesu effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd ar y Gymraeg a’i siaradwyr, boed hynny yn gadarnhaol neu yn negyddol.</p> <p>Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar yr iaith wrth wneud Aseiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Roedd 66.9% o’r ymatebwyr i’r ymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno a Maes Blaenoriaeth 5.</p> <p>Bydd y prosiect “Sicrhau Tegwch i Bawb’ yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys iaith.</p>
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	<p>Mae’r Cyngor yn ymwybodol fod nifer o bobl Gwynedd yn byw mewn amodau o anghyfartaledd oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly mae eisoes nifer o’r prosiectau sydd yn Cynllun y Cyngor yn ymwneud a lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol. Isod mae enghreifftiau o brosiectau:</p> <p>Gwaith - Creu’r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith</p> <p>Addysg - Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar</p> <p>Iechyd - Gofal Arbenigol o Ansawdd</p> <p>Cyfiawnder a Safonau Byw – Cefnogi Llesiant Pobl</p>

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried.

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Prosiect – Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

Mae'n hanfodol fod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf, a gaiff ei ledaenu ar draws Cymru. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg hefyd yn cael y cyfle i fagu hyder a gloywi eu Cymraeg drwy gefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi. Rydym hefyd am weld ehangu ein dulliau trochi iaith i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau ble mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a thu allan i'r ysgol yn gyfyngedig. Bydd y prosiect yma mewn cydweithrediad efo'r Gyfundrefn Drochi a'n hysgolion

yn rhoi'r cyfle gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Prosiect - Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

Byddwn yn cynnal prosiectau penodol fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.

Bydd gwybodaeth o'r Asesiadau Effaith unigol yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y bydd y prosiectau'n gweithredu yn unol, â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2023 a 2028. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob prosiect unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynlluniau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i hybu'r iaith Gymraeg yn eu meysydd.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Isod mae esiamplau o brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun sy'n ymateb i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol:

Gwaith - Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn waith.

Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau fod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad llafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol.

Addysg - Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.

Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posib i'w cyfnod mewn addysg.

Iechyd – Gofal Arbenigol o Ansawdd.

Byddwn yn sicrhau bod gofal priodol ac arbenigol ar gael yn amserol; a hynny ar draws ein holl darpariaethau gofal.

Ymysg ein cynlluniau mae:

- Sicrhau darpariaeth nyrsio a dementia digonol ar draws y sir gan gynnwys datblygu gwlâu nyrsio ar safle Penrhos, Pwllheli.
- Sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd i'n galluogi i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd.
- Datblygu ein gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau pwyslais digonol ar lesiant unigolion.
- Cryfhau ein gallu i gefnogi darparwyr gofal i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.
- Cyfrannu at brosiect Cynllunio'r Gweithlu i sicrhau sylw priodol i heriau a chyfleon penodol y maes gofal
- Rhoi trefniadau newydd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith i warchod hawliau pobl sy'n derbyn gofal yn y sir.

Cyfiawnder a Safonau Byw – Cefnogi Llesiant Pobl.

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach.

Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae disgwyl i bob prosiect unigol gael Aseiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono a bydd hyn yn cynnwys asesu'r anfantais economaidd gymdeithasol. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynlluniau unigol yw gwneud yr Aseiad(au) yna. Bydd angen i'r aseidiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i leihau anghyfartaledd o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu meysydd.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar nifer o'r nodweddion cydraddoldeb. Disgwylir i bob asesiad effaith cydraddoldeb unigol edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Mae hyn yn arbennig o wir os ydi ystyriaethau Covid am gael eu hystyried yn llawn yn eu hasesiadau effaith.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod hefo'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae pob asesiad effaith unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r asesiadau unigol yn adnabod unrhyw effeithiau negyddol a'r camau i'w liniaru.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Nid ydym wedi adnabod unrhyw weithred ar gyfer y Cynllun yn ei gyfanrwydd ond bydd yn cael ei ystyried yn yr asesiadau unigol.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau herio perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio cynnydd a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd herio perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw.

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 ynghyd a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

DATGANIAD LLESIANT CYNGOR GWYNEDD 2023/24

Cyflwyniad

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr hirdymor, gan gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau. Bydd gweithredu yn y modd hwn yn ein galluogi i gwrdd ag anghenion presennol ein cymunedau gan sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Adolygwyd ein hamcanion llesiant fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28. Wrth osod ein hamcanion llesiant, rydym wedi ystyried nifer o ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys gwybodaeth o sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd gydag Aelodau Etholedig, ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer Cynllun y Cyngor a chanlyniadau Asesiadau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a gyhoeddwyd yn 2022.

Mae ein hamcanion llesiant yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol (fel y nodir isod) ac yn cynnwys y camau ymarferol neu brosiectau y byddwn yn eu gweithredu er mwyn cyfrannu tuag at yr amcan. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Amcanion Llesiant y Cyngor (meysydd blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor)

Dyma'r saith amcan llesiant -

- **GWYNEDD YFORY** - Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- **GWYNEDD LEWYRCHUS** - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- **GWYNEDD GLYD** - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- **GWYNEDD OFALGAR** - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- **GWYNEDD GYMRAEG** - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- **GWYNEDD WERDD** - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- **GWYNEDD EFFEITHLON** - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Nodau Llesiant Cenedlaethol

Ceir crynodeb o'r nodau llesiant cenedlaethol isod.

CYMRU LEWYRCHUS

Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.

CYMRU GYDNERTH

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

CYMRU IACHACH

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.

CYMRU FWY CYFARTAL

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU


Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Sut mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol?

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol. Nodir hefyd bod ein gwaith dydd i ddydd yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.



	Llewyrchus	Cydnorth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
GWYNEDD YFORY Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc							
GWYNEDD LEWYRCHUS Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng							
GWYNEDD GLYD Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau							
GWYNEDD OFALGAR Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau							
GWYNEDD GYMRAEG Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.							
GWYNEDD WERDD Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd							
GWYNEDD EFFEITHLON Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon							

Sut y byddwn yn gweithredu?

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a defnyddio'r pum ffordd o weithio, yn ganolog i'r gwaith rydym wedi'i wneud er mwyn adnabod ein hamcanion a'r prosiectau a byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion hyn i'r dyfodol.

- **Tymor Hir** - Cydbwysu anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- **Atal** - Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.
- **Integreiddio** - Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.
- **Cydweithredu** - Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau
- **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu)** - Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

Byddwn yn adrodd ar gynnydd tuag at ein hamcanion llesiant, ynghyd â rhoi'r 5 ffordd o weithio ar waith, fel rhan o'n trefniadau adrodd ar berfformiad ac yn benodol o fewn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod yr amcanion a'r prosiectau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol a pherthnasol.

Cyfraniad prosiectau Cynllun y Cyngor at y 5 ffordd o weithio	Hirdymor	Atal	Integrei-ddio	Cydweithio	Cynnwys	
GWYNEDD YFORY	Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	✓	✓	✓	✓	✓
	Cinio ysgol am ddim	✓	✓	✓		
	Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu	✓	✓	✓	✓	✓
	Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau'r gost o anfon plant i'r ysgol	✓	✓	✓	✓	✓
	Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD LEWYRCHUS	Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	✓	✓	✓	✓	✓
	Adfywio cymunedau a chanol trefi	✓	✓	✓	✓	✓
	Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith	✓	✓	✓	✓	✓
	Cadw'r Budd yn Lleol	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD GLYD	Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol	✓	✓	✓	✓	
	Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd	✓	✓		✓	
	Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd	✓	✓		✓	
	Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD OFALGAR	Cefnogaeth Ataliol yn Lleol	✓	✓	✓	✓	✓
	Byw'n Annibynnol	✓	✓	✓	✓	✓
	Gofal Arbenigol o Ansawdd	✓	✓	✓	✓	✓
	Cefnogi Llesiant Pobl		✓	✓	✓	✓
	Cynllun Awtistiaeth	✓	✓		✓	✓
	Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD GYMRAEG	Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant	✓	✓			
	Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD WERDD	Gweithredu ar risgiau llifogydd	✓	✓	✓	✓	✓
	Gwastraff ac ailgylchu	✓	✓	✓	✓	✓
	Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur	✓	✓	✓	✓	✓
	Teithio Llesol	✓	✓	✓	✓	✓
	Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓	✓	✓	✓
	Cynllun Datblygu Lleol newydd	✓	✓	✓	✓	✓
	Cymunedau Glân a Thaclus	✓	✓	✓	✓	✓

GWYNEDD EFFEITHLON	Cynllunio'r Gweithlu	✓	✓	✓	✓	✓
	Datblygu diwylliant y Cyngor	✓	✓	✓	✓	✓
	Sicrhau tegwch i bawb	✓	✓		✓	
	Merched mewn arweinyddiaeth				✓	
	Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol	✓	✓	✓	✓	✓
	Cynllun Digidol	✓	✓	✓	✓	✓
	Adolygiad strategol ar reolaeth lechyd a Diogelwch	✓	✓	✓	✓	✓
	Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓

Canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus – Crynodeb

Roedd holiadur yr ymgynghoriad yn fyw ar wefan Cyngor Gwynedd o 8fed o Rhagfyr 2022 hyd at 3ydd Ionawr 2023.

Cafwyd 643 o ymatebion i'r holiadur, i gyd wedi'u derbyn ar-lein. Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Ardal	Nifer	Canran
Arfon	282	43.9%
Dwyfor	137	21.3%
Meirionnydd	203	31.6%
Tu allan i Wynedd	9	1.4%
Dim ateb	12	1.9%
Cyfanswm	643	100.0%

Meysydd Blaenoriaeth:

Mae'r canlyniadau'n dangos bod yr ymatebwyr yn **cytuno â'r meysydd blaenoriaeth i gyd**, ond roedd llai (66.9%, N=430) o'r ymatebwyr yn cytuno â maes blaenoriaeth 5 sef sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg o gymharu a phob maes blaenoriaeth arall.

	Cytuno		Anghytuno		Dim barn		Dim ateb	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc	587	91.3	7	1.1	41	6.4	8	1.2
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng	597	92.8	9	1.4	25	3.9	12	1.9
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau	547	85.1	23	3.6	61	9.5	12	1.9
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau	571	88.8	16	2.5	44	6.8	12	1.9
Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol Gymraeg	430	66.9	78	12.1	123	19.1	12	1.9
Hybu amgylchedd gynaliadwy ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng hinsawdd	530	82.4	41	6.4	64	10.0	8	1.2
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol	557	86.6	27	4.2	48	7.5	11	1.7

Gwahaniaethau rhwng ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd:

Mae gwahaniaethau ym marn ymatebwyr yn ôl lle maent yn byw. Y gwahaniaeth mwyaf yw fod canran uwch o ymatebwyr sy'n byw yn Arfon (75.5%, N=213) yn **cytuno** â maes blaenoriaeth 5 o gymharu â ymatebwyr sy'n byw yn Dwyfor (62.0%, N=85) a Meirionnydd (60.1%, N=122). Y gwahaniaeth mwyaf yw fod canran uwch o'r ymatebwyr sy'n byw yn Dwyfor (16.8%, N=23) yn **anghytuno** â maes blaenoriaeth 5 o gymharu â ymatebwyr sy'n byw yn Arfon (8.2%, N=23) a Meirionnydd (14.8%, N=30).

Sylwadau:

Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 72% (N=464) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 179 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau.

Thema	Nifer	Canran
Cytuno gyda sicrhau tegwch i bawb / Cwestiynau am beth yw 'natural Welsh' a pryderon fod pobl di-Gymraeg ddim am gael eu trin yn gyfartal	39	21.9
Ddim yn gallu anghytuno efo'r rhestr o blaenoriaethau	26	14.6
Angen canolbwyntio ar yr economi a swyddi o safon	22	12.4
Blaenoriaeth i bobl lleol gyda tai / Gwella ansawdd tai	17	9.6
Angen mwy o wybodaeth am y prosiectau / Pryderon nad oes arian i wireddu y prosiectau	15	8.4
Beirniadu safon yr ymgynghoriad	11	6.2
Anghytuno gyda canolbwyntio ar y iaith Gymraeg	10	5.6
Angen edrych ar ôl y diwydiant twristiaeth / Ehangu y tymor twristiaeth	9	5.1

Maes Blaenoriaeth 1 – Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc


Prosiect 1 – Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Prosiect 2 – Cinio ysgol am ddim

Prosiect 3 – Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Prosiect 4 – Lleihau'r gost o anfon plant i'r ysgol a heriau llesiant

Prosiect 5 – Uwchraddio Meysydd Chwarae Plant y sir



ATODIAD 5 – Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus

Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 75.9% (N=488) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 155 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am grynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

Thema	Nifer
Angen creu mwy o swyddi yn yr ardal / Cefnogi meysydd sy'n creu gwaith yn yr sir (fel Twristiaeth) / Peidio trethu twristiaeth / Cefnogi'r diwydiant twristiaeth	23
Cinio ysgol am ddim - Cinio ysgol am ddim mond i'r rhai sydd ei angen / eisiau, ddim i bawb	18
Sylw Amherthnasol	15
Cefnogi busnesau / Canol Trefi angen eu adfywio / Cyfathrebu efo siroedd eraill am syniadau ar sut i adfywio canol trefi / Angen gwella sut rydym yn delio gyda'r economi	15

Maes Blaenoriaeth 2 – Cryfhau'r economi a chefnogi pobl Gwynedd i ennill cyflogau teilwng


Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

Prosiect 1 – Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy

Prosiect 2 – Adfywio cymunedau a chanol trefi

Prosiect 3 – Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

Prosiect 4 – Cadw'r Budd yn Lleol



Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 76.2% (N=490) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 153 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am grynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.


Thema	Nifer	Canran
Adfywio cymunedau a chanol trefi - Nodi syniadau i wella ardal Bangor neu nodi problemau ym Mangor	11	7.2
Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith - Angen gwell cyfleoedd gyrfa a/neu cyflog i bobl lleol	9	5.9

Maes Blaenoriaeth 3 – Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

- Prosiect 1 – Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol
- Prosiect 2 – Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd
- Prosiect 3 – Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Prosiect 4 – Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Gweler o'r graff isod fod canran uwch o'r ymatebwyr (24.9%, N=160) yn anghytuno hefo prosiect 4 o gymharu a prosiectau eraill o fewn y maes blaenoriaeth yma.



ATODIAD 5 – Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus

Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 62.5% (N=402) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 241 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

Thema	Nifer	Canran
Sylw amherthnasol i'r blaenoriaethau neu aneglur	19	7.9
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - llety gwyliau yn bwysig neu ni ddylai llety gwyliau gael eu cosbi	19	7.9
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - angen mesuriadau i reoli hyn ee nifer cyfyngedig o Air BnB mewn ardal, trethi ail dai	18	7.5
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - ni ddylai ail dai gael eu cosbi, ail dai yn bwysig	16	6.6
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - Twristiaeth yn bwysig yn economaidd	16	6.6
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - anghytuno neu'n ansicr o gyda codi treth cyngor i ail dai	15	6.2
Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol - Angen gwneud defnydd o'r stoc tai presennol ee tai gwag	14	5.8
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - ail dai neu llety gwyliau yn broblem/sefyllfa fwy 'nuanced' na mae'r ddogfen yma yn awgrymu neu mae angen eithriadau neu camau rheoledig	13	5.4
Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol - Angen mwy o dai cymdeithasol / cyngor / fforddiadwy	10	4.1
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr - angen cynyddu treth ail dai	9	3.7

Maes Blaenoriaeth 4 – Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:


Prosiect 1 – Darpariaeth gofal addas a chynaliadwy i'r dyfodol

Prosiect 2 – Ail ddylunio ein gwasanaethau gofal

Prosiect 3 – Cefnogi llesiant pobl

Prosiect 4 – Cynllun Awtistiaeth

Prosiect 5 – Sefydlu cartrefi lleol i'n plant



ATODIAD 5 – Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus

Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 83.7% (N=538) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 105 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

Thema	Nifer	Canran
Cynllun Awtistiaeth - Diffyg gofal i Awtistiaeth mewn ysgolion (a chymuned yn gyffredinol hefyd)	15	14.3
Dim cyllideb digonol i wireddu hyn / Ddim yn credu y bod modd gwireddu y prosiectau	14	13.3
Cytuno gyda'r prosiectau i gyd	10	9.5
Ail ddylunio ein Gwasanaethau Gofal - Cyngor a BCUHB angen cyd-weithio / integreiddio yn well	10	9.5
Ail ddylunio ein Gwasanaethau Gofal - Dylid sicrhau fod arian ar yn cael ei wario ym mhob rhan o Wynedd ar y prosiect	9	8.6
Cefnogi Llesiant Pobl - angen gweithio gyda cymunedau i sicrhau lles trigolion	8	7.6


Maes Blaenoriaeth 5 – Sicrhau fod ein trigolion yn cael parhau i fyw mewn cymuned naturiol

Gymraeg

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

Prosiect 1 – Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

Prosiect 2 – Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd




Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 73.4% (N=472) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 171 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

Thema	Nifer	Canran
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd - Helpu oedolion ddysgu - Angen mentrau, dosbarthiadau ar-lein, dosbarthiadau ar amseroedd cyfleus neu am ddim neu wybodaeth am dafodiaith leol i helpu oedolion di-Gymraeg i ddod yn gyfarwydd a dysgu Cymraeg	22	12.9
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd - Pwysig i amddiffyn, dysgu a/neu hybu yr iaith	10	5.8
Cytuno gyda'r blaenoriaethau yma a/neu yr iaith yn bwysig	8	4.7
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd - Dylai hyn ddim fod yn anfantais i bobl sydd ddim yn siarad Cymraeg	8	4.7

Maes Blaenoriaeth 6 – Hybu amgylchedd cynaliadwy ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

- Prosiect 1 – Gweithredu ar risgiau llifogydd
- Prosiect 2 – Cynllun gwastraff ac ailgylchu
- Prosiect 3 – Cynllun argyfwng hinsawdd a natur
- Prosiect 4 – Teithio llesol
- Prosiect 5 – Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Prosiect 6 – Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Prosiect 7 – Cymunedau Glân a Thaclus



ATODIAD 5 – Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus

Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 73.1% (N=470) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 173 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

Thema	Nifer	Canran
Trafnidiaeth Gyhoeddus - byddai gallu defnyddio bws i fynd i/o gwaith/siopa/meddyg yn wyrthiol yn enwedig mewn rhannau gwledig o'r sir	26	15.0
Trafnidiaeth Gyhoeddus - angen gwella'r rhwydwaith bysiau / trenau	20	11.6
Cymunedau Glân a Thaclus - angen addysgu trigolion o sut i waredu eu gwastraff yn gyfrifol	19	11.0
Teithio llesol - dylid hybu mwy o bobl i feicio i wella eu hiechyd / gwell marchnata o teithio llesol	15	8.7
Teithio llesol - angen meddwl am hyn yn ofalus iawn - gall fod yn gostus iawn heb lawer o fudd i fwyafrif o gymunedau Gwynedd	13	7.5
Cytuno gyda'r prosiectau yma i gyd	9	5.2
Gormod o brosiectau yma gyda'r gyllideb sydd ar gael	9	5.2


Maes Blaenoriaeth 7 – Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol

Dyma'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod yn y maes blaenoriaeth hwn:

- Prosiect 1 – Cynllunio'r gweithlu
- Prosiect 2 – Datblygu diwylliant y Cyngor
- Prosiect 3 – Sicrhau tegwch i bawb
- Prosiect 4 – Merched mewn arweinyddiaeth
- Prosiect 5 – Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Prosiect 6 – Cynllun digidol
- Prosiect 7 – Adolygiad strategol ar reolaeth iechyd a diogelwch
- Prosiect 8 – Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

Gweler o'r graff isod bod ar y cyfan mae canran uwch o'r ymatebwyr yn nodi dim barn / ddim wedi ateb y cwestiwn ar draws pob prosiect o fewn maes blaenoriaeth 7 i gymharu â meysydd prosiectau eraill.

ATODIAD 5 – Crynodeb Ymgynghoriad Cyhoeddus



Roedd cwestiwn nesaf yn yr ymgynghoriad yn holi os oedd ganddynt unrhyw sylwadau i gefnogi eu dewis. Nid oedd gan 78.5% (N=505) o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau i'w ychwanegu. O'r 183 o'r ymatebwyr oedd wedi gadael sylwad, roedd y themâu a godwyd yn eang iawn. Gweler y tabl isod am crynodeb o'r sylwadau mwyaf poblogaidd.

Thema	Nifer	Canran
Merched Mewn Arweinyddiaeth - Anghytuno gyda hwn - y person gorau i'r swydd ydi'r ateb/hyn yn wahaniaethol	29	20.9
Cynllun Digidol - Angen rhyw fath o hwb ble gall pobl ddod i drafod materion wyneb yn wyneb ym mhob ardal o Wynedd	13	9.4
Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol - Dylid cael pob aelod o staff yn ôl i weithio yn y swyddfeydd	10	7.2

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	14eg Chwefror 2023
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Menna Jones
Swyddog Cyswllt:	Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth)
Rhif Ffôn Cyswllt:	gwasanaethdemocratiaeth@gwynedd.llyw.cymru
Teitl yr Eitem:	Strategaeth Cyfranogiad – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet argymhell y Strategaeth Cyfranogiad ddrafft i gyfarfod y Cyngor llawn ar 02/03/2023 er mwyn ei fabwysiadu.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i'r Cyngor annog pobl leol i gyfranogi pan mae'n gwneud penderfyniadau a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses y Cyngor o wneud penderfyniadau.

Gofynnir i'r Cabinet ystyried:

- Cynnwys y strategaeth – a yw'n glir ac yn ddealladwy ac yn cyflawni'r gofyn?
- A oes ymateb digonol wedi bod i'r sylwadau sydd wedi codi o'r ymgynghoriad cyhoeddus?

3 CYFLWYNIAD

Penderfyniad y Cyngor Llawn yw mabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad. Cyn gwneud hynny mae'n ofynnol ymgynghori. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2023 ac adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriad isod.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Rhaid i'r Cyngor baratoi strategaeth sy'n esbonio sut y bydd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd annog cyfranogiad. Nod Strategaeth Cyfranogiad y cyhoedd felly yw annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a nodi'r trefniadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu rhoi ar waith i ymwreiddio diwylliant o bartneriaeth gyda'r cyhoedd.

Dyma ein Strategaeth Cyfranogiad gyntaf, a disgwylir y bydd y Strategaeth yn esblygu ac yn gwella dros amser wrth i arferion da ddod i'r amlwg ac wrth i dechnoleg ddatblygu ymhellach.

- Beth sydd rhaid ei gynnwys yn y Strategaeth?

Yn ôl y Ddeddf, mae'n rhaid cynnwys yr elfennau a restrir isod:

- a) ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau prif gyngor;
- b) ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o sut y mae dod yn aelod o'r prif gyngor, a'r hyn mae aelodaeth yn ei olygu;
- c) ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y prif gyngor;
- d) ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso prosesau y gall pobl leol eu defnyddio i gyflwyno sylwadau i'r prif gyngor am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud;
- e) trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddibenion dyletswydd y cyngor yn adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (dod â barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu);
- f) ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r prif gyngor o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

- Sefydlu Strategaeth ac ymgynghori

Penderfyniad y Cyngor Llawn yw mabwysiadau Strategaeth Cyfranogiad yn dilyn ymgynghori gyda'r cyhoedd.

Cyn mynd allan i ymgynghori, lluniwyd Strategaeth ddrafft gan geisio sefydlu ein hamcanion o ran cyfranogiad yn unol â'r gofynion uchod o ran y ddeddf. Ein bwriad yw egluro sut bydd ein hamcanion yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl yng Ngwynedd. O fewn pob amcan, nodwyd canlyniadau clir a chamau gweithredu.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2023 oedd yn gyfle i unigolion roi barn ar gynnwys y Strategaeth ddrafft. Nodwyd yn yr ymgynghoriad fod bwriad i wella dyluniad y Strategaeth er mwyn ei wneud yn haws a mwy diddorol i'w darllen a'i deall cyn ei chyhoeddi ar ei ffurf derfynol. Roedd yr ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn agored am 18 diwrnod.

Mae'r Strategaeth ddrafft wedi ei chynnwys yn **Atodiad A**, gyda'r addasiadau wedi eu amlygu mewn ysgrifen las. Mae enghraifft o'r dyluniad wedi ei gynnwys yn **Atodiad B** er mwyn i aelodau'r Cabinet ei gweld. Bydd y dyluniad a'r testun wedi eu diweddarau'n llawn cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.

- Asesiad Ardrawiad

Dyletswyddau sector gyhoeddus . Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymru) wrth wneud penderfyniadau mae'n rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig.

Paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth i ni ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y Strategaeth Cyfranogiad drafft. Diweddarwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn dilyn yr ymgynghoriad ac mae wedi'i atodi yn **Atodiad C**. Nid oes ardrawiadau negyddol penodol wedi'u hadnabod o'r gwaith yma, ond mae'n ofynnol i ni fod yn wylidwrus i beidio neilltuo neb o'r trefniadau nawr ac yn y dyfodol oherwydd gor-ddibyniaeth ar dechnoleg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang. Mae'r Strategaeth yn cyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd yma, yn benodol cymunedau cydlynus drwy hyrwyddo mynediad a chyfraniad at brosesau democrataidd y Cyngor.

- Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cyflwynir isod grynodedb o ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul amcan ynghyd ag unrhyw newid i'r Strategaeth Ddrafft yn sgil yr ymgynghoriad. Mae'r newidiadau wedi'u dangos mewn ysgrifen las ar y Strategaeth yn **Atodiad A**.

Derbyniwyd 89 ymateb i'r ymgynghoriad.

Amcan 1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.			
<i>cwestiwn yr ymgynghoriad - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr?</i>			
Ydi	Nac ydi	Dim barn	Heb ymateb
51	12	14	12

Er fod canran uchel o ymatebwyr wedi ymateb fod y strategaeth yn cynnwys ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr, mae nifer o sylwadau naratif wedi'u derbyn. Mae'r naratif yn cynnwys

- Yr angen i symleiddio gwybodaeth ac ail-edrych ar strwythur ein safle we o safbwynt y defnyddiwr gan sicrhau fod popeth yn glir arno.
- Lle i wella cyswllt y strategaeth gyda busnesau
- Yr angen i gynnal mwy o gyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y gymuned i gael clywed barn am wahanol bynciau (yn hytrach na gweddarlleu pwyllgorau yn unig). Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cyfleoedd rheolaidd i bobl Gwynedd ddarparu adborth am ein strategaethau, blaenoriaethau a meysydd gwaith. Yn ystod 2022 cynhaliwyd ymarferiadau ymgysylltu cyhoeddus ar faterion megis Strategaeth Adfywio'r Cyngor ("Ardal Ni 2035"), Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi a Thai Gwag, Gwella Hawliau Tramwy ac Anghenion Tai Pobl Gwynedd. Dros y flwyddyn derbyniwyd adborth gan bron i 15,000 o unigolion a sefydliadau i'r ymarferiadau yma. Tra bod y cyfnod Covid wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i gynnal ymarferiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb mae hyn yn fater fydd yn derbyn sylw yn ystod 2023/24.
- Roedd sylw ynghylch rhannu gwybodaeth am y Cyngor ar hysbysfyrdau yn y gymuned, fodd bynnag, mae'n debyg y byddai hynny yn dyddio yn sydyn iawn. Mae gwybodaeth am waith y Cyngor, gan gynnwys adroddiadau pwyllgor, penderfyniadau, gwybodaeth ddefnyddiol ac ati yn cael ei rhannu'n gyson drwy sawl sianel:
 - datganiadau i'r wasg a ddefnyddir gan newyddiadurwyr fel sail ar gyfer erthyglau, adroddiadau newyddion ac erthyglau papur newydd;
 - cyfrifon Twitter a Facebook corfforaethol y Cyngor;
 - papur newydd dinesig "Newyddion" a ddosbarthir yn uniongyrchol i 63,000 o gartrefi'r Sir;
 - drwy'r tudalennau pwyllgorau, "eich cynghorydd", newyddion ac ati ar wefan www.gwynedd.llyw.cymru.
- Cafwyd hefyd sylwadau ar waith y Cyngor e.e. penderfyniadau cynllunio, gwasanaethau bysiau, trefniadau mewn canolfannau ailgylchu ayyb, sydd y tu allan i ffinau'r ymgynghoriad hwn.

Unrhyw newid – yn sgil y sylwadau uchod, rydym wedi amlygu yn y Strategaeth fod y safle we yn cynnwys gwybodaeth am swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion, busnesau lleol ac i ymwelwyr. Yn ogystal, mae'r cynllun gweithredu eisoes yn nodi'r angen i adolygu cynnwys y safle we yn gyson, ac rydym wedi ychwanegu edrych ar strwythur y safle hefyd.

Amcan 2. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Gyngorydd ac am yr hyn y mae rôl y Gyngorydd yn ei gynnwys.

cwestiwn yr ymgynghoriad - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o sut y mae dod yn Gyngorydd, a'r hyn y mae rôl Gyngorydd yn ei gynnwys?

Ydi	Nac ydi	Dim barn	Heb ymateb
49	14	15	11

O'r sylwadau a dderbyniwyd, mae'n ymddangos fod y Strategaeth ddrafft yn cyflawni'r gofyn yma i bobl Gwynedd. Nodwyd sylw fod angen annog mwy o amrywiaeth o waed newydd fel Cynghorwyr, a sylw penodol i godi ymwybyddiaeth o rôl Cynghorwyr yn ein hysgolion er mwyn magu diddordeb y genhedlaeth nesaf yn y maes. Fodd bynnag, roedd rhai sylwadau ynghylch nad oedd angen mwy (mewn nifer) o gynghorwyr, er mai nid hynny sydd dan sylw yn yr amcan hon.

Nodwyd hefyd werthfawrogiad am y Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd y Cyngor gyda sylw i ymestyn hyn i Gynghorau Cymuned, fodd bynnag mae hynny y tu hwnt i ddyletswydd y Cyngor.

Unrhyw newid – yn sgil y sylwadau uchod, rydym wedi amlygu yn y Strategaeth fod y 'Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth' gan y Cyngor yn annog pobl o bob math o gefndiroedd i fod yn sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol ac wedi ymhelaethu i gynig gwell esboniad ar ambell ddarn arall.

Amcan 3. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor.

Cwestiwn yr ymgynghoriad - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y cyngor?

Ydi	Nac ydi	Dim barn	Heb ymateb
42	12	21	14

Er fod canran uchel o ymatebwyr wedi ymateb fod y strategaeth yn cynnwys ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor, mae mwy o sylwadau naratif wedi'u derbyn y tro hwn. Mae'r naratif yn cynnwys:

- Yr angen i symleiddio gwybodaeth am benderfyniadau
- Rhwystredigaeth ynghylch diffyg deialog digonol gyda'r cyhoedd – yn arbennig sgwrsio mewn cymunedau a/neu mwy o ymgynghoriadau fel hyn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud
- Diffyg gwrando ar ôl derbyn sylwadau gan y cyhoedd
- Cyfle i'r Cyngor wneud gwell defnydd o gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu negeseuon, ac i ystyried "polls" syml i gasglu barn y cyhoedd ar faterion penodol.

Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn gyfrifol am gefnogi adrannau a gwasanaethau'r Cyngor i gynnal deialog dwyffordd gyda'r cyhoedd ac i ddarparu adborth ar ddiwedd ymarferiadau. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i annog Gwasanaethau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer darparu adborth i'r cyhoedd ar ddiwedd ymarferiadau ymgysylltu cyhoeddus.

Mae'r cyfnod Covid wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i gynnal ymarferiadau wyneb yn wyneb ac mae hyn yn fater fydd yn derbyn sylw yn ystod 2023/24.

Unrhyw newid – amlygu yn y strategaeth cyfranogiad fod y Taflenni Penderfyniad yn grynodedb o'r penderfyniad yn y pwyllgor e.e. penderfyniad ar dreth Cyngor ac nad oes rhaid disgwyl am y cofnod llawn. Fodd bynnag, mae rheolau penodol ynghylch yr isafswm sy'n rhaid ei gynnwys mewn taflenni penderfyniad ac ni ellir

eu symleiddio ymhellach na chyhoeddi ar rhai materion yn unig – mae'n rhaid cyheoddi ar bob penderfyniad.

Amcan 4 - Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys deisebau, sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.

Cwestiwn yr ymgynghoriad (a) - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffordd o gynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth a sylwadau i'r Cyngor am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud?

Ydi	Nac ydi	Dim barn	Heb ymateb
43	16	18	12

Cwestiwn yr ymgynghoriad (b) Ydi'r Strategaeth yn cynnwys trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddibenion dyletswydd y cyngor yn adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i ddod â barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu?

Ydi	Nac ydi	Dim barn	Heb ymateb
39	13	25	12

O'r sylwadau a dderbyniwyd roedd annogaeth i'r Cyngor fwrw ati i greu mwy o gyfleon i'r cyhoedd roi adborth a chyfrannu eu sylwadau ar benderfyniadau allweddol, yn arbennig gan ystyried ffordd syml a rhwydd i wneud hynny. Roedd pwyslais yn y sylwadau i'r Cyngor feddwl o safbwynt y defnyddiwr, sy'n cyd-fynd gydag egwyddorion y Cyngor o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth sy'n cael ei wneud.

Roedd cefnogaeth i gynnal ymgynghoriadau a chyfleon i'r cyhoedd roi sylwadau, fodd bynnag derbyniwyd beirniadaeth ar ddiffyg adrodd yn ôl ar y canlyniadau. Noder fodd bynnag fod lle i adrodd yn ôl ar ganlyniadau ymgynghoriadau ar y safle we, trwy ddolen i adroddiadau i bwyllgorau.

Nodwyd hefyd farn gan unigolyn y dylid cysylltu yn uniongyrchol gyda busnesau i sicrhau eu barn pan fo unrhyw ymgynghoriad ar agor.

Wrth ymgysylltu ar bynciau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â busnesau lleol, mae gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu drwy'r Rhwydwaith Busnes a chyfrifion gwefannau cymdeithasol yr Adran Economi a Chymuned. Yn fwy cyffredinol, mae pob ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus yn cael ei hyrwyddo drwy sawl sianel gan gynnwys datganiadau i'r wasg, negeseuon gwefannau cymdeithasol, gwybodaeth a chyswllt i'r holiaduron o dudalen gartref gwefan y Cyngor ac ati.

Nid oedd sylw penodol ar ddod â barn i sylw'r pwyllgorau trosolwg a chraffu. Fodd bynnag, cyflwynwyd rhai sylwadau a welwyd eisoes ynghylch cyfathrebu clir a syml, rhwystredigaeth am ddiffyg deialog go iawn a gwybodaeth am ganlyniadau ymgynghoriadau. Yn osystal nodwyd yr angen i amlygu sut bydd y Cyngor yn mynd ati i gyrraedd y rhai anodd i'w cyrraedd yn y dyfodol.

Unrhyw newid – mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cefnogi ac yn cyd-fynd â chyfeiriad y camau gweithredu ar gyfer y cyfnod i ddod. Fodd bynnag rydym wedi ymhelaethu ar y camau ar gyfer adrodd yn ôl yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus.

Amcan 5. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.

cwestiwn yr ymgynghoriad - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r prif gyngor o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol?

Ydi	Nac ydi	Dim barn	Heb ymateb
38	9	27	15

O'r sylwadau a dderbyniwyd, roedd cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth Cynghorwyr i fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion, gan annog mwy i wneud hynny ac i'r Cyngor sicrhau hyfforddiant ar gyfer defnydd priodol o'r cyfryngau cymdeithasol gan Gynghorwyr. Mae'r Cyngor yn cynnig hyfforddiant gwefannau cymdeithasol arbenigol i gynghorwyr ers sawl blwyddyn bellach.

Nodwyd hefyd sylwadau ynghylch gor-ddibyniaeth ar gyfryngau cymdeithasol gan nad yw pawb yn eu defnyddio, a'r angen i Gynghorwyr fod yn ymwybodol o'r risgiau all godi wrth ddefnyddio'r cyfryngau hyn.


Yn ychwanegol, rhoddwyd sylw ynglŷch yr angen i sicrhau fod 75% o'r etholwyr yn pleidleisio ar unrhyw benderfyniad gan y Cyngor. Byddai hyn yn ymarferol amhosib. Mae Cynghorydd lleol wedi ei (h)ethol gan y bobl i'w cynrychioli ar y Cyngor gydag unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Unrhyw newid – mae addasiad byr i'r Strategaeth trwy dynnu sylw'r Cynghorwyr mai un modd o gyfathrebu yw'r cyfryngau cymdeithasol a bod risgiau posib wrth ddefnyddio'r cyfrwng.

- Y Gymraeg

Mae'n ofynnol ymgynghori ar effaith unrhyw bolisi ar y Gymraeg. Mae'r ymatebion i'w gweld isod. Gofynnwyd:

Beth ydych chi'n gredu fydd effaith y Strategaeth Cyfranogiad ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws o fewn y gymuned?



Gofynnwyd hefyd:

A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes yna unrhyw gyfleoedd i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni, neu i leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Ymysg y sylwadau perthnasol i'r Strategaeth Cyfranogiad oedd:

- *“Mae gwneud gwaith y cyngor, sydd yn naturiol Gymraeg yn fwy amlwg i'r cyhoedd yn gadarnhaol i'r Gymraeg- p'un ai ydi rhywun yn ei medru eu hunain.”*
- *“Dwi o'r farn byddai cynyddu cysylltiad pawb â'r cyngor yn beth manteisiol i'r iaith- onid drwy bobl yn ei gweld yn cael ei defnyddio'n rhugl ac aml mewn cyd-destunau o bwys.”*
- *“The history and culture of the area should be celebrated along with the Welsh language.”*

Derbyniwyd sylwadau na ddylai'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg o gwbl hefyd.

5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- Ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal 06/01/2023 – 23/01/2023
- Cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad a'r Strategaeth Ddrafft i'r Cabinet – 14/02/2023 er mwyn ei argymhell i'r Cyngor llawn.
- Cyngor Llawn i fabwysiadu'r Strategaeth Cyfranogiad – 02/03/2023

6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Swyddog Monitro:

Mae'r tim cyfreithiol a minnau wedi cyfrannu at y gwaith o lunio'r strategaeth ddrafft. Rwy'n fodlon fod y broses angenrheidiol wedi ei dilyn er creu yr argymhelliad ac yn cloriannu yr ystyriaethau perthnasol yn briodol. Bydd gofyn i'r Cabinet ystyried y materion yma a chanlyniadau'r ymgynghoriad wrth ddod at ei argymhelliad.

Prif Swyddog Cyllid:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIADAU:

Atodiad A - Y strategaeth ddrafft ar ffurf testun yn unig. Mae'r strategaeth wedi'i haddasu yn dilyn sylwadau'r ymgynghoriad. Mae'r addasiadau wedi'u dangos mewn testun glas.

Atodiad B – Dyluniad y Strategaeth (drafft 1) er gwybodaeth

Atodiad C - Asesiad effaith cydraddoldeb

Strategaeth Cyfranogiad

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Cyfranogiad cyntaf Cyngor Gwynedd i chi.

Pobl Gwynedd sydd wrth wraidd pob penderfyniad yr ydym yn ei wneud. Rydym wedi ein hethol i'ch cynrychioli chi ac i wneud y gorau dros bobl Gwynedd. Er mwyn gwneud hynny mae clywed eich barn yn allweddol fel rhan o'r broses ddemocrataidd hon. Mae penderfyniadau anodd yn ein hwynebu yn gyson ac nid yw pob penderfyniad yn plesio pawb. Fel arweinyddion yn y gymuned, mae'n rhaid i ni ystyried pob safbwynt a cheisio gwneud y penderfyniad gorau er budd pawb.

Mae ein Strategaeth gyntaf yn ceisio dangos beth rydym yn ei wneud yn barod i geisio gwrandao ar lais y bobl, a beth sydd i'w ddatblygu ymhellach. Wrth gwrs, mae llawer mwy i'w wneud i'r dyfodol, a bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n gyson. Rwy'n hyderus fod y strategaeth gyntaf hon yn rhoi sail gadarn i ni ar gyfer y ffordd ymlaen.

Yn gywir,



Cynghorydd Menna Jones,

Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

Cyflwyniad

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses y Cyngor o wneud penderfyniadau.

Disgwylir y bydd y strategaeth hon yn esblygu ac yn gwella dros amser wrth i arferion da ddod i'r amlwg ac wrth i dechnoleg ddatblygu ymhellach.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu nod Cyngor Gwynedd i annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn y strategaeth hon rydym wedi ceisio egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl yng Ngwynedd. O fewn pob amcan, rydym wedi nodi canlyniadau clir a'r camau gweithredu.

Dyma ein strategaeth gyntaf a bydd ei weithrediad yn cael ei gadw dan adolygiad.

Ein Dyletswyddau o ran Cyfranogiad a Pholisïau Cysylltiedig

Ein nod yw bod yn agored ac yn ymatebol i anghenion trigolion a chymunedau Gwynedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl leol ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a'u siapio. Ein amcan yw creu diwylliant o bartneriaeth gyda'r cyhoedd sydd yn annog mynegi barn a chyfrannu

Rydym yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud a mae'r strategaeth hon yn cefnogi yr amcan drwy wreiddio cyfranogiad y cyhoedd ym mhrosesau penderfynu y Cyngor. Mae hyn yn ganolog i ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae cyfranogiad yn ymwneud â rhannu penderfyniadau gyda'r rheiny y mae'r penderfyniadau hynny'n effeithio arnynt, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o'n gwaith. Ein nod yw dweud yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, ac i glywed barn trigolion am y syniad. Gall cyfranogiad gynnwys ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau, a gall y Cyngor neu drigolion ei awgrymu. Rhaid cofio fod cyfle i gyfrannu yn cynnwys trefniadau ffurfiol megis ymgynghoriadau sydd yn cael eu dilyn mewn meysydd fel cynllunio ac addysg.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran cyfranogiad. Sef:

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.
2. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Aelod etholedig, neu'n Gynghorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cynghorydd yn ei gynnwys.
3. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor.
4. Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.
5. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.

Fodd bynnag, nid yw'n golygu ein bod yn cytuno â phob sylw sy'n cael ei fynegi, ac mae'n rhaid i ni weithredu bob amser o fewn cyfyngiadau megis y gyfraith a chyfyngiadau ariannol.

Ein Hamcanion

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Nod yr amcan hwn yw rhannu gwybodaeth am swyddogaethau a gwasanaethau'r Cyngor fel bod trigolion yn cael gwybod amdanynt.</p> <p>Mae rhannu gwybodaeth am swyddogaethau'r Cyngor yn helpu'r cyhoedd i ystyried a deall materion cyn rhoi eu barn neu eu hargymhellion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan y Cyngor – mae llawer iawn o wybodaeth wedi ei gynnwys ar wefan y Cyngor ynghylch swyddogaethau'r Cyngor a'r hyn sy'n cael ei gyflawni i drigolion, busnesau lleol ac i ymwelwyr. Cyfryngau Cymdeithasol. Cynllun y Cyngor, polisïau a strategaethau y Cyngor ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ac yn hawdd i'w ddarllen 	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu cynnwys a strwythur gwefan y Cyngor yn gyson i sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth Sicrhau bod Cynllun y Cyngor yn cefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd drwy fod yn hygyrch, yn amserol ac yn hawdd ei ddarllen Adolygu cynnwys blaen raglen y Cyngor Llawn, y Cabinet a Craffu yn gyson a'u cyhoeddi fel fod y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y bobl sy'n gwylio cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac yn yr archif. Data ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r wefan Arolwg boddhad ar y wefan Ymateb i ymgynghoriadau .

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
	<ul style="list-style-type: none"> Newyddion Gwynedd – cylchlythyr i drigolion Gwynedd Ffrydio cyfarfodydd y Cyngor yn fyw i'r cyhoedd eu gwyllo. Gellir gweld agendâu a chofnodion Pwyllgorau'r Cyngor ar-lein. Cyfarfodydd y Cyngor Cyfarfodydd y Cabinet Ymgynghoriadau 	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi canllawiau'r cyfansoddiad ar y wefan fel bo trigolion yn ymwybodol o drefniadau democrataidd y Cyngor. 	

2. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Gyngorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cyngorydd yn ei gynnwys.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar annog pobl i ddod yn Gyngorwyr, gan gynrychioli'r bobl yn eu cymuned eu hunain a gwneud penderfyniadau ar eu rhan.	<ul style="list-style-type: none"> Tudalen 'Bod yn Gyngorydd' ar y wefan a thudalennau eraill perthnasol yn esbonio rôl Gyngorydd a sut i sefyll 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwybodaeth i ddarpar gyngorwyr ar gael ac yn addas at y diben; Cynnal sesiynau cwestiwn ac ateb i rai sy'n ystyried bod 	<ul style="list-style-type: none"> Data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer Aelodau etholedig

2. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Gynghorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cyngorydd yn ei gynnwys.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Mae'n bwysig bod amrywiaeth o bobl yn Gynghorwyr, i gynrychioli'r holl gymuned a gwneud penderfyniadau sydd o fudd i bawb.</p>	<p>mewn etholiad</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth ar y safle wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ad-daliadau gofal ayyb Rhaglen hyfforddi lawn i gefnogi Gynghorwyr trwy gydol eu hamser yn gwneud y rôl Sesiynau Gwybodaeth a Fforymau Ardal Rheolaidd i Gynghorwyr i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ac yn cael eu cynnwys ynddynt Cylchlythyr electroneg Wythnosol i Gynghorwyr Mewnwyd Aelodau sydd yn llawn gwybodaeth gyfredol i Gynghorwyr Cyhoeddi lwfansau Gynghorwyr ar wefan y Cyngor 	<p>yn Gynghorydd cyn iddynt roi eu henw ymlaen.</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori gyda Chynghorwyr presennol i asesu sut i wella'r ddarpariaeth a denu mwy o unigolion o amrywiol gefndiroedd i sefyll fel Gynghorydd. Addasu tudalen we 'Bod yn Gynghorydd' er mwyn cynnwys darpariaethau sydd yn cefnogi'r gallu cyflawni y rôl 	

2. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Gynghorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cyngorydd yn ei gynnwys.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Cydraddoldeb Strategol. • Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth gan y Cyngor. Mae'r datganiad yn dangos yn glir fod Cyngor Gwynedd yn hybu ac annog unigolion o wahanol gefndiroedd i sefyll mewn etholiad ac yn croesawu hynny. • Disgrifiadau o rolau Cyngorwyr ar y mewnrwyd Aelodau • Gweithredu cyfarfodydd aml leoliad sy'n galluogi Cyngorwyr i fynd i gyfarfodydd y Cyngor ac i gymryd rhan ynddynt o unrhyw leoliad sydd â chysylltiad â'r rhyngwrwyd. Mae hynny er mwyn annog pobl o amrywiol gefndiroedd i ystyried y rôl gan gydbwysu gyda eu gofynion eraill ee magu teulu ac/neu weithio 		

3. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar annog a galluogi unigolion i gyfrannu at feysydd sydd yn effeithio arnynt, pe dymunir gwneud hyn.</p> <p>Gall hyn fod fel unigolyn neu'n rhan o grŵp neu gymuned, gyda'u barn yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan - adran democratiaeth ar y wefan lle gall trigolion weld agendâu, cofnodion a phenderfyniadau pwyllgorau. Mae taflen benodol yn cael ei chyhoeddi yn dangos pob penderfyniad ac argymhelliad mae'r oll o gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor y Cabinet neu Bwyllgorau ac Is Bwyllgorau wedi ei wneud ac mae'r wybodaeth yn cael ei gyhoeddi o fewn 5 diwrnod gwaith clir o'r cyfarfod. Mae hyn yn fodd o rannu gwybodaeth am benderfyniadau pwysig yn sydyn heb orfod aros am y cofnod llawn. Ymgynghoriad ac arolygon ar y wefan fel maent yn codi. Cyfryngau Cymdeithasol – yn rhannu unrhyw 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu ein dulliau o ymgysylltu gyda thrigolion Gwynedd. Adeiladu ar y defnydd o dechnoleg i gynyddu cyrhaeddiad ymgysylltu e.e. defnyddio wi-fi cyhoeddus i hyrwyddo arolygon. Byddwn yn creu cynllun gweithredu er mwyn datblygu trefniadau clir ar sut y gall y cyhoedd gyfrannu eu sylwadau ar benderfyniadau allweddol dros y flwyddyn nesaf. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y bobl sy'n gwylio cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac yn yr archif ar wefan Cyfraddau cyfranogi mewn ymgynghoriadau ac arolygon.

3. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
	<p>ddiweddariad o waith y Cyngor.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Newyddion Gwynedd • Mae'r Cyngor yn gweithio gyda grwpiau penodol i sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau'n cael ei rhannu, a bod amrywiaeth o safbwyntiau'n cael eu clywed • Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n rheolaidd â thrigolion Gwynedd ar benderfyniadau corfforaethol allweddol e.e. Premiwm Treth Cyngor. • Mae gan y Cyngor fecanweithiau rheolaidd i ymgysylltu â'r cyhoedd gan gynnwys ac arolygon ar lein. 		

3. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi blaen raglen y Cabinet a Phwyllgorau Craffu. 		

4. Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys deisebau, sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar gyfranogiad, sy'n llawer mwy na chael barn pobl ar fater penodol.</p> <p>Mae cyfranogiad yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a gwleidyddol gan ddefnyddio dulliau ymgysylltu gwahanol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan – Tudalen Cwynion ac Adborth Hunanwasanaeth ar lein Gwynedd Polisi Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion Ymgynghoriad ac arolygon ar safle we y cyngor (gyda chopiau papur ar gael hefyd) – gweler tudalen 'dweud eich dweud' a lle i adrodd nol ar ganlyniadau hefyd Newyddion Gwynedd 	<ul style="list-style-type: none"> Adrodd i'r Cabinet ar gwynion ac adborth a dderbynnir gan drigolion. Datblygu gwell dealltwriaeth o ddemograffeg trigolion sy'n rhoi adborth yn rheolaidd, fel y gellir nodi unrhyw flychau mewn cynrychiolaeth. Mesur ar gynnydd gweithredu y strategaeth hon yn amserol gan adrodd i'r pwyllgor perthnasol. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y sylwadau, cwynion a chanmoliaethau a dderbynnir Cyfraddau cyfranogi mewn ymgynghoriadau ac arolygon Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymwneud â thrigolion sydd wedi rhoi adborth Lefelau cyfranogi ac ymgysylltu ran y broses graffu;

4. Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys deisebau, sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.			
Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
	<ul style="list-style-type: none"> • Adran democratiaeth ar y wefan lle gall trigolion weld agendâu, penderfyniadau a chofnodion cyfarfodydd • Mae'r Cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau'n cael eu rhannu, a bod amrywiaeth safbwyntiau'n cael eu clywed. • Tudalen Cyflwyno Materion i'w Craffu ar gael i'r cyhoedd ar y wefan • Cyfle i'r cyhoedd gyflwyno cwestiwn i'r Cyngor llawn • Cyhoeddi blaen raglen y Cabinet a Craffu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu Cynllun Deisebau. • Byddwn yn creu cynllun gweithredu er mwyn datblygu trefniadau clir ar sut y gall y cyhoedd gyfrannu eu sylwadau ar benderfyniadau allweddol dros y flwyddyn nesaf. • Hyrwyddo ein trefniadau cyfredol i'r cyhoedd gyflwyno cwestiwn i'r Cyngor llawn neu fater i'w graffu • Adnabod adborth a chyfranogiad at benderfyniadau yn ein trefniadau penderfynu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau • Nifer y bobl sy'n gwylio cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac yn yr archif ar y wefan • Nifer o ddeisebau caiff ei gyflwyno ar-lein

5. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.

Nod	Yr hyn sydd eisoes ar gael	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Mae'r amcan hwn yn cydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol gyfrwng ble mae cynghorwyr yn rhannu gwybodaeth wleidyddol ac yn ymgysylltu â chynghorwyr eraill a thrigolion.</p> <p>Mae gan y cyfryngau cymdeithasol y potensial i wella democratiaeth drwy hwyluso sgysiau rhydd ac agored a thrwy alluogi Cynghorwyr i gyfathrebu'n uniongyrchol â thrigolion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol – a sut i'w ddefnyddio yn saff a phriodol gan godi ymwybyddiaeth Cynghorwyr o'r risgiau posib ynghyd a'r angen i ystyried gwahanol ddulliau o gyfathrebu. • Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru <ul style="list-style-type: none"> ➢ Canllaw i Gynghorwyr - 'Gwella Dinasyddiaeth Ddigidol – Ymchwil ac Arfer Gorau' ➢ Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol ➢ Canllaw'r Cynghorwyr i drafod bygwth 	<ul style="list-style-type: none"> • Anwytho Cynghorwyr newydd yn dilyn etholiad ac/neu is-etholiad • Hyfforddi Cynghorwyr a pharhau i addasu'r hyfforddiant i ymateb i ofynion newydd gan fod cymdeithas a'r byd yn newid. • Cynnal sesiynau ychwanegol os yw'r angen yn codi yn sgil adolygiad hyfforddiant personol gan Gynghorwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> • % o ran cwblhau modiwlau hyfforddi • % o ran presenoldeb mewn Seminarau a hyfforddiant perthnasol i Aelodau

Trefniadau Ymgynghori

Cynheli'r Ymgynghoriad fel rhan o waith datblygu'r Strategaeth hon er mwyn sicrhau ein bod yn anelu at yr amcanion cywir, ac yn y ffordd orau posib i drigolion Gwynedd. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau yr ymgynghoriad yn y fersiwn derfynol o'r Strategaeth.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth hwn ac mae'r canlyniadau wedi cyfrannu at gynnwys a ffurf y ddogfen.

(dolen angen ei gynnwys i adroddiad y Cabinet YMA)

Diffiniadau

Caiff y diffiniadau gweithio hyn eu llywio gan y 'Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd' (Participation Cymru, 2012).

Ymgysylltu / Ymgysylltiad: Proses weithredol a chyfranogol lle gall pobl ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a'u siapio sy'n cynnwys ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau.

Ymgynghoriad: Proses ffurfiol lle mae llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn gofyn am farn y cyhoedd, grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb.

Cyfranogi / Cyfranogiad: Pobl yn ymwneud yn weithredol â llunwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau o gamau cynnar cynllunio ac adolygu polisïau a gwasanaethau.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Cynllun deisebau
- Canllaw ar y Broses Ddemocrataidd (i'w ddatblygu)
- Canllaw i'r Cyfansoddiad
- Tudalen Lleisiwch eich barn
- Polisi Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion
- Cysylltu a'ch Cynghorydd Lleol

Trefniadau Partneriaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn bartner allweddol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Sefydlwyd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol) er mwyn sicrhau datblygiadau cynaliadwy gan gyflawni'r saith nod llesiant.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ystyried y pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gweithredu i ddangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor.

Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Ngwynedd a Môn. Mae BGC wedi ymrwmo i geisio barn trigolion ar yr holl bolisiâu a phenderfyniadau a wneir, ac ar sut y gallwn wneud gwelliannau yn y dyfodol.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (llesiantgwyneddamon.org)

Deddfwriaeth a Pholisi Perthnasol

- Cynllun y Cyngor
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru
 - Llywodraeth Cymru – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024
 - Llywodraeth Cymru (Senedd yn ôl yr adroddiad) Arolwg Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, Tach 2018
 - Cynllun Gweithredu: Blwyddyn 1 – 2020-2021 – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Participation Cymru – Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu a'r Cyhoedd
- Mesur Plant a theuluoedd (Cymru) 2010
- Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yng Nghymru

Strategaeth Cyfranogiad 2023



Rhagair

Cyflwyniad

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses y Cyngor o wneud penderfyniadau.

Disgwylir y bydd y strategaeth hon yn esblygu ac yn gwella dros amser wrth i arferion da ddod i'r amlwg ac wrth i dechnoleg ddatblygu ymhellach.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu nod Cyngor Gwynedd i annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn y strategaeth hon rydym wedi ceisio egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl yng Ngwynedd. O fewn pob amcan, rydym wedi nodi canlyniadau clir a'r camau gweithredu.

Dyma ein strategaeth gyntaf a bydd ei weithrediad yn cael ei gadw dan adolygiad.



Ein Dyletswyddau o ran Cyfranogiad a Pholisïau Cysylltiedig

Ein nod yw bod yn agored ac yn ymatebol i anghenion trigolion a chymunedau Gwynedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl lleol ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a'u siapio. Ein amcan yw creu diwylliant o bartneriaeth gyda'r cyhoedd sydd yn annog mynegi barn a chyfrannu.

Rydym yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud a mae'r strategaeth hon yn cefnogi yr amcan drwy wreiddio cyfranogiad y cyhoedd ym mhrosesau penderfynu y Cyngor. Mae hyn yn ganolog i ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae cyfranogiad yn ymwneud â rhannu penderfyniadau gyda'r rheiny y mae'r penderfyniadau hynny'n effeithio arnynt, a rhaid iddo fod yn rhan annatod o'n gwaith. Ein nod yw dweud yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, ac i glywed barn trigolion am y syniad. Gall cyfranogiad gynnwys ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau, a gall y Cyngor neu drigolion ei awgrymu. Rhaid cofio fod cyfle i gyfrannu yn cynnwys trefniadau ffurfiol megis ymgynghoriadau sydd yn cael eu dilyn mewn meysydd fel cynllunio ac addysg.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran cyfranogiad. Sef:



1

Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.

2

Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Aelod etholedig, neu'n Gynghorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cynghorydd yn ei gynnwys.

3

Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor.

4

Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.

5

Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.

Fodd bynnag, nid yw'n golygu ein bod yn cytuno
Tud. 172
syllw sy'n cael ei fynegi, ac mae'n rhaid i ni
weithredu bob amser o fewn cyfyngiadau megis y
gyfraith a chyfyngiadau ariannol.

Ein Hamcanion

1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.

Nod	Yr hyn sydd eisoes ar waith	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Nod yr amcan hwn yw rhannu gwybodaeth am swyddogaethau a gwasanaethau'r Cyngor fel bod trigolion yn cael gwybod amdanynt. Mae rhannu gwybodaeth am swyddogaethau'r Cyngor yn helpu'r cyhoedd i ystyried a deall materion cyn rhoi eu barn neu eu hargymhellion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan y Cyngor. Cyfryngau Cymdeithasol. Cynllun y Cyngor, polisiau a strategaethau y Cyngor ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ac yn hawdd i'w ddarllen Newyddion Gwynedd – cylchlythyr i drigolion Gwynedd Ffrydio cyfarfodydd y Cyngor yn fyw i'r cyhoedd eu gwyllo. Gellir gweld agendâu a chofnodion Pwyllgorau'r Cyngor ar-lein. Cyfarfodydd y Cyngor Cyfarfodydd y Cabinet Ymgynghoriadau 	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu cynnwys gwefan y Cyngor yn gyson i sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth Sicrhau bod Cynllun y Cyngor yn cefnogi ymgysylltu â'r cyhoedd drwy fod yn hygyrch, yn amserol ac yn hawdd ei ddarllen Adolygu cynnwys blaen raglen y Cyngor Llawn, y Cabinet a Craffu yn gyson a'u cyhoeddi fel fod y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd Cyhoeddi canllawiau'r cyfansoddiad ar y wefan fel bo trigolion yn ymwybodol o drefniadau democrataidd y Cyngor. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y bobl sy'n gwyllo cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac yn yr archif. Data ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r wefan Arolwg boddhad ar y wefan Ymateb i ymgynghoriadau

2. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Gyngorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cynghorydd yn ei gynnwys.

Nod	Yr hyn sydd eisoes ar waith	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar annog pobl i ddod yn Gyngorwyr, gan gynrychioli'r bobl yn eu cymuned eu hunain a gwneud penderfyniadau ar eu rhan.</p> <p>Mae'n bwysig bod amrywiaeth o bobl yn Gyngorwyr, i gynrychioli'r holl gymuned a gwneud penderfyniadau sydd o fudd i bawb.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Tudalen 'Bod yn Gyngorydd' ar y wefan a thudalennau eraill perthnasol Gwybodaeth ar y safle we hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ad-daliadau gofal ayyb Rhaglen hyfforddi lawn i gefnogi Cynghorwyr trwy gydol eu hamser yn gwneud y rôl Sesiynau Gwybodaeth a Fforymau Ardal Rheolaidd i Gyngorwyr i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ac yn cael eu cynnwys ynddynt Cylchlythyr electroneg Wythnosol i Gyngorwyr 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwybodaeth i ddarpar gyngorwyr ar gael ac yn addas at y diben; Cynnal sesiynau cwestiwn ac ateb i rai sy'n ystyried bod yn Gyngorydd cyn iddynt roi eu henw ymlaen. Ymgynghori gyda Chyngorwyr presennol i asesu sut i wella'r ddarpariaeth a denu mwy o unigolion o amrywiol gefndiroedd i sefyll fel Cynghorydd. Addasu tudalen we 'Bod yn Gyngorydd' er mwyn cynnwys darpariaethau sydd yn cefnogi'r gallu cyflawni y rôl 	<ul style="list-style-type: none"> Data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer Aelodau etholedig

- Mewnwyd Aelodau sydd yn llawn gwybodaeth gyfredol i Gynghorwyr
- Cyhoeddi lwfansau Cynghorwyr ar wefan y Cyngor
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- [Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth gan y Cyngor.](#)
- Disgrifiadau o rolau Cynghorwyr ar y mewnwyd Aelodau
- Gweithredu cyfarfodydd aml leoliad sy'n galluogi Cynghorwyr i fynd i gyfarfodydd y Cyngor ac i gymryd rhan ynddynt o unrhyw leoliad sydd â chysylltiad â'r rhyngwrwyd



3. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor.

Nod	Yr hyn sydd eisoes ar waith	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar annog a galluogi unigolion i gyfrannu at feysydd sydd yn effeithio arnynt, pe dymunir gwneud hyn.</p> <p>Gall hyn fod fel unigolyn neu'n rhan o grŵp neu gymuned, gyda'u barn yn cael ei pharchu a'i gwerthfawrogi.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan - adran democratiaeth ar y wefan lle gall trigolion weld agendâu a chofnodion cyfarfodydd, neu chwilio am benderfyniadau Ymgynghoriad ac arolygon ar y wefan fel maent yn codi. Cyfyngau Cymdeithasol – i dderbyn unrhyw ddiweddariad o waith y Cyngor. Newyddion Gwynedd Mae'r Cyngor yn gweithio gyda grwpiau penodol i sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau'n cael ei rhannu, a bod amrywiaeth o safbwyntiau'n cael eu clywed e.e Nodi grwpiau 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu ein dulliau o ymgysylltu gyda trigolion Gwynedd. Adeiladu ar y defnydd o dechnoleg i gynyddu cyrhaeddiad ymgysylltu e.e. defnyddio Wi-Fi cyhoeddus i hyrwyddo arolygon. Byddwn yn creu cynllun gweithredu er mwyn datblygu trefniadau clir ar sut y gall y cyhoedd gyfrannu eu sylwadau ar benderfyniadau allweddol (cyn ac ar ôl eu cymryd) dros y flwyddyn nesaf. 	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y bobl sy'n gwylio cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac yn yr archif ar wefan Cyfraddau cyfranogi mewn ymgynghoriadau ac arolygon.

- Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n rheolaidd â thrigolion Gwynedd ar benderfyniadau corfforaethol allweddol e.e. Premiwm Treth Cyngor.
- Mae gan y Cyngor fecanweithiau rheolaidd i ymgysylltu â'r cyhoedd gan gynnwys ac arolygon ar lein.
- Cyhoeddi blaen raglen y Cabinet, Craffu a'r Cyngor.




4. Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys deisebau, sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.

Nod	Yr hyn sydd eisoes ar waith	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar gyfranogiad, sy'n llawer mwy na chael barn pobl ar fater penodol.</p> <p>Mae cyfranogiad yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a gwleidyddol gan ddefnyddio dulliau ymgysylltu gwahanol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwefan – Tudalen Cwynion ac Adborth • Hunanwasanaeth ar lein Gwynedd • Polisi Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion • Ymgynghoriad ac arolygon • Newyddion Gwynedd • Adran democratiaeth ar y wefan lle gall trigolion weld agendâu a chofnodion cyfarfodydd, neu chwilio am benderfyniadau • Mae'r Cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau'n cael ei rhannu, a bod amrywiaeth safbwyntiau'n cael eu clywed. 	<ul style="list-style-type: none"> • Adrodd i'r Cabinet ar gwynion ac adborth a dderbynnir gan drigolion. • Datblygu gwell dealltwriaeth o ddemograffeg trigolion sy'n rhoi adborth yn rheolaidd, fel y gellir nodi unrhyw flychau mewn cynrychiolaeth. • Mesur ar gynnydd gweithredu y strategaeth hon yn amserol gan adrodd i'r pwyllgor perthnasol. • Datblygu Cynllun Deisebau. • Byddwn yn creu cynllun gweithredu er mwyn datblygu trefniadau clir ar sut y gall y cyhoedd gyfrannu eu sylwadau ar benderfyniadau allweddol 	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y sylwadau, cwynion a chanmoliaethau a dderbynnir • Cyfraddau cyfranogi mewn ymgynghoriadau ac arolygon • Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymwneud â thrigolion sydd wedi rhoi adborth • Lefelau cyfranogi ac ymgysylltu ran y broses graffu; • Nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau • Nifer y bobl sy'n gwylio cyfarfodydd gan gynnwys rhai byw ac yn yr archif ar y wefan • Nifer o ddeisebau caiff ei gyflwyno ar-lein

- Tudalen Cyflwyno Materion i'w Craffu ar y wefan
- Cyfle i'r cyhoedd gyflwyno cwestiwn i'r Cyngor llawn
- Cyhoeddi blaen raglen y Cabinet a Craffu.

(cyn ac ar ôl eu cymryd) dros y flwyddyn nesaf.

- Hyrwyddo ein trefniadau cyfredol i'r cyhoedd gyflwyno cwestiwn i'r Cyngor llawn neu fater i'w graffu
- Adnabod adborth a chyfranogiad at benderfyniadau yn ein trefniadau penderfynu.



5. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.

Nod	Yr hyn sydd eisoes ar waith	Camau gweithredu	Mesurau
<p>Mae'r amcan hwn yn cydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol gyfrwng ble mae cynghorwyr yn rhannu gwybodaeth wleidyddol ac yn ymgysylltu â chynghorwyr eraill a thrigolion.</p> <p>Mae gan y cyfryngau cymdeithasol y potensial i wella democratiaeth drwy hwyluso sgwrsiau rhydd ac agored a thrwy alluogi Cynghorwyr i gyfathrebu'n uniongyrchol â thrigolion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol – a sut i'w ddefnyddio yn saff. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru <p>Canllaw i Gynghorwyr - 'Gwella Dinasyddiaeth Ddigidol – Ymchwil ac Arfer Gorau'</p> <p>Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>Canllaw'r Cynghorwyr i drafod bygwth</p>	<ul style="list-style-type: none"> Anwytho Cynghorwyr newydd yn dilyn etholiad ac is-etholiad Hyfforddi Cynghorwyr a pharhau i addasu'r hyfforddiant i ymateb i fel mae'r byd yn newid. Cynnal sesiynau ychwanegol os yw'r angen yn codi yn sgil adolygiad hyfforddiant personol gan Gynghorwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> % o ran cwblhau modiwlau hyfforddi % o ran presenoldeb mewn Seminarau a hyfforddiant perthnasol i Aelodau



Trefniadau Ymgynghori

Cynheli'r Ymgynghoriad fel rhan o waith datblygu'r Strategaeth hon er mwyn sicrhau ein bod yn anelu at yr amcanion cywir, ac yn y ffordd orau posib i drigolion Gwynedd. Byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau yr ymgynghoriad yn y fersiwn derfynol o'r Strategaeth.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn. (Mewn osod sylwadau'r ymgynghoriad yn dilyn yr ymgynghoriad)

Diffiniadau

Caiff y diffiniadau gweithio hyn eu llywio gan y 'Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd' (Participation Cymru, 2012).

Ymgysylltu / Ymgysylltiad: Proses weithredol a chyfranogol lle gall pobl ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a'u siapio sy'n cynnwys ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau.

Ymgynghoriad: Proses ffurfiol lle mae llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn gofyn am farn y cyhoedd, grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb.

Cyfranogi / Cyfranogiad: Pobl yn ymwneud yn weithredol â llunwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau o gamau cynnar cynllunio ac adolygu polisiau a gwasanaethau.

Gwybodaeth Ychwanegol

- Cynllun deisebau
- Canllaw ar y Broses Ddemocrataidd (i'w ddatblygu)
- Canllaw i'r Cyfansoddiad
- Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth Graffu
- Tudalen Lleisiwch eich barn
- Polisi Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion
- Cysylltu a'ch Cynghorydd Lleol

Trefniadau Partneriaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn bartner allweddol o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Sefydlwyd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol) er mwyn sicrhau datblygiadau cynaliadwy gan gyflawni'r saith nod llesiant.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ystyried y pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gweithredu i ddangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor.

Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Ngwynedd a Môn. Mae BGC wedi ymrwymo i geisio barn trigolion ar yr holl bolisiau a phenderfyniadau a wneir, ac ar sut y gallwn wneud gwelliannau yn y dyfodol.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
(llesiantgwyneddamon.org)

Deddfwriaeth a Pholisi Perthnasol

- Cynllun y Cyngor
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru
 - Llywodraeth Cymru – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024
 - Llywodraeth Cymru (Senedd yn ôl yr adroddiad) Arolwg Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, Tach 2018
 - Cynllun Gweithredu: Blwyddyn 1 – 2020-2021 – Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus ng Nghymru
- Participation Cymru – Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu a'r Cyhoedd
- Mesur Plant a theuluoedd (Cymru) 2010
- Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yng Nghymru

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Strategaeth Cyfranogiad.

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau hybu ac annog cyfranogiad a llunio Strategaeth Cyfranogiad.

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses y Cyngor o wneud penderfyniadau.

Disgwylir y bydd y strategaeth yn esblygu ac yn gwella dros amser wrth i arferion da ddod i'r amlwg ac wrth i dechnoleg ddatblygu ymhellach.

Mae'r strategaeth ddrafft yn amlinellu nod Cyngor Gwynedd i annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn y strategaeth rydym wedi ceisio egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl yng Ngwynedd. O fewn pob amcan, rydym wedi nodi canlyniadau clir a'r camau gweithredu.

Dyma ein strategaeth gyntaf a bydd ei weithrediad yn cael ei gadw dan adolygiad.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith - ar ran Grŵp Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Dyma'r ail asesiad wrth greu drafft cyntaf y Strategaeth Cyfranogiad yn dilyn derbyn ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Cynghorwyr, Staff a'r cyhoedd.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Nid oes camau penodol wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda phobl gyda nodweddion gwarchoddedig, gan fod y Strategaeth Cyfranogiad a'r ymgynghoriad cyhoeddus yn agored i bawb.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd 89 ymateb i'r ymgynghoriad mewn cyfanrwydd. Mae adroddiad yn dadansoddi'r canlyniadau yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 14/02/2023 – gweler yr adroddiad ar gyfer y manylion llawn. Yn gyffredinol roedd ymatebion positif i'r Strategaeth ddrafft, a rhai sylwadau ar gyfer gwella. Mae'r addasiadau i'r strategaeth yn dilyn yr ymgynghoriad wedi eu cofnodi yn yr adroddiad i'r Cabinet.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Gweithredir yn unol â gofynion y Ddeddf.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae dystiolaeth ychwanegol wedi ei gasglu yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Anabledd	Positif / negyddol	Mae'r strategaeth ar ei ffurf gyfredol yn adnabod y camau o ran cymryd rhan sy'n bodoli eisoes. Bydd rhaid sicrhau fod modd i bawb gymryd rhan gydag unrhyw ddatblygiadau sydd i'r dyfodol, yn arbennig unrhyw ddatblygiadau o safbwynt technoleg gan sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb. Atgyfnerthwyd y pwynt hwn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
Rhyw	dim	Dim effaith wedi ei adnabod

Oedran	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Cyfeiriadedd rhywiol	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Ailbennu rhywedd	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a mamolaeth	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Priodas a phartneriaeth sifil	dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Yr iaith Gymraeg	Positif	Mae'r strategaeth yn amlinellu y cyfleon sydd i unigolion gyfrannu tuag at benderfyniadau'r Cyngor trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. Wrth i'r Strategaeth gael ei datblygu ymhellach i'r dyfodol byddwn yn hyrwyddo mewnbwn drwy'r Gymraeg gan y cyhoedd.
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	dim	Dim effaith wedi ei adnabod

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	nac ydi	

Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Cyfle i unrhyw unigolyn godi materion o bwys gyda'r Cyngor.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Ydi, fel uchod

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae'r strategaeth yn amlinellu y cyfleon sydd i unigolion gyfrannu tuag at benderfyniadau'r Cyngor trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. Wrth i'r Strategaeth gael ei datblygu ymhellach i'r dyfodol byddwn yn hyrwyddo mewnbwn drwy'r Gymraeg gan y cyhoedd.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Bydd yn rhaid sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau technegol i'r dyfodol yn galluogi mewnbwn yn llwyr drwy'r Gymraeg i unrhyw drigolion.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Dyma'r ail asesiad yn dilyn i ni ymgynghori ar y strategaeth ddrafft gyda'r cyhoedd.

Bydd angen sicrhau dulliau amrywiol o ymgysylltu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael eu rhoi dan anfantais wrth gyfranogi. Er enghraifft, bydd angen bod yn ofalus o beidio gor-

ddefnyddio technoleg yn y dyfodol gan y gallau hynny gau allan rhai aelodau hyn o'r gymdeithas nad ydynt mor hyderus yn defnyddio technoleg.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Bydd angen sicrhau dulliau amrywiol o ymgysylltu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael eu rhoi dan anfantais wrth gyfranogi. Er enghraifft, bydd angen bod yn ofalus o beidio gor-ddefnyddio technoleg yn y dyfodol gan y gallau hynny gau allan rhai aelodau hyn o'r gymdeithas nad ydynt mor hyderus yn defnyddio technoleg.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Gweler yr effaith bositif wedi ei amlinellu uchod trwy roi cyfle cyfartal i bawb i fod yn rhan o brif benderfyniadau y Cyngor wrth i'r datblygiadau fynd yn eu blaen. (o fewn cyfyngiadau'r cynllun).

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig. Gan fod y Strategaeth Cyfranogiad yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais "socio economaidd." Mae asesiad yn cadarnhau nad oes ardrawiadau penodol fyddai yn cefnogi gwyro oddi wrth yr argymhelliad.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	√
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	

Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Dyma ein strategaeth gyntaf. Bydd gweithrediad y Strategaeth yn cael ei gadw dan adolygiad.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd gweithrediad y Strategaeth yn cael ei gadw dan adolygiad.

Eitem 11

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	14 Chwefror 2023
Aelod Cabinet:	Y Cyng. Dyfrig Siencyn a'r Cyng. Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Roland Evans
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679 450
Teitl yr Eitem:	Gwynedd ac Eryri 2035: Cynllun Strategol ar gyfer yr Economi Ymweld

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- *Cymeradwyo Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 fel ein Cynllun Strategol ar gyfer yr Economi Ymweld yn yr ardal.*
- *Cymeradwyo sefydlu Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 yn ogystal a'r gweithdrefnau a'r strwythurau priodol fydd eu hangen er mwyn datblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun Strategol, Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 a'i fesuryddion perthnasol.*

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi adolygu eu blaenoriaethau a'u cynlluniau ar gyfer yr economi ymweld yn yr ardal.

Cychwynnodd adolygiad o'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfan yn 2018 gyda chyfres o weithdai ar gyfer y sector twristiaeth a chynrychiolwyr cymunedau.

Yn sgil Covid-19 bu pwysau eithriadol ar gymunedau ar draws Gwynedd ac Eryri gyda nifer ymwelwyr di-gynsail a'r ardal. Mae'r cyfnod hwn wedi amlygu rhai materion y mae angen ymateb iddynt er mwyn cefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal.

Cyflwynwyd adroddiad ar y broses o ddatblygu egwyddorion ar gyfer yr Economi Ymweld i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021 yn ogystal ag adroddiad pellach ar y Cynllun Strategol, ei amcanion a'i dulliau gweithredu ar 2 Chwefror 2023.

Ym mis Tachwedd 2021 fe arwyddodd Cyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol Gytundeb o Ddealltwriaeth. Amcan y Cytundeb o Ddealltwriaeth yw *cydweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn partneriaeth i wireddu gweledigaeth ac egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 i warchod a hyrwyddo gwerthoedd arbennig yr ardal.*

Sefydlwyd Bwrdd Llywio ar y cyd rhwng y ddau gorff sy'n cynnwys Prifweithredwyr, Arweinydd Cyngor Gwynedd, Yr Aelod Cabinet, Cadeirydd y Parc a Phenaeithiad Adran.

Cafodd y Cynllun drafft ei gymeradwyo i'w gyflwyno i strwythurau democrataidd y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol gan y Bwrdd Llywio ar y cyd ar 21 Rhagfyr 2022.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn ran o drafodaethau ar ddatblygu'r Cynllun hwn ac yn gefnogol i'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r amcanion sydd wedi eu nodi.

Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal i gytuno ar union rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn y strwythurau i'r dyfodol – boed fel sylwebydd neu fel partner llawn ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol sydd o fewn i ffiniau Sir Conwy.

Mae'r Cynllun Strategol drafft i'w weld yn **Atodiad 1**.

3 CYFLWYNIAD

Pam bod angen gweithredu rŵan?

1. Mae Cynllun Eryri yn adnabod yr angen am Gynllun Twristiaeth Cynaliadwy.
2. Mae dyletswydd arnom i warchod cymunedau, amgylchedd a diwylliant yr ardal.
3. Mae Cynllun Gwynedd yn blaenoriaethu cynllun i sicrhau bod busnesau a chymunedau Gwynedd yn elwa o'r ymwelwyr sy'n dod i'r ardal a datblygu Cynllun Adfywio i Wunedd.
4. Mae Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru'n adnabod yr angen i ddatblygu cynllun i reoli ymwelwyr a'r ardal.
5. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Penllyn a'r Sarnau yn rhoi blaenoriaeth i reoli twristiaeth yn gynaliadwy.
6. Amlygodd adolygiad Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd gyfleon a bygythiadau newydd i'r dyfodol sydd angen ymateb iddynt.
7. Amlygodd Covid yr angen i ymateb mewn ffordd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol er mwyn gwarchod rhinweddau arbennig yr ardal a'n cymunedau.
8. Mae cyfleon cydweithio newydd yn codi a chyfle i ddysgu o brofiadau ardaloedd eraill.
9. Mae data yn amlygu'r angen i gael cydbwysedd gwell yn yr economi ymweld ac o fewn yr economi'n gyffredinol yn ardal Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Beth yw'r prif faterion sy'n codi yn yr ardal?

10. Pwysau ar ardaloedd a gwasanaethau cyhoeddus e.e. meysydd parcio, biniau, ffyrdd, ardaloedd gwledig.
11. Covid wedi creu tensiynau mewn rhai ardaloedd gyda niferoedd ymweld digynsail.
12. Lefelau cyflogau a chyflogaeth tymhorol o fewn y sector twristiaeth.
13. Diffyg amrywiaeth yn yr economi wledig a gor-ddibyniaeth posib ar dwristiaeth
14. Teimladau negyddol o fewn i rai cymunedau ac ardaloedd, ond gall bod cyfleon os gweithredir yn wahanol.
15. Effaith posib ar yr iaith a chymunedau a'r amgylchedd.
16. Angen Mesuryddion gwell i fesur unrhyw effeithiau negyddol a chadarnhaol.

17. Cyfle i blethu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy i ddatblygiad Cynlluniau Adfywio Ardal ar draws Gwynedd.

Y Cynllun Strategol: (A welir yn Atodiad 1)

Mae'r Cyngor a'r Parc wedi datblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 gyda'r weledigaeth ganlynol:

Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri

Mae'r ddau gorff wedi ail-ddiffinio diffiniad y UNWTO (Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenedloedd Unedig) ac wedi cytuno ar yr Egwyddorion Economi Ymweld Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

Mae amcanion hefyd wedi eu datblygu i lywio blaenoriaethau'r dyfodol:

Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth

- Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro
- Economi ymweld sy'n arweinydd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored

Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd

- Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol
- Economi ymweld sy'n arweinydd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel.

Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anafanteision

- Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Cynllun Strategol yn gwneud yr achos dros ddatblygu dull newydd er mwyn ymateb i sefyllfa ardal Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri o ran yr economi ymweld ac i sicrhau bod gennym economi ymweld cynaliadwy yn y dyfodol.

Un o gamau gweithredu cyntaf y Cynllun hwn fydd sefydlu Partneriaeth

Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri fydd yn dod a phartneriaid ynghyd am y tro cyntaf i drafod y maes yma'n ffurfiol i'r dyfodol.


Mae'r strwythur newydd yn cynnwys y prif elfennau canlynol:

Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri – Partneriaeth newydd aml-sector i weithredu'r Cynllun Economi Ymweld trwy gytuno ar blaenoriaethau gweithredu, mesuryddion priodol a monitro rheolaidd. Mae'r Cylch Gorchwyl drafft yn Atodiad 3.

Bwrdd Llywio Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri – Bwrdd Llywio strategol ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda chynrychiolaeth wleidyddol ac uwch swyddogion i gytuno ar gyfeiriad strategol yr economi ymweld rhwng y ddau awdurdod. Bydd cynrychiolaeth o'r Bartneriaeth yn eistedd ar y Bwrdd Llywio. Mae'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 2.

Grŵp Gweithredu Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri – Grŵp swyddogion i weithredu ar y blaenoriaethau strategol a osodir gan y Bwrdd Llywio ac i gefnogi gwireddu'r blaenoriaethau gweithredu, y mesuryddion a'r gwaith monitro ar ran y Bartneriaeth.

Bydd y strwythur canlynol yn cael ei fabwysiadu er mwyn monitro a gwireddu'r Cynllun:



Cyllid

Er gwaetha'r rhagolygon ariannol difrifol sydd o'n blaenau, mae disgwyl y bydd y

Cynllun hwn hefyd yn dylanwadu ar bolisiâu eraill Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid yn y maes cynllunio, rheoli cyrchfan, rheoli'r amgylchedd, hyfforddiant a sgiliau, adfywio, cefnogi busnes, digwyddiadau ayb gan ychwanegu gwerth trwy newid pwyslais gweithgareddau neu bolisiâu.

Rydym yn hyderus y bydd y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu wedi ei flaenoriaethu yn agor drysau at arian Llywodraethau Prydain a Chymru a chronfeydd ariannu eraill yn y dyfodol.

Yn ystod ein trafodaethau ac ymgynghoriadau ar ddatblygu'r Cynllun hwn, fe godwyd yr Ardoll Twristiaeth fel modd posib o gefnogi'r sector a'n cymunedau yn y dyfodol. Tra bod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar hyn yn ystod datblygiad y Cynllun hwn, a dim sicrwydd y bydd yn cael ei fabwysiadu; fe allai'r Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy a'i Gynllun Gweithredu fod yn ffordd cynhwysol a theg o adnabod prosiectau blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiadau o'r Ardoll Ymwelwyr yn y dyfodol os bydd yn cael ei sefydlu.

Mae elfennau o'r Cynllun Strategol eisoes yn weithredol o ran blaenoriaethau gweithredu ar draws Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol a'r egwyddorion yn llywio buddsoddiadau mewn rhai meysydd gweithredol e.e. Cynllun Arosfan, Llysgenhadon Gwynedd ac Eryri, Digwyddiadau Strategol, negeseuon Cyfathrebu Eryri Mynyddoedd a Môr ayb.

5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Cam Gweithredu	Corff Arweiniol	Erbyn pryd?
Sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri	Cyngor Gwynedd gyda chefnogaeth Parc Cenedlaethol Eryri	Gwanwyn 2023
Datblygu a gwreiddio'r trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Parc	Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri	2023
Mabwysiadu Mesuryddion Cytbwys	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Gwanwyn 2023
Sefydlu Trefniadau Monitro ffurfiol	Cyngor Gwynedd	Gwanwyn 2023
Cymeradwyo Cynllun Gweithredu sy'n adnabod corff arweiniol i gyflawni blaenoriaethau	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Haf 2023
Sefydlu Arweinyddion o fewn i gymunedau Gwynedd ac Eryri	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Gwanwyn a Hydref 2023
Dylanwadu ar bolisiâu a strategaethau partneriaid	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Parhaol
Adnabod cyfleon cyllido	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Parhaol ond yn ystod adolygiad blynyddol fis

		Rhagfyr.
Monitro ac adolygu parhaol, ond gydag adolygiad blynyddol o gynnydd	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri	Parhaol ond adroddiad i'w gyflwyno bob mis Rhagfyr.
Cyfathrebu gyda holl randdeiliaid yr economi ymweld	Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri	Parhaol

6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Yn ystod 2022 cynhaliwyd 5 digwyddiad trwy Zoom i drafod yr economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri. Cynhaliwyd sesiynau hefyd i gynghorwyr ar draws Gwynedd. Mae'r rhain wedi:

- Cyrraedd dros 250 o gynrychiolwyr
- Ysgogi dros 1,500 o sylwadau gan fynychwyr
- Ymgysylltu efo 14 ardal o Wynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri
- Cyrraedd dros 100 o sefydliadau cyhoeddus, cyrff neu fusnesau unigol
- Dros 4,490 wedi derbyn gwybodaeth a gwahoddiad i gyfrannu yn y digwyddiadau trwy Fwletin Busnes Cyngor Gwynedd

Yn dilyn derbyn adborth o'r gweithdai hyn yn ogystal â rhai blaenorol, fe ddatblygodd Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri y cynllun strategol hwn. Mae hyn hefyd wedi cael ei ddylanwadu arno gan arfer da o ardaloedd eraill o Ewrop ac yn rhyngwladol. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynllun tebyg mewn datblygiad yng Nghymru.

Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Economi Ymweld Cynaliadwy i gynghori'r Cyngor a'r Parc Cenedlaethol ar gynnwys y Cynllun Strategol, y dulliau mesur effaith a'r dulliau gweithredu priodol. Mae adborth y Grŵp Tasg a Gorffen oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gymunedau, busnesau a phrif bartneriaid gweithredu posib wedi ei ymgorffori yn y Cynllun drafft terfynol a'r modelau gweithredu.

Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol (Atodiad 2)

Cynhaliwyd Asesiad Effaith er mwyn asesu unrhyw effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r Asesiad hwnnw'n cydnabod bod bylchau yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol ac ymgynghori gyda grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig – ond bwriedir ymgysylltu'n benodol gyda chynrychiolwyr ar ran pobl a nodweddion gwarchoddedig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion ac ymateb iddynt trwy'r Cynllun Gweithredu fydd yn cael ei gytuno arno gan Bartneriaeth eang a chynrychioladwy. Mae'r Asesiad yn cydnabod bod modd i'r Cynllun hwn gael effaith positif os bydd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n effeithiol ac effeithlon gan y strwythurau gweithredu fydd yn cael eu mabwysiadu.

Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid

"Rwyf yn cefnogi'r egwyddorion sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Strategol. Nodir yn y Cynllun a'r adroddiad y bydd ymrwymadau ariannol yn deillio o fabwysiadu'r cynllun, ond ni

ellir meintoli rhain ar hyn o bryd, ac nid oes sicrwydd ar gyfer ffynonellau ariannol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cael economi ymweld gynaliadwy yn hanfodol ar gyfer llesiant yr ardal a bydd mabwysiadu'r Cynllun Strategol hwn yn gam arwyddocaol, positif, ymlaen i wireddu hyn".

Sylwadau'r Swyddog Monitro

"Mae'r trefniadau llywodraethu sydd yn cael eu cynnig ar gyfer cefnogi y Cynllun yn darparu fframwaith partneriaethu traws sector ddylai fod yn gyfrwng effeithiol i gefnogi y gweithrediad pwysig yma. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr argymhellion".



Gwynedd & Eryri 2035

Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy
Sustainable Visitor Economy Plan



Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035

Cynllun Strategol

Cynllun Economi Ymweld

Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035

- Rhagair
 - Arweinydd Cyngor Gwynedd
 - Cadeirydd Parc Cenedlaethol Eryri
1. Ein Gweledigaeth
 2. Mesur llwyddiant
 3. Sefydlu a Gweithredu Egwyddorion Gwynedd ac Eryri
 4. Astudiaethau Achos Gweithredol
 5. Manylion Cyswllt a Gwybodaeth bellach

ATODIADAU

1. Yr achos dros weithredu
2. Cyd-destun Strategol ac Arfer Da
3. Datblygu'r Cynllun ac Ymgynghori
4. Adborth gweithdai

Rhagair

Mae hi'n bleser gennym gyflwyno'r Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy hwn ar ran Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ffrwyth gwaith nifer o flynyddoedd o drafod a chyd-gynllunio sydd yn y Cynllun ac rydym wedi ymgynghori'n eang gydag aelodau etholedig, cymunedau, busnesau a phartneriaid allweddol eraill wrth ei ddatblygu.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr economi ymweld i'r ardal arbennig hon, ond rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod yr ardal a'i rhinweddau arbennig yn cael eu gwarchod a'u diogelu - fel bod yr hyn sydd mor unigryw am yr ardal yn cael eu diogelu ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd effaith pwysau'r economi ymweld ar ein cymunedau, ein hamgylchedd ac yn ehangach ar isadeiledd yr ardal. Yn wir, profodd y cyfnod yn dilyn Covid-19 bod angen ail-edrych ar yr economi ymweld, ac rydym yn hyderus y bydd y Cynllun hwn yn arwain at adnabod ac ymateb i unrhyw faterion a chyfleon sydd wedi eu gweld, neu a fydd yn codi yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun hwn wedi ei ddatblygu gan ystyried gwaith ymchwil ac ystadegau allweddol am yr ardal yn ogystal â blaenoriaethau strategol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac arfer da rhyngwladol. Gellir gweld yr ystyriaethau hyn yn yr Atodiadau.

Trwy gydweithio ar ddatblygu'r Cynllun ac adnabod trefniadau cydweithio newydd mae'r ddau gorff yn ymrwmo i weithredu er mwyn gweld "economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"; ond nid ar ben ein hunain y bydd gweithredu'n llwyddiannus ac felly byddwn yn sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn ein cynorthwyo i wireddu'r weledigaeth a'n hegwyddorion economi ymweld newydd gyda'n gilydd.

Mae hwn yn gynllun sy'n torri tir newydd ac yn cyflwyno ffordd newydd o fesur effaith yr economi ymweld yn ei gyfanrwydd ar ein hardal gan ystyried effeithiau ar ein iaith, diwylliant a threftadaeth, yr amgylchedd ac ar ein cymunedau.

Edrychwn ymlaen at barhad ein cydweithio fel dau Awdurdod, ond hefyd at ein cydweithio gyda phartneriaid allweddol ar draws y sectorau cymunedol, preifat a chyhoeddus er mwyn i ni wireddu'n hamcanion a'n Cynllun Gweithredu a sicrhau bod gennym ni economi ymweld cytbwys, cynaliadwy a chadarn er budd ein cymunedau a'n busnesau.



Cyng. Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd



Cyng. Annwen Hughes
Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

1. Ein Gweledigaeth



Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cydweithio ar ddatblygu'r Cynllun hwn gyda chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid er mwyn hybu Economi Ymweld Cynaliadwy yn ein hardal i'r dyfodol. Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw:

“Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri”

Mae'r ddau gorff wedi adolygu arfer da rhyngwladol a lleol gan hefyd ystyried diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth cynaliadwy er mwyn creu egwyddorion ar gyfer ardal Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i'w dilyn yn y dyfodol.

Egwyddorion Economi Ymweld Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri

Yn dilyn nifer o sesiynau ymgynghori gydag Aelodau Etholedig, cymunedau, y sector economi ymweld a sefydliadau eraill rydym wedi cytuno ar yr Egwyddorion Economi Ymweld Cynaliadwy canlynol:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

Mae'r model egwyddorion newydd yr ydym wedi ei fabwysiadu i'w weld yma:



Mae amcanion hefyd wedi eu datblygu i lywio blaenoriaethau'r dyfodol:

Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth: Amcanion

- ▶ Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro
- ▶ Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn Treftadaeth, iaith, Diwylliant ac Awyr Agored

Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd: Amcanion

- ▶ Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol

- ▶ Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

Sicrhau bod y manteision i gymunedau'r ardal yn fwy nac unrhyw anfanteision: Amcanion

- ▶ Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn
- ▶ Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn
- ▶ Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol


Mae'r Cynllun hwn yn torri tir newydd i'r ardal ac yn ymateb yn uniongyrchol i farn ein cymunedau a dyhead ein busnesau i weithredu mewn ffordd wahanol i'r dyfodol.

Ein bwriad yw y bydd y cydweithio newydd yma rhwng Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid cymunedol, busnes a chyhoeddus yn arwain at economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal sy'n rhoi blaenoriaeth i les a ffyniant ein cymunedau, ein hamgylchedd, ein hiaith a'n diwylliant.



Yn ystod y broses o ddatblygu 13 Cynllun Ardal Ni fel rhan o weithredu Fframwaith Adfywio Gwynedd, ymgynghorwyd gyda 13 ardal o Wynedd. Cododd yr angen am dwristiaeth cynaliadwy yn 9 o'r 13 ardal. Yn y 3 ardal lle na nodwyd Twristiaeth Cynaliadwy fel angen penodol fe nodwyd y meysydd ail-gartrefi, diogelu'r amgylchedd, isadeiledd, trafniadaeth cynaliadwy a'r angen am lefydd glan a thaclus.

Mae'r Cynllun hwn yn berthnasol i ardal Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – gan gynnwys ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n ran o'r Parc fel a weli'r o'r map isod:




2. Mesur llwyddiant a Cherrig Milltir

Wrth fabwysiadu'r Cynllun mae'n rhaid sefydlu ffordd o fesur sut mae'r egwyddorion yn cael eu gwreiddio a'u gweithredu.

Un o brif ddiffygion ein mesuryddion ar gyfer y maes twristiaeth ar hyn o bryd yw ein dibyniaeth ar adrodd ar faterion economaidd a chyflogaeth yn unig trwy ddefnyddio model STEAM (Scarborough Tourism Economic Assessment Monitor). Mae'r data yma'n canolbwyntio ar elfennau economaidd a nid oes ystyriaeth ddigonol o effaith y sector economi ymweld yn fwy holistaidd.

Mae'r data presennol yn dangos y canlynol. Mae mwy o ystadegau yn Atodiad 1 – Yr Achos Dros Weithredu:



*Ffigyrau Adolygiad STEAM 2019

** Adolygiad ymwelwyr Croeso Cymru – Cyngor Gwynedd Beaufort Research 2019

Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025 yn nodi'r canlynol wrth drafod y sector twristiaeth a lletygarwch:

- ▶ Cyflog cyfartalog ar draws Gogledd Cymru ymhob sector yw £24.8k
- ▶ 37% o bobl y sector yn dweud ei bod yn anodd llenwi swyddi

Mae'r isod yn cyflwyno'r wybodaeth ar gyfer Gwynedd:

Canran llety gwyliau (ail-gartrefi + hunan-ddarpar) *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (Rhagfyr 2020, Cyngor Gwynedd)

10.76% (y nifer uchaf yng Nghymru)

64.4 % siaradwyr Cymraeg * cyfrifiad 2021 (wedi gostwng 1% o 65.4% yn 2011)

O ystyried yr uchod a'r wybodaeth yn yr Achos Dros Weithredu (Atodiad 1) rydym wedi adnabod mesuryddion newydd cynhwysfawr ar gyfer mesur effaith yr economi ymweld fel y bydd gennym ddarlun llawer mwy cytbwys.

Mae nifer o'r mesuryddion yn cael eu dylanwadu gan faterion y tu hwnt i'r economi ymweld – ond gallant gynnig cyd-destun pwysig wrth ystyried blaenoriaethau gweithredu'r Cynllun hwn a chynlluniau partneriaid.

Bydd disgwyl i'r Bartneriaeth Economi Ymweld gytuno ar gyfres o fesuryddion i roi darlun mwy cytbwys o effaith yr economi ymweld ar yr ardal. Bydd y Cynllun Gweithredu hefyd yn gosod mesuryddion perfformiad i fonitro cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun.

Enghreifftiau o'r math o fesuryddion newydd yw:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein cymunedau, iaith, Diwylliant a Threftadaeth er enghraifft:

- ▶ Canran y trigolion sy'n fodlon ag effeithiau twristiaeth ar y gymuned yn gyffredinol a hunaniaeth y gyrchfan;
- ▶ Nifer yr ail gartrefi (yn unol â'r gyfradd dreth) a chwyddiant mewn prisiau tai,
- ▶ Nifer siaradwyr Cymraeg
- ▶ Nifer yr unigolion sy'n cefnogi diwylliant, gwarchodaeth, cadwraeth a rheolaeth yr ardal trwy 'gynllun llysgennad twristiaeth' Gwynedd / Eryri

2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd er enghraifft:

- ▶ Nifer yn ymweld / cymryd rhan mewn gweithgaredd amgylcheddol / tirwedd h.y. llwybr arfordirol, traeth, Yr Wyddfa, llwybrau
- ▶ Lefel bioamrywiaeth (samplu rhai ardaloedd / rhywogaethau) ardaloedd morol a mewndirol
- ▶ Cofrestru cychod môr - cychod / sgïo jet
- ▶ Nifer y llwybrau trafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael (Misol)
- ▶ Nifer y pwyntiau gwefru ceir trydan

3. Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anfanteision er enghraifft:

- ▶ Canran y strydoedd sy'n lân
- ▶ Lefel amddifadedd cymunedol
- ▶ Niferoedd parcio yn erbyn capasiti
- ▶ Nifer y digwyddiadau traffig ffyrdd
- ▶ Nifer y toiledau cyhoeddus sydd ar agor / fesul 1000 o'r boblogaeth gyfan
- ▶ Nifer a gyflogir yn y diwydiant twristiaeth
- ▶ Cyflog cyfartalog o fewn y diwydiant twristiaeth
- ▶ Nifer y busnesau / mentrau twristiaeth (neu fusnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth) mewn perchnogaeth leol neu gymunedol.

3. Sefydlu a Gweithredu Egwyddorion Gwynedd ac Eryri

Wrth fabwysiadu'r Egwyddorion yma, mae angen sefydlu trefniadau gweithredu newydd er mwyn eu gwireddu mewn partneriaeth ac er mwyn ymateb i'r broses ymgynghori a'r ymchwil.

Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Cyngor a'r Parc wedi arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth ar 26 Tachwedd 2021.

Mae'r Memorandwm yn rhoi blaenoriaeth i:

- ▶ Gytuno trefniadau a strwythurau cydweithio ffurfiol rhwng y ddau gorff;
- ▶ Sefydlu trefniadau cydweithio gyda phartneriaid ehangach;
- ▶ Datblygu cynlluniau gweithredu;
- ▶ Datblygu mesuryddion priodol;
- ▶ Rhannu arfer da; a
- ▶ Chytuno ar Gynllun Economi Ymweld Cynaliadwy 2035.



Ni all y Cynllun hwn gael ei weithredu gan y ddau bartner yn unig, mae'n dibynnu ar bartneriaeth eang a newydd er mwyn gwireddu ein gweledigaeth.

Un o gamau gweithredu cyntaf y Cynllun hwn fydd sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri fydd yn dod a phartneriaid ynghyd am y tro cyntaf i drafod y maes yma'n ffurfiol i'r dyfodol.


Mae'r strwythur newydd yn cynnwys y prif elfennau canlynol:

Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri – Partneriaeth newydd aml-sector i weithredu'r Cynllun Economi Ymweld trwy gytuno ar flaenoriaethau gweithredu, mesuryddion priodol a monitro rheolaidd.

Bwrdd Llywio Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri – Bwrdd Llywio strategol ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda chynrychiolaeth wleidyddol ac uwch swyddogion i gytuno ar gyfeiriad strategol yr economi ymweld rhwng y ddau awdurdod. Bydd cynrychiolaeth o'r Bartneriaeth yn eistedd ar y Bwrdd Llywio.

Grŵp Gweithredu Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri – Grŵp swyddogion i weithredu ar y blaenoriaethau strategol a osodir gan y Bwrdd Llywio ac i gefnogi gwireddu'r blaenoriaethau gweithredu, y mesuryddion a'r gwaith monitro ar ran y Bartneriaeth.

Bydd y strwythur canlynol yn cael ei fabwysiadu er mwyn monitro a gwireddu'r Cynllun:



Bydd y Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy yn mabwysiadu Cylch Gorchwyl ffurfiol a disgwylir y bydd ganddo rôl ganolog wrth gynghori'r Bwrdd Llywio a'r Grŵp Gweithredu a monitro cynnydd wrth weithredu'r Cynllun hwn a'i Gynllun Gweithredu. Bydd yr aelodaeth o'r Bartneriaeth yn cynnwys:

- ▶ Y ddau brif bartner
- ▶ Arweinwyr o'r sector preifat
- ▶ Arweinwyr cymunedol a'r trydydd sector
- ▶ Partneriaid cyhoeddus



Cynllun Gweithredu Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035


Mae nifer o weithrediadau eisoes yn digwydd neu wedi eu rhaglennu gan bartneriaid er mwyn ymateb i drafodaethau ar ddatblygu'r Cynllun hwn a gellir gweld enghreifftiau o'r rhain yn yr astudiaethau achos.

Un o brif gyfrifoldebau'r Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy fydd datblygu a chytuno ar Gynllun Gweithredu i gyd-fynd efo'r Cynllun strategol yma. Amcan y Cynllun Gweithredu fydd sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion ardaloedd Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol, cymunedau, busnesau a'r ymchwil sydd wedi ei ystyried. Bydd y Cynllun Gweithredu'n darparu mwy o fanylder o'r camau ymarferol a'r prosiectau a pholisïau blaenoriaeth y byddwn yn awyddus i'w gweld yn cael eu gweithredu yn yr ardal yn y dyfodol.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n rhestru blaenoriaethau ac yn adnabod corff arweiniol ar gyfer cyflawni. Bydd yn cyd fynd gyda'r trosolwg strategol hwn ac yn plethu gyda'r 13 Cynllun Adfywio Ardal fydd wedi eu cyd-ddatblygu gydag holl ardaloedd Gwynedd ac Eryri gan ymateb i'r hyn sy'n bwysig i'n cymunedau a'n busnesau.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n ddogfen fyw a fydd yn datblygu'n barhaus er mwyn ymateb i flaenoriaethau ein cymunedau a'n busnesau. Bydd yn cael ei hadolygu bob 12 mis gan y Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy.

Disgwylir y bydd y Bartneriaeth yn dilyn y drefn ganlynol wrth adolygu blaenoriaethau:



Bydd disgwyl dilyn trefn blynyddol o adnabod mater, adnabod y dull ymateb a'r dull mesur effaith yr ymateb cyn wedyn cytuno ar yr allbwn fel a welir isod:



Er enghraifft, materion yn codi o ran cartrefi modur:



Cyllid

Er gwaetha'r rhagolygon ariannol difrifol sydd o'n blaenau, mae disgwyl y bydd y Cynllun hwn hefyd yn dylanwadu ar bolisiau eraill Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid yn y maes cynllunio, rheoli cyrchfan, rheoli'r amgylchedd, hyfforddiant a sgiliau, adfywio, cefnogi busnes, digwyddiadau ayb gan ychwanegu gwerth trwy newid pwyslais gweithgareddau neu bolisiau.

Rydym yn hyderus y bydd y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu wedi ei flaenoriaethu yn agor drysau at arian Llywodraethau Prydain a Chymru a chronfeydd ariannu eraill yn y dyfodol.

Yn ystod ein trafodaethau ac ymgynghoriadau ar ddatblygu'r Cynllun hwn, fe godwyd yr Ardoll Twristiaeth fel modd posib o gefnogi'r sector a'n cymunedau yn y dyfodol. Tra bod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar hyn yn ystod datblygiad y Cynllun hwn, a dim sicrwydd y bydd yn cael ei fabwysiadu; fe allai'r Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy a'i Gynllun Gweithredu fod yn ffordd cynhwysol a theg o adnabod prosiectau blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiadau o'r Ardoll Ymwelwyr yn y dyfodol os bydd yn cael ei sefydlu.

Mae'r prif gamau gweithredu strategol

Isod fe nodir y prif gamau gweithredu strategol ar gyfer Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy newydd:

Cam Gweithredu	Corff Arweiniol	Erbyn pryd?
Sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri	Cyngor Gwynedd gyda chefnogaeth Parc Cenedlaethol Eryri	Gwanwyn 2023
Datblygu a gwreiddio'r trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Parc	Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri	2023
Mabwysiadu Mesuryddion Cytbwys	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Gwanwyn 2023
Sefydlu Trefniadau Monitro ffurfiol	Cyngor Gwynedd	Gwanwyn 2023
Cymeradwyo Cynllun Gweithredu sy'n adnabod corff arweiniol i gyflawni blaenoriaethau	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Haf 2023
Sefydlu Arweinyddion o fewn i gymunedau Gwynedd ac Eryri	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Gwanwyn a Hydref 2023
Dylanwadu ar bolisiâu a strategaethau partneriaid	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Parhaol
Adnabod cyfleon cyllido	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy	Parhaol ond yn ystod adolygiad blynyddol fis Rhagfyr.
Monitro ac adolygu parhaol, ond gydag adolygiad blynyddol o gynnydd	Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri	Parhaol ond ystod adolygiad blynyddol fis Rhagfyr
Cyfathrebu gyda holl randdeiliaid yr economi ymweld	Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri	Parhaol

4 Astudiaethau achos gweithredol

Er nad yw'r Cynllun Gweithredu wedi ei fabwysiadu eto gan y Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy, mae gweithredu eisoes yn digwydd gan bartneriaid yng Ngwynedd ac Eryri. Mae'r Astudiaethau Achos isod yn dangos y gweithgaredd sydd eisoes yn digwydd ac sy'n ymateb i'r Cynllun newydd hwn.

Cynllun Caru Eryri ✓✓✓



Rhaglen wirfoddoli yw cynllun Caru Eryri sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â Chymdeithas Eryri, y Bartneriaeth Awyr Agored a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Nod y cynllun yw helpu i reoli'r effaith y mae nifer cynyddol o ymwelwyr yn ei gael yn y Parc Cenedlaethol. Trefnir casglu sbwriel ar draws y Parc Cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar y llwybrau prysuraf, sy'n cynnwys, holl brif lwybrau'r Wyddfa, Cwm Idwal, Cader Idris, a Llyn Tegid.

Gall gwirfoddolwyr ymuno â'r shifft gwirfoddoli gan ddefnyddio system ar-lein Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae yna shifftiau yn cael eu trefnu bob dydd Mercher, Gwener, Sadwrn a Sul. Dros haf 2021, treuliodd gwirfoddolwyr 134 diwrnod yn gofalu am Eryri a chasglu 1033kg o sbwriel. Cyflawniad enfawr rydym yn hynod o ddiolchgar amdano. Mae'r cynllun wedi ffynnu yn 2022, gan gynnwys diwrnodau gwaith cadwraeth.



Mae'r gweithredu wedi cychwyn ar gynigion ar gyfer dull uchelgeisiol a chynaliadwy i ymdrin â pharcio a thrafnidiaeth yng ngogledd Eryri. Mae'r cynigion yn amlinellu sut allai traffig, llygredd a sŵn gael ei lleihau'n aruthrol yn yr ardal fewnol yn ystod y tymor brig, wrth wella'r profiad ymweld yn sylweddol.

Mae'r cynigion a roddir ger bron yn yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth ar gyfer Partneriaeth Yr Wyddfa yn cynnwys:

- Rheolaeth parcio dymhorol yn yr 'ardal fewnol' gydag opsiynau rhag archebu;
- Tocyn mynediad ymwelydd holl- gynhwysol fyddai'n annog defnydd o fusnesau lleol drwy brisiau gostyngedig a chynigion;
- Fflyd newydd o fysiau carbon sero;
- Trafod syniadau gyda chymunedau ar gyfer gwelliannau parcio yn y pentrefi pyrth;
- Trawsnewid y ffordd mae gwybodaeth am barcio a mynediad yn cael ei gyfathrebu;
- Isadeiledd gwefru cerbydau trydan;
- Rheolaeth parcio ar y stryd a pharcio preswylwyr yn y pentrefi porth;

- Gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus, megis y rhwydwaith bysiau gwennol, cyfnewidfeydd â gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau pellter hir, gwelliannau rhwydwaith trafndiaeth ehangach, a gwasanaethau trafndiaeth ymatebol i'r galw o darddiad eraill;
- Adolygu er gwell a gweithio gyda chyflenwyr tacsis;
- Mannau parcio coetsys (bysus);
- Mentrau cerdded a beicio;
- Gwasanaethau cyflenwol eraill i wella profiad yr ymwelydd fel rhan o'r ethos o hyrwyddo mynediad cynaliadwy.

Cynlluniau Llysgennad Gwynedd ac Eryri ✓ ✓ ✓

Mae Cysiau Llysgennad Gwynedd ac Eryri yn rhoi cyfle i bobl ddysgu a gwella eu gwybodaeth am rinweddau unigryw'r ardal i egluro beth sy'n gwneud Gwynedd ac Eryri yn ardaloedd arbennig na ellir moi cymharu ag unrhyw le arall.

Maent yn gyrsiau ar-lein, rhad ac am ddim, sydd ar gael i unrhyw un gwblhau yn amser eu hunain.

Mae'r cwrs wedi ei rannu i ddwy ran - y rhan dysgu, ble mae fideos, lluniau a thestun am bynciau gwahanol, â'r rhan profi/cwis, ble mae'r defnyddwyr yn gallu dangos faint maen nhw wedi ei ddysgu.

Mae modiwlau fel rhan o'r cysiau yn cynnwys: Croeso i Wynedd / Croeso i Eryri, Iaith a Diwylliant, Cymunedau, Yr Arfordir, Tirwedd, Safleoedd UNESCO, Gweithgareddau ac Atyniadau, Hanes a Threftadaeth a Chymru. Mae'n rhaid pasio tri modiwl (gorfodol) er mwyn cyrraedd y lefel Efydd, chwe modiwl er mwyn cyrraedd y lefel Arian a naw modiwl er mwyn cyrraedd y lefel Aur.



<https://www.ambassador.wales/cy/ambassador-courses/gwynedd-ambassador-course/>


Timau Tacluso Ardal Ni: Cymunedau Glan a Thaclus ✓ ✓ ✓

Yn dilyn buddsoddiad o £1.5 miliwn gan Gyngor Gwynedd, bydd Timau Tacluso Ardal Ni yn gweithio mewn cymunedau o Aberdyfi i Abergwyngregyn i weithredu ar lu o dasgau twtio megis glanhau palmentydd ac arwyddion, cael gwared ar graffiti, tacluso ymylon ffyrdd, atgyweirio a gosod biniau, delio â thipio slei bach, chwynnu a glanhau gwm cnoi.

Bwriad y gwaith fydd cyfrannu at y nod o wneud cymunedau Gwynedd yn lan a thaclus yn unol â dymuniad trigolion lleol.

Gyda'r buddsoddiad yma, bydd y Cyngor yn cyflogi staff newydd fydd yn gweithio mewn cymunedau ar draws y sir, ynghyd a cerbydau ac offer arbenigol i gyflawni gwaith tacluso trylwyr. Mae tasgau bychan fel hyn yn gallu gwneud byd o wahaniaeth i bryd a gwedd stryd neu gymuned

a bydd y Timau Tacluso Ardal Ni yn helpu i sicrhau cymunedau glan a thaclus ar draws Gwynedd.



Mae balchder cymunedol yn ein hardaloedd lleol yn ganolog i'r gwaith gan sicrhau y gorau i gymunedau Gwynedd a'r bobl hynny sy'n ymweld a'r ardal.

Cynllun Aros-fan ✓ ✓ ✓

Wrth i ymweliadau cartrefi modur â Gwynedd ddod yn fwyfwy amlwg yn ein trefi, pentrefi â'n hardaloedd gwledig mae rheolaeth well o gartrefi modur wedi bod yn destun trafodaeth ymysg ein cymunedau.

Ymchwiliwyd i'r maes yma gan Gyngor Gwynedd a lluniwyd adroddiad oedd yn cynnwys adborth cymunedau, busnesau a defnyddwyr cartrefi modur o ran sut gellir sicrhau gwell rheolaeth o'r maes. Ar sail y dystiolaeth yma, datblygwyd cynllun peilot i dreialu defnyddio asedau ym mherchnogaeth y Cyngor - megis meysydd parcio cyhoeddus mewn cyrchfannau priodol; er mwyn darparu parcio



‘dros nos’ ar gyfer diben cartrefi modur tebyg i “aires” dramor ac i ddod a buddion i gymunedau a busnesau lleol.

Trwy’r peilot, bwriedir gwneud addasiadau syml mewn meysydd parcio i ddarparu gwasanaethau sylfaenol i berchnogion cartrefi modur megis dŵr ffres, gwagio toiledau, dŵr llwyd ac ysbwriel. Mae’r Cyngor yn edrych ar tua 6 safle ar draws Gwynedd mewn lleoliadau trefol lle mae problemau rheolaeth cartrefi modur wedi bod yn her a bydd y rhain yn gweithredu fel rhwydwaith. Bydd rheoliadau clir yn cael eu gosod am hyd arhosiad ac ni fydd gweithgareddau ‘gwersylla’ yn cael eu caniatáu.

Bydd cynllun arall yn rhedeg law yn llaw â datblygiad y lleoliadau Arosfan i wella grymoedd y Cyngor i reoleiddio y maes er mwyn ymateb i’r heriau sydd yn codi mewn rhai lleoliadau yn y sir gyda’r cerbydau yma’n parcio dros nos heb hawl.



5. Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach

Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 | Drupal (ymweldageryri.info)

**Gwasanaeth Twristiaeth,
Marchnata a Digwyddiadau**

Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

☎ 01766 771000

✉ twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

Rheolwr Partneriaethau

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6L

☎ 01766 770274

✉ parc@eryri.llyw.cymru



Hawfraint Lluniau:
Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



**Gwynedd
& Eryri 2035**

Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy
Sustainable Visitor Economy Plan

Tud. 222

Atodiadau

1. Yr achos dros weithredu

Mae Gwynedd ac Eryri yn gartref i atyniadau naturiol a threftadol eiconig gan gynnwys Yr Wyddfa, Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn, un o rannau hiraf Llwybr Arfordir Cymru, traethau a marinas baner las, coedwig fwyaf Gogledd Cymru, dros 100 o lynnoedd, Safleoedd Treftadaeth y Byd ynghyd a Biosffer Dyfi.

Mae 17 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn Eryri; mwy nag mewn unrhyw barc cenedlaethol arall yng Nghymru; a 56 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r bioamrywiaeth aruthrol yn adlewyrchu amrywiaeth y dirwedd, y ddaear, yr hinsawdd a'r dulliau rheoli tir. Mae cyfoeth planhigion ac anifeiliaid yn sylfaenol i hanes, diwylliant, iaith, economi a lles parhaus yr holl bobl sy'n byw yn yr ardal ac yn ymweld â hi.

Yma ceir nifer o fusnesau, atyniadau a chynhyrchwyr bwyd a diod o'r safon uchaf sydd wedi buddsoddi'n helaeth dros y ddegawd ddiwethaf gan ddarparu profiadau unigryw i drigolion ac ymwelwyr. Dau o sectorau twristiaeth cryfaf y sir yw'r sectorau awyr agored a threftadaeth.

Mae'r ardal yn gadarnle i'r Gymraeg, gyda thros 69% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn rhugl yn ôl cyfrifiad 2011.

Ers canrifoedd mae'r ardal wedi denu ymwelwyr sydd wedi eu cyfareddu gan ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n chymunedau. Heddiw, mae angen adolygu ein blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymweld yn y dyfodol, gweithio'n wahanol a chreu cynllun newydd.

Mae gan yr economi ymweld gyfraniad pwysig i'w wneud i economi a chymunedau Gwynedd ac Eryri - mae angen i'r cyfraniad hwnnw fod yn gytbwys ac yn gynaliadwy er mwyn diogelu ein cymunedau, ein hamgylchedd, iaith a diwylliant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae data ac ymchwil yn amlygu'r angen i gael cydbwysedd gwell yn yr economi ymweld ac o fewn yr economi'n gyffredinol yn ardal Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r adolygiad o Wedd 1 rhaglen Arfor a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru'n amlygu'r canlynol am ardal Gorllewin Cymru:

Yn aml, cyfeirir at siroedd Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr fel y cadarnleoedd hyn, er y gellir nodi nifer o siroedd neu ardaloedd o fewn siroedd eraill sydd yn rhannu nodweddion tebyg. Mae consensws cyffredinol bod y cadarnleoedd hyn yn rhannu nodweddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol tebyg, gan gynnwys:

1. Canran uchel o siaradwyr Cymraeg

2. Mewnfudo pobl hŷn, pobl ifanc sy'n allfudo
3. Gwledig gan ddibynnu ar amaethyddiaeth, bwyd a thwristiaeth
4. Trefi marchnad a threfi Prifysgol
5. Canran uchel o swyddi yn y sector gyhoeddus
6. Cyflogau isaf ym Mhrydain, ac ymhlith y cyflogau isaf yn Ewrop

Yn ogystal â'r uchod, mae consensws bod y siroedd yn rhannu'r un her, a bod yna broblem sydd angen ymateb iddi.

Er bod datblygu'r Cynllun hwn wedi cychwyn ers 2018, yn sgil Covid-19 bu pwysau eithriadol ar gymunedau ar draws Gwynedd ac Eryri gyda nifer ymwelwyr di-gynsail a'r ardal. Mae'r cyfnod hwn wedi amlygu rhai materion y mae angen ymateb iddynt er mwyn cefnogi economi ymweld cynaliadwy.

Cyhoeddwyd argyfwng newid hinsawdd gan Lywodraeth Cymru, Gyngor Gwynedd ar Parc Cenedlaethol yn ystod 2019. Mae'r argyfwng natur a bioamrywiaeth drwy newid yn yr hinsawdd yn ein gorfodi i newid ein ffordd o fyw ac ymddwyn.

Mae Cynllun Eryri yn adnabod yr angen am Gynllun Twristiaeth Cynaliadwy ac mae Cynllun Cyngor Gwynedd yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod busnesau a chymunedau Gwynedd yn elwa o'r ymwelwyr sy'n dod i'r ardal yn ogystal a datblygu Cynllun Adfywio i Wynedd.

Mae Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru'n adnabod yr angen i ddatblygu cynllun i reoli ymwelwyr a'r ardal ac mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn rhoi blaenoriaeth i reoli twristiaeth yn gynaliadwy.

Mae dyletswydd arnom i gyd i warchod cymunedau, amgylchedd a diwylliant yr ardal er lles cenedlaethau'r dyfodol, ac mae cyfleon cydweithio newydd yn codi a chyfle i ddysgu o brofiadau ardaloedd eraill.

Ym mis Tachwedd 2021 fe arwyddodd Gyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol Memorandwm o Ddealltwriaeth. Amcan y Memorandwm o Ddealltwriaeth yw *cydweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn partneriaeth i wireddu Gweledigaeth ac Egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 i warchod a hyrwyddo gwerthoedd arbennig yr ardal.*

Mae'r Cynllun hwn yn berthnasol i ardal Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri – gan gynnwys ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n ran o'r Parc.

Yn ystod y broses o ddatblygu 13 Cynllun Ardal Ni fel rhan o weithredu Fframwaith Adfywio Gwynedd, ymgynghorwyd gyda 13 ardal o Wynedd. Cododd yr angen am dwristiaeth cynaliadwy yn 9 o'r 13 ardal. Yn y 3 ardal lle na nodwyd Twristiaeth Cynaliadwy fel angen penodol fe nodwyd y meysydd ail-gartrefi, diogelu'r amgylchedd, isadeiledd, trafniadaeth cynaliadwy a'r angen am lefydd glan a thaclus.

Ymchwil ac ystadegau

Mae datblygu'r Cynllun hwn wedi dibynnu ar lawer o waith ymchwil a dadansoddi ystadegau er mwyn llunio ein hegwyddorion a'n blaenoriaethau gweithredu.

Mae'r ymchwil a'r ystadegau'n cynnwys:

- Adolygiad Llety Twristiaeth Lleol (2018/19, Cyngor Gwynedd)
- Adolygiad Ymwelwyr Croeso Cymru a Chyngor Gwynedd (2019, Beaufort Research)
- Adolygiad Elwa o Dwristiaeth – ystyriaeth o'r opsiynau i ariannu blaenoriaethau yn y dyfodol (Mai 2019, Blue Chip Tourism a RJS Associates Cyf).
- Adolygiad o'r Bartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan (Hydref 2019, Blue Chip Tourism a RJS Associates Cyf.)
- Cynllun Eryri (2020, Parc Cenedlaethol Eryri)
- Strategaeth Parcio a Theithio Cynaliadwy Yr Wyddfa ac Ogwen (2020, Parc Cenedlaethol Eryri)
- Cynllun Cyngor Gwynedd (2018, Cyngor Gwynedd)
- Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (Rhagfyr 2020, Cyngor Gwynedd)
- Ymchwil i sefyllfa Cartrefi modur yng Ngwynedd (Medi 2021, Cyngor Gwynedd)

Mae prif ystadegau'r sector Economi Ymweld yng Ngwynedd i'w gweld isod*:

- Gweithlu Cyfartalog mewn blwyddyn: 18,244
- Nifer Atyniadau: 200
- Nifer Darparwyr awyr agored: 100
- Nifer ymwelwyr 2019: 7.8m
- Gwerth i'r economi 2019: £1.35bn
- Nosweithiau aros 2019: 20.10m
- Diwrnodau aros 2019: 23.93m
- Boddhad cwsmer: 80% **

* Ffigyrau Adolygiad STEAM 2019

** Adolygiad ymwelwyr Croeso Cymru – Cyngor Gwynedd Beaufort Research 2019

Yn ôl adolygiad y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan, mae'r penawdau canlynol ar gyfer perfformiad 2013 - 2020 (data 2018 ac eithrio lle mae hynny wedi'i nodi):

- 11% o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i 7.37 miliwn
- Nosweithiau a dyddiau twristiaid wedi cynyddu 11%
- 23% o gynnydd mewn gwerth Economaidd i £1.12 Biliwn
- 15,500 o swyddi'n cael eu cefnogi gan wariant twristiaeth
- 14% o dwf yn nifer y busnesau llety i 3,194 (2011-2019)
- 6% o gynnydd mewn gofod gwelyau i 132,611 (2011-2019)
- 47% o gynnydd mewn ymwelwyr yng Nghanolfan Ymwelwyr Copa'r Wyddfa (2014-2017)
- 102 o ddigwyddiadau'n cael eu cefnogi gan Gyngor Gwynedd, yn ychwanegu £34 miliwn at yr economi leol (2014-2018)
- 3.1 miliwn o ddefnyddwyr wedi edrych ar wefan swyddogol Eryri Mynyddoedd a Môr yn ystod 4.1 miliwn o sesiynau (2015-2019)
- Twf cyfartalog o 580% mewn sianelau cyfryngau cymdeithasol swyddogol
- 1,925 airbnb wedi cofrestru yng Ngwynedd yn Ionawr 2019 (cynnydd o 1,251 yn Awst 2018 a 745 eisoes ar restr ymchwil llety)

Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025 yn nodi'r canlynol wrth drafod y sector twristiaeth a lletygarwch:

- Un o'r sectorau anoddaf i lenwi bylchau cyflogaeth ynddo
- Cyflog cyfartalog ar draws Gogledd Cymru ym mhob sector yw £24.8k
- 37% o bobl y sector yn dweud ei bod yn anodd llenwi swyddi
- Cadw staff yn y sector yn anodd - gan nad oes digon o bobl eisiau swyddi a chan bod cyflogau'n is o'u gymharu a sectorau eraill
- Mae'r sector yn dangos cyfleon cyflogaeth uchel i'r dyfodol ac wedi gweld twf cyson ers 2016 ac yn dangos twf y tu hwnt i 2025
- Angen codi proffil y sector yn y dyfodol fel gyrfu
- Angen annog cyflogwyr i fuddsoddi yn eu staff er mwyn eu cadw
- Angen annog cyfleon prentisiaethau yn y sector

Arolwg llety Gwynedd

Mae'r isod yn cyflwyno'r wybodaeth ar gyfer Gwynedd:

Nifer o unedau preswyl	61,645
Nifer o ail-gartrefi	4,873
Nifer o lety gwyliau hunan darpar (uned busnes annomestig)	1,976
Cyfanswm cyfunol	6,849
Canran cyfunol o lety gwyliau (sef y nifer uchaf yng Nghymru)	10.76%

Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal fel a ganlyn yng Ngwynedd:

64.4 % siaradwyr Cymraeg (wedi gostwng 1% o 65.4% yn 2011)

Amrywio o 86.3% yn Ward Seiont 2 Caernarfon i 19.6% yn Ward Deiniol, Bangor a 36.1% yn Ward Tywyn 1.

Y prif faterion sy'n codi yn yr ardal

O ystyried yr achos dros weithredu a'r ymchwil a'r ystadegau gellir nodi'r prif faterion sy'n codi yn yr ardal fel a ganlyn.

Mewn rhai ardaloedd mae pwysau eithriadol ar gymunedau a gwasanaethau cyhoeddus er enghraifft ar feysydd parcio, lefelau gwastraff ac ailgylchu, ffyrdd, cyfleusterau a materion yn codi yn sgil cartrefi modur, pwysau ar wasanaethau brys, airbnb a digwyddiadau. Mae'r cyfnod Covid-19 wedi creu tensiynau mewn rhai ardaloedd gyda niferoedd ymweld digynsail.



Mae lefelau cyflogau yn draddodiadol isel o fewn y sector economi ymweld fel a welir o wybodaeth gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, er mae peth cynnydd wedi bod yn y blynyddoedd diweddar ond yn draddodiadol hefyd mae'n sector sy'n cynnig cyflogaeth tymhorol ac mae diddordeb am dilyn gyrfa yn y maes yn gostwng.

Yn ôl rhai, mae diffyg amrywiaeth yn yr economi wledig gyda gorddibyniaeth posib ar dwristiaeth a theimladau negyddol o fewn i rai cymunedau ac ardaloedd.

Mae rhai hefyd yn pryderu am effaith posib yr economi ymweld ar ein hiaith, ein hamgylchedd, ein cymunedau a'n diwylliant - ond gall bod cyfleon os gweithredir yn wahanol a dilyn egwyddorion a ffordd o weithio newydd er mwyn sicrhau twf cynaliadwy.

Gallai datblygu mesuryddion effaith gwell gynnig ffordd newydd a gwell o fesur unrhyw effeithiau negyddol a chadarnhaol sy'n deillio o'r economi ymweld ar ein hardal ac mae cyfle yma i blethu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy i ddatblygiad Cynlluniau Adfywio Ardal ar draws Gwynedd.

Cynhaliwyd adolygiad o Gynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd 2013-2020 yn ystod 2019 ac mae mwy o fanylion am y casgliadau i'w gweld yn rhan 'Datblygu'r Cynllun ac Ymgynghori'.




2. Cyd-destun Strategol ac Arfer Da



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Fel Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol rydym wedi ymrwmo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd ac Eryri. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried yr hirdymor, gan gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer yr economi ymweld yn yr ardal yn cyd-fynd ag egwyddorion y ddeddf.



Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig (UNWTO)

Mae'r UNWTO yn diffinio twristiaeth cynaliadwy fel:

“Twristiaeth sy'n cymryd llawn ystyriaeth o'i effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol ac i'r dyfodol, gan ymateb i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau lleol”.

Mae gan yr UNWTO dri piler sy'n diffinio twristiaeth cynaliadwy:

1. Defnydd gorau o adnoddau amgylcheddol sy'n ran allweddol o ddatblygiad twristiaeth
2. Parchu hynodrydd cymdeithasol-ddiwylliannol cymunedau
3. Sicrhau gweithgaredd economaidd cynaliadwy a hir-dymor a buddion cymdeithasol-economaidd i bawb

Ail-ddiffiniwyd y pileri yma i ymateb i anghenion a blaenoriaethau ein hardal.

Rhaglen Lywodraethu Cymru 2021-2026

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi'r ymrwymïadau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd y rhain yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru, ac yn gwella bywydau pobl ledled y wlad. Mae'r egwyddorion economi ymweld cynaliadwy yn ymateb i flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru.

Ein Cynllun Cymru Gyfan

Yn dilyn cyhoeddi Argyfwng yn yr Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru yn 2019, cyhoeddwyd Ein Cynllun Cymru Gyfan cyntaf ochr yn ochr a Cymru Sero Net, Cyllideb Garbon 2 (2021-25) – mae hyn yn golygu newid sylweddol yn y ffordd rydyn ni gyd yn byw, yn gweithio ac yn ymweld a lleydd eraill.

Croeso i Gymru

Mae *Croeso i Gymru, Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025* yn gosod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chroeso Cymru ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae'n nodi'r angen i gydweithio mewn ffordd sy'n cefnogi llesiant y cryfderau sy'n denu pobl yma yn y lle cyntaf – ein tirweddau, diwylliant ac antur ac yn nodi bod yn rhaid i dwristiaeth sy'n dda i'n diwydiant hefyd fod yn dda i Gymru. Nod y Llywodraeth trwy'r Cynllun, yn y dyfodol, yw defnyddio'r economi ymwelwyr i gael budd ehangach.

Uchelgais Gogledd Cymru

Gweledigaeth Uchelgais Gogledd Cymru yw ‘*creu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Gogledd Cymru*’. Mae am weld y rhanbarth yn datblygu mewn ffordd gynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a chael gyrfaoedd gwerth chweil. Mae am weld busnesau'n tyfu a chymunedau'n ffynnu, ac i hynny ddigwydd tra'n hyrwyddo ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth ac yn unol â'r nodau llesiant i Gymru.

Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-25

Mae'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth tair blynedd wedi'i ddatblygu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (RSP), mewn cydweithrediad â busnesau a chyflogwyr ar draws y rhanbarth.

Y weledigaeth yn y Cynllun yw *bod Gogledd Cymru yn rhanbarth lle mae'r bobl, ac yn benodol eu sgiliau a'u galluoedd, yn yrrwr allweddol i ddatblygiad economaidd a lles. Mae cyflogwyr yn y rhanbarth yn ffynnu, yn datblygu ac yn tyfu oherwydd sgiliau'r boblogaeth leol. Mae busnesau am symud i'r rhanbarth oherwydd sgiliau'r boblogaeth leol. Ar yr un pryd, gall pobl gyflawni eu huchelgeisiau a gwneud y mwyaf o'u potensial yng Ngogledd Cymru.*

Polisi Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri 2016-2031 (diweddariad 2019)

Fel Parc Cenedlaethol, mae gofyn i Eryri gael cynllun datblygu yn ei le. Mae'r Parc o fewn awdurdodau Gwynedd a Chonwy ac mae'r cynllun yn diffinio datblygiadau a ganiateir a'r blaenoriaethau rheoli.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 (31 Gorffennaf 2017)

Mae'r cynllun datblygu ar y cyd ar gyfer y ddau awdurdod lleol yn adnabod rôl allweddol yr economi ymwelwyr ac yn nodi dull cadarnhaol a rhagweithiol i'w ddatblygiad a'i reolaeth.

Arfer da

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi derbyn cefnogaeth a chynngor gan Yr Athro Terry Stevens, arbenigwr yn y maes twristiaeth cynaliadwy. Rydym hefyd wedi ystyried yr arfer dda canlynol:

- ▶ Seland Newydd – Tiaki Promise
- ▶ Ynys Aran, Yr Alban

- ▮ Parc Cenedlaethol Triglav, Slofenia - ardal sydd wedi gefeillio efo Eryri
- ▮ Vadehavskysten, Denmarc (Ardal Arfordir Wadden)
- ▮ Jackson Hole, UDA
- ▮ Park City, UDA
- ▮ Dolan (Partneriaeth Ogwen, Siop Griffiths a Chwmni Bro Ffestiniog)



3. Datblygu'r Cynllun ac Ymgynghori

Fe ddechreuodd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun hwn yn 2018 yn ystod gweithdy oedd yn adolygu ein Cynllun Rheolaeth Cyrchfan 2013-2020 ac yn archwilio'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Digwyddodd hyn ar yr un pryd a'r ymgynghori efo rhanddeiliad ar draws yr ardal ar gyfer datblygu Cynllun Eryri a Chynllun Gwynedd.

Ers hynny mae nifer fawr o weithdai wedi eu cynnal i weld sut fyddai Economi Ymweld Cynaliadwy'n edrych yng Ngwynedd ac Eryri. Mae'r gweithdai hyn wedi cynnwys y sector economi ymweld, Partneriaeth Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd, Aelodau Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, sefydliadau cyhoeddus, cynghorau cymuned ac unigolion.

Fel rhan o ddatblygu'r Cynllun fe adolygwyd ein Cynllun Rheolaeth Cyrchfan yn 2019 gan gwmni Blue Chip & RJS Associates. Y casgliadau allweddol o'r adolygiad o'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfan oedd:

- ▶ Mae buddsoddiad mawr wedi'i gyflawni yn economi ymwelwyr Gwynedd ers 2013, ac mae posibilrwydd y bydd nifer o brosiectau strategol yn cyflawni effeithiau sylweddol.
- ▶ Yn erbyn amcanion y Cynllun, fe wnaeth prosiectau strategol sgorio orau o ran y profiad i ymwelwyr ac ymestyn y tymor; ac yn fwy cymedrol yn erbyn cynyddu gwariant a gwella'r amgylchedd.
- ▶ Nid ydynt wedi sgorio cystal o ran sgiliau a swyddi, ac integreiddio â'r gymuned. Yn rhannol, roedd hyn oherwydd y byddai cyflawni yn erbyn yr amcanion hyn yn sgil-gynnyrch y prosiectau strategol yn hytrach na'u prif nod, ac yn rhannol gan fod y prosiectau oedd yn cyflawni'r amcanion hyn, yn gyffredinol, yn bur lleol neu'n fychan ac felly nid oeddynt yn cael eu categorio fel strategol.

Mae'r adolygiad hefyd yn adnabod y canlynol fel amcanion posib i'r dyfodol:

- ✓ Ymestyn y tymor twristiaeth
- ✓ Cynyddu gwariant ymwelwyr fesul ymweliad
- ✓ Gwella ansawdd profiad yr ymwelwyr
- ✓ Rheoli twristiaeth er budd cymunedau ac amgylchedd Gwynedd. Gallai hyn gynnwys, e.e. marchnata safleoedd sy'n gweld llai o ymwelwyr, rheoli safleoedd prysurach, ymdrin â pherchnogaeth ail gartrefi a materion AirBnB
- ✓ Hyrwyddo ymarfer cyfrifol, cynaliadwy ymysg y sector a'i gwsmeriaid
- ✓ Datblygu naws am le Gwynedd (gan gynnwys ei diwylliant, ei threftadaeth a'r iaith Gymraeg)

Mae'r materion uchod hefyd wedi codi yn ystod y gwaith o ddatblygu Cynllun Eryri, yn ogystal a'r angen i ddatblygu strategaeth marchnata brand ar gyfer Eryri yn seiliedig ar y Rhinweddau Arbennig a'i gweithredu yn gyson ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat – h.y. bod cysondeb ar draws yr ardal o ran brandio a marchnata. Nodwyd hefyd yr angen i annog ymwelwyr i ymweld ar wahanol amseroedd o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y cyfnod prysuraf ac er mwyn helpu busnesau i oresgyn anawsterau tymhorol.

Er cyfyngiadau Covid-19, bu modd i'r Cyngor a'r Parc ymgysylltu efo nifer helaeth o bobl a chyrrff trwy gynnal digwyddiadau a gweithdai trwy blatfform Zoom a defnyddio meddalwedd 'Jamboard'.

Mae'r prif negeseuon o'r gweithdai hyn wedi eu crynhoi isod gydag adborth o weithdai eraill yn **Atodiad A**.

Beth ydy'r prif heriau a chyfleoedd er mwyn cyrraedd economi ymweld cynaliadwy yn y dyfodol?

Her Adnoddau	Cyfle i ymestyn y tymor	Iaith, Diwylliant, treftadaeth - cyfle i ddod a buddion i gymunedau. Her eu diogelu.
Cyfle i addysgu a datblygu sgiliau ymysg pobl leol – creu gyrfa	Her gormodedd mewn rhai ardaloedd.	Cyfle i gael cydbwysedd os yn gweithredu'n gynaliadwy. Cyfle i gymunedau
Heriau Newid Hinsawdd	Her a Chyfle i gydlynu partneriaid	Cyfleon i'r trydydd sector a chymunedau
Cyfle / her newid polisiau Cynllunio a chartrefi i bobl leol	Cyfle i ledaenu pobl o ardaloedd sy'n rhy brysus	Peidio cosbi cymunedau trwy e.e. fesurau parcio ychwanegol
Angen addysgu ymwelwyr am rinweddau arbennig yr ardal	Cyfle i reoli ymwelwyr yn hytrach na marchnata'r ardal	Cyfle i gael gwell isadeiledd e.e. trafndiaeth / toiledau / biniau ayb i bawb.

Pa bolisiau / gweithgareddau sydd angen eu datblygu a blaenoriaethu?

Polisi i ddod a buddion twristiaeth i gymunedau	Gefeillio cymunedau gydag atyniadau	Angen polisiau i ddatblygu trafndiaeth gynaliadwy o refferiw twristiaeth
Hybu defnydd o iaith, diwylliant a hanes yr ardal	Safle Treftadaeth Byd	Marchnata cyrchfan cyfrifol ac ymweliad cyfrifol
Hyfforddiant i ddatblygu gyrfa yn y maes	Polisiau cynllunio sy'n cefnogi cymunedau lleol a rheoli ail-gartrefi / airbnb	Rheoli Cartrefi Modur
Angen codi treth ar ymwelwyr i'r ardal	Arian treth twristiaeth i gefnogi cymunedau ac isadeiledd	Angen datblygu cynllun rheolaeth cyrchfan a sefydlu partneriaeth / corff atebol
Angen sicrhau bod yr cynaliadwyedd yn ganolog i bopeth – iaith, diwylliant, amgylchedd, treftadaeth a chymuned		

Pa bartneriaid sydd angen bod yn trafod?

Angen llais cryf i gymunedau	Mentrau cymdeithasol	Cyrff diogelwch mynydd / môr ayb
Cyrff cenedlaethol e.e. Ramblers	Angen i ysgolion ac addysg fod yn ran o hyn	Pwysig bod hyn yn cynnwys pawb – cyhoeddus, cymunedol, preifat
Angen i gwmnïau lleol gael cyfleon cadwyni cyflenwi	Angen arweinyddiaeth glir a chorff cynrychioladwy.	Pencampwyr i hybu'r economi ymweld

4. Adborth gweithdai

Prif Heriau a Chyfleon yn deillio o Weithdai Aelodau Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri
Chwefror 25 a 27, 2020

Thema	Heriau	Cyfleon
Tud. 236 Marchnata	<ul style="list-style-type: none">• Denu mwy o ymwelwyr o Gymru• Lefel cynaliadwy o ‘wyliau antur’• Sicrhau ansawdd• Ymestyn y tymor• Marchnata effeithiol• Gormod o farchnata?• Ymchwil a thystiolaeth gywir• Peryg i ddatblygu yn un parc chware mawr• Datblygu brand yr ardal• Diffyg gweledigaeth• Marchnata mewn byd cystadleuol• Annog mwy i aros dros nos• Marchnata cydwybodol - dim marchnata tai fel ail-gartrefi• Angen buddsoddi yn yr ased cyn marchnata	<ul style="list-style-type: none">• Profiadau diwylliannol unigryw• Tirlun a Threftadaeth unigryw• Marchnad i gynnyrch lleol• Awyr agored ac antur (eang)• Targedu marchnadoedd gwariant uwch• Brand mwy gwyrdd• Mwy o farchnata a defnyddio technoleg• Pecynnu'r cynnig yn well• Ardal a lleoliad i ffilm a theledu

Thema	Heriau	Cyfleon
Isadeiledd	<ul style="list-style-type: none">• Y newid i geir trydan• Isadeiledd perthnasol i boblogaeth sy'n heneiddio• Gormod o bwysau ar yr isadeiledd yn sgil ymwelwyr• Llwybr arfordir yn denu pobl trwy'r flwyddyn – pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw – oes digon o arian?• Effaith airbnb ar isadeiledd lleol e.e sbwriel• Gwella llwybrau	<ul style="list-style-type: none">• Cludiant a wi-fi cymunedol• Gwell trafndiaeth cyhoeddus• Uwchraddio cyfleusterau i bawb • Adnoddau llenwi poteli dwr• Pwyntiau gwefru trydan• Codi tal i yrru mewn i'r Parc

Thema	Heriau	Cyfleon
Isadeiledd	<ul style="list-style-type: none"> • Denu gwestai safonol i'r ardal • Maint ffyrdd mewn ardaloedd gwledig • Meysydd parcio / toiledau / trafndiaeth gyhoeddus • Gwella'r 'pethau bychain' e.e. sbwriel / dodrefn ayb • Gormod o bwyslais a y 'pethau mawr' • Effaith ar yr amgylchedd • Diffyg opsiynau cludiant cyhoeddus • Erydu llwybrau • Gwella isadeiledd heb effeithio ar yr amgylchedd • Y gadwyn gyflenwi • Cost i'r Parc a'r Cyngor o gynnal a chadw • Creu lonydd beics newydd (Dolgellau i'r Bala) • Gor-yrru • Diffyg rheolaeth ail-gartrefi • Cyflwr ffyrdd • Datblygu cynlluniau ardal / trefi 	<ul style="list-style-type: none"> • Treth twristiaeth i dalu am wasanaethau cymunedau • Llwybrau gwell i gysylltu cymunedau gyda'u atyniadau lleol • Codi tal am barcio a thoiledau • Rhwydwaith trafndiaeth cysylltiedig

Tud. 237

Thema	Heriau	Cyfleon
Bro a Lleol	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg eiddo i bobl leol – Tai Haf a chynnydd prisiau tai i bobl leo • Datblygu swyddi cynaliadwy • Diffyg balans ymwelwyr a rheoli hwn • Twf Airbnb • Gormod o ymwelwyr • Cynnal a rheoli unrhyw dwf mewn ymwelwyr gyda chymunedau 	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu datblygiad mentrau cymdeithasol • Cadw mwy o fudd yn lleol • Mentergarwch lleol • Gwneud mwy o bethau 'cyffredin' e.e. marchnadoedd anifeiliaid • Airbnb yn gyfle i bobl leol os reolir yn iawn • Cysylltu cynhyrchwyr a darparwyr

Thema	Heriau	Cyfleon
Bro a Lleol	<ul style="list-style-type: none"> • Pwysau ar wasanaethau lleol • Cadw cymeriad cymunedau • Treth twristiaeth • Ansawdd yn diwyrrio oherwydd diffyg buddsoddiad • Pwysau ar dimau achub mynydd a gwasanaethau brys • Symud pobl oddi wrth yr Wyddfa • Trethi a TAW uchel • Pobl o'r tu allan yn rhedeg y sector • Sut i ledaenu'r budd i bawb? • Colli gwestai i fod yn fflatiau / hunan-ddarpar 	<ul style="list-style-type: none"> • Perchnogaeth leol • Creu bwrlwm trwy gysylltu cymunedau a busnesau

Tud. 238

Thema	Heriau	Cyfleon
Cynllunio	<ul style="list-style-type: none"> • Gorfodaeth amodau cynllunio • Diffyg polisi cynllunio gan y Llywodraeth • Datblygiadau yn y llefydd cywir • Cyfyngu ar niferoedd tai haf • Annog llety 'priodol' • Cynyddu stoc heb amharu ar gymunedau lleol • Newid trefniadau cynllunio 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella'r drefn gynllunio • Gwell rheolaeth o lety gwyliau ag ail-gartrefi • Trwyddedu? • Annog mwy o lety gwasanaeth • Llety hunanwasanaeth mwy i ddenu teuluoedd

Thema	Heriau	Cyfleon
Datblygu'r Economi a Chyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Angen balans budd Vs effaith lleol • Cael gwaith o safon yn y sector • Sut i gynnwys y gymuned yn y diwydiant? • Gwella lefelau cyflog a thymhorol • Anodd recriwtio'n lleol i'r sector • Effaith Brexit ar y diwydiant • Hyfforddiant ddim yn cyd-fynd a anghenion • Diffyg gyrfa yn y diwydiant – i bobl ifanc • Eisiau cadw arian twristiaeth yn yr economi leol • Gwella gwariant ymwelwyr yn yr economi leol • Ymestyn y tymor • Sut i annog pobl leol i fentro • Diffyg cyfalaf i fusnesau lleol • Gwella cyfleon yn lleol i fusnesau • Codi safonau'r diwydiant • Diffyg profiadau o ansawdd – bwyd • Materion byd-eang: Coronafirws / newid hinsawdd • Gwella safon gwestai • Patrwm ymweld yn newid • TAW a threthi yn her • Adolygu rheoliadau carafanau teithiol Ebrill – Hydref • Cael mwy o gynhyrchwyr lleol yn cyflenwi • Diffyg grwpiau twristiaeth • Gwella hyfforddiant i staff am hanes lleol a naws am le 	<ul style="list-style-type: none"> • Denu marchnadoedd newydd • Cynnyrch lleol a bwyd mor • Defnydd o dechnoleg newydd • Gwella cadwyni cyflenwi lleol • Gwell darpariaeth addysg a sgiliau • Cyflogaeth dda i bobl leol • Cyfleon arall-gyfeirio cefn gwlad yn sgil Brexit • Creu cyfleon unigryw i bobl ifanc yn y sector • Gwella llif economaidd i fusnesau 'lleol' • Cyfleusterau dan do – tywydd! • Treth twristiaeth • Llety wedi' wasanaethu • Datblygu swyddi o safon • Creu twristiaeth 'addas' • Ynni adnewyddol • Awyr agored • Busnesau i agor oriau hwyrach yn yr haf • Ymestyn y tymor • Twristiaeth gynaliadwy • Datblygu hwylusydd gyrfa twristiaeth • Tywyswyr a theithiau wedi pecynnu • Cefnogi cymunedau Cymreig gyda swyddi da

Thema	Heriau	Cyfleon
<p>Diwylliant a Iaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg proffil i'r iaith • Sut i fanteisio o statws Llechi Cymru? • Lleihau effeithiau negyddol ar yr iaith a diwylliant • Risg o Seisnigeiddio cymunedau wrth i bobl hŷn symud yma. Effaith ar ddemograffeg y sir • Sut cael perchnogaeth leol dros y diwydiant? • Sicrhau bod datblygiad yn gwella'r ardal a ddim yn andwyol iddo • Diogelu pentrefi a threfi rhag mynd yn drefi gwyliau • Angen hybu mentergarwch a phrofiadau unigryw gan bobl leol i hybu iaith a diwylliant • Sicrhau parch i iaith, diwylliant a chymunedau • Cael gweithwyr sy'n siarad Cymraeg • Colli enwau lleol • Sut i ddarbwylo busnes i ddefnyddio Cymraeg? • Angen cysylltu'r sector gyda chymunedau'n well • Sut cysylltu marchnad leol (cynnyrch a gwasanaethau) gyda'r sector yn well? 	<ul style="list-style-type: none"> • Hanes yr ardal • Adfywio'r ardaloedd llechi • Sefydlu 'Paradores' fel yn Sbaen? • Cynyddu Gwyliau diwylliannol • Gwerthu'r diwylliant • Hyrwyddo'r Gymraeg • Digwyddiadau • Mabinogi a chwedlau • Naws am Le • Y sector fel gyrfa yn y Gymraeg

Tud. 240

Thema	Heriau	Cyfleon
<p>Cynaliadwyedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw twristiaeth gynaliadwy a sut mae cyrraedd hynny? • Her lle nad oes trafndiaeth gyhoeddus ddigonol • Ôl troed carbon yn cynyddu oherwydd y ceir sy'n ymweld • Sut mae gwella cadwyni cyflenwi lleol ayb? • Hybu mwy ar fangreoedd 'tawelach' Gwynedd fel llefydd i ymweld a hwy. 	<ul style="list-style-type: none"> • Yr amgylchedd naturiol • Iechyd • Cysylltu pobl a chymunedau gyda'r awyr agored • Lleihau ôl troed carbon • Datblygu marc ansawdd Gwynedd

Thema	Heriau	Cyfleon
Cynaliadwyedd	<ul style="list-style-type: none"> • Dirywiad bywyd cymunedol yn arwain at ddiffyg twristiaeth tryw' (authentic) • sut i warchod tirwedd a'r amgylchedd? • Risg o golli'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw o ran tirwedd a natur • Effaith andwyol ar fywyd natur • Heriau amaethyddol • Lleihau'r ddibyniaeth ar geir • Datblygu twristiaeth gynaliadwy sy'n hybu iechyd 	<ul style="list-style-type: none"> • Llenwi poteli dwr • Twristiaeth gwyrdd ac eco • Natur a llwybrau • Trydaneiddio

Thema	Heriau	Cyfleon
Arall Tud. 241	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau ymchwil ac ystadegau dibynadwy • Cydweithio gwell rhwng y Cyngor, Parc a'r Llywodraeth • Diffyg cydweithio o fewn y sector • Diffyg cydweithio rhwng cynghorau cymuned / tref gyda'r sector a'r trydydd sector • Diffyg rhannu gwybodaeth rhwng busnesau 	<ul style="list-style-type: none"> • Un weledigaeth ar gyfer twristiaeth - cydbwysedd rhwng yr economi, amgylchedd, cymuned

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cydweithio ar ddatblygu'r Cynllun gyda chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid er mwyn hybu Economi Ymweld Cynaliadwy yn ein hardal i'r dyfodol. Bydd hwn yn Gynllun newydd fydd yn dylanwadu ar bolisi'r economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri gan roi ein cymunedau'n ganolog i'r sector yn y dyfodol.

Ein gweledigaeth i'r dyfodol yw:

"Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"

Mae'r ddau gorff wedi adolygu arfer-dda rhyngwladol a lleol gan hefyd ystyried diffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth cynaliadwy er mwyn creu egwyddorion ar gyfer ardal Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i'w dilyn yn y dyfodol

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Roland Evans, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

25 Hydref 2022. Fersiwn 1
19 Rhagfyr 2022. Fersiwn 2
27 Ionawr 2023. Fersiwn 3
30 Ionawr 2023. Fersiwn 4

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae'r Cyngor wedi arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddatblygu'r Cynllun newydd. Mae ymgynghori eang wedi digwydd gyda:

- Aelodau Etholedig
- Cynghorau Cymuned
- Busnesau a'r sector twristiaeth
- Cymunedau Gwynedd ac Eryri trwy grwpiau a phartneriaethau lleol
- Cynrychiolwyr y sector fusnes
- Cynrychiolwyr y sector amgylcheddol
- Partneriaid Cyhoeddus: Cyfoeth Naturiol Cymru, Croeso Cymru
- Sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch
- Cylch yr Iaith
- Adrannau a Gwasanaethau Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Pobl Gwynedd

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷf n â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Bu i ni ymgysylltu efo cymunedau ar draws Gwynedd fel rhan o waith datblygu'r Cynllun. Cynhaliwyd gweithdai gydag ardaloedd Gwynedd ac Eryri er mwyn cael barn pobl Gwynedd ac Eryri ar flaenoriaethau i'w gweithredu yn y dyfodol o safbwynt yr Economi Ymweld.

Bu i ni gyfarfod gyda a thrafod arferion da o nifer o wledydd gan gynnwys Ynys Arran, Seland Newydd, Yr Unol Daleithiau, Slofenia a Denmarc.

Bu i ni hefyd gynnal sesiynau fel rhan o ddatblygiad Cynlluniau Ardal Ni er mwyn derbyn adborth ar flaenoriaethau a phryderon lleol.

Fel enghraifft o'r ymgysylltu, yn ystod 2022 cynhaliwyd 5 digwyddiad trwy Zoom i drafod yr economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri. Cynhaliwyd sesiynau hefyd i gynghorwyr ar draws Gwynedd. Mae'r rhain wedi:

- Cyrraedd dros 250 o gynrychiolwyr
- Ysgogi dros 1,500 o sylwadau gan fynychwyr
- Ymgysylltu efo 14 ardal o Wynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri
- Cyrraedd dros 100 o sefydliadau cyhoeddus, cyrff neu fusnesau unigol
- Dros 4,490 wedi derbyn gwybodaeth a gwahoddiad i gyfrannu yn y digwyddiadau trwy Fwletin Busnes Cyngor Gwynedd

Ni fu i ni drafod efo cynrychiolwyr o'r grwpiau gwarchoddedig yn uniongyrchol, ond bu trafodaethau gyda chymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol megis Blaenau Ffestiniog, Bethesda, Dyffryn Nantlle, Abermaw yn ogystal â chynrychiolwyr busnes a chymuned o ardaloedd glan môr Gwynedd a phentrefi Eryri.

Bwriedir ymgysylltu efo cynrychiolwyr ar ran grwpiau gwarchoddedig wrth ddatblygu a blaenoriaethu Cynllun Gweithredu blynyddol gan y Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori - mae trosolwg o faterion a godwyd yn y sesiynau hyn isod.

Canlyniad yr ymgysylltu oedd datblygiad gweledigaeth newydd ar gyfer yr economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri a mabwysiadu cyfres o egwyddorion ac is-egwyddorion newydd i lywio datblygiad yr economi ymweld yn y dyfodol. Nid oes ymgynghori i'r fath raddau ar yr economi ymweld erioed wedi cymryd lle yma yn yr ardal.

Beth ydy'r prif heriau a chyfleoedd er mwyn cyrraedd economi ymweld cynaliadwy yn y dyfodol? Dyma'r prif faterion a godwyd yn y sesiynau ymgynghori:

Her Adnoddau	Cyfle i Ymestyn y tymor	laith, Diwylliant, treftadaeth – cyfle i ddod a buddion i gymunedau. Her eu diogelu.
--------------	-------------------------	--

Cyfle i addysgu a datblygu sgiliau ymysg pobl leol – creu gyrfa	Her gormodedd mewn rhai ardaloedd.	Cyfle i gael cydbwysedd os yn gweithredu'n gynaliadwy. Cyfle i gymunedau
Heriau Newid Hinsawdd	Her a Chyfle i gydlynu partneriaid	Cyfleon i'r trydydd sector a chymunedau
Cyfle / her newid polisiâu Cynllunio a chartrefi i bobl leol	Cyfle i ledaenu pobl o ardaloedd sy'n rhy brysur	Peidio cosbi cymunedau trwy e.e. fesurau parcio ychwanegol
Angen addysgu ymwelwyr am rinweddau arbennig yr ardal	Cyfle i reoli ymwelwyr yn hytrach na marchnata'r ardal	Cyfle i gael gwell isadeiledd e.e. trafndiaeth / toiledau / biniau ayb i bawb.

Pa bolisiâu / gweithgareddau sydd angen eu datblygu a blaenoriaethu? Dyma'r prif faterion a godwyd yn y sesiynau ymgynghori:

Polisi i ddod a buddion twristiaeth i gymunedau	Gefeillio cymunedau gydag atyniadau	Angen polisiâu i ddatblygu trafndiaeth gynaliadwy o refferniw twristiaeth
Hybu defnydd o iaith, diwylliant a hanes yr ardal	Safle Treftadaeth Byd	Marchnata cyrchfan cyfrifol ac ymweliad cyfrifol
Hyfforddiant i ddatblygu gyrfa yn y maes	Polisiâu cynllunio sy'n cefnogi cymunedau lleol a rheoli ail-gartrefi / airbnb	Rheoli Cartrefi Modur
Angen codi treth ar ymwelwyr i'r ardal	Arian treth twristiaeth i gefnogi cymunedau ac isadeiledd	Angen datblygu cynllun rheolaeth cyrchfan a sefydlu partneriaeth / corff atebol
Angen sicrhau bod yr cynaliadwyedd yn ganolog i bopeth – iaith, diwylliant, amgylchedd, treftadaeth a chymuned		

Pa bartneriaid sydd angen bod yn trafod? Dyma'r prif faterion a godwyd yn y sesiynau ymgynghori:

Angen llais cryf i gymunedau	Mentrau cymdeithasol	Cyrff diogelwch mynydd / môr ayb
------------------------------	----------------------	----------------------------------

Cyrff cenedlaethol e.e. Ramblers	Angen i ysgolion ac addysg fod yn ran o hyn	Pwysig bod hyn yn cynnwys pawb – cyhoeddus, cymunedol, preifat
Angen i gwmnïau lleol gael cyfleon cadwyni cyflenwi	Angen arweinyddiaeth glir a chorff cynrychioladwy.	Pencampwyr i hybu'r economi ymweld

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Rydym wedi ystyried yr ymgynghoriadau a nodir uchod, ond hefyd wedi ystyried arfer dda o ardaloedd eraill, polisïau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal ag ymchwil am natur yr economi ymweld yn yr ardal, yr amgylchedd, yr iaith Gymraeg a chyflwr ein cymunedau.

Mae data ac ymchwil yn amlygu'r angen i gael cydbwysedd gwell yn yr economi ymweld ac o fewn yr economi'n gyffredinol yn ardal Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r adolygiad o Wedd I rhaglen Arfor a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru'n amlygu'r canlynol am ardal Gorllewin Cymru:

Yn aml, cyfeirir at siroedd Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr fel y cadarnleoedd hyn, er y gellir nodi nifer o siroedd neu ardaloedd o fewn siroedd eraill sydd yn rhannu nodweddion tebyg. Mae consensws cyffredinol bod y cadarnleoedd hyn yn rhannu nodweddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol tebyg, gan gynnwys:

1. Canran uchel o siaradwyr Cymraeg
2. Mewnfudo pobl hŷn, pobl ifanc sy'n allfudo
3. Gwledig gan ddiwynnu ar amaethyddiaeth, bwyd a thwristiaeth
4. Trefi marchnad a threfi Prifysgol
5. Canran uchel o swyddi yn y sector cyhoeddus
6. Cyflogau isaf ym Mhrydain, ac ymhlith y cyflogau isaf yn Ewrop

Yn ogystal â'r uchod, mae consensws bod y siroedd yn rhannu'r un her, a bod yna broblem sydd angen ymateb iddo.

Er bod datblygu'r Cynllun hwn wedi cychwyn ers 2018, yn sgil Covid-19 bu pwysau eithriadol ar gymunedau ar draws Gwynedd ac Eryri gyda nifer ymwelwyr di-gynsail a'r ardal. Mae'r cyfnod hwn wedi amlygu rhai materion y mae angen ymateb iddynt er mwyn cefnogi economi ymweld cynaliadwy.

Cyhoeddwyd argyfwng newid hinsawdd gan Lywodraeth Cymru, Gyngor Gwynedd ar Parc Cenedlaethol yn ystod 2019. Mae'r argyfwng natur a bioamrywiaeth drwy newid yn yr hinsawdd yn ein gorfodi i newid ein ffordd o fyw ac ymddwyn.

Mae Cynllun Eryri yn adnabod yr angen am Gynllun Twristiaeth Cynaliadwy ac mae Cynllun Cyngor Gwynedd yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod busnesau a chymunedau Gwynedd yn elwa o'r ymwelwyr sy'n dod i'r ardal yn ogystal a datblygu Cynllun Adfywio i Wynedd.

Mae Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru'n adnabod yr angen i ddatblygu cynllun i reoli ymwelwyr a'r ardal ac mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn rhoi blaenoriaeth i reoli twristiaeth yn gynaliadwy.

Mae dyletswydd arnom i gyd i warchod cymunedau, amgylchedd a diwylliant yr ardal er lles cenedlaethau'r dyfodol, ac mae cyfleon cydweithio newydd yn codi a chyfle i ddysgu o brofiadau ardaloedd eraill.

Ym mis Tachwedd 2021 fe arwyddodd Gyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol Gytundeb o Ddealltwriaeth. Amcan y Cytundeb o Ddealltwriaeth yw *cydweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn partneriaeth i wireddu Gweledigaeth ac Egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 i warchod a hyrwyddo gwerthoedd arbennig yr ardal.*

Ymchwil ac ystadegau

Mae datblygu'r Cynllun wedi dibynnu ar lawer o waith ymchwil a dadansoddi ystadegau er mwyn llunio ein hegwyddorion a'n blaenoriaethau gweithredu.

Mae'r ymchwil a'r ystadegau'n cynnwys:

- Adolygiad Llety Twristiaeth Lleol (2018/19, Cyngor Gwynedd)
- Adolygiad Ymwelwyr Croeso Cymru a Chyngor Gwynedd (2019, Beaufort Research)
- Adolygiad Elwa o Dwristiaeth – ystyriaeth o'r opsiynau i ariannu blaenoriaethau yn y dyfodol (Mai 2019, Blue Chip Tourism a RJS Associates Cyf).
- Adolygiad o'r Bartneriaeth Rheolaeth Cyrchfan (Hydref 2019, Blue Chip Tourism a RJS Associates Cyf.)
- Cynllun Eryri (2020, Parc Cenedlaethol Eryri)
- Strategaeth Parcio a Theithio Cynaliadwy Yr Wyddfa ac Ogwen (2020, Parc Cenedlaethol Eryri)
- Cynllun Cyngor Gwynedd (2018, Cyngor Gwynedd)
- Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (Rhagfyr 2020, Cyngor Gwynedd)
- Ymchwil i sefyllfa Cartrefi modur yng Ngwynedd (Medi 2021, Cyngor Gwynedd)

Mae prif ystadegau'r sector Economi Ymweld yng Ngwynedd i'w gweld isod*:

- Gweithlu Cyfartalog mewn blwyddyn: 18,244
- Nifer Atyniadau: 200
- Nifer Darparwyr awyr agored: 100
- Nifer ymwelwyr 2019: 7.8m
- Gwerth i'r Economi 2019: £1.35bn
- Nosweithiau aros 2019: 20.10m
- Diwrnodau aros 2019: 23.93m
- Boddhad cwsmer: 80% **

*Ffigyrau Adolygiad STEAM 2019

** Adolygiad ymwelwyr Croeso Cymru – Cyngor Gwynedd Beaufort Research 2019

Yn ôl adolygiad y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan, mae'r penawdau canlynol ar gyfer perfformiad 2013 - 2020 (data 2018 ac eithrio lle mae hynny wedi'i nodi):

- 11% o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i 7.37 miliwn
- Nosweithiau a dyddiau twristiaid wedi cynyddu 11%
- 23% o gynnydd mewn gwerth Economaidd i £1.12 Biliwn
- 15,500 o swyddi'n cael eu cefnogi gan wariant twristiaeth
- 14% o dwf yn nifer y busnesau llety i 3,194 (2011-2019)
- 6% o gynnydd mewn gofod gwelyau i 132,611 (2011-2019)
- 47% o gynnydd mewn ymwelwyr yng Nghanolfan Ymwelwyr Copa'r Wyddfa (2014-2017)

- 102 o ddigwyddiadau'n cael eu cefnogi gan Gyngor Gwynedd, yn ychwanegu £34 miliwn at yr economi leol (2014-2018)
- 3.1 miliwn o ddefnyddwyr wedi edrych ar wefan swyddogol Eryri Mynyddoedd a Môr yn ystod 4.1 miliwn o sesiynau (2015-2019)
- Twf cyfartalog o 580% mewn sianelau cyfryngau cymdeithasol swyddogol
- 1,925 airbnb wedi cofrestru yng Ngwynedd yn Ionawr 2019 (cynnydd o 1,251 yn Awst 2018 a 745 eisoes ar restr ymchwil llety)

Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025 yn nodi'r canlynol wrth drafod y sector twristiaeth a lletygarwch:

- Un o'r sectorau anoddaf i lenwi bylchau cyflogaeth ynddo
- Cyflog cyfartalog ar draws Gogledd Cymru ymhob sector yw £24.8k
- 37% o bobl y sector yn dweud ei bod yn anodd llenwi swyddi
- Cadw staff yn y sector yn anodd – gan nad oes digon o bobl eisiau swyddi a chan bod cyflogau'n is o'u cymharu a sectorau eraill
- Mae'r sector yn dangos cyfleon cyflogaeth uchel i'r dyfodol ac wedi gweld twf cyson ers 2016 ac yn dangos twf y tu hwnt i 2025
- Angen codi proffil y sector yn y dyfodol fel gyrfa
- Angen annog cyflogwyr i fuddsoddi yn eu staff er mwyn eu cadw
- Angen annog cyfleon prentisiaethau yn y sector

Arolwg Ilety Gwynedd *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau (Rhagfyr 2020, Cyngor Gwynedd)

Mae'r isod yn cyflwyno'r wybodaeth ar gyfer Gwynedd:

Nifer o unedau preswyl	61,645
Nifer o ail-gartrefi	4,873
Nifer o lety gwyliau hunan darpar (uned busnes annomestig)	1,976
Cyfanswm cyfunol	6,849
Canran cyfunol o lety gwyliau (sef y nifer uchaf yng Nghymru)	10.76%

Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal fel a ganlyn yng Ngwynedd: 64.4 % siaradwyr Cymraeg (wedi gostwng 1% o 65.4% yn 2011)

Amrywio o 86.3% yn Ward Seiont 2 Caernarfon i 19.6% yn Ward Deiniol, Bangor a 36.1% yn Ward Tywyn I.

Cyd-destun Strategol ac Arfer Dda

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Fel Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol rydym wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd ac Eryri. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried yr hirdymor, gan gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer yr economi ymweld yn yr ardal yn cyd-fynd ag egwyddorion y ddeddf.

Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig (UNWTO)

Mae'r UNWTO yn diffinio twristiaeth cynaliadwy fel:

“Twristiaeth sy’n cymryd llawn ystyriaeth o’i effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol ac i’r dyfodol, gan ymateb i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau lleol”.

Mae gan yr UNWTO dri piler sy’n diffinio twristiaeth cynaliadwy:

1. Defnydd gorau o adnoddau amgylcheddol sy’n ran allweddol o ddatblygiad twristiaeth
2. Parchu hynodrwydd cymdeithasol-ddiwylliannol cymunedau
3. Sicrhau gweithgaredd economaidd cynaliadwy a hir-dymor a buddion cymdeithasol-economaidd i bawb

Ail-ddiffiniwyd y pileri yma i ymateb i anghenion a blaenoriaethau ein hardal.

Rhaglen Lywodraethu Cymru 2021-2026

Mae’r *Rhaglen Lywodraethu’n* nodi’r ymrwymïadau y bydd Llywodraeth Cymru’n eu cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd y rhain yn mynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu Cymru, ac yn gwella bywydau pobl ledled y wlad. Mae’r egwyddorion economi ymweld cynaliadwy yn ymateb i flaenoriaethau’r Rhaglen Lywodraethu a’r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru.

Ein Cynllun Cymru Gyfan

Yn dilyn cyhoeddi Argyfwng yn yr Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru yn 2019, cyhoeddwyd Ein Cynllun Cymru Gyfan cyntaf ochr yn ochr a Cymru Sero Net, Cyllideb Garbon 2 (2021-25) – mae hyn yn golygu newid sylweddol yn y ffordd rydyn ni gyd yn byw, yn gweithio ac yn ymweld a llefydd eraill.

Croeso i Gymru

Mae *Croeso i Gymru, Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025* yn gosod allan blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chroeso Cymru ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Mae’n nodi’r angen i gydweithio mewn ffordd sy’n cefnogi llesiant y cryfderau sy’n denu pobl yma yn y lle cyntaf – ein tirweddau, diwylliant ac antur ac yn nodi bod yn rhaid i dwristiaeth sy’n dda i’n diwydiant hefyd fod yn dda i Gymru. Nod y Llywodraeth trwy’r Cynllun, yn y dyfodol, yw defnyddio’r economi ymwelwyr i gael budd ehangach.

Uchelgais Gogledd Cymru

Gweledigaeth Uchelgais Gogledd Cymru yw ‘*creu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Gogledd Cymru*’. Mae am weld y rhanbarth yn datblygu mewn ffordd gynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a chael gyrfaoedd gwerth chweil. Mae am weld busnesau’n tyfu a chymunedau’n ffynnu, ac i hynny ddigwydd tra’n hyrwyddo ein iaith, ein diwylliant a’n treftadaeth ac yn unol â’r nodau llesiant i Gymru.

Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-25

Mae’r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth tair blynedd wedi’i ddatblygu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (RSP), mewn cydweithrediad â busnesau a chyflogwyr ar draws y rhanbarth.

Y weledigaeth yn y Cynllun yw *bod Gogledd Cymru yn rhanbarth lle mae’r bobl, ac yn benodol eu sgiliau a’u galluoedd, yn yrrwr allweddol i ddatblygiad economaidd a lles. Mae cyflogwyr yn y rhanbarth yn ffynnu, yn datblygu ac yn tyfu oherwydd sgiliau’r boblogaeth leol. Mae busnesau am symud i’r rhanbarth oherwydd sgiliau’r boblogaeth leol. Ar yr un pryd, gall pobl gyflawni eu huchelgeisiau a gwneud y mwyaf o’u potensial yng Ngogledd Cymru.*

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (mabwysiadwyd Chwefror 2019)

Fel Parc Cenedlaethol, mae gofyn i Eryri gael cynllun datblygu yn ei le. Mae’r Parc o fewn awdurdodau lleol Gwynedd a Conwy ac mae’r cynllun yn diffinio’r fframwaith cynllunio defnydd

tir ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cynllun datblygu'r annog twristiaeth gynaliadwy sy'n gwarchod Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol a diddordebau cymunedau lleol.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 (31 Gorffennaf 2017)

Mae'r cynllun datblygu ar y cyd ar gyfer y ddau awdurdod lleol yn adnabod rôl allweddol yr economi ymwelwyr ac yn nodi dull cadarnhaol a rhagweithiol i'w ddatblygiad a'i reolaeth.

Arfer dda

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, rydym wedi derbyn cefnogaeth a chynghor gan Yr Athro Terry Stevens, arbenigwr yn y maes twristiaeth gynaliadwy. Rydym hefyd wedi ystyried yr arfer dda canlynol:

- Seland Newydd – Tiaki Promise
- Ynys Aran, Yr Alban
- Parc Cenedlaethol Triglav, Slofenia - ardal sydd wedi gefeillio efo Eryri
- Vadehavskysten, Denmarc (Ardal Arfordir Wadden)
- Jackson Hole, UDA
- Park City, UDA
- Dolan (Partneriaeth Ogwen, Siop Griffiths a Chwmni Bro Ffestiniog)

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Rydym yn ymwybodol bod bylchau o ran tystiolaeth am effaith yr economi ymweld ar yr iaith Gymraeg a'n cymunedau. Mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri'n cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynnal ymchwil i'r maes yma er mwyn cael gwell dealltwriaeth.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod diffyg ymgysylltu llawn wedi bod efo pobl â nodweddion gwarchodedig wrth ddatblygu'r Cynllun hwn – er ein bod wedi trafod gyda nifer o unigolion, cymunedau a phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Wrth weithredu'r Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy bwriedir ymgysylltu'n benodol gyda cynrychiolwyr ar ran pobl a nodweddion gwarchodedig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion ac ymateb iddynt trwy'r Cynllun Gweithredu fydd yn cael eu gytuno arno gan Bartneriaeth eang a chynrychioladwy.

3) Adnabod yr Effaith

- 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
-------------------	------------------------------	--

Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif / negyddol / dim	Bydd y Cynllun yn ceisio sicrhau gwell cydbwysedd rhwng yr economi ymweld a'n cymunedau a'i phobl. Bydd yn gosod cymunedau Gwynedd yn ganolog a bydd hyn yn cael effaith positif ar iaith a diwylliant cynhenid yr ardal. Bwriedir hefyd weithio efo grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb er mwyn adnabod blaenoriaethau gweithredu o'u safbwynt hwy. Bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr amrywiol o grwpiau lleiafrif ethnig er mwyn deall beth yw eu cymhelliant dros ymweld a'r ardal neu rwystrau dros beidio gwneud hynny.
Anabledd	Positif / negyddol / dim	Trwy weithio gyda phartneriaid bwriedir sicrhau bod yr isadeiledd priodol mewn lle allai wella mynediad at yr economi ymweld yn lleol i bobl anabl. Bwriedir hefyd weithio efo grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb er mwyn adnabod blaenoriaethau gweithredu o'u safbwynt hwy. Bydd hyn yn cynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl ag amrywiaeth o amhariadau gwahanol.
Rhyw	Positif / negyddol / dim	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith. Gall y cynllun arwain at greu gwell sgiliau a chyfleon gyrfa yn lleol o fewn yr economi ymweld. Byddai hyn yn creu cyfleon cyflogaeth yn lleol a gallai hynny gael effaith ar fwllch cyflog trwy wella cyflogau sy'n medru bod yn dymhorol a lle mae cyflogau'n medru bod yn isel. Mae'r sector hefyd yn dueddol o gyflogi nifer o ferched. Trwy'r broses o ddatblygu'r Cynllun mae effaith ail-gartrefi a llety gwyliau megis Airbnb wedi codi fel bygythiad i argaeledd tai yn lleol. Gallai'r Cynllun arwain at well rheolaeth o'r sefyllfa yn dilyn datblygiadau polisi gan Lywodraeth Cymru. Yn draddodiadol mae canran uwch o ddynion yn ddi-gartref.
Oedran	Positif / negyddol / dim	Bydd y Cynllun yn annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal. Byddwn yn awyddus i wneud yr ardal yn le sy'n croesawu teuluoedd a phobl o bob oedran. Trwy ymestyn y tymor gall agor mynediad pellach i bobl wedi ymddeol ymweld a'r ardal. O roi cymunedau Gwynedd yn ganolog, gallai gael effaith positif ar argaeledd tai yn ein cymunedau i deuluoedd Gwynedd yn ogystal â chyfleon cyflogaeth i bobl Gwynedd.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif / negyddol / dim	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith hyd yma ond byddwn yn ymgysylltu ymhellach er mwyn ein bod yn croesawu pawb fel ymwelwyr ac yn sicrhau effeithiau cadarnhaol i bob grŵp o fewn ein cymunedau.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif / negyddol / dim	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith hyd yma ond byddwn yn ymgysylltu ymhellach er mwyn ein bod yn

		croesawu pawb fel ymwelwyr ac yn sicrhau effeithiau cadarnhaol i bob grŵp o fewn ein cymunedau.
Ailbennu rhywedd	Positif / negyddol / dim	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith hyd yma ond byddwn yn ymgysylltu ymhellach er mwyn ein bod yn croesawu pawb fel ymwelwyr ac yn sicrhau effeithiau cadarnhaol i bob grŵp o fewn ein cymunedau.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif / negyddol / dim	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith hyd yma ond byddwn yn ymgysylltu ymhellach er mwyn ein bod yn croesawu pawb fel ymwelwyr ac yn sicrhau effeithiau cadarnhaol i bob grŵp o fewn ein cymunedau.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif / negyddol / dim	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith hyd yma ond byddwn yn ymgysylltu ymhellach er mwyn ein bod yn croesawu pawb fel ymwelwyr ac yn sicrhau effeithiau cadarnhaol i bob grŵp o fewn ein cymunedau.
Yr iaith Gymraeg	Positif / negyddol / dim	Mae rhai yn credu bod effeithiau gor-dwristiaeth yn niweidiol i'r Gymraeg ac yn effeithio ar faterion megis fforddiadwyedd tai, cyfleoedd gwaith, sy'n cael effaith ar gyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau. Hefyd effaith negyddol posib o beidio cymryd y cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan allweddol o brofiad y defnyddiwr ac mae cyfleoedd i gynyddu gweledd a defnydd o'r Gymraeg. Bydd y Cynllun yn hyrwyddo economi ymweld i bawb ac yn annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal. Bydd yn datblygu rôl ganolog i'r Gymraeg yn ein economi ymweld. Bydd gwaith ymchwil newydd gyda Phrifysgol Bangor yn gosod sylfaen i fonitro unrhyw effaith all yr economi ymweld ei gael ar yr iaith Gymraeg a'n cymunedau.
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif / negyddol / dim	Bydd y Cynllun yn annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal. Bydd yn creu cyfleon i gael perchnogaeth a budd cymunedol o'r economi ymweld ac yn ceisio datblygu modelau twristiaeth cymunedol a chynaliadwy er creu buddion economaidd-gymdeithasol i gymunedau. Mae rhai cymunedau ac unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu hamddifadu oherwydd yr economi ymweld. Yn benodol o ran argaeledd tai fforddiadwy ac effaith yr economi ymweld ar rai gwasanaethau cyhoeddus megis ffyrdd, biniau stryd, meysydd parcio a thrafnidiaeth. Mae nifer hefyd wedi datgan bod cyflogau'n y sector yn gymharol isel ac yn dymhorol. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn ac wedi ymateb trwy'n mesuryddion effaith fydd yn mesur effaith unrhyw newidiadau yn yr economi ymweld ar ein cymunedau a hefyd o fewn ein Cynllun Gweithredu fydd yn gosod allan blaenoriaethau gweithredu i ymateb i anghenion cymunedau ac yn enwedig o fewn cymunedau dan anfantais. Trwy'r broses o ddatblygu'r Cynllun mae effaith ail-gartrefi a llety gwyliau megis Airbnb wedi codi fel bygythiad i

		argaeledd tai yn lleol. Gallai'r Cynllun arwain at well rheolaeth o'r sefyllfa yn dilyn datblygiadau polisi gan Lywodraeth Cymru.
--	--	---

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi /nae ydi / posib	Bydd y Cynllun yn annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal yn ogystal â gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion er mwyn gweithredu prosiectau penodol i gael gwared a cham-wahaniaethu. Trwy ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion penodol byddwn yn gallu adnabod yr hyn mae grwpiau o fewn ein cymunedau, a'r pobl sy'n ymweld, ei angen er mwyn sicrhau tegwch i bawb.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi /nae ydi / posib	Bydd y Cynllun yn annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal yn ogystal â gweithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion er mwyn gweithredu prosiectau penodol i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o fewn ein cymunedau ac ar gyfer y rhai sy'n ymweld.
Meithrin perthnasau da	Ydi /nae ydi / posib	Yn ystod y cyfnod Covid gwelwyd anawsterau a sefyllfaoedd heriol mewn cymunedau yn sgil nifer yr ymwelwyr a'r ardal. Trwy ddatblygu'r Cynllun hwn a Phartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy byddwn yn hyrwyddo dealltwriaeth a meithrin perthnasau da rhwng cymunedau, busnesau, yr amgylchedd ac ymwelwyr.

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n

ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?


Bydd y Cynllun yn hyrwyddo economi ymweld i bawb ac yn annog parch a dealltwriaeth o ddiwylliant, iaith, rhinweddau arbennig a chymunedau'r ardal. O ganlyniad i'r Cynllun newydd, disgwylir y bydd mwy a gwell ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg gan y sector economi ymweld, yn ogystal a chyfleon gyrfa mwy sefydlog o fewn y sector i bobl leol.

Ein gweledigaeth newydd fydd:

"Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"

Rydym wedi mabwysiadu egwyddorion pendant i hyrwyddo'r iaith:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais



Rydym wedi datblygu prosiect cydweithredol gyda Phrifysgol Bangor i ymchwilio i effaith yr economi ymweld ar rai o'r ardaloedd llechi yn yr ardal. Gobeithir y bydd hwn yn gosod model effeithiol i fesur effaith yr economi ymweld a'r safle treftadaeth byd ar yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd wedi datblygu mesuryddion effaith newydd a bydd ystyriaeth yn cael ei roi i nifer y siaradwyr Cymraeg a nifer y cyfleon i hyrwyddo'r Gymraeg.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Rydym wedi datblygu cyfres o fesuryddion newydd i'n cynorthwyo i gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gan gynnwys:

- Canran y trigolion sy'n fodlon ag effeithiau twristiaeth ar y gymuned yn gyffredinol a hunaniaeth y gyrchfan
- Nifer yr unigolion sy'n cefnogi diwylliant, gwarchodaeth, cadwraeth a rheolaeth yr ardal trwy 'gynllun llysgennad twristiaeth' Gwynedd / Eryri
- Cyfanswm nifer yr ymwelwyr ac yn gymesur â sectorau e.e. laith, Treftadaeth, Diwylliant, Cerdded, Llwybr Arfordirol, atyniadau, traeth
- Nifer y siaradwyr Cymraeg – Daearyddol
- Nifer y cynhyrchwyr bwyd, diodydd, nwyddau lleol . Yn gysylltiedig â'r economi ymwelwyr.
- Nifer y busnesau twristiaeth sy'n defnyddio / gwerthu cynnyrch lleol
- Trosiant a gwariant blynyddol cyfartalog gan fusnesau twristiaeth ar wasanaethau o ffynonellau lleol
- Nifer y busnesau / mentrau twristiaeth (neu fusnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth) mewn perchnogaeth leol neu gymunedol

Bydd y mesurau yma yn cael eu defnyddio i fonitro newidiadau ac effeithiau'r economi ymweld ar ein hardal a byddant yn darparu data creiddiol er mwyn addasu cynlluniau os oes effaith negyddol neu dim digon o effaith cadarnhaol yn cael ei ddangos yn y data.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

O wrando ar gymunedau ac unigolion, rydym wedi clywed bod rhai cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu hamddifadu oherwydd yr economi ymweld. Yn benodol o ran argaeledd tai fforddiadwy ac effaith yr economi ymweld ar rai gwasanaethau cyhoeddus megis ffyrdd, biniau stryd, meysydd parcio a thrafnidiaeth. Mae nifer hefyd wedi datgan bod cyflogau'n y sector yn gymharol isel ac yn dymhorol.

Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn ac wedi ymateb trwy'n mesuryddion effaith fydd yn mesur effaith unrhyw newidiadau yn yr economi ymweld ar ein cymunedau a hefyd o fewn ein Cynllun Gweithredu fydd yn gosod allan blaenoriaethau gweithredu i ymateb i anghenion cymunedau. E.e.

- Datblygu cynllun gyrfa a sgiliau i'r sector
- Gefeillio atyniadau gyda'u trefi / pentrefi i ddod a buddion ehangach i economi ardaloedd
- Rheolaeth gyrchfan er mwyn lleihau pwysau ar rai lleoliadau ac annog pobl allan o'r potiau mel
- Gwaith ar dai fforddiadwy ac ail-gartrefi ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru
- Datblygiad posib Ardoll Ymwelwyr a chyfle i fuddsoddi unrhyw ardoll mewn cymunedau ac isadeiledd lleol.

Bwriedir ymgysylltu efo cynrychiolwyr ar ran grwpiau gwarchodedig wrth ddatblygu a blaenoriaethu Cynllun Gweithredu blynyddol gan y Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy. Bydd hyn yn ein caniatáu i adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig o fewn y cymunedau ac ymwelwyr posib.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae amrediad o fesurau newydd wedi eu hadnabod i'n galluogi i fesur effaith yr economi ymweld ar nifer o feysydd. Mae'r mesuryddion drafft newydd yn cynnwys:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein cymunedau, iaith, Diwylliant a Threftadaeth

- Canran y trigolion sy'n fodlon ag effeithiau twristiaeth ar y gymuned yn gyffredinol a hunaniaeth y gyrchfan
- Nifer y busnesau newydd a ddatblygwyd / gwerth buddsoddiad sector preifat / cymunedol newydd mewn datblygiadau economi ymwelwyr
- Nifer yr ail gartrefi (yn unol â'r gyfradd dreth) a chwyddiant mewn prisiau tai
- Nifer yr ail gartrefi a fesul 100 o gartrefi
- Nifer yr eiddo hunan-ddarpar fesul 100 o gartrefi
- Nifer yr unigolion sy'n cefnogi diwylliant, gwarchodaeth, cadwraeth a rheolaeth yr ardal trwy 'gynllun llysgennad twristiaeth' Gwynedd / Eryri
- Ôl troed digidol cyrchfan - Data meta cyfryngau cymdeithasol / gwefan
- Incwm Blynnyddol a gynhyrchir o dwristiaeth (refeniw uniongyrchol ac anuniongyrchol)
- Nifer yr ymwelwyr bob mis & cyfartaledd fesul KM sgwâr & fesul 100 o'r boblogaeth leol
- Cyfanswm nifer yr ymwelwyr ac yn gymesur â sectorau e.e. iaith, Treftadaeth, Diwylliant, Cerdded, Llwybr Arfordirol, atyniadau, traeth
- Math o ymwelwyr / ardal (Proffil)
- Nifer y dyfarniadau a dderbyniwyd neu debyg? Cynllun Barod Amdanni, gwobrau lefel bwyd / Gradd seren / Baner Las ayb
- Safle - Math o weithgaredd hamdden a wneir gan ymwelwyr - Treftadaeth, Diwylliant, Safleoedd Awyr Agored
- Canran / nifer y twristiaid sy'n fodlon ar eu profiad cyffredinol yn y gyrchfan
- Canran / nifer yr ymwelwyr sy'n dychwelyd / dychwelyd (o fewn 5 mlynedd)
- Nifer y siaradwyr Cymraeg – Daearyddol

2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd

- Nifer yn ymweld / cymryd rhan mewn gweithgaredd amgylcheddol / tirwedd h.y. llwybr arfordirol, traeth, yr Wyddfa, llwybrau
- Lefel / defnydd / ansawdd dŵr (dŵr yfed ac afonydd).
- Lefel bioamrywiaeth (samplu rhai ardaloedd / rhywogaethau) ardaloedd morol a mewndirol
- Cofrestru cychod môr - cychod / sgïo jet
- Nifer y llwybrau trafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael (Misol)
- Nifer y pwyntiau gwefru ceir trydan
- Nifer y defnyddwyr parcio a theithio (Yr Wyddfa??)
- Lledaenu ymwelwyr i ardaloedd eraill o'r Sir er mwyn lleihau pwysau ar gymunedau poblogaidd a lledaenu'r buddion economaidd trwy drafndiaeth cyhoeddus ayb.

3. Mwy o fantais nac anfantais i gymunedau Gwynedd ac Eryri

- Canran y strydoedd sy'n lân
- Pwysau gwasanaethau brys – nifer y digwyddiadau a adroddwyd / sylw meddygol / galwadau allan h.y. RNLI, Ambiwylans, yr Heddlu
- Lefel amddifadedd cymunedol
- Cyfraniad cymharol twristiaeth i economi'r gyrchfan (% CMC)
- Gwariant dyddiol fesul twrist dros nos
- Gwariant dyddiol fesul ymwelydd undydd
- Niferoedd parcio yn erbyn / v capasiti
- Nifer y digwyddiadau traffig ffyrdd
- Nifer y toiledau cyhoeddus sydd ar agor / fesul 1000 o'r boblogaeth gyfan
- Nifer a gyflogir yn y diwydiant twristiaeth
- Cyflog cyfartalog o fewn y diwydiant twristiaeth
- Lefel boddhad y rhai a gyflogir o fewn y sector twristiaeth
- Lefel diweithdra cyffredinol / bwlch sgiliau
- Nifer o swyddi medrus a £25k+ CP o fewn y diwydiant twristiaeth
- Diddordeb a chanfyddiad pobl ifanc -18 o yrfa yn y diwydiant twristiaeth
- Hyd arhosiad twristiaid (nosweithiau) / ymweliadau dydd ar gyfartaledd
- Canran y dynion a merched a gyflogir yn y sector twristiaeth
- Lefel deiliadaeth y sectorau llety yn y dyfodol - gwasanaethol, hunanarlwyo, carafanau a gwersylla
- Lefel deiliadaeth y sectorau llety - gwasanaethol, hunanarlwyo, carafanau a gwersylla
- Contractau Cyflogaeth - Cyfartaledd nifer y misoedd a weithiwyd ac amser o'r flwyddyn
- Cyfartaledd oedran cyflogedig yn y diwydiant twristiaeth
- Nifer y cynhyrchwyr bwyd, diodydd, nwyddau lleol . Yn gysylltiedig â'r economi ymwelwyr.
- Nifer y busnesau twristiaeth sy'n defnyddio / gwerthu cynnyrch lleol
- Trosiant a gwariant blynyddol cyfartalog gan fusnesau twristiaeth ar wasanaethau o ffynonellau lleol
- Nifer y busnesau / mentrau twristiaeth (neu fusnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth) mewn perchnogaeth leol neu gymunedol

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Disgwylir y bydd y cael effaith sylweddol bositif ar rai grwpiau a charfannau. Trwy ddatblygu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy newydd bydd modd creu dull cynhwysol o reoli economi ymweld Gwynedd ac Eryri gyda phartneriaid busnes, cymunedol, iaith, amgylchedd a sgiliau. Bydd y Bartneriaeth yn gyfrifol am gytuno ar Gynllun Gweithredu a fydd yn ymateb i anghenion lleol.

Bwriedir ymgysylltu efo cynrychiolwyr ar ran y nodweddion gwarchoddedig er mwyn gweithredu prosiectau i ymateb i unrhyw anghenion gan y grwpiau hyn gan sicrhau effeithiau positif i gymaint o bobl â phosib.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'r polisi newydd yma er mwyn diogelu'r hyn sy'n arbennig am ein hardal ac yn cynnig ffordd newydd o gydweithio i'w diogelu ac i fesur unrhyw effaith positif neu negyddol arnynt fel ein bod yn medru ymateb fel yr angen.

O beidio gweithredu'r cynllun yn effeithiol ac yn gynhwysol, gallai bod effaith negyddol yn bosib. Bydd sefydlu'r Bartneriaeth newydd, monitro'r mesuryddion newydd a goruchwyllo gweithrediad y Cynllun Gweithredu Blynyddol yn hanfodol wrth leihau ac ymateb i unrhyw effeithiau negyddol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	


4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd Bwrdd Partneriaeth Gwynedd ac Eryri'n cyfarfod i drafod a mesur unrhyw effeithiau negyddol. Bydd y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth gan Brif weithredwyr y ddau gorff ac Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Parc.

Bydd Grŵp Gweithredu o swyddogion hefyd yn monitro gweithrediad ac yn asesu effaith unrhyw brosiectau neu ddatblygiadau ar sicrhau gwireddu ein egwyddorion.

Bydd y Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy'n cynnwys amrediad o bartneriaid traws-sectorol er mwyn cynnal trafodaeth agored, sicrhau perchnogaeth ac ymateb i unrhyw effeithiau negyddol.

Mae'r strwythur llywodraethu isod yn amlinellu'n dulliau liniaru:



4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Dim yn berthnasol

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd monitro parhaol o'r Cynllun gan Swyddogion yn y Grŵp Gweithredol ac hefyd o fewn y Bwrdd Partneriaeth a'r Bartneriaeth.
Disgwylir y bydd adolygiad ffurfiol o'r Cynllun a'i Gynllun Gweithredu yn flynyddol gan y Bartneriaeth Economi Ymweld er mwyn ymateb i flaenoriaethau newydd neu i fgythiadau.
Byddwn yn ail-ymweld â'r asesiad effaith yma hefyd o leiaf yn flynyddol ond yn fwy aml na hynny os oes materion yn codi o ymgysylltiadau neu waith arall.

Eitem 12

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	14 Chwefror 2023
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswllt:	Sioned E Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned Esyllt Rhys Jones, Rheolwr Rhaglenni Adfywio
Rhif Cyswllt:	32547 / 32513
Pwnc:	Cronfa Ffyniant Bro – Cynllun Llewyrch o'r Llechi

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Derbyn llythyr cynnig, am arian Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain, i weithredu cynllun Llewyrch o'r Llechi ar y cyd a phartneriaid o fewn y Dyffrynnoedd Llechi ;
- Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno ar y trefniadau cytundebol a gweithredu a'r pecyn ariannol cyflawn gyda partneriaid.

RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Cyflwynwyd tri cais sylweddol gan yr Adran Economi a Chymuned ac Adran Amgylchedd i Gronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth Prydain. Ni fu cais Bywiogi Bangor na chais Coridor Gwyrdd Arduddy yn llwyddiannus, ond bu cais Llewyrch o'r Llechi yn llwyddiannus. Gofynnir am yr hawl i dderbyn y cynnig gan Lywodraeth Prydain ag i ymgymryd a threfniadau i weithredu'r cynllun.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Ar 23 o Fawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Prydain fanylion am ail rownd Cronfa Ffyniant Bro. Mae'n un o becyn o gronfeydd sydd wedi eu lansio ganddynt yn sgil gadael Yr Undeb Ewropeaidd a mynediad at y Cronfeydd Strwythurol oedd ar gael fel Aelod Wladwriaethol.
- 1.2. Nod y gronfa yw buddsoddi mewn cynlluniau isadeiledd lleol, gweledol ac o ansawdd yn y meysydd trafniadaeth, adfywio a chanol trefi ynghyd a buddsoddiadau diwylliannol. Ceir pwyslais arbennig at ardaloedd ôl-ddiwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol.

- 1.3. Ni fu'r cais 'Glannau' a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd yn 2021 yn llwyddiannus. Un prif newid erbyn 2022 oedd fod Gwynedd wedi codi o gategori blaenoriaeth 3 i gategori blaenoriaeth 1. Roedd hyn i'w groesawu ac yn debygol o gryfhau ceisiadau Gwynedd.
- 1.4. Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet 19 Gorffennaf 2022 i gefnogi'r bwriad o dargedu Cronfa Ffyniant Bro ar gyfer cynlluniau Bywiogi Bangor, Llewyrch o'r Llechi, a Coridor Gwyrdd Ardudwy. Cyflwynwyd y 3 cais Awst 2022.

2. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 2.1. Bu i Lywodraeth Prydain 19 Ionawr 2023 gyhoeddi'r cynlluniau llwyddiannus ar gyfer ail rownd Cronfa Ffyniant Bro. O'r 3 cais, a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd, dim ond Llewyrch o'r Llechi a fu'n llwyddiannus. Derbyniwyd cadarnhad o fuddsoddiad o £18.8m i'w wario cyn diwedd Mawrth 2025. Cytunwyd yng nghyfarfod Cabinet 19 Gorffennaf 2022 y byddem yn cynnig manylion llawn pe byddai cynlluniau yn llwyddiannus.
- 2.2. Mae cynllun Llewyrch o'r Llechi yn becyn gwerth oddeutu £27M o gynlluniau ar draws dyffrynnoedd llechi Gwynedd sydd yn ymateb i'r thema **buddsoddi mewn diwylliant**. Mae'n adnabod cyfleon i uchafu ar y buddion i'r gymuned leol a'r economi yn sgil dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn ôl yn 2021. Mae'n gynllun sydd yn cynnig cyfleoedd a datblygiadau sydd yn cyfrannu tuag at adfywio y cymunedau hyn.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- **Hwb Dinorwig** – pecyn o gynlluniau i uwchraddio darpariaeth yr Amgueddfa Lechi, Parc Padarn a chysylltiadau efo'r chwareli yn ardal Llanberis;
- **Hwb Ogwen** – pecyn o gynlluniau i uwchraddio adeilad yng nghanol tref Bethesda i wella'r cynnig diwylliannol a threftadaeth ynghyd a gwella'r cysylltiadau rhwng canol y dref a phrif atyniadau;
- **Hwb Ffestiniog** - pecyn o gynlluniau i uwchraddio adeiladau yng nghanol tref Blaenau Ffestiniog i wella'r cynnig diwylliannol a threftadaeth ynghyd a gwella'r cysylltiadau rhwng canol y dref a phrif atyniadau;
- **Gwelliannau Amgylcheddol Canol Trefi a Chadwraeth Strwythurau Hanesyddol** – cynlluniau megis celf cyhoeddus, uwchraddio dodrefn stryd, arwyddo a dehongli, yn ogystal a gwaith cadwraeth i warchod strwythurau hanesyddol yn y dair ardal.

Mae Atodiad 1 ac Atodiad 2 yn cynnig gwybodaeth fanylach am y cynlluniau llawn.

- 2.3. Mae cynllun Llewyrch o'r Llechi yn un rhan o weledigaeth ehangach y dynodiad Safle Treftadaeth Byd, sef:

Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu priodweddau pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.

Mae'n raglen waith eang, o gydweithio gyda phartneriaid, busnesau, y trydydd sector a thrigolion, i sicrhau y budd mwyaf i holl gymunedau yr ardal yn sgil y dynodiad trwy nifer o weithgareddau ac ymyraethau.

- 2.4. Mae arian y cynllun Llewyrch o'r Llechi yn ymateb yn rhannol i'r blaenoriaethau sydd wedi cael eu adnabod yn y Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd, mae gwaith yn parhau i wireddu blaenoriaethau eraill trwy gyllidebau megis cyllid Trawsnewid Trefi, Cronfa Treftadaeth y Loteri a Cadw, a thrwy gynlluniau ehangach yn cynnwys y sector breifat, cyhoeddus a gwirfoddol trwy ein partneriaid.
- 2.5. Mae'r penderfyniad a geisir drwy'r adroddiad hwn yn galluogi swyddogion i symud ymlaen i dderbyn y cynnig ac i sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect manwl ar gyfer y cynlluniau unigol uchod.

Materion Cydraddoldeb

- 2.6. Bydd angen i bob cynllun sydd yn rhan o gynllun Llewyrch o'r Llechi sicrhau eu bod yn cydymffurfio a materion cydraddoldeb. Bydd asesiad llawn yn cael ei wneud ar gyfer pob cynllun wrth iddynt gael eu datblygu.
- 2.7. Pan fo partner trydydd parti yn gweithredu'r cynllun bydd yr angen i gydymffurfio a materion cydraddoldeb a'r angen am asesiad llawn yn rhan o'r cytundeb cyfreithiol efo'r partner.

Materion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 2.8. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn adnabod saith nod llesiant. Mae'n gosod uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r adroddiad hwn a'r gwaith yn gysylltiedig â chynllun Llewyrch o'r Llechi yn ymateb i'r Nodau Llesiant hyn:
- Cymru Lewyrchus - Yng Ngwynedd mae'r economi yn fregus a'r busnesau yn ein trefi ac o fewn y dyffrynnoedd llechi, yn benodol, yn cyfrannu yn sylweddol tuag at economi'r sir ynghyd a chynnig trawstoriad o gyfleoedd cyflogaeth. Mae'r cynllun yn cyfrannu yn bositif tuag at economi lewyrchus;
 - Cymru Iachach - mae thema iechyd a lles yn thema amlwg drwy'r cynllun yn enwedig y ddarpariaeth isadeiledd gwyrdd pwrpasol i wella iechyd a lles trigolion Gwynedd;
 - Cymru sy'n fwy cyfartal – mae'r cynllun Llewyrch o'r Llechi yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a darpariaethau i drawstoriad eang o'r boblogaeth, beth bynnag fo cefndir nag amgylchiadau'r unigolion;
 - Cymru o Gymunedau Cydlynus - mae cymunedau bywiog a ffyniannus yn cynnig amrediad o wasanaethau a gwasanaethau mewn amgylchedd braf a diogel. Mae hyn yn allweddol i ddyfodol cymunedau ac yn greiddiol i'r cynllun hwn;
 - Cymru a Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - mae cynllun Llewyrch o'r Llechi cyfrannu tuag at warchod ein diwylliant drwy ei phobl, atyniadau, a gwasanaethau ynghyd a'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg. Mae dynodiad Safle Treftadaeth Byd y Dyffrynnoedd Llechi a'r cynllun hwn yn rhoi statws a chydabyddiaeth i bwysigrwydd diwylliannol Gwynedd;
 - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd eang - mae cynlluniau teithiau llesol a hamdden sydd yn rhan amlwg o'r cynllun yn cefnogi'r agenda lleihau carbon.
 - Cymru Gydnerth - mae cymunedau Gwynedd yn chwarae rôl allweddol wrth sefydlu strwythurau a chyfleoedd sydd yn gallu wynebu ac ymateb i heriau economaidd a chymunedol i'r dyfodol. Mae'r cynllun Llewyrch o'r Llechi yn adlewyrchu partneriaeth gryf sydd yn cynnwys y sector gyhoeddus, fusnes a'r trydydd sector.

3. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 3.1. Bydd y gwaith o osod y trefniadau llywodraethu ac yna o weithredu y cynllun Llewyrch o'r Llechi. Bydd angen i'r cynllun llawn fod wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025.

4. BARN SWYDDOGION STATUDOL:

i. Y Swyddog Monitro:

Mae'r cynnig yma yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn yr ardaloedd dan sylw. Bydd ymuno yn y gytundeb grant gyda Llywodraeth y DU yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i weinyddu y grantiau sydd ar gael a hynny yn ddarostyngedig i'r amodau ariannu. Mae'n bwysig er cefnogi y gwaith yn effeithiol fod trefniadau cytundebau ariannu mewn lle o'r cychwyn fydd yn caniatáu proses effeithlon i gyflawni yr amcanion.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Mae'r adroddiad yn amlinellu'n glir y cyfleon sydd ar gael i rai ardaloedd o'r sir fel canlyniad i lwyddiant y cais yma ac rwyf yn fodlon fod yr amcangyfrifon ariannol yn realistig. Byddaf yn gweithio'n agos gyda swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned a gyda'r Swyddog Monitro i ddatblygu trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer y cynllun Llewyrch o'r Llechi fel bod modd gwarchod buddiannau'r Cyngor tra'n uchafu buddiannau'r cynllun.

CYNLLUN LLEWYRCH O'R LLECHI FFYNIANT BRO
LLEWYRCH O'R LLECHI LEVELLING UP PROJECT

w

ATODIAD 1 / APPENDIX 1 : MANYLION PROSIECT / PROJECT DETAILS

CYNLLUN LLEWYRCH O'R LLECHI / LLEWYRCH O'R LLECHI PROJECT

Hwb	Cynllun / Project	Crynodeb o'r cynllun / Summary of project	Corff Arweiniol / Lead Body	Cyfanswm Gwerth Prosiect / Total Project Value	Ymrwymiad Ffyniant Bro / Levelling Up Commitment	Ffynonellau Cydariannu posibl / Possible Match Funding Sources	Ymrwymiad Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council commitment
Hwb Dinrowig	Ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi / Redevelopment of the National Slate Museum	Gwaith cadwraeth ar y Gilfach Ddu, ailbwrpasu gofodau segur, creu gofod addysg ac arddangos ychwanegol / conservation work on the Gilfach Ddu, repurposing redundant spaces, create additional education and exhibition space.	Amgueddfa Cymru	£12,383,000	£6,200,000	Llywodraeth Cymru / Welsh Government	Dim / None
	Gwelliannau Parc Padarn / Parc Padarn Improvements	Gwaith uwchraddio a chreu llwybrau, ailbwrpasu adeiladau hanesyddol, creu gofod gwirfoddolwyr, gwella isadeiledd ymwelwyr / upgrading and creating footpaths, repurposing historic buildings, create volunteer space, improve visitor infrastructure	Cyngor Gwynedd	£2,470,918	£1,894,918	Llywodraeth Cymru (Croeso Cymru) / Cyngor Gwynedd / Welsh Government (Visit Wales) / Cyngor Gwynedd	Cyllideb Cyngor Gwynedd eisoes wedi ei neilltuo o gyllideb adrannol / Cyngor Gwynedd funding already secured through departmental funding
Hwb Ogwen	Yr Hen Bost	Galluogi'r ailddatbygiad y cyn adeilad Spar ym Methesda fel canfan dreftadaeth, bwyty, gofod creadigol, unedau busnes a chreu hwb teithio gwyrdd i'r Dyffryn / The redevelopment of the former Spar store at Bethesda as a heritage centre, a restaurant, creative space, business units and creating a green transport hub for the Dyffryn.	Partneriaeth Ogwen	£1,603,000	£1,442,700	Partneriaeth Ogwen (cyllid eu hunain neu trwy sicrhau grantiau) / Partneriaeth Ogwen (own funds or potentially securing grants)	Dim / None
	Llwybr cysylltiol Bethesda a Chwarel Penrhyn / Bethesda to Penrhyn Quarry connecting path	Creu llwybr cerdded a beicio newydd i gysylltu Bethesda ag atyniadau Chwarel Penrhyn / Create a new cycling and walking route to connect Bethesda with the attractions at Penrhyn Quarry	Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council	£1,707,568	£1,497,568	Llywodraeth Cymru / Welsh Government	Dim / None
	Neuadd Ogwen	Gwaith gwrth-sŵn (soundproofing) i nenfwd y Neuadd er mwyn cwblhau o ailddatblygu'r adeilad / Soundproofing work to the roof of the Hall in order to complete the redevelopment of the building.	Cwmni Tabernacl	£342,435	£308,192	Cwmni Tabernacl (cyllid eu hunain neu trwy sicrhau grantiau) / Cwmni Tabernacl (own funds or potentially securing grants)	Dim / None
Hwb Ffestiniog	Gwelliannau Canol y Dref	Dod a dau siop canol tref gwag (22 a 23 Church Street) mewn cyflwr gwael yn ol i ddefnydd gan greu unedau busnes, fflatiau a gofod creadigol cymunedol. Sicrhau gwarchod cymeriad hanesyddol y siopau. Cynllun i greu canolfan gymunedol gyda ffocws penodol ar ieuenctid yr ardal, yn ogystal a gofod treftadaeth yn Aelwyd yr Urdd / Bringing two dilapidated, empty shops back into use to create business units, flats and a community creative space. Ensure protection of the buildings historic character. Project to create a community centre with a specific focus on young people, along with a heritage space at the Aelwyd yr Urdd.	Antur Stiniog	£1,250,608	£1,125,547	Antur Stiniog (cyllid eu hunain neu trwy sicrhau grantiau) / Antur Stiniog (own funds or potentially securing grants)	Dim / None

Tud. 264

	Llwybr cysylltiol Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd/ <i>Blaenau Ffestiniog to Llechwedd Quarry connecting path</i>	Creu llwybr cerdded a beicio newydd i gysylltu Blaenau Ffestiniog ag atyniadau Chwarel Llechwedd/ <i>Create a new cycling and walking route to connect Blaenau Ffestiniog with the attractions at Llechwedd Quarry</i>	Llywodraeth Cymru / <i>Welsh Government</i>	£2,850,000	£2,550,000	Llywodraeth Cymru / <i>Welsh Government</i>	Dim / <i>None</i>
Gwelliannau Amgylcheddol Canol Trefi a Chadwraeth Strwythurau Hanesyddol a ffioedd rheoli / <i>Town Centre Environmental Improvements and Conservation of Historic Structures and management fees</i>	Angen adnabod cynlluniau unigol / <i>Will identify individual projects</i>	Gwelliannau yn y dair tref(Bethesda, Blaenau Ffestiniog a Llanberis) yn cynnwys celf cyhoeddus, gwaith dehongli, arwyddo, uwchraddio dodrefn stryd. Gwaith cadwraeth i strwythurau hanesyddol yn y dair ardal, yn unol a blaenoriaethau Grwp Cadwraeth STYB/ <i>Improvements in the three town (Bethesda, Blaenau Ffestiniog and Llanberis) including public art, interpretation work, signage, upgrading street furniture. Conservation work to historic structures in the three areas, in line with the priorities of the WHS Conservation Group</i>	Cyngor Gwynedd	£2,865,000	£2,664,999	Cronfa Treftadaeth y Loteri / <i>National Heritage Lottery Fund</i>	Cyngor Gwynedd i gyflwyno cais cyfnod cyflawni i Gronfa Treftadaeth y Loteri / <i>Cyngor Gwynedd to submit an application for the implementation phase to the National Heritage Lottery Fund</i>
Cyllideb Risg / <i>Risk Budget</i>	Cyllideb risg / <i>Risk allowance</i>	Cyllideb wrth gefn i ymateb i unrhyw risgiau / <i>Contingency budget to respond to any risks</i>	Cyngor Gwynedd	£1,273,627	£1,146,265		

£26,746,156

£18,830,189



SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

Llewyrch o'r Llechi

Ffyniant i'r dyfodol o'n
gorffennol diwydiannol

Wedi'i lleoli yng nghornel gogledd orllewin Cymru - mae Gwynedd yn adnabyddus oherwydd ei thirweddau dramatig, diwylliant unigryw, hanes lliwgar a threftadaeth cyfoethog. Mae llechi wedi diffinio ein cymunedau am ganrifoedd. **Erbyn hyn mae'r ardal wedi ei chydabod gyda dynodiad pwysig UNESCO fel Safle Treftadaeth y Byd (STyB)**, ac mae'r ardal yn barod i gymryd ei lle priodol fel cyrchfan byd-eang a chyflawni ei photensial i'w thrigolion.

Tod. 267



"Rwy'n credu fydd y Byd eisiau gwybod mwy am Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, ac y byddant yn ei werthfawrogi a mwynhau ei arwyddocâd"

Yr Arglwydd
Dafydd Wigley
(Cadeirydd Bwrdd
Partneriaeth
STyB)

Mae Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn ganolog i'r cais yma. Ein nod yw elwa ar y statws penodol hwn, gan ddod ag ef yn fyw drwy ein cynlluniau uchelgeisiol i greu Hybiau Llechi.

Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y cais a'r bwriad yw uchafu potensial y dynodiad STyB a'r buddion y gall hwn ddod i'n cymunedau. Bwriedir cynnal tri phrosiect sy'n ategu ei gilydd i ddod â bywyd newydd i'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol sydd wedi gweld dirwyd economaidd ers difodiant y diwydiant chwarelyddol. Mae llechi Cymru yn enwog am do'i'r Chwyldro Diwydiannol - bu cenedlaethau o deuluoedd yn gweithio yn chwareli Gwynedd ac ni ddylid tanbriso eu heffaith ar ein hanes a'n diwylliant. Heddiw, drwy'r prosiect hwn rydym yn ceisio sicrhau bod yr ardal yn gallu elwa ar yr hanes cyfoethog yma er budd y boblogaeth leol a phrofiad ymwelwyr.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth y DU, llwyddwyd i dderbyn dynodiad STyB Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn 2021. Mae wedi ei enwi fel blaenoriaeth yn rhaglen Llywodraeth Cymru 2021-2026, ac mae wedi bod yn flaenoriaeth strategol i Gyngor Gwynedd am y 12 mlynedd diwethaf.

Caiff yr ardal ei chydabod yn fyd-eang am ei harwyddocâd hanesyddol a diwylliannol. Er hynny, mae twf economaidd a ffyniant wedi cael eu llesteirio am sawl rheswm, yn cynnwys diffyg dull cydlynol i adfywio ac adnewyddu ar draws cymunedau sydd wedi wynebu heriau cyffelyb. Arweiniodd hyn at drafferthion cymdeithasol a diffyg hyder sydd yn ei dro wedi arwain at broblemau llesiant. Nod ein prosiect yw newid hyn fel ein bod yn gallu cwrdd a rhagori ar ddisgwyliadau y rhai sy'n byw yma yn ogystal ag ymwelwyr i'r ardal.

Ein Uchelgais

Bwriad y prosiect hwn yw cysylltu cymunedau drwy ddiwylliant sy'n cael ei rannu, gwella llesiant y boblogaeth leol yn ogystal â chreu cynnig o safon byd-eang i ymwelwyr mewn tri Hwb Llechi ffisegol. Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn cyd-greu profiadau fydd yn canolbwyntio ar ein cryfderau diwylliannol ac yn dod â'n treftadaeth yn fyw.

Trwy ddehongli arloesol ac ymgysylltiol, byddwn yn creu stori unedig fydd yn helpu pobl i ddeall a gwerthfawrogi ein treftadaeth unigryw gan gyfrannu at naratif ein tirwedd byw yn y dyfodol. Mae hwb dehongli ar-lein wedi ei greu ac rydym yn awr yn barod i weithredu cam nesaf ein cynlluniau uchelgeisiol.

Mae rhannu gwerthoedd Safle Treftadaeth y Byd yn ganolog i'n huchelgais, er mwyn ei ddefnyddio fel sbardun i sicrhau budd, cyfoeth a dealltwriaeth yn cael eu rhannu ar draws y Dirwedd Llechi a thu hwnt. Byddwn yn creu gwell dealltwriaeth o'r dynodiad, y dirwedd, y diwylliant, ei hanes a'i phobl drwy symud pobl o safleoedd traddodiadol o ddiddordeb i ardaloedd sy'n llai adnabyddus. Bydd hyn yn annog ymweliadau thematig ac yn annog pobl - pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd - i ddarganfod mwy am ein cymunedau llechi.

Ein gweledigaeth

Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu priodweddau pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.

Drwy gyflawni'r uchelgais yma, ein nod yw:

- sicrhau bod hanes STyB yn cael ei rannu a'i werthfawrogi
- sicrhau bod ein cymunedau llechi yn parhau yn fannau arloesol a llewyrchus i bobl i fyw, gweithio ac ymweld
- cynyddu gwerth economi STyB i gwrdd â'r budd posib
- diogelu ein treftadaeth cyfoethog ac unigryw i bawb
- sicrhau bod STyB yn sbardun i ddiogelu, hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

Yr Ardal

1. Chwarel Lechi **Penrhyn**, tref **Bethesda**, a Dyffryn Ogwen i **Borth Penrhyn**
2. Tirwedd Mynyddig Chwarel Lechi **Dinorwig**
3. Tirwedd Chwareli Llechi Dyffryn **Nantlle**
4. Chwareli Llechi **Gorseddau a Prince of Wales**, Rheilffyrdd a Melin
5. **Ffestiniog**: ei Cheudyllau a Chwareli Llechi, 'prifddinas llechi' a'r rheilffordd i Borthmadog
6. Chwarel Lechi **Bryneglwys**, pentref **Abergynolwyn** a Rheilffordd **Talyllyn**

CAM 1:

1 2 5

CAM 2:


3 4 6



Trosolwg...

HWB DINORWIG

Tud. 269



Llyn Padarn

LLANBERIS

CHWAREL
DINORWIG

Llyn Peris

1. Adeiladau hanesyddol Parc Padarn
2. Gwella cysylltedd rhwng Llanberis a Chwarel Dinorwig
3. Yr Amgueddfa Lechi

Nodweddion allweddol

- Ail-ddatblygiad yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol fel y prif safle dehongli i Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru - yn cynnwys manau arddangos ac addysgu newydd i ddod â stori Llechi Cymru yn fyw.
- Ail-bwrpasu adeiladau hanesyddol Parc Padarn i wella cyfleusterau i bobl leol ac ymwelwyr - bydd lle ar gyfer dehongli ac i wirfoddolwyr yn cael ei gynnwys yn ogystal ag adnoddau cyhoeddus eraill fel pwyntiau gwefru EV/cyfleusterau golchi beics/cyfleusterau hygyrch
- Gwella cysylltiadau rhwng Parc Padarn a Chwarel Dinorwig i wella mynediad i'r dirwedd llechi a'i nodweddion hanesyddol.

Partneriaid cyflawni

- Amgueddfa Cymru
- Cyngor Gwynedd

Effeithiau positif posib


- Gwell cyfleusterau hamdden a mwynderau
- Datblygu adnoddau addysgol a chymunedol
- Cyfleoedd sector adeiladu
- Cynnydd yng ngwariant ymwelwyr

Arwyddocâd Lleol

▶ **Cartref yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol a man geni Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru**

▶ **Cartref i Ysbyty Chwarel Dinorwig - ymysg y lleoliadau cyntaf yn y DU i gael peiriant pelydr-x**

▶ **Dyma gartref y ceudwll mwyaf yn Ewrop a saerniwyd gan ddyn sydd bellach yn orsaf bŵer trydan-hydro**




Trosolwg...

HWB OGWEN

Tud. 271

1. Asedau diwylliannol a threftadaeth ym mherchnogaeth cymunedol
2. Gwella cysylltedd rhwng Bethesda a Chwarel Penrhyn



Nodweddion allweddol

- Uwchraddio asedau sy'n berchen i'r gymuned ym Methesda i wella'r cynnig diwylliannol a threftadaeth.
- Gwella cysylltedd rhwng Bethesda a Chwarel y Penrhyn i gael gwell mynediad i'r dirwedd llechi a'i nodweddion hanesyddol a chyfoes.
- Ail-bwrpasu eiddo segur ar y stryd fawr i greu man canolog newydd i bobl leol ac ymwelwyr - gyda threftadaeth a diwylliant yn greiddiol iddo.

Effeithiau positif posib

- Creu cyfleusterau hamdden a mwynderau
- Datblygu adnoddau addysgol a chymunedol
- Cyfleoedd sector adeiladu
- Isadeiledd llesiant gwell
- Cynnydd yng ngwariant ymwelwyr

Arwyddocâd Lleol

▶ Safle be oedd ar un amser chwarel lechi mwyaf y byd

▶ Mae Chwarel y Penrhyn yn parhau i fod yn chwarel weithredol sy'n allforio llechi ledled y byd

▶ Dyma gartref i hwb antur ac i'r weiren wib hiraf a chyflymaf yn y byd

▶ Mae hefyd yn ardal sy'n adnabyddus am ei chysylltiadau diwylliannol ac artistig ac yn gartref i sawl grŵp/unigolion cerddorol enwog.



Partneriaid cyflawni

- Partneriaeth Ogwen
- Zip World
- Breedon / Welsh Slate
- Cyngor Gwynedd
- Trafnidiaeth Cymru

Trosolwg...

HWB FFESTINIOG

Tud. 273

CHWAREL
LLECHWEDD

2

2

1

2

1

BLAENAU
FFESTINIOG

1. Asedau diwylliannol a threftadaeth ym mherchnogaeth cymunedol

2. Gwella cysylltedd rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd



Nodweddion allweddol

- Uwchraddio asedau sy'n berchen i'r gymuned ym Mlaenau Ffestiniog i wella'r cynnig diwylliannol a threftadaeth
- Ail-bwrpasu eiddo segur ar y stryd fawr i adfer cymeriad hanesyddol - creu lle i weithgareddau economaidd, diwylliannol a chymdeithasol gyda threftadaeth a diwylliant yn greiddiol iddo.
- Gwella cysylltiadau rhwng Blaenau Ffestiniog a Chwarel Llechwedd i wella mynediad i'r dirwedd llechi a'i nodweddion hanesyddol a chyfoes.

Tud. 274

Partneriaid cyflawni

- Antur Stiniog / Cwmni Bro Ffestiniog
- Zip World
- JW Greaves Ltd
- Cyngor Gwynedd
- Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Effeithiau positif posib

- Creu cyfleusterau hamdden a mwynderau
- Datblygu adnoddau addysgol a chymunedol
- Cyfleoedd sector adeiladu
- Isadeiledd llesiant gwell
- Gwell gyfleoedd i bobl ifanc
- Cynnydd yng ngwariant ymwelwyr


Arwyddocâd Lleol

► Dinas Llechi Fictorianaidd a adeiladwyd yn bwrpasol a'r dref gyntaf yn y DU i gael goleuadau stryd efo pwêr hydro

► Cartref i Reilffordd Ffestiniog oedd yn rhagflaenydd i STyB Rheilffordd Darjeeling Himalayan

► Mae Llechwedd wedi croesawu ymwelwyr treftadaeth ers 50 mlynedd ac mae yn parhau i fod yn chwarel weithredol

► Erbyn hyn mae rhan o'r chwarel yn hwb antur ac yn gartref i gwrs golff tanddaearol cyntaf y byd



Buddion cyffredinol

Bydd gwireddu'r prosiect Llechi yn creu asedau pwysig fydd yn eiddo i'r cymunedau drwy ail-bwrpasu adeiladau segur hanesyddol. Bydd cysylltiadau ffisegol rhwng y chwareli a'r cymunedau yn cael eu cryfhau i ddarparu gwaith dehongli o'r radd flaenaf a chanolfannau diwylliannol - gan wella sgiliau, addysg ac adnoddau busnes ac isadeiledd.

Tud. 275

Mae'r tystiolaeth yn dangos yn glir fod y dynodiad STyB yn gyfle sylweddol i gyflawni twf economaidd mewn sector pwysig, i wreiddio Gwynedd ymhellach fel cyrchfan ymwelwyr rhyngwladol allweddol, ac i ddenu buddion all gynorthwyo i fynd i'r afael a rhai o broblemau gymdeithasol-economaidd dwysaf yng Ngwynedd"

Tim Ymchwil Economaidd TBR a Rebanks Consulting
(Asesiad o effaith economaidd presennol a phosib treftadaeth ar ran Cyngor Gwynedd)

Crynodeb o'r buddion ehangach

- ▶ **Buddion diwylliannol:** gwaith dehongli rhyngweithiol ac o ansawdd uchel sy'n gyson ar draws yr holl safleoedd. Adfer cysylltiadau hanesyddol rhwng y cymunedau a'r chwareli
- ▶ **Buddion addysgol:** gofodau addysgol newydd ffurfiol ac anffurfiol ar draws yr holl hybiau i hwyluso mynediad a dealltwriaeth
- ▶ **Cydluniant cymunedol:** drwy well mynediad a gwell cysylltedd rhwng lleoedd bydd safleoedd yn fwy deniadol a hygyrch i gynulleidfa ehangach
- ▶ **Gwell iechyd meddwl a llesiant:** cynnydd yn y lefelau o weithgareddau corfforol i gael gwell deilliannau iechyd a llesiant drwy deithio gwyrdd a llwybrau mwy diogel
- ▶ **Mwy o ymwybyddiaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol a thirweddau byw STyB:** gwell synnwyr o le a balchder ymysg trigolion a chymunedau
- ▶ **Cymunedau bywiog:** gwella golwg ein canolfannau hanesyddol ac adeiladau a ail-bwrpaswyd i greu canolfannau trefi a phentrefi ffyniannus
- ▶ **Cyfleoedd economaidd:** dosbarthiad mwy cytbwys o wariant gan ymwelwyr ar draws gwahanol gymunedau a naill ochr i'r tymhorau ymwelwyr


Gwireddu'r uchelgais

Mae'r prosiect yma yn troi'r hen ddywediad 'llechen lân' ar ei ben gan nad yw yn ymwneud â dechrau efo dalen lân, ei nod yw dathlu a dod â'r gorffennol yn fyw gan ei wneud yn berthnasol i drigolion ac ymwelwyr heddiw. Llechi oedd wrth galon y cymunedau yma am ganrifoedd - yn siapio cymunedau yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

Trwy'r STyB a'r arian Ffyniant Bro rydym yn benderfynol o sicrhau y gallant unwaith eto fod yn falch o'r dreftadaeth yma a'u cyfraniad i'r byd modern drwy'r deunydd naturiol hynod yma yr ydym yn ei gymryd yn ganiataol.

Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu cyfres o ymyriadau isadeiledd canol tref ar thema llechi drwy'r prosiect i wella apêl ein cymunedau. Bydd y gwaith yma'n cynnwys gwella dodrefn stryd, gosod celf cyhoeddus, dehongli ac arwyddo. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r prosiectau hwb a amlinellwyd yn y cais yma gan fynegi ansawdd uchel a pha mor unigryw yw Safle Treftadaeth y Byd drwy ein gofodau cymunedol.

Er mwyn cyflawni hyn byddwn angen adnoddau ychwanegol - bydd arian Ffyniant Bro yn ein helpu i gyflawni ein huchelgais a darparu prosiect fydd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein trigolion a chenedlaethau'r dyfodol.



Am fwy o wybodaeth

#llechi
#walesslate



WWW.LLECHI.CYMRU
llechi@gwynedd.llyw.cymru



SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE



CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 14 Chwefror 2023

Aelod Cabinet: Cyngorydd Dyfrig Siencyn a Cyngorydd Nia Jeffreys

Swyddog Cyswllt: Sioned Williams

Rhif Cyswllt: 01286 679547

Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELODAU CABINET ECONOMI A CHYMUNED

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau ein cyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr ydym yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelodau Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)

Prosiect 1: Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

2.1 Mae swyddogion ac Aelodau yn parhau i gyfrannu'n sylweddol i waith Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn sicrhau fod deilliannau yn cael eu cyflawni i Wynedd. Gweler **Atodiad 1** sy'n cynnwys mwy o fanylion am y cynnydd ar y gwahanol brosiectau twf.

2.2 Ers mis Hydref, mae'r cynnydd sylweddol mewn cost cynlluniau wedi effeithio ar rhai o'r cynlluniau, gyda pob prosiect yn gorfod adolygu ac addasu cyn symud ymlaen gyda'u cynlluniau manwl. Gwelwyd cynnydd da yn Cynllun Parc Bryn Cegin Bangor gyda Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei gytuno ar gyfer datblygu'r safle.

2.3 Ond mae 3 cynllun bellach, sef datblygiad safle Bodelwyddan, datblygiad Llysfasi a Canolfan Egni Prifysgol Bangor wedi cadarnhau na fyddent yn symud ymlaen fel prosiectau Cais Twf. Golygai hyn fod £30miliwn o'r gronfa heb ei glustnodi. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cytuno ar drefniadau i adnabod prosiectau trawsnewidiol newydd fydd yn cyfrannu i'r targedau heriol sy'n

rhan o'r Cais ar gyfer creu swyddi newydd yn y rhanbarth a denu buddsoddiad gan y sector breifat.

Prosiect 2: Creu Swyddi Gwerth Uchel

- 2.4 Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o weithgaredd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer creu gwaith sy'n talu'n dda a pharatoi disgyblion ysgolion Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.
- 2.5 Mae'r cynllun STEM Gogledd, sydd yn paratoi ein pobl ifanc i fanteisio ar swyddi mewn meysydd gwyddonol, technolegol a pheirianeg wedi sicrhau estyniad i'w gyfnod gweithredu hyd at ganol 2023. Ymhlith yr uchafbwyntiau diweddar, mae ymweliadau i Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd wedi eu cynnal i ddisgyblion ysgolion Meirionnydd i dynnu sylw at y cyfleon gwaith sydd ar gael yno.
- 2.6 Mae'r gwaith o ddiogelu a chreu swyddi newydd ar safle Trawsfynydd a Llanbedr hefyd wedi parhau. Rhaid nodi siom na fu ein cais i Lywodraeth y DG ar gyfer gwella'r mynediad i faes awyr Llanbedr yn llwyddiannus a byddwn yn parhau i drafod gyda'r ddau Lywodraeth i gytuno ar ffordd ymlaen.
- 2.7 Mae'r prosiect wedi llwyddo i sicrhau £450,000 o grant i gefnogi busnesau lleol i adfer, i gefnogi trigolion i waith ac i baratoi'r ffordd ar gyfer sicrhau fod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa o fuddsoddiadau arfaethedig yn Nhrawsfynydd a Llanbedr
- 2.8 Mae adnoddau'r tîm prosiect yma hefyd yn parhau i gael ei gyfeirio yn rhannol at gefnogi ymdrechion i sefydlu cyfundrefn a chynigion ar gyfer buddsoddiad Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG (yr UK Shared Prosperity Fund) ar gyfer Gwynedd a Gogledd Cymru. Bydd y gwaith yn arwain at fuddsoddiad sylweddol yng Ngwynedd, ond rhaid nodi yn y tymor byr fod gwaith sylweddol i'w wneud i sefydlu trefniadau llywodraethu, rheoli a gweinyddu.

Prosiect 3: Arloesi Gwynedd Wledig

- 2.9 Mae'r rhaglen yn gweithio i gryfhau seiliau'r economi wledig drwy ystod o ymyraethau yn cynnwys cefnogi datblygu isadeiledd digidol y sir, helpu busnesau gwledig i sefydlu a thyfu a chefnogi mwy o arloesedd yng nghefn gwlad Gwynedd.
- 2.10 Ar 10 Hydref 2022, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru y bydd £11 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer ail wedd ARFOR hyd at ddiwedd Mawrth 2025 (gellir darllen y cyhoeddiad [yma](#)). Bydd y rhaglen yn parhau i weithredu ar draws Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr, er mwyn cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Bydd y rhaglen yn gwireddu pum ffrwd gwaith i helpu i gyflawni'r nod a gellir darllen mwy o fanylion [yma](#).
- 2.11 Mae'r cynllun [Platfform Digidol](#) yn mynd o nerth i nerth, gyda 66 o fusnesau lleol eisoes wedi cychwyn elwa o'r cynllun a datblygu eu defnydd o dechnoleg drwy fynychu sesiynau hyfforddiant arbenigol, a derbyn cefnogaeth mentoriaid digidol i ddatblygu eu busnes.
- 2.12 Mae'r tîm prosiect yn parhau gyda'u hymdrechion i ddenu £1.7M gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu'r economi cylchol yng Ngwynedd, fydd yn dod a manteision economaidd ac amgylcheddol i'r sir. Os yn llwyddo bydd y ceisiadau yn sicrhau buddsoddiad ar gyfer pecyn o

weithgareddau, gan gynnwys Hwb Dadgarboneiddio Adra Cyf. ym Mhenygroes a chefnogaeth bellach i'r rhwydwaith o ofod gwneud - dan y faner Ffiws - sydd wedi eu sefydlu ledled Gwynedd i gynyddu mynediad trigolion a busnesau i offer.

- 2.13 Bydd y Rhaglen Ewropeaidd LEADER sydd yn cyllido Arloesi Gwynedd Wledig yn dod i ben yn Mehefin 2023. Mae'r Adran yn gweithio'n agos gyda Menter Môn sydd yn gweinyddu LEADER yng Ngwynedd i ymchwilio i gyfleoedd i barhau'r gwaith drwy law ffynonellau megis Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Mae gwybodaeth am ystod ac effaith gwaith Arloesi Gwynedd Wledig i'w weld [yma](#).

Prosiect 4: Hyrwyddo Canol Trefi

- 2.14 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer targedu cronfeydd rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gweithredu amrediad o brosiectau adfywio canol trefi. Yn sgil newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae gofyn gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cynlluniau canol tref ar gyfer pob tref. Mae'r ffocws y misoedd diwethaf wedi bod ar baratoi briffiau, sicrhau cyllideb a dilyn y prosesau caffael ar gyfer comisiynu Cynlluniau Canol Trefi ar gyfer Bangor, Caernarfon, Bala, Pwllheli a Porthmadog. Eisoes sicrhawyd cyllideb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Bangor, Caernarfon ac Y Bala. Rhagwelir y bydd cyfle i gyflwyno ceisiadau ar gyfer trefi eraill yn ystod 2023/24.
- 2.15 Cyflwynodd Cyngor Gwynedd geisiadau ariannol ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro (Levelling Up Fund) Llywodraeth DU. Datblygwyd a chyflwynwyd cais ar gyfer canol dinas Bangor, yn ymgorffori datblygiadau megis Canolfan Iechyd a Lles, Gwelliannau Glannau Bae Hirael a chysylltiadau gwyrdd, a datblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru (Gwedd 1). Derbyniwyd cadarnhad 19 Ionawr na fu'r cais, oedd yn cynnwys buddsoddiad o tua £40m, yn llwyddiannus. Bydd yn ofynnol cydweithio gyda'r holl bartneriaid i adnabod posibiliadau amgen i weithredu'r cynlluniau.
- 2.16 Penodwyd Rheolwr Adfywio (Rhaglen Adfywio Bangor) fis Tachwedd 2022. Bydd y rôl yn cydlynu a chefnogi ymdrechion adfywio ym Mangor gan ganolbwyntio ar gynlluniau yng Nghanol y Ddinas a'r Stryd Fawr yn benodol.
- 2.17 Mae Grŵp Eiddo Gwag Traws-Adrannol wedi ei sefydlu, sy'n dwyn ynghyd gwahanol wasanaethau sydd yn delio gyda eiddo gwag. Mae Cynllun Gweithredu wedi ei baratoi, ynghyd â rhestr blaenoriaeth eiddo gwag. Mae'r gwaith yn parhau i adnabod eiddo gwag o fewn y Sir ac adnabod sbectrwm o ymyraethau gweithredol, sydd yn cynnwys gwybodaeth a chyngor, darparu gwybodaeth technegol, cefnogaeth ariannol (grantiau a benthyciadau), bygythiad camau gorfodaeth, adennill dyledion ac achosion gorfodaeth ffurfiol, a allai fod yn addas fel datrysiad i wella edrychiad neu i ddod a'r eiddo yn ôl i ddefnydd.

Prosiect 5: Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith

- 2.18 Bellach mae dros 18 mis wedi mynd heibio ers i Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid sicrhau dynodiad Safle Treftadaeth Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Y flaenoriaeth yn awr i'r Cyngor a'i bartneriaid yw sicrhau'r buddion mwyaf i gymunedau a busnesau a rheolaeth gynhwysol o'r Safle Treftadaeth Byd. Dros y misoedd diwethaf mae strwythur gweithredu newydd wedi ei gyttuno a'i roi ar waith fel bod pob partner, cymuned a budd-ddeiliaid ehangach yn cyfrannu at weithredu a datblygu ein Safle. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol cyntaf y safle ym Mis Hydref, ac mae [adroddiad blynyddol](#) bellach wedi ei chyhoeddi ar wefan Llechi Cymru.



- 2.19 Fel dilyniant i lwyddiant prosiect LleCHI, mae Gronfa Loteri Treftadaeth Genedlaethol wedi cymeradwyo cais gwerth £128,000 ar gyfer cyfnod datblygu cynllun newydd. Mae Swyddog Prosiect wedi ei phenodi i'r swydd ers fis Rhagfyr, a gwaith yn mynd rhagddi i lunio blaenoriaethau y cyfnod datblygu a chreu cysylltiadau gyda partneriaid a rhanddeiliaid. Fe fydd y cyfnod datblygu yn arwain at gyfle i gyflwyno cais am dros £1m i Gronfa Loteri Treftadaeth Genedlaethol ar gyfer cynllun i ddatblygu perchnogaeth cymunedau o'u treftadaeth, hyrwyddo balchder a diwylliant ein broydd llechi a dehongli ein treftadaeth i bawb.
- 2.20 Llwyddodd y Cyngor i sicrhau £150,000 o gyllid trwy Cadw, Llywodraeth Cymru i weithredu camau cyntaf ein Strategaeth Ddehongli. Mae cyfres o deithlenni treftadaeth yn cael eu datblygu, yn ogystal a chynllun dehongli sylweddol ar draw prif safleoedd llechi yr ardal. Rydym hefyd wedi dosbarthu placiau llechen *'yn falch o fod yn rhan o'r Safle Treftadaeth y Byd'* i brif bartneriaid y safle, a sticeri *'yn falch o gefnogi'r Safle Treftadaeth y Byd'* i fusnesau'r ardal.
- 2.21 Derbyniwyd dyfarniad ffafriol gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain ar 19 o Ionawr. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar 3 ardal o'r Safle – Bethesda, Dinorwig a Blaenau Ffestiniog a bydd y cynllun yn gwella cysylltiadau rhwng y cymunedau a'r chwareli, gwella dehongli a pherchnogaeth ac yn arwain at welliannau trefol. Gwerth y cynllun yw £26m, gyda £18.8m o grant yn dod trwy law Llywodraeth Prydain. Bydd manylion llawn y cynllun yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor gyda'r bwriad o lunio gweithdrefnau llywodraethu y cynllun yn dilyn hyn.
- 2.22 Mae UNESCO yn cynnal adolygiad cyfnodol o bob Safle Treftadaeth y Byd yn ei dro, eleni, mae'r cylch adolygu yn disgyn ar safleoedd Ewrop a Gogledd America sydd yn golygu fod hi'n angenrheidiol i ni gyflwyno holiadur manwl am weithgarwch y safle i'r UK National Commission erbyn diwedd Mis Mawrth, ac yna i UNESCO erbyn diwedd Mis Mai 2023.

Prosiect 6: Twristiaeth – Llunio Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy

- 2.23 Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddi ers blynnyddoedd bellach i sefydlu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy i Wynedd ac Eryri. Rydym wedi craffu arfer da o ardaloedd eraill o Ewrop ac yn rhyngwladol ar eu Cynlluniau Economi Ymweld Cynaliadwy gan gynnwys sut mae mesur effaith. Cawsom hefyd arweiniad gan arbenigwyr rhyngwladol mewn twristiaeth cynaliadwy.

Yn dilyn nifer fawr o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, cynghorwyr, aelodau lleol, busnesau a chymunedau; fe gyflawnwyd y canlynol:

- Cyrraedd dros 250 o gynrychiolwyr
- Ysgogi dros 1,500 o sylwadau gan fynychwyr
- Ymgysylltu efo 14 ardal o Wynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri
- Cyrraedd dros 100 o sefydliadau cyhoeddus, cyrff neu fusnesau unigol
- Dros 4,490 wedi derbyn gwybodaeth a gwahoddiad i gyfrannu yn y digwyddiadau trwy Fwletin Busnes Cyngor Gwynedd

- 2.24 Bellach mae strwythur gweithredu wedi ei ffurfio rhwng y Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn datblygu a gweithredu'r Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Partneriaeth a Grŵp Gweithredu. Sefydlwyd hefyd Grŵp Tasg a Gorffen gyda rhanddeiliaid allweddol o'r sector twristiaeth, cymunedau Gwynedd a'r sector cyhoeddus ac addysg er mwyn derbyn sylwadau ar drywydd y Cynllun. Mae Cyngor Conwy hefyd yn mynychu ein cyfarfodydd. Bellach mae Cynllun Strategol, Cynllun Gweithredu a Mesuryddion Effaith drafft i gyd mewn lle.

- 2.25 Bwriedir cyflwyno'r holl ddogfennau i'r Cabinet am benderfyniad yn ystod eu cyfarfod ar 14 Chwefror 2023 er mwyn lansio'r Cynllun yn ffurfiol yn ystod y Gwanwyn 2023. Nid oes unrhyw ardal arall o Gymru'n datblygu Cynllun i'r un graddau ag sy'n digwydd yng Ngwynedd ac Eryri ac rydym yn hyderus y bydd ein Cynllun yn torri tir newydd ar gyfer cefnogi economi ymweld cynaliadwy. Un o'n prif dasgau cychwynol fydd sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri a fydd yn arwain ar weithredu'r Cynllun newydd trwy fabwysiadu Cynllun Gweithredu wedi' flaenoriaethu yn ogystal â mesuryddion cynhwysol a pherthnasol i fesur effaith yr economi ymweld ar Wynedd ac Eryri.

Prosiect 7: Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

- 2.26 Mae busnesau'r sir yn parhau i fod dan straen o ganlyniad i gynnydd yng nghostau, lleihad yng ngwariant cwsmeriaid a'r heriau o recriwtio a chynnal gweithlu yn parhau.
- 2.27 Rydym yn cynnal ein ffocws ar sicrhau fod ein busnesau gyda'r wybodaeth sydd ei angen arnynt ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan y Cyngor a sefydliadau eraill, gan roi sylw arbennig i gyngor a chymorth yn gysylltiedig â lleihau gorbenion. Cynhaliwyd seminar ar y we i'r perwyl o rannu arfer da yn y maes gan yr Adran ym mis Tachwedd (mae'r deunydd o'r digwyddiad ar gael [yma](#))
- 2.28 Mae'r tîm yn paratoi i lansio cronfa cefnogi busnes newydd yn y dyfodol agos gan ddefnyddio arian o ffynonellau allanol megis Cronfa Ffyniant y DG a'r rhaglen ARFOR i helpu ein busnesau i oresgyn a datblygu i'r dyfodol.
- 2.29 Mae newid strwythurol o fewn y tîm cefnogi busnes yn ddiweddar o ganlyniad i ymddeoliad arweinydd y tîm - mae hyn wedi golygu ail-drefnu ac ailstrwythuro'r dros dro, gyda swyddi yn wag am gyfnodau, sydd wedi cael ardrawiad ar allu a capasiti yn y tymor byr, yn arbennig gan fod sylw ac ymdrech sylweddol wedi ail gyfeirio ar hyn o bryd i sicrhau fod y trefniadau priodol yn cael eu sefydlu ar gyfer gweithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Prosiect 8: Pobl Gwynedd yn Chwarae Rhan Iawn yn y Byd Gwaith

- 2.30 Mae cyflogwyr yn parhau i adrodd eu bod yn wynebu heriau recriwtio, sydd yn llesteirio eu gallu i uchafu eu hincwm. Yn gyfochrog, mae'r pwysau o ran cynnydd yng nghostau yng nghostau rhoi llawer o fusnesau o dan straen ac mae risg all hyn arwain, yn ei dro, at rai busnesau yn methu.
- 2.31 Mewn ymateb, mae tîm Gwaith Gwynedd y Cyngor yn gweithio i sicrhau fod cynifer â phosib o bobl Gwynedd yn rhan o'r farchnad llafur a hefyd - yn gynyddol - helpu trigolion sydd yn gweithio i gynyddu eu sgiliau
- 2.32 Mae rhaglen o ffeiriau swyddi eisoes ar waith yn barod at y gwanwyn gyda 4 ffair ar hyd y sir eisoes wedi eu trefnu a dau arall ar y gweill. Yn gyfochrog, mae'r gwaith i helpu pobl i ddechredu i waith yn parhau 107 wedi sicrhau swydd o ganlyniad i'r cymorth maent wedi ei dderbyn hyd yn hyn eleni (Ebrill i Ragfyr 2022). Mae arian ar gyfer swydd newydd i gefnogi trigolion i gynyddu eu henillion hefyd wedi ei sicrhau.
- 2.33 Dylid nodi y bydd un o'r rhaglenni sydd yn cyllido'r tîm Gwaith Gwynedd - Cymunedau i Waith - yn dod i ben yn y dyfodol agos gan ei fod wedi'i gyllido gan arian Ewrop. Mae trefniadau mewn

Ile i sicrhau bydd ardrawiad hyn yn cael ei leihau, gan gynnwys cynnydd yn y cyllid sydd yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Prosiect 9: Llunio Cynllun Adfywio ar gyfer ein Hardaloedd

- 2.34 Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd ar gyfer Gwynedd yn parhau. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf eleni, bu i'r Cyngor drefnu rhaglen ymgysylltu 'Ardal Ni 2035' er mwyn ceisio barn a thrigolion ar flaenoriaethau lleol. Derbyniwyd dros 3,600 o holiaduron sydd wedi eu cofnodi a'u dadansoddi. Mae adroddiadau ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol wedi eu paratoi er mwyn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd.
- 2.35 Yn ystod mis Medi a Hydref 2022, trefnwyd gweithdai gyda sefydliadau lleol ym mhob un o'r 13 ardal adfywio lleol. Pwrpas y gweithdai oedd adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r gwaith ymgysylltu, gan roi sylw i flaenoriaethau lleol. Roedd y gweithdai hefyd yn gyfle i ystyried a thrafod prosiectau lleol a chychwyn ar y gwaith o lunio cynlluniau gweithredu.
- 2.36 Cam nesaf o'r broses fydd i baratoi cynlluniau adfywio lleol (drafft) ar gyfer pob ardal unigol. Mae hyn eisoes ar waith, gyda'r bwriad o gael cynlluniau drafft mewn lle erbyn diwedd Chwefror / cychwyn mis Mawrth. Byddwn hefyd yn trefnu cyfres o weithdai pellach yn yr ardaloedd lleol er mwyn ystyried a thrafod y cynlluniau gweithredu drafft.

3. PERFFORMIAD GWASANAETHAU'R ADRAN

- 3.1 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Yn yr Adroddiad Herio Perfformiad diwethaf i'r Cabinet mis Hydref, fe adroddwyd ar adferiad a perfformiad y Gwasanaeth Morwrol, Byw'n Iach a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Cabinet i faterion sy'n effeithio ar berfformiad y gwasanaethau canlynol tro hwn:

Gwasanaeth Adnoddau Hamdden

- 3.2 Yn sgil cwynion am effaith gormodedd o ymwelwyr i ardal Y Glyn ym Mharc Gwledig Padarn, mae werth nodi fod cais am arian grant i ail wynebu'r maes parcio wedi bod yn llwyddiannau a mae'r gwaith wedi cychwyn yno mis Tachwedd. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2023 a'r gobaith ydi y bydd gwell rheolaeth ar y safle ar gyfer tymor yr haf.
- 3.3 Mae lefel defnyddwyr Canolfannau Byw'n Iach yn parhau i fod yn is na'r cyfnod cyn COVID. Roedd perfformiad am y chwarter diwethaf 22,243 yn well na 2021/22 ond yn 71,691 yn waeth na 2019/20. Mae rhai materion penodol wedi effeithio ar y ffigyrau, yn cynnwys cau pwll Arfon am 3 mis i adnewyddu'r to, gorfod cau cyrtiau 5 bob ochr Arfon cyn yr haf a dal heb gael dyddiad i'w hail agor. Bu rhaid cyfyngu oriau agor Pwll Bangor yn y boreau am 3 mis oherwydd diffyg staff. Mae trafodaethau cyson rhwng Cwmni Byw'n Iach a'r Cyngor er mwyn goresgyn rhai o'r rhwystrau hyn sydd yn effeithio ar incwm y Cwmni

- 3.4 Mae Hafan Pwllheli yn parhau i fod yn llawn ac mae'n galonogol fod dros 140 ar rhestr wrth gefn hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022. Ond mae risg ar hyn o bryd oherwydd cynigion ffafriol marinas eraill yn yr ardal a dim penderfyniad hyd yma ar ffioedd Gwynedd. Mae nifer ar y rhestr fer yn ystyried symud gan fod telerau yn fwy ffafriol gan eraill. Fel arfer, disgwylir trosiant rhwng 10% i 15% o gwsmeriaid bod blwyddyn, ac felly'n bwysig ein bod yn denu cwsmeriaid newydd.
- 3.5 Yr un pryd, mae lleihad yn y nifer cwsmeriaid angorfeydd yn Harbwr Pwllheli a hynny yn bennaf gan fod anghenion cwsmeriaid yn newid. Ymddengys fod rhai wedi trosglwyddo i'r Hafan, tra fod eraill, gan gynnwys masnachwyr/pysgotwyr, wedi rhoi gorau i gadw cwch yn sgil cynnydd costau byw.

Archifau Gwynedd

- 3.6 Mae bodlonrwydd cwsmer yn cael ei fesur yn rheolaidd gan y Gwasanaeth Archifau ac mae'r perfformiad yn gyson uchel. Ond mae werth nodi fod gostyngiad yn y canran bodlonrwydd chwarter diwethaf a hynny gan fod Archifdy Caernarfon yn parhau i fod ar gau. Mae'r Archifdy wedi bod ar gau yn sgil gwaith ailweirio ac mae'r amserlen wedi llithro yn sylweddol, ac felly gallwn ddeall fod defnyddwyr am fynegi eu hanfodlonrwydd. Yn ogystal, yn sgil y llithriad mae'r Gwasanaeth wedi colli incwm gan nad oedd modd i'r Swyddog Cadwraeth dderbyn gwaith gan unigolion a sefydliadau, ac hefyd nid yw hi wedi bod yn bosib i'r Gwasanaeth dderbyn casgliadau sylweddol gan sefydliadau fel y Gwasanaeth Llysoedd a Swyddfa'r Crwner. Bellach mae amserlen mewn lle ar gyfer rhan olaf y gwaith, ac yr ydym yn gobeithio ail agor ym mis Ebrill. Yn y cyfamser mae staff yn parhau i ymateb i ymholiadau a rhoi mynediad drwy gynnig llungopiâu neu chwilota ar ran defnyddwyr.

Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

- 3.7 Mae'r nifer sy'n ymgysylltu gyda'r Amgueddfeydd a'r Oriolau wedi gostwng dros y cyfnod diwethaf yn sgil y ffaith bod arddangosfa Storiell ac Amgueddfa Lloyd George wedi gorfod cau yn ddirybudd. Bu rhaid cau arddangosfa Storiell mis Tachwedd yn dilyn damwain lle bu i ddrysau cwpwrdd arddangos gwydr ddymchwel. Mae'r gwaith atgyweirio yn digwydd diwedd mis Ionawr a'r gobaith ydi y bydd wedi ail agor erbyn dechrau mis Chwefror. Bu damwain yn Amgueddfa Lloyd George mis Rhagfyr wedi i ran o'r nenfwd ddisgyn wedi i bibell ddŵr dorri yn y nenfwd. Mae'r adeilad wedi ei wagio ac yn cael ei sychu, ond ni ragwelir bydd yn gallu ail agor tan mis Mehefin yn dilyn y gwaith atgyweirio.

Neuadd Dwyfor

- 3.8 Ers i Neuadd Dwyfor agor ar ei newydd wedd Mawrth 2022 rydym wedi holi ein cwsmeriaid yn fisol ac mae'r gyfradd bodlonrwydd at ei gilydd rhwng ffigur isaf o 82% a'r uchaf yn 95%. Yn mis Tachwedd cafwyd ffigur 88%, sef 79 yn hapus a 10 yn anhapus allan o 89 ymateb. Roedd 8 o'r sylwadau negyddol am drefniadaeth y sioe Go Brin – Tudur Owen. Dyma sioe hynod lwyddiannus oedd yn cael ei ffilmio gan S4C a gwerthwyd pob tocyn. Dysgwyd nifer o wersi o'r noson hon, yn enwedig o ran llif torf, ac mae'n bosib bydd rhaid agor gofod y llyfrgell er mwyn i'r cyntedd fod yn ofod mwy cyfforddus. Roedd gofynion teledu yn golygu nad oedd rheolaeth gennym dros pryd roeddem yn gallu agor y drysau wnaeth arwain at giwio ar y grisiau. Roedd sylwadau hefyd am ddiffyg staff i weini diodydd, ond yn anffodus doedd dim mwy o staff ar gael ar gyfer y noson hon gyda pawb oedd ar gael yn gweithio. Fodd bynnag, mae'r sylwadau rydym yn gael o help mawr i ni geisio gwella'r profiad i gwsmeriaid i'r dyfodol. Yn mis Rhagfyr dywedodd 95% eu bod yn hollol fodlon gyda'r gwasanaeth.

Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

- 3.9 Datblygwyd Cynllun Llysgennad Gwynedd i wreiddio'r egwyddorion ymweld newydd ac i fod yn adnodd gwybodaeth i drigolion, busnesau a myfyrwyr sydd eisiau dysgu mwy am yr ardal. Hyd yma mae 186 wedi cofrestru gyda 73% o'r unigolion yn hanu o Wynedd. Mae 90 wedi cyrraedd lefel efydd ac wedi cwblhau tri neu fwy o fodiwlau yn llawn.
- 3.10 Ers mis Ebrill 2022 mae'r gwasanaeth wedi cefnogi 23 digwyddiad yng Ngwynedd, ond fe gafodd 2 o'r digwyddiadau hyn eu canslo. Mae 100% o'r 21 trefnydd digwyddiadau wedi nodi eu bod yn fodlon neu fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a'r gefnogaeth gan Cyngor Gwynedd. Hyd yma adroddir fod budd o oddeutu £5,834,862 miliwn i'r ardal o'r digwyddiadau hyn. Mae 99,625 wedi mynychu'r digwyddiadau a 16,544 wedi cymryd rhan / cystadlu yn y digwyddiadau. Mae adroddiadau ôl-ddigwyddiad y trefnwyr yn dangos fod 270 cwmni o Wynedd wedi elwa yn uniongyrchol o'r gweithgaredd a drefnwyd. Hyd at ganol Ionawr 2023 mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i 47 ymholiad gan drefnwyr digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Datblygu'r Economi

- 3.11 Hyd yn hyn mae 66 o fusnesau wedi derbyn cefnogaeth uniongyrchol yn 2022/23, cynnydd o 34 ers y cyfarfod herio diwethaf. Mae'r nifer yn adlewyrchu'r cronfeydd ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd.
- 3.12 Hyd yn hyn mae 107 o bobl Gwynedd wedi cael swydd yn dilyn derbyn cefnogaeth uniongyrchol yn ystod 2022/23, gyda 28 wedi eu hychwanegu i'r cyfanswm yn cyfnod ers y cyfarfod herio diwethaf. Mae'r cyfanswm yn adlewyrchu'r adnodd sydd ar gael a'r grŵp targed ar gyfer y gwaith.
- 3.13 Mae ymdrech a sylw sylweddol gan y Gwasanaeth wedi ei gyfeirio ar hyn o bryd tuag at sefydlu'r trefniadau'n sirol ar gyfer gweinyddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UKSPF) yng Ngwynedd ynghyd â rheoli'r ar gyfer rhanbarth y Gogledd ar ran y chwe sir (wele adroddiad i Cabinet 24 Ionawr 2023 - [yma](#)). Mae hyn, yn ei dro, wedi cyfyngu ar yr addodau ar gael i roi sylw i faterion eraill o fewn y Gwasanaeth.
- 3.14 Mae cyfle pwysig i Gyngor Gwynedd ymgeisio i'r UKSPF a fydd hyn yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth - a'r Adran yn ehangach - yn y misoedd i ddod.
- 3.15 Mae cryn newid strwythurol o fewn y Gwasanaeth yn ogystal, gydag un uwch swyddog allweddol wedi ymddeol ac un arall wedi secondio am y tro i arwain y Rhaglen ARFOR yn rhanbarthol. Mae hyn wedi golygu ail-drefnu ac ailstrwythuro'r Gwasanaeth dros dro, gyda swyddi yn wag am gyfnodau. Mae hyn, eto, yn amharu ar allu'r Gwasanaeth.

Rhaglenni Adfywio

- 3.16 Gwaith paratoi cynlluniau adfywio canol trefi yn drawsadrannol yn parhau er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau'r Fframwaith Adfywio.
- 3.17 Cyllid datblygol wedi ei ddiogelu drwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer llunio Cynllun Canol Trefi i Bala gyda cais hefyd wedi ei gyflwyno ar gyfer diweddarau cynllun Bangor i gyd-fynd a gofynion Llywodraeth Cymru.
- 3.18 Cynllun Bywiogi Bangor ddim wedi derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Prydain ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro. Byddwn yn cyfarfod efo partneriaid yn fuan er mwyn adnabod yr opsiynau a chyfleon wrth symud ymlaen efo'r ffrydiau gwaith yn y ddinas i'r dyfodol.



- 3.19 Cynllun Llewych o'r Llechi a gyflwynwyd i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r pecyn werth dros £26m ac mae agweddau cryf o'r cais yn cyfrannu tuag at adfywio canol trefi Llanberis, Bethesda a Blaenau Ffestiniog.

Cefnogi Cymunedau

- 3.20 Rhwng Hydref a Rhagfyr cefnogwyd 121 o grwpiau a mentrau yn cynnwys cyngor i neuadd gymunedol Grandolbenmaen i adnabod ffynonellau ariannu er mwyn uwchraddio y ganolfan, cyngor i grŵp cymunedol i ddatblygu cae chwarae Trefor, cyngor a chefnogaeth cychwynol i griw o gymuned Bethel sy'n awyddus i ddatblygu caffi a siop cymunedol er budd y gymuned leol, cyngor i grŵp cymunedol Braich Goch Corris am grantiau prosiectau treftadaeth posib.
- 3.21 Mae'r nifer o brosiectau sydd wedi derbyn cymorth i'w datblygu yn ystod Hydref – Rhagfyr 2022 yn uwch na ffigyrau misoedd chwarter 1 a 2. Mae'r nifer o gronfeydd ariannu sydd ar agor ac yn addas ar gyfer diben y prosiect yn gallu dylanwadu ar nifer y prosiectau yr ydym yn eu cynorthwyo o fis i fis. Mae'r ffigyrau a adroddir arnynt yn ystod Hydref, Tachwedd a Rhagfyr yn cynnwys nifer y grwpiau/ mentrau sydd wedi derbyn arian drwy Gronfa Cymunedau Mentrus (CRF) i ddatblygu prosiectau. Cwblhawyd y prosiectau i gyd erbyn diwedd Rhagfyr. Fe elwodd 33 o grwpiau a mentrau cymunedol ar draws Gwynedd o'r Gronfa gyda £357,313 wedi ei ddyrannu fel cymorth i ddatblygu'r prosiectau. Mae'r ffigyrau hefyd yn cynnwys nifer o grwpiau sydd wedi elwa o'r grant ar gyfer cynlluniau bwyd/sefydlu lleoliad croeso cynnes. Yn ystod y cyfnod Hydref-Rhagfyr mae 15 menter/ grŵp cymunedol wedi derbyn arian gefnogi prosiect bwyd/croeso cynnes oedd yn cael ei weinyddu drwy Cist Gwynedd. Mae enghreifftiau o'r prosiectau sydd wedi derbyn cymorth i'w datblygu yn cynnwys Clwb Rygbi Caernarfon i ddenu amryw o grantiau drwy Llywodraeth Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Cist Gwynedd er mwyn uwchraddio Tŷ'r Clwb a gwelliannau i Adeilad Siop Siarad Nefyn.

4. SEFYLLFA ARBEDION

- 4.1 Mae gan yr Adran gynllun newydd oedd i fod i greu arbedion yn 2022/23, sef cynllun ail fodelu Neuadd Dwyfor £70,000. Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu gwaith datblygu yn y Neuadd. Gyda'r gwaith adnewyddu yn parhau, mae'n anodd ar hyn o bryd i weld effaith hir dymor ar niferoedd fydd yn mynychu'r Neuadd. Mae'n amlwg fod yr argyfwng a'r cynnydd mewn costau byw, ynghyd â ffactorau eraill fel effaith ffurf newydd o wyllo ffilmau, gyda nifer fawr o bobl yn disgwyl i ffilmiau gael eu rhyddhau ar y wê/teledu, yn codi pryder am ein gallu i weithredu'r arbedion yn llawn.
- 4.2 Mae 3 cynllun yn parhau o flynyddoedd blaenorol (cyfanswm o £105,000), gyda'r 3 yn amodol ar ganiatâd i godi ffioedd fel rhan o adolygiad parcio. Mae trefniadau ar waith gan yr Adran Amgylchedd i wneud yr adolygiad ac felly mae'r amserlen i wireddu'r arbedion yn ddibynnol ar y gwaith yma. Nid yw'r amserlen yn wybyddus yn bresennol.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1 Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y gwahanol wasanaethau yn fisol ac mae cyfarfod arbennig o'r Tim Rheoli Adran wedi cael ei drefnu ar gyfer 16 Chwefror 2023, gyda cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn bresennol.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Pennaeth Cyllid:

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Economi a Chymuned.”

Tud. 287

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Adroddiad Perfformiad Chwarter 3
2022-23 (Hydref i Ragfyr 2022)

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio3
 2. Perfformiad y Portffolio5
 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol **Error! Bookmark not defined.**
 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel9
 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo7
 6. Tud. 288 Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth15
 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel17
 8. Diweddariad ar Gynnydd y Prosiectau18
 9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 202220
 10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Rhagfyr 2022) 21
 11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 202222
 12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf23
- ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf24

Tud. 289



Yn ystod y chwarter hwn gwelsom rai datblygiadau sylweddol wrth gyflawni'r Cynllun Twf.

Yn dilyn tynnu prosiectau Bodelwyddan a Llysfasi yn ôl o'r Cynllun Twf, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais rai **penderfyniadau allweddol** ynghylch ailglustnodi cyllid o fewn y cynllun. Yn gyntaf, mae'r Bwrdd wedi sefydlu **Cronfa Cyflawni'r Portffolio** ar gyfer 2023-24 i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio sy'n ymdopi â chwyddiant cost neu faterion hyfywedd i symud i gyflawni.

Yn ail, cytunodd y Bwrdd ar y meini prawf ar gyfer clustnodiad o £13m ar gyfer y **broses newid prosiectau** a gaiff ei lansio ddechrau 2023. Mae hwn yn gyfle cyffrous i adnabod **prosiectau uchelgeisiol, arloesol a thrawsffurfiol** ar gyfer y Cynllun Twf a chyflawni swyddi a buddsoddiad yn y rhanbarth.

Mae **Achos Busnes y Portffolio sydd wedi'i ddiweddarau** bellach wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfodol cyllid flynyddol.

Mae'r prosiect Ychydig % Olaf wedi lansio ymarferiad **ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar** y chwarter hwn er mwyn ceisio barn y gweithredwyr rhwydwaith telegyfathrebu ar sgôp a dyluniad y prosiect cyn i'r fanyleb caffael gael ei diffinio. Mae'r cyfnod rhybudd ffurfiol yn cau ar 20 Ionawr gydag ymgynghoriadau dilynol i'w trefnu gyda gweithredwyr. Mae hwn yn weithgaredd allweddol i sicrhau ein bod yn medru cyflwyno cynnig deniadol i'r farchnad yng ngham nesaf y prosiect.

Mae peth **oedi pellach** wedi bod yn y rhaglen Tir ac Eiddo, yn benodol y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd penderfyniad y panel adolygu ar brosiectau Warren

Hall, Brychdyn a Phorth y Gorllewin, Wrecsam wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol arfaethedig sydd i'w gyhoeddi yn 2023. Fodd bynnag, mae peth **cynnydd cadarnhaol** wedi'i wneud ar brosiect Parc Bryn Cegin gyda'r egwyddor o'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Hydref.

Gan edrych ymlaen, mae 2023 yn addo i fod yn flwyddyn gyffrous i Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf, a disgwylir cynnydd sylweddol eleni ar ein prosiectau presennol ynghyd â'r cyfle i ddewis prosiectau newydd i ymuno â'r Cynllun Twf. Mae wir yn adeg gyffrous iawn.



Alwen Williams

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

Tud. 291

Themâu	Statws RAG	Sylwadau	
Achos Busnes y Portffolio		Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.	
Piblinell Cyflawni		Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022 ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig. Mae Cronfa Cyflawni Portffolio ar gyfer 2023-24 wedi'i sefydlu i gefnogi prosiectau aeddfed i symud i gyflawni y flwyddyn nesaf.	
Llywodraethu		Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau.	
Sicrwydd		Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr' ar gyfer y portffolio.	
Adnoddau a Chapasiti		Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i staffio'n llawn ar hyn o bryd, ond mae cyfran fawr o'r staff ar gontractau tymor penodol ac mae'r gyllideb refereniw ar ôl mis Mawrth 2024 yn heriol.	
Cyllid		Mae hawliadau ar gyfer prosiect y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol wedi'u talu, roedd hyn yn cynnwys gwariant yn 21/22 yn ogystal â 22/23 sef cyfanswm o £1,762,612. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma yn ymwneud â thynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.	
Buddsoddiad		Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi.	
Risg Tued 292		Mae'r proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, er bod rhai risgiau sylweddol i gyflawni'r Cynllun Twf a gwireddu'r buddion. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod y risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Mae'r risg ynghylch capasiti wedi cynyddu yn sgil faint o amser sydd ar ôl ar gontractau tymor penodol.	
Monitro a Gwerthuso Buddion		Cafodd y Strategaeth Gwireddu Buddion a Chynlluniau Monitro a Gwerthuso Portffolio eu hadolygu fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022, gyda newidiadau yn cynnwys modelau rhesymeg wedi'u diweddaru (sy'n adlewyrchu terminoleg fframwaith buddion y cytunwyd arnynt), drafftio cynlluniau buddion rhaglenni a chysylltiadau cliriach â chynlluniau buddion prosiect.	
Cyfathrebu ac Ymgysylltu		Yn y chwarter hwn, gwelwyd nifer o erthyglau yn cael eu rhyddhau ar ein methodoleg newid hinsawdd , fe wnaethom ymuno â'r sgwrs am COP27 a COP Cymru , fe wnaethom rannu canfyddiadau ynghylch sut y byddwn yn rhoi sylw i heriau cysylltedd symudol ac fe wnaethom ddathlu Cymru yng Nghwpan y Byd . Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cydweithio â Bargeinion Twf a Dinesig eraill ledled Cymru i gynhyrchu adroddiad uchelgeisiau ar gyfer 2022.	
	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.	380	£158m	£41.7m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 293	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r cyntaf o ddau Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect DSP (ar gyfer gwariant blwyddyn 2) wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo. Yn ddarostyngedig ar gymeradwyaeth ym mis Ionawr, bydd gwaith caffael yn mynd rhagddo ar gyfer cam nesaf y prynu offer. Mae'r prosiect Ychydig % Olaf wedi lansio ymarferiad Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar y chwarter hwn. Rydym yn ceisio barn y gweithredwyr rhwydwaith telegyfathrebu ar sgôp a dyluniad y prosiect cyn i'r fanyleb caffael gael ei diffinio. Mae'r cyfnod rhybudd ffurfiol yn cau ar 20 Ionawr gydag ymgynghoriadau dilynol i'w trefnu gyda gweithredwyr. Penodwyd rheolaeth prosiect a chefnogaeth ymgynghori ar gyfer y prosiectau Campws Cysylltiedig a Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig yn Chwarter 3, gyda Spirit Public Sector Ltd bellach yn ymestyn capasiti a gallu'r PMO i ddatblygu'r achosion busnes hyn.



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor	Cyflwyno	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno'r Achos Cyfiawnhad Busnes cyntaf ar gyfer gwariant Blwyddyn 2. 	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyo'r Cynllun Cyfiawnhad Busnes a chaffael. 		<ul style="list-style-type: none"> Achos Economaidd gyda'r Achos Cyfiawnhau Busnes i'w ddiwygio cyn cymeradwyo.
Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	<ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar wedi dechrau. Dewisiadau dogfennau contract wedi'u hadnabod drwy ymgynghori â Llywodraeth y DU. 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfnod rhybudd Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar yn cau, adolygu ymatebion ac ymgynghoriadau dilynol gyda diwydiant. Penodi cefnogaeth gyfreithiol a dogfennau contract terfynol drafft a manylebau caffael. 		<ul style="list-style-type: none"> Oedi yn yr amserlen gaffael wrth i gyfnod ymgysylltu â'r farchnad ymestyn i wella ymatebion. Amcanion gwariant yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.
Safleoedd a Choridoriau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtio Spirit Public Sector Ltd i ddarparu ymgynghoriaeth a chymorth rheoli prosiectau. Adolygiad o achos dros newid y prosiect ac opsiynau ar gyfer strwythur yr Achos Amlinellol Strategol. 	<ul style="list-style-type: none"> Drafftio Achos Amlinellol Strategol. 		<ul style="list-style-type: none"> Cymorth allanol bellach yn ei le yn dilyn yr oedi gyda chaffael. Cytunwyd ar gynllun i gyflwyno'r achos busnes gyda'r bwrdd prosiect.
Campysau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtio Spirit Public Sector Ltd i ddarparu ymgynghoriaeth a chymorth rheoli prosiectau. Adolygiad o achos dros newid y prosiect ac opsiynau ar gyfer strwythur yr Achos Amlinellol Strategol. 	<ul style="list-style-type: none"> Drafftio Achos Amlinellol Strategol. 		<ul style="list-style-type: none"> Cymorth allanol bellach yn ei le yn dilyn yr oedi gyda chaffael. Cytunwyd ar gynllun i gyflwyno'r achos busnes gyda'r bwrdd prosiect.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.	980	£530m	£668.5m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 295	<ul style="list-style-type: none"> • Ynni Lleol Blaengar: Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddatblygu ac ar drac i gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Mawrth 2023. • Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth: Y ffordd ymlaen y cytunwyd arni ar gyfer y prosiect yw dod ag ariannwr prosiect ymlaen drwy broses ddethol gystadleuol. Mae'r PMO yn datblygu'r broses, y meini prawf a'r cwestiynau manwl ar gyfer y broses gyda chymorth gan arbenigwr ar y diwydiant hydrogen. Y nod yw cael cymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd i lansio'r broses yn Chwarter 4. • Egni: Mae Prifysgol Bangor yn parhau i ddatblygu eu cynnig ar gyfer cyflawni'r prosiect mewn dau gam. Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 1 wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'w adolygu. Mae Cam 2 y prosiect yn dal i gael ei adolygu a disgwylir penderfyniad yn Chwarter 4 ynghylch a fydd yr elfen hon o'r prosiect yn parhau o fewn y Cynllun Twf. • Cydnerth (Morlais): Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais yn parhau ar gyllideb ac ar amserlen. Bydd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer gwaith a ariennir drwy'r Cynllun Twf yn dechrau ym mis Ionawr 2023. • Trawsfynydd: Mae opsiynau ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol a'r defnydd o gyllid y Cynllun Twf yn cael eu hystyried. Nod Cwmni Eginio yw cwblhau'r cynnig busnes ar gyfer cam cyntaf y cynllun datblygu tri cham ehangach, gan gynnwys amserlenni, amcangyfrif o gostau a strategaeth fuddsoddi erbyn mis Mawrth 2023. • Caffael contractwr a recriwtio i swyddi newydd ar gyfer y Cynlluniau Ynni Ardal Leol wedi'u cwblhau.



Y Cyngorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Henry Aron
Rheolwr Rhaglen

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Cydnherth (Morlais) Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais yn parhau ar gyllideb ac ar amserlen. Fe wnaeth Megallanes Renovables ymweld â'r Gogledd ym mis Tachwedd. Fel y defnyddwyr cyntaf disgwylidig o barth Morlais, maent bellach wedi sefydlu llwybrau cyfathrebu gyda rhanddeiliaid allweddol. 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Achos Busnes Amlinellol newydd a chyflwyno gweithdai. Gweithio gyda datblygwyr llanw i baratoi cyflwyniadau ar gyfer y Contractau ar gyfer Gwahaniaeth Arwerthiant Rownd 5 		<ul style="list-style-type: none"> Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau neu broblemau sylweddol.
Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Y ffordd ymlaen y cytunwyd arni ar gyfer y prosiect yw dod ag ariannwr prosiect ymlaen drwy broses ddethol gystadleuol. Daeth ein gwaith gydag arbenigwyr caffael i'r casgliad nad caffael ffurfiol fyddai'r dull optimaidd er mwyn cael ariannwr prosiect ymlaen. O ganlyniad, mae opsiwn o ddefnyddio proses sy'n debyg i 'Broses Newid Prosiectau' y Cynllun Twf yn cael ei ddatblygu. Fe wnaeth y gwaith hefyd arwain at gynnig i ganolbwyntio cyfalaf y Cynllun Twf ar alluogi galw am hydrogen. Rydym yn datblygu'r broses, y meini prawf a'r cwestiynau manwl ar gyfer y broses gystadleuol gyda chymorth gan arbenigwr ar y diwydiant hydrogen. 	<ul style="list-style-type: none"> Derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer y broses ddethol er mwyn cael ariannwr ymlaen a lansio'r broses. 		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r sgôr ambr yn adlewyrchu'r risg y gallai'r broses gaffael er mwyn cael ariannwr ymlaen fod yn hirach na'r disgwyl.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---



4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) Prifysgol Bangor	<i>Prosiect yn cael ei adolygu</i>	<ul style="list-style-type: none"> Mae Prifysgol Bangor yn parhau i ddatblygu eu cynnig ar gyfer cyflawni'r prosiect mewn dau gam. Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 1 wedi'i ddatblygu ac yn disgwyl cymeradwyaeth gan Fwrdd Gweithredol Prifysgol Bangor. Mae Cam 2 y prosiect yn dal i gael ei adolygu a disgwylir penderfyniad am elfen hon y prosiect yn Chwarter 4. 	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r cais i newid i symud i Gam 1. Penderfyniad ar gadw Cam 2'r prosiect o fewn y Cynllun Twf. Cwblhau Adolygiad Porth a phroses gymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes Amlinellol Cam 1. 		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi dro ar ôl tro mewn prosiectau ac effaith cais newid cyllid cyfalaf ar Amcanion Gwariant y Rhaglen.
Ynni Lleol Blaengar Bwrdd Uchelgais Economaidd Tud. 297	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Caffael ymgynghorwyr arbenigol newydd (31ten Consulting). Achos Busnes Amlinellol Drafft wedi'i gwblhau yn dilyn cyfres o weithdai. Cyflwyno Astudiaethau Dichonolrwydd Cronfa Adfywio Cymunedol (CRF) wedi'i gwblhau ar gyllideb ac ar amserlen. 	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau Adolygiad Porth a phroses gymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes Amlinellol. Dosbarthu'r adroddiadau Cronfa Adnewyddu Cymunedol yn ehangach ac adnabod y camau nesaf. 		<ul style="list-style-type: none"> Sgôr ambr oherwydd yr oedi posibl a achosir gan angen annisgwyl i benodi ymgynghorydd arbenigol cronfa newydd.
Trawsfynydd Cwmni Eginio	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth rhwng NDA a Chwmni Eginio wedi'i lofnodi'n ffurfiol - gwaith bellach yn mynd yn ei flaen ar sefydlu trefniadau prosiect i gefnogi'r chwe maes cydweithio. Mae opsiynau ar gyfer datblygu'r Achos Busnes Amlinellol a'r defnydd posib o gyllid y Cynllun Twf yn cael eu hystyried. Darparodd Cwmni Eginio ddiweddariad i'r Bwrdd Portfolio ym mis Tachwedd. 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Achos Busnes Amlinellol Drafft. Dechrau datblygu'r strategaeth gwerth cymdeithasol. Cwblhau cynnig busnes ar gyfer cam cyntaf y cynllun datblygu tri cham ehangach a'r cynllun prosiect, gan gynnwys amserlenni, amcangyfrif o gostau a strategaeth fuddsoddi. 		<ul style="list-style-type: none"> Ansicrwydd ynghylch amserlen cyflawni prosiectau a'r posibilrwydd o oedi pellach.

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caerdybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.	2280	£1.29bn	£355.4m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 298	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Gweinidog wedi gwneud Datganiad Ysgrifenedig yn cadarnhau y bydd cyhoeddiadau Warren Hall, Brychdyn a Phorth y Gorllewin, Wrecsam yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol arfaethedig sydd i'w gyhoeddi yn 2023. Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych – mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros wedi modelu llwybr caffael sy'n cydymffurfio i ddefnyddio cyllid Cam 1. Porth Caerdybi - mae Stena Line wedi darparu Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer y prosiect ymestyn y porthladd ac mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymateb gyda sylwadau. Mae Stena Line a Chyngor Môn wedi cyflwyno cais porthladd rhydd ar gyfer cyn Safle Alwminiwm Môn yng Nghaerdybi. Parc Bryn Cegin, Bangor - Cymeradwywyd yr egwyddor o'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru yn Chwarter 3 2022. Mae Adroddiad Galw'r Farchnad wedi'i dderbyn ac mae'r Achos Busnes Amlinellol bellach ar ffurf drafft datblygedig.



Y Cynghorydd Jason McLellan
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Porth y Gorllewin, Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam / Wrexham County Borough Council	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Mae Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd y penderfyniad ar Gyffyrdd yr A483 wedi'i gynnwys gyda'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn 2023. Mae Cyngor Wrecsam wedi comisiynu Astudiaeth Ddichonoldeb i asesu sut y bydd y Strategaeth Lleihau Ffosffad yn cael ei chyflenwi gan ddefnyddio Porth y Gorllewin fel enghraifft o safle datblygu tir glas. Mae Mott Macdonald wedi dechrau arolygon safle (ymchwiliad safle a bioamrywiaeth). 	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Wrecsam. Astudiaeth Dichonoldeb Ffosffad i adrodd i'r Cyngor ar gyflawni mesurau lleihau a lliniaru ar gyfer safleoedd datblygu newydd. Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam. 		<ul style="list-style-type: none"> Mae penderfyniad y Panel Adolygu Ffyrdd ar uwchraddio cyffordd yr A483 yn hanfodol i'r prosiect hwn. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn 2023. Strategaeth Lleihau a Lliniaru Ffosffad i amlinellu'r mesurau y gellid eu defnyddio ar safle'r prosiect.
Warren Hall, Brychdyn Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Mae Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd y penderfyniad ar Warren Hall wedi'i gynnwys gyda'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn 2023. Disgwylir i Gynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint gael ei fabwysiadu yn gynnar yn 2023. 	<ul style="list-style-type: none"> Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Gweinidogion ar briffyrdd safle Warren Hall, yna disgwylir ffurfioli'r trafodaethau gyda LIC ar gyflawni'r prosiect. 		<ul style="list-style-type: none"> Rhagwelir Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn Chwarter 1 2023 bellach. Disgwylir cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol i Gymru a fydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ar Warren Hall yn 2023.
<i>Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl (Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan)</i>	<i>Mae prosiect safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.</i>				
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd gymeradwyo sefydlu Cronfa Cyflawni'r Portffolio ac mae'r prosiect hwn yn gymwys i ymgeisio am gyllid ychwanegol. Mae llwybr caffael i gyflawni gwaith Cam 1 yn cael ei drafod gyda'r holl bartion. 	<ul style="list-style-type: none"> Cadarnhau llwybr caffael sy'n cydymffurfio i gyflawni gwaith Cam 1. Cwblhau diwygio'r achos busnes amlinellol drafft sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Graddol a'r llwybr caffael. Cadarnhad cymeradwyaeth y Cais i'r Gronfa Ffyniant Bro, neu'r Gronfa Cyflawni'r Portffolio fel sy'n briodol. 		<ul style="list-style-type: none"> Mae risg y prosiect yn adlewyrchu dibyniaeth ar gyllid newydd o'r Gronfa Ffyniant Bro / Cronfa Cyflawni'r Portffolio. Mae llwybr caffael ar gyfer gwaith Cam 1 yn defnyddio arian cyhoeddus i'w gadarnhau.




Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Parc Bryn Cegin, Bangor Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn argymhell cymeradwyo'r Cytundeb Menter ar y Cyd Mae'r Adroddiad Dadansoddi'r Galw a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i dderbyn a bydd yr argymhellion wedi'u cynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol drafft. Mae drafft cychwynnol o Achos Busnes Amlinellol a baratowyd gan y PMO wedi'i gwblhau i bob pwrpas. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd LIC yn penodi tîm o'u fframwaith gwasanaethau proffesiynol a thechnegol Gogledd a Chanolbarth Cymru. Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol. Adolygiad Porth 2 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol. 		<ul style="list-style-type: none"> Galw posibl gan feddianwyr. Tirfeddiannwr parod a phartner datblygu. Defnydd arfaethedig sy'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio. Dull menter ar y cyd i gyflawni'r prosiect bellach yn symud ymlaen yn ymarferol.
Port Caergybi Stena Line Ports Limited 300	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Mae pryniant Stena o'r hen ffatri Orthios i'w ddefnyddio ar y cyd â'r porthladd. Mae Stena Line a Chyngor Môn wedi cyflwyno cais porthladd rhydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddatgelu eu cynlluniau ar gyfer safle Orthios. Mae Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladd wedi derbyn sylwadau a'i ddychwelyd i Stena. 	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd sylweddol ar Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladd. Gorchymyn Adolygu Harbwr wedi'i gymeradwyo. Adolygiad Porth 2 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol. 		<ul style="list-style-type: none"> Gorchymyn Adolygu Harbwr yn disgwyl caniatâd. Peth ansicrwydd gyda chost y gwaith ar gyfer ehangu'r porthladd ac adnewyddu'r morglawdd.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'h tirwedd.	380	£281m	£41.3m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tud. 301	<ul style="list-style-type: none"> • Rhwydwaith Talent Twristiaeth - Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi cwblhau ei Achos Amlinellol Strategol (SOC) a'i rannu i'w adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) a thîm Sicrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Adolygiad Porth 1 ym mis Tachwedd 2022. Daeth yr Adolygiad Porth i gasgliad gyda sgôr Ambr-Gwyrdd, ac mae'r Bwrdd Rhaglen wedi cadarnhau y dylai'r prosiect symud ymlaen i Achos Busnes Amlinellol gan roi sylw i'r argymhellion o'r ddau adolygiad. • Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon - Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi croesawu cynrychiolwyr o dîm cynllunio Cyngor Gwynedd i Goleg Glynllifon fel rhan o'u proses o ystyried cynllunio ar gyfer prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon.

 <p>Cyng Charlie McCoubrey Aelod Arweiniol</p>	 <p>Jane Richardson Uwch Berchennog Cyfrifol</p>	 <p>Robyn Lovelock Rheolwr Rhaglen</p>
--	---	--

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon Grŵp Llandrillo Menai	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith parhaus gydag ymgynghorwyr ar ddylunio'n datblygu costau ar sail buddion i gyd-fynd ag amlen ariannu. Cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn edrych ar opsiynau i lenwi'r bwlch ariannu sydd wedi'i achos gan chwyddiant Cais am gyngor cynllunio wedi'i gyflwyno. 	<ul style="list-style-type: none"> Mynd ymlaen drwy brosesau cyn-gynllunio a cheisiadau cynllunio llawn. Cyflwyno cais am £2m o Gronfa Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu. Drafftio'r Achos Busnes Llawn. 		<ul style="list-style-type: none"> Bwlch ariannu yn erbyn Achos Busnes Amlinellol sydd wedi'i gymeradwyo. Costau adeiladu cyfalaf cynyddol. Caniatâd cynllunio i'w sicrhau.
Fferm Sero Net Llysfasi Coleg Cambria	<i>Mae prosiect Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i dynnu'n ôl. Mae prosiect newydd yn cael ei adnabod drwy alwad cyhoeddus am Fynegiannau o Ddiddordeb ym mis Ionawr 2023.</i>				
Rhwydwaith Talent Twristiaeth Grŵp Llandrillo Menai	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Pob un o'r pum gweithdy achos busnes gyda rhanddeiliaid wedi'u cwblhau. Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddrafftio a'i gyflwyno i'w adolygu gan y PMO ac Uned Sicrwydd Llywodraeth Cymru. Canlyniad Ambr-Gwyrdd o'r Adolygiad Porth 1 ym mis Tachwedd 2022. Bwrdd Rhaglen wedi cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ym mis Rhagfyr 2022. Cyfarfodydd partneriaeth â 'chanolfannau' sector preifat. 	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai. Achos Busnes Amlinellol (OBC) drafft a dogfennaeth cefnogol perthnasol ar gyfer Adolygiad Porth 2 ym mis Mawrth 2023. Gweithio gyda'r PMO er mwyn datblygu cytundeb ariannu yn benodol i'r prosiect. 		<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad Porth 2 wedi symud i fis Mawrth 2023 i roi amser i ddatblygu OBC cadarn

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Cyferthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel.	180	£114m	£39.5m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
	<ul style="list-style-type: none"> Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter - Prifysgol Glyndŵr yn paratoi'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect i'w ystyried ym mis Medi 2023. Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol - Prifysgol Bangor wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portfolio i ddatrys newidiadau i elfen arian cyfatebol y prosiect.

Tud. 303



Cyng. Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol



Paul Bevan
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel


Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Datblygu'r Achos Busnes Llawn	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith parhaus gydag ymgynghorwyr ar ddylunio'n datblygu costau ar sail buddion i gyd-fynd ag amlen ariannu. Cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn edrych ar opsiynau i lenwi'r bwch ariannu sydd wedi'i achos gan chwyddiant Digwyddiad wedi'i ganolbwyntio ar fusnesau wedi'i gynnal gan dîm Cyfansawdd y Brifysgol i adeiladu ymgysylltu. 	<ul style="list-style-type: none"> Drafftio dogfennau caffael. Cyflwyno cais am £1.7m o Gronfa Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â'r bwch ariannu a fydd yn cael ei gyfateb gan gyllid o £1.7m gan Brifysgol Glyndŵr. Datblygu Achos Busnes Llawn ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Medi 2023. 		<ul style="list-style-type: none"> Eglurhad o'r sefyllfa cyllid cyfatebol. Pwysau costau parhaus. Datblygu'r Achos Busnes Llawn yn cael ei reoli'n gadarn
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Prifysgol Bangor	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Cyfngiadau lleoli'r Ganolfan yn Safle Diwydiannol Mona wedi'u hadnabod, gan arwain at benderfyniad i archwilio lleoliadau amgen a chyllid cyfatebol cysylltiedig. 	<ul style="list-style-type: none"> Datrys y materion lleoliad a chyllid cyfatebol a chyflwyno cais i newid priodol. Aildrefnu Adolygiad Porth 2 unwaith y bydd yr amserlen ddiweddaraf wedi'i chwblhau. 		<ul style="list-style-type: none"> Gwaith o ddatblygu'r prosiect wedi'i atal hyd nes bydd y mater cyllid cyfatebol wedi'i ddatrys.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

8. Tabl Olrhain Cynnydd Prosiectau

Prosiect	Cam Caniatâd				Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
	Y cyfnod cyn gwneud cais	Cynllunio amlinellol / Caniatâd	Cynllunio llawn / Caniatâd	Amodau wedi'u gweithredu	Pennu cyd-destun y Prosiect	Paratoir Achos Amlinellol Strategol	Paratoir Achos Busnes Amlinellol	Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol	Paratoir Achos Busnes Llawn	Approval of the Full Business Case	Y cyfnod cyn gwneud cais	Cynllunio amlinellol / Caniatâd
Canolfan Prosesu Signalau Digidol	Dim angen cynllunio				✓	✓	✓	✓	✓	✓	⌚	
Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	⌚						
Campysau Cysylltiedig	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	⌚						
Yr Ychydig % Olaf	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	✓	✓	⌚			
Cydnorth (Morlais)	✓	✓	✓	✓	✓	✓	⌚					
Trawsfynydd	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	⌚						
Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)	Dan adolygiad											
Ynni Lleol Blaengar	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	⌚					
Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen)	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	⌚					
Porth Caergybi, Ynys Môn	Gorchymyn Adolygu Harbwr wedi gyflwyno a Thrwydded Morol wedi rhoi				✓	✓	⌚					
Cyn Ysbyty Gogledd Cymru	✓	✓	⌚		✓	✓	⌚					
Safle Strategol Bodelwyddan	Prosiect wedi dynnu'n ôl											
Porth y Gorllewin, Wrecsam	Mabwysiodu'r CDLI i'w gwblhau				✓	⌚						
Neuadd Warren, Brychdyn	Mabwysiodu'r CDLI i'w gwblhau				⌚	⌚						
Parc Bryn Cegin, Bangor	⌚				✓	✓	⌚					
Hwb Economi Wledig Glynllifon	⌚				✓	✓	✓	✓	⌚			
Fferm Sero Net Lllyfasi	Prosiect wedi dynnu'n ôl											
Rhwydwaith Talent Twristiaeth	Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau				✓	✓	⌚					
Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Dim angen cynllunio				✓	✓	⌚					
Canolfan Opteg a Pherianneg Menter	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	⌚			

COG ON



*Proffil cyflawni yn unol ag Achos Busnes y Portffolio 2022. Os yw Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo mae'r ffigyrau wedi'u diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Rhagfyr 2022)

		Targedau Achos Busnes y Portffolio 2020			Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u				Gwahaniaeth			
		GVA (£M)	Swyddi a grëwyd (net)	(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*	OBC/FBC**	GVA (£M)	Swyddi a grëwyd (net)	(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*	GVA (£M)	Swyddi a grëwyd	(£M) Cyfanswm Buddsoddiad*	
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP)	50	80	7.3	FBC	12	33	3.0	-38	-47	-4.3	
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	35	150	4.0	OBC	15	130	4.0	-20	-20	0	
	Safleoedd a Choridrau Cysylltiedig	45	120	9.4	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Campysau Cysylltiedig	35	0	21	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
Ynni Carbon Isel	Cydnorth (Morlais)	50	100	36	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth	60	90	28.6	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)	20	20	97.7	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Ynni Lleol Blaengar	120	180	106.2	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Trawsfynydd	230	510	400	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
Tud. 307 Tir ac Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam	220	360	43.4	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Warren Hall, Brychdyn	235	440	70	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	<i>Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl*** (Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan)</i>											
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	20	50	74	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Parc Bryn Cegin, Bangor	30	50	6	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Porth Caergybi	545	930	80	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
	Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	25	40	13	OBC	45	96	13	+20	+56	0
<i>Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl*** (Fferm Sero Net Llysfasi)</i>												
		20	0	12.9	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	45	70	29.9	OBC	33	61	14.7	-12	-9	-15.2	
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	60	90	9.6	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	
Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf		2,185	3,830	1,146	OBC 1 FBC	90	190	30.7	-50	-20	-19.5	

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio ** OBC – Achos Busnes Amlinellol, FBC – Achos Busnes Llawn

*** Targedau ar gyfer y prosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl yn dal wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm targedau'r Cynllun Twf.

11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr y Prosiect	2021/22 £m *	2022/23 £m	2023/24 £m	2024/25 £m	2025/26 £m	2026/27 £m	2027/28 £m	2028/29 £m	2029/30 £m	2030/31 £m	2031/32 £m	2032/33 £m	Cyfanswm £m	
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol	Prifysgol Bangor	0.12	1.66	0.39	0.79	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.96	
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	1.46	1.47	1.01	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	3.94	
	Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	1.00	3.83	4.04	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	8.87	
	Campysau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	0.00	0.29	3.88	5.83	5.83	4.85	0.00	0.00	0.00	0.00	20.68	
Ynni Carbon Isel	Cydnherth (Morlais)	Menter Môn	0.00	0.00	0.00	3.33	4.44	1.10	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	8.87	
	Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	0.00	0.00	5.61	5.62	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	11.23	
	Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	0.00	5.91	9.85	4.92	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	20.68	
	Ynni Lleol Blaengar	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	2.46	2.46	2.46	2.46	2.46	2.46	2.46	2.47	2.47	2.47	24.63	
	Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	Cwmni Eginio	0.00	0.00	0.00	1.97	2.96	4.92	9.85	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	19.70	
Tud 308 Tir ac Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	0.00	7.19	1.77	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	8.96	
	Warren Hall, Brychdyn	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	0.00	0.00	14.77	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	14.77	
	<i>Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl** (Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan)</i>															
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	1.97	1.97	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	3.94
	Parc Bryn Cegin, Bangor	Bwrdd Uchelgais	0.00	0.00	1.48	4.43	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	5.91	
Porth Caergybi	Stena Line	0.00	0.00	9.85	17.24	7.38	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	34.47		
Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	7.20	2.65	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	9.85	
	<i>Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl** (Fferm Sero Net Llysfasi)</i>															
	Rhwydwaith Talent Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00	4.43	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	4.43	
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter	Prifysgol Glyndŵr	0.00	0.00	2.12	3.91	3.65	0.17	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	9.85	
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	1.25	1.71	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.96	
Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)															3.60	
Heb ei glustnodi - Cyllid y Cynllun Twf															12.70	
Heb ei glustnodi - Cronfa Cyflawni'r Portffolio															7.00	
Cyfanswm															240.00	

* proffil 2021/22 yw'r gwariant gwirioneddol. Mae'r proffil sy'n weddill fel y rhagwelwyd yn Achos Busnes Portffolio 2022.

*** Targedau ar gyfer y prosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl yn dal wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm targedau'r Cynllun Twf.

12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyranriad Cyllid Cyfalaf

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr y Prosiect	Proffil 22/23 (£m)	YTD Gwirionedd dol	Amrywiad (£m)*	Sail Resymegol	
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol	Prifysgol Bangor	1.7	1.64	0.06	Gwariant 2022-23 yn unol â'r proffil. Dau hawliad wedi'u proses, ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2022. Un hawliad yn weddill ddechrau 2023.	
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00		
	Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00		
	Campysau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00		
Ynni Carbon Isel	Cydnherth (Morlais)	Menter Môn	0.00	0.00	0.00	Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio.	
	Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00		
	Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	0.00		
	Ynni Lleol Blaengar	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00		
	Gorsaf Bŵer Trawsfynydd	Cwmni Eginio	0.00	0.00	0.00		
Tud. 309 Tud. Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio.	
	Warren Hall, Brychdyn	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00		
	<i>Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl*** (Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan)</i>						
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00		
	Parc Bryn Cegin, Bangor	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00		
	Porth Caergybi	Stena Line	0.00	0.00	0.00		
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00	Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio.	
	<i>Prosiect wedi'i dynnu'n ôl (Fferm Sero Net Llysfasi)</i>						
	Rhwydwaith Talent Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00		
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	Prifysgol Glyndŵr	0.00	0.00	0.00	Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio.	
	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	0.00		
Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)			0.56	0.00	-0.56	Rydym yn rhagweld defnyddio £434k yn ystod 2022/23.	
Cyfanswm			2.26	1.64	-0.62	Gweler uchod	

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd (Achos Busnes y Portffolio 2022) a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022.

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr	Crynodeb	
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP)	Prifysgol Bangor	Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf.	
	Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd.	
	Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Nod y prosiect yw ceisio gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth. Canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ffiberoptig sy'n hanfodol ar gyfer darparu band eang 4G, 5G a gigabit.	
	Campysau Cysylltiedig	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltiedig digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol.	
Ynni Carbon Isel	Tud. 310	Cydnerth (Morlais)	Menter Môn	Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
		Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafndiaeth rhanbarthol.
		Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)	Prifysgol Bangor	Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnffuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd
		Ynni Lleol Blaengar	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar.
		Trawsfynydd	Cwmni Eginio	Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn.
Tir ac Eiddo	Porth y Gorllewin, Wrecsam	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu.	
	Warren Hall, Brychdyn	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat.	
	<i>Mae prosiect safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.</i>			
	Parc Bryn Cegin, Bangor	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau.	
	Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	Bwrdd Uchelgais Economaidd	Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg	
	Porth Caergybi	Stena Line	Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol.	
Bwyd-amaeth a Thwristiaeth	Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod.	
	<i>Mae prosiect Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.</i>			
	Rhwydwaith Talent Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth.	

Arloesi mewn	Canolfan Biotechnoleg		
Gweithgynhyrc	Amgylcheddol (CEB)	Prifysgol Bangor	Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer dena ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru.
hu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter	Prifysgol Glyndŵr	Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	14 Chwefror, 2023
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Menna Jones
Swyddog Cyswllt:	Ian Jones
Rhif Cyswllt:	01286 679072
Pwnc:	ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar yr 18 o Ionawr, 2023.
- 1.3 Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a'r perfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Dymunaf nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella)

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 8 o'r blaenoriaethau gwella sy'n ymddangos yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer eleni. Rwy'n crynhoi'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

2.1 CADW'R BUDD YN LLEOL

- 2.1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosib yn aros yn lleol.
- 2.1.2. Mae'r diweddariad ar gynnydd Cynllun Cadw'r Budd yn Lleol wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fis Rhagfyr, 2022. Cafwyd adborth calonogol a bydd gwaith yn cael ei wneud i gasglu esiamplau o dendrau ble mae cwmnïau lleol wedi methu, holi os oes modd prynu tanwydd ar ran trigolion neu hwyluso trefniadau prynu tanwydd ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Ynni a chyflwyno diweddariad ymhen blwyddyn ar ganlyniadau cynllun peilot ar fethodoleg caffael buddion cymdeithasol.
- 2.1.3 O ran camau nesaf y cynllun penodol hwnnw bydd gwaith yn bwrw mlaen i adnabod cyfleon pellach i wireddu buddion drwy drefn cytundeb fframwaith.

2.2 MERCHED MEWN ARWEINYDDIAETH

- 2.2.1 Amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

Mae'r grŵp prosiect wedi ymateb trwy gyflwyno Rhaglen Datblygu Potensial i ferched y Cyngor. Lanswyd yr ail gyfres o'r Rhaglen Ddatblygol ar y 18fed o Hydref, 2022. Mae diddordeb brwd wedi bod yn y rhaglen yn ogystal â gweithgaredd ehangach y prosiect. Bydd dwy gyfres pellach o'r Rhaglen yn ystod 2023 i'w cynnal yn ystod y Gwanwyn a'r Hydref.

- 2.2.2 Mae'r "sgyrsiau dros banded" ar gyfer Aelodau Etholedig a swyddogion benywaidd y Cyngor yn parhau. Cynhaliwyd cyfres o'r sgyrsiau yn ddiweddar gyda siaradwyr mewnol ac allanol yn rhannu eu profiadau ac mae cyfresi pellach i'w cynnal yn ystod 2023.

2.3 SICRHAU TEGWCH I BAWB

- 2.3.1 Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud rhaid adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor.
- 2.3.2 Mae ymchwil pellach wedi ei wneud er mwyn darparu hyfforddiant penodol ar gydraddoldeb i reolwyr, yn arbennig ym maes Gwrth-Hiliaeth. Mae gwaith hefyd wedi ei wneud i sefydlu lleoliad mewnrwyd ar gyfer adnoddau i reolwyr. Bydd sesiwn hyfforddiant ychwanegol i Aelodau a sesiwn arbenigwr i aelodau staff Cynllun Yfory yn cael eu cynnal cyn diwedd mis Ionawr.
- 2.3.3 Mae'r gwaith i weithredu ar y canfyddiad fod angen Cymraeg coeth ym mhob swydd yn y Cyngor wedi cychwyn. Mae gwaith i'w wneud i newid y canfyddiad hwnnw ac

mae'r angen i wneud hynny yn cyd-fynd â'r prosiect cynllunio'r gweithlu sydd yn edrych ar wella sut y gall y Cyngor ddatblygu a gwella sut mae'n recriwtio.

- 2.3.4 Mae rhywfaint o oedi pellach yn y gwaith gwblhau'r gwaith o ddatblygu fersiwn newydd o'r ffurflen asesiad effaith cydraddoldeb, hynny yn dilyn ymadawiad aelod staff allweddol yn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, ond cafwyd addewid y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosib.
- 2.3.5 Mae'r gwaith o ystyried materion cydraddoldeb fel rhan o'r drefn o ddatblygu cynlluniau arbedion posib wedi cychwyn.
- 2.3.6 Er bod 80% o staff sydd wedi eu lleoli mewn swyddfa ac sydd â mynediad cyfrifiadurol llawn wedi cwblhau'r holiadur i ddatgan eu nodweddion cydraddoldeb, dim ond rhyw 30% o staff mewn sefyllfa rheng flaen tu allan i'r swyddfa (e.e. staff ysgol, staff cartrefi gofal a staff ailgylchu) sydd wedi gwneud hynny. Mae trafodaethau wedi ei cynnal gyda rhai o'r Adrannau er mwyn gwella'r sefyllfa.
- 2.3.7 Mae'r archwiliad annibynnol ar systemau cyflog y Cyngor wedi ei gwblhau, gyda'r adroddiad terfynol wedi ei gyflwyno yn hwyr ym mis Rhagfyr. Cafodd yr archwiliad ei gynnal gan arbenigwr annibynnol. Pwrpas y gwaith oedd ystyried os oes yna gamwahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw yn ein systemau tâl. Mae'r adroddiad yn dod i gasgliad nad oes yna bryderon am gamwahaniaethu anghyfreithlon, a bod amddiffyniad cyflog cyfartal y Cyngor i'w weld yn gadarn. Fel sylw cyffredinol pellach (a thu allan i brif ffocws yr archwiliad), mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith fod yna fwch tâl rhwng merched a dynion o fewn y gweithlu (yr hyn a elwir yn y Saesneg yn *gender pay gap*).
- 2.3.8 Mae'r gwaith o gasglu a chyflwyno gwybodaeth er mwyn derbyn adborth gan gwmni *Inclusive Employers* ynghylch pa mor gynhwysol ydym ni fel cyflogwr wedi ei gwblhau a'i gyflwyno cyn y Nadolig. Disgwylir adborth gan y cwmni ynghylch sut i ddatblygu ymhellach yn y maes ym mis Mawrth 2023.

2.4 ENWAU CYNHENID GYMRAEG

- 2.4.1 Fel y gwyddoch, mae pryder fod enwau llefydd cynhenid Cymraeg yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg. Mae'r prosiect yn blaenoriaethu'r meysydd i gael sylw a hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud o safbwynt adeiladau'r Cyngor, enwau strydoedd, enwau llefydd ac ati.
- 2.4.2 Mae un gweithdy ysgol gynradd wedi ei gynnal i hyrwyddo enwau llefydd drwy ddefnyddio'r map rhyngweithiol gydag ymweliad arall wedi ei drefnu ar gyfer mis Ionawr, a gwaith hyrwyddo'r map yn mynd rhagddo ymysg ysgolion cynradd ac uwchradd.

- 2.4.3 Mae gwaith ymchwil cychwynnol ar y gwaith newid enwau strydoedd yn mynd rhagddo a mae sesiynau hyfforddi staff a sesiwn enwau tai wedi eu trefnu.
- 2.4.4 Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar gyfer cynllunio gweithgareddau cysylltiol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2023.

2.5 HYBU DEFNYDD O'R GYMRAEG O FEWN GWASANAETHAU'R CYNGOR

- 2.5.1 Mae'r Cyngor wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.
- 2.5.2 Mae hyfforddiant iaith yn parhau gyda nifer o staff yn manteisio ar gyfleoedd mewnol ynghyd ag allanol. Mae gwaith o hyrwyddo cyrsiau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith yn digwydd yn barhaus. Hyrwyddwyd cyrsiau dysgu Cymraeg i ddechreuwyd sy'n dechrau ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror ac yn cael eu cynnal gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Siwan Iorwerth, Rheolwr Cynllun Cymraeg Gwaith, er mwyn trafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol a chael gwybodaeth am gyrsiau a chyfleoedd newydd.
- 2.5.3 Mae cydweithio'n digwydd gyda thîm Datblygu'r Gweithlu (Oedolion, Iechyd a Llesiant) er mwyn hyrwyddo adnoddau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg gyda staff yn y maes gofal. Anfonwyd newyddlen at staff gyda gwybodaeth am wersi ac apiau defnyddiol. Diweddarwyd ychydig ar yr adnoddau sydd ar y Safle Iaith mewnol.
- 2.5.4 Mae gwaith yn digwydd gyda'r Adran Cyllid a gyda chwmni Byw'n Iach er mwyn casglu mwy o hunanasesiadau iaith gan staff.

2.6 Y GYMRAEG A'R GWASANAETHAU CYHOEDDUS

- 2.6.1 Pwrpas y prosiect yma gan is-grŵp y Gymraeg (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) yw annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Comisiynwyd cwmni i wneud astudiaeth o ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn 12 derbynfa draddodiadol yng Ngwynedd a Môn ac i ymchwilio i ymyraethau posib er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Mae ffocws y prosiect ar y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ac nid ar argaeledd gwasanaethau lle ddylai'r argaeledd hwnnw fod yn ddiodyn.

- 2.6.2 Mae Cwmni Iaith Cyf wedi eu penodi a gwaith arsylwi wedi ei gynnal yn y derbynfeydd ym mis Mai a Mehefin. Mae grwpiau ffocws gyda'r staff sydd wedi cymryd rhan wedi eu cynnal gan Cwmni Iaith yn ystod mis Gorffennaf. Mae argymhellion wedi eu datblygu er mwyn ceisio annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd a phecyn adnoddau a chanllawiau i staff wedi ei gwblhau. Mae sesiwn ymgynghori wedi ei

gynnal ym mis Hydref gyda detholiad o reolwyr rheng flaen er mwyn cael eu barn ar y pecyn adnoddau a hyfforddiant i staff.

Caiff canfyddiadau'r arsylwi, argymhellion a phecyn adnoddau a chanllawiau datblygu eu cyflwyno i aelodau Is-grŵp y Gymraeg maes o law. Bwriedir treialu sesiwn hyfforddiant hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer rheolwyr a phecyn adnoddau hyfforddiant fydd yn canolbwyntio ar arfogi staff i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn derbynfydd.

- 2.6.3 Cafwyd cytundeb i gychwyn prosiect newydd a fydd yn casglu gwybodaeth am arferion da o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg a chynnig cefnogaeth i wella sgiliau iaith ar draws sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn.

2.7 SICRHAU FOD RHEOLWYR YN ARDDEL EU RÔL IECHYD A DIOGELWCH YN EFFEITHIOL

- 2.7.1 Mae'r prosiect yma wedi'i adnabod fel blaenoriaeth gorfforaethol am y tro cyntaf yng Nghynllun y Cyngor am eleni.
- 2.7.2 Mae'r maes Iechyd Diogelwch a Llesiant o dan y chwydd wydr mewn ffordd na fu erioed o'r blaen, a hynny am sawl rheswm. Yn amlwg, daeth cyfnod y pandemig a'n diogelwch ni oll i flaen meddwl pawb, ac mae cadw pawb yn ddiogel yn un o'r disgwyliadau mwyaf sylfaenol sydd ar y Cyngor gan bobl Gwynedd.
- 2.7.3 Mae dyddiadau wedi eu pennu ym mis Chwefror 2023 ar gyfer sesiwn hyfforddi ar 'Arwain yn Ddiogel' i Dîm Rheoli'r Cyngor. Mae hyfforddiant Aelodau Etholedig wedi ei adolygu i gynnwys elfen ar eu diogelwch personol nhw fel aelodau. Mae sawl cwrs IOSH (ychwanegol i'r arfer) wedi eu trefnu i gyfarch anghenion Adrannau penodol e.e. dau gwrs IOSH i Benaethiaid ysgolion yn rhedeg cyn diwedd Mawrth (un ddiwedd Ionawr ac un ym Mawrth) a chwrs arall fis Ionawr yn benodol i Reolwyr Gofal.
- 2.7.4 Mae Swyddogion wedi cydweithio gyda Swyddog Prosiectau Systemau Adnoddau Dynol i fapio prosesau system adrodd ar ddamwain i'r Uned Iechyd a Diogelwch . Mae hwn at bwrpas bod yn glir o'n anghenion fel Cyngor i fynd allan i gaffael systemau allanol pwrpasol. Mae briff pendant wedi ei gytuno arno o ran system iechyd a diogelwch ac felly yn barod i fynd allan i'r farchnad am brisiau.
- 2.7.5 Mae Cynhadledd Llesiant Meddyliol wedi ei threfnu ar gyfer y 6ed o Chwefror.

2.8 CYNLLUNIO'R GWEITHLU

- 2.8.1 Mae'r gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol yn flaenoriaeth sydd wedi amlygu'i hun yn fwy nag erioed o'r blaen dros y cyfnod ac mae angen ymateb i'r heriau staffio sy'n wynebu nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae rhaglen waith a cherrig milltir penodol wedi eu llunio i adnabod bylchau tymor byr, tymor canol a'r hir dymor.

- 2.8.2 Mae gwaith yn parhau ar greu cynnwys ar gyfer gwefan Gyrfaoedd pwrpasol gyda'r bwriad i gael y wefan yn fyw yn ystod mis Chwefror. Bydd y wefan yn cael ei defnyddio fel y prif borth ar gyfer denu ymgeiswyr i swyddi, a hefyd maes o law yn rhoi gwybodaeth am wahanol lwybrau gyrfaoedd o fewn y Cyngor.
- 2.8.3 Mae'r Cynllun Prentisiaethau a'r cynllun graddedigion yn parhau i wneud cynnydd da ac yn cael cydnabyddiaeth ar draws y Cyngor a thu hwnt. Mae'r Tîm Talent a Phrentisiaethau wedi cychwyn ar y cylch diweddaraf o ddenu prentisiaid i wasanaethau'r Cyngor.
- 2.8.4 O ran datblygu a chael trefn a dealltwriaeth o natur problemau recriwtio sydd yn y Cyngor ar hyn o bryd mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni. Bwriedir cyflwyno adroddiad byr i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ar y prif ganfyddiadau ddiwedd mis Ionawr.
- 2.8.5 Mae cyfres o gyfarfodydd yn eu lle yn ystod mis Ionawr i yrru yn ei flaen y cynllun peilot sydd yn cael ei gynnal gyda'r Gwasanaeth Cynllunio i ddatblygu arferion cynllunio gweithlu tymor hir.
- 2.8.6 Mae peth oedi wedi bod yn y gallu i gyflwyno dau ddatblygiad penodol ar draws y Cyngor, sef y drefn o gynnal cyfweiliadau gadael a darparu'r gallu i ymgeiswyr am swyddi ddefnyddio ffurflen gais symlach yn ystod y broses recriwtio. Mae'r oedi ar y ddau ddarn gwaith yn deillio o'r un ffynhonnell, sef y ffaith bod yna res o ofynion ar y tîm technoleg gwybodaeth sydd yn cyflawni'r gwaith ar ein rhan, a bod angen iddyn nhw flaenoriaethu'r llwyth gwaith hwnnw.
- 2.8.7 Mae gwaith cychwynnol wedi ei gyflawni ar ddatblygu cynllun profiad gwaith o'r newydd - i'w drafod ymhellach yn y Grŵp Prosiect dros y misoedd nesaf.
- 2.8.8 Cynhaliwyd tair ffair swyddi wedi eu cynnal ar y cyd â'r Adran Economi ac Adfywio yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Roedd y ffeiriau hyn yn canolbwyntio ar swyddi a oedd yn wag ar y pryd. Mae mwy o waith datblygu i'w wneud ar yr agwedd hon dros y misoedd nesaf.

3. PERFFORMIAD –

3.1 Nodir isod trosolwg o berfformiad yr Adran yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma. Nid oes cyfeiriad at bob un o'r gwasanaethau ond rwy'n awyddus i gadarnhau fy mod yn fodlon efo perfformiad presennol y gwasanaethau hynny na gyfeirir atynt yma.

3.2 Cefnogol

3.2.1 Mae gan y Gwasanaeth Cefnogol fesur newydd ers mis Medi 2022 sydd mesur y nifer dyddiau o anfon y cais i fod yn derbyn canlyniad y gwiriad 'DBS'. Ym mis Rhagfyr cyflwynodd y Gwasanaeth Cefnogol 187 o geisiadau i'r Gwasanaeth Datgelu a

Gwahardd. Roedd canlyniad prosesu'r ceisiadau yn ystod y mis hwnnw yn 3 diwrnod sy'n berfformiad arbennig.

3.3 Cyfathrebu ac Ymgysylltu

3.3.1 Dros y blynyddoedd diwethaf mae llawer o waith wedi ei wneud ar ddatblygu'r ddarpariaeth hunan wasanaeth, sydd ar wefan gorfforaethol y Cyngor – www.gwynedd.llyw.cymru, ar gyfer defnydd trigolion Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cadw golwg manwl ar y nifer ceisiadau gwasanaeth sydd yn cael eu cyflwyno ar-lein.

3.3.2 Mae perfformiad mis Tachwedd 2022 wedi dilyn y patrwm arferol gyda nifer ceisiadau ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr gwelwyd gostyngiad o 2,746 cais o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hynny yn bennaf oherwydd nad oedd angen archebu slot Canolfan Ailgylchu o 28 Rhagfyr 2022 hyd ddechrau mis Ionawr. Roedd 4,093 slot ailgylchu yn llai wedi'u harchebu ym mis Rhagfyr 2022 o'i gymharu â Rhagfyr 2021.

Er gwaetha'r gostyngiad yn y gwasanaeth penodol hwnnw, mae'r ffigurau yn dangos bod nifer o wasanaethau eraill wedi gweld cynnydd yn y ceisiadau o'u cymharu â Rhagfyr 2022, e.e. talu am gasgliad gwastraff gardd, rhoi gwybod am fin heb ei gasglu, rhoi gwybod am broblem baw ci, rhoi gwybod am broblem llifogydd/gyli wedi blocio, rhoi gwybod am broblem rhew ac eira, cais am drwydded taci.

3.4 Cyswllt Cwsmer a Chofrestru

3.4.1 Dros y ddwy flynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau anodd. Mae camau wedi eu cymryd i gryfhau capasiti'r gwasanaeth ac erbyn hyn mae'r lefelau staffio yn cyfateb i'r hyn sydd wedi ei adnabod ar gyfer strwythur y gwasanaeth.

3.4.2 Mae perfformiad cyfartaledd ateb galwadau yn y Ganolfan Gyswllt wedi gwella ers cyrraedd lefelau staffio strwythur y gwasanaeth gyda'r nifer galwadau a gollwyd yn parhau i fod yn isel.

3.4.4 Gyda 3 aelod o staff wedi'u hyfforddi i ateb ymholiadau 'web chat' yn raddol mae defnydd o'r ddarpariaeth yn cynyddu. Ym mis Tachwedd 2022 ymatebwyd i 35 ymholiad 'web chat' ynghyd a 13 yn ystod mid Rhagfyr 2022.

3.4.5 Mae'r canran marwolaethau a gofrestrir o fewn 5 diwrnod (heb eu cyfeirio at y crwner) wedi gostwng i gymharu â llynedd. Ni ragwelir gweld gwelliant yn y perfformiad gan fod problemau yn parhau rhwng meddygon yr ysbyty a'r archwilwyr meddygol. Mae'r drefn o gyfeirio pob marwolaeth i swyddfa'r archwilwyr meddygol yn troi'n statudol eleni, ac felly mae'n debyg y derbynnir canllawiau a rheolau gweithredu newydd yn y dyfodol agos o ran targedau perfformiad ac ati.

3.3.6 O ran y nifer o ddyddiau a gymerir i ddod i benderfyniad ar gymhwysedd unigolyn am fathodyn glas mae'r gwasanaeth yn edrych yn benodol ar y nifer o ddyddiau cyfartalog



mae ymgeisydd yn disgwyl cyn cael penderfyniad ar eu cais. Mae'r cyfartaledd yn 10.41 diwrnod gwaith, i lawr o 11.22 diwrnod ers yr Hydref. Caiff rhai ceisiadau eu cymeradwyo yn syth, ond ar rhai achlysuron gall unigolion ddisgwyl hyd at 51.56 diwrnod yn arferol cyn cael penderfyniad, eto mae'r ffigwr hwn i lawr o 55.30 diwrnod sydd yn lleihad o 3.74 diwrnod ers yr Hydref. Yn y mwyafrif o achosion ble mae rhaid disgwyl cyfnod hir am ymateb mae'r oedi oherwydd diffyg gwybodaeth wedi'i gyflwyno gyda'r cais gwreiddiol neu fod yr unigolyn wedi apelio'r penderfyniad ac yn disgwyl am asesiad pellach gan y cwmni asesu annibynnol.

3.4 Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

- 3.4.1 Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn casglu adborth yn gyson ynglŷn ag i ba raddau mae hyfforddiant yn eich helpu unigolion i gyflawni eu rôl ac mae'r sgôr adborth yn gyson. Roedd sampl llai nac arferol y tro hwn oherwydd nifer cyfyngedig digwyddiadau ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Cefnogol a Thechnoleg Gwybodaeth er mwyn gwella cywirdeb adroddiadau.
- 3.4.2 Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ynglŷn â'r Gweithdy Cefnogi a Mentora - Prentisiaid a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd adborth cadarnhaol hefyd i hyfforddiant Diogelu Data ynghyd a hyfforddiant Gofal Cwsmer.
- 3.4.3 Dros yr wythnosau diwethaf mae dau e-fodiwl newydd wedi ei gosod ar y poeth e-ddysgu sef Ymwybyddiaeth Tân a Diogelwch Seibr. Yn ogystal mae gwaith wedi cychwyn ar greu ADNODD RHEOLWYR ar gyfer pob Rheolwr ond gydag elfennau ychwanegol ar gyfer Rheolwyr Newydd.
- 3.4.4 Mae'r Wal Lwyddiannau sydd wedi ei ddatblygu i arddangos negeseuon sydd wedi eu derbyn gan y cyhoedd yn diolch a chanmol staff am eu gwaith yn parhau. Bellach mae 1107 o sylwadau o ddiolch a chanmol wedi eu derbyn ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
- 3.4.5 Mae'r cynllun buddiannau staff yn mynd o nerth i nerth gyda 2483 bellach wedi arwyddo i'r Cynllun Vectis, mae hyn y gynnydd o 1249 ers Mawrth 2019. Mae 249 o fusnesau ar y cynllun hybu busnesau lleol erbyn hyn gyda 182 wedi mynegi ei bod yn gweld gwerth yn y cynllun. O ran y cynllun beics mae 43 unigolyn wedi cael beic ers mis Ebrill 2022.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

- 4.1.1 Rhagwelir sefyllfa o danwariant o (£19k) gan yr Adran erbyn diwedd y flwyddyn. Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu tuag at y tanwariant, megis trosiant staff mewn nifer o wasanaethau a thanwariant ar nifer o benawdau eraill o fewn yr Adran. Mae'r tanwariant yn cael ei leihau yn sgil rhagolygon o ddiffyg incwm yr Argraffdy. Mae'r Adran wedi llwyddo i wireddu eu holl gynlluniau arbedion erbyn hyn.

GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Pwrpas

“Darparu gwasanaeth cyfreithiol i’r Cyngor sydd yn ei alluogi i weithio yn effeithiol er budd pobl Gwynedd ”

Yn ogystal â gwneud ystod o waith cyfreithiol rydym hefyd yn cefnogi prif flaenoriaethau’r Cyngor, yn benodol felly gweithredu y Strategaeth Tai , Moderneiddio Ysgolion a’r Ddeddfwriaeth newydd o amgylch 2il gartrefi. Mae heriau recriwtio yn parhau yn heriol ond rydym yn penodi i swyddi er fod ambell benodiad yn parhau yn anodd. Fodd bynnag rydym yn cymryd camau rhagweithiol i gyfarch y risgiau yma. Canolbwyntir hefyd ar sicrhau fod cefnogaeth ar gael i’r Cyngor a’i Wasanaethau drwy ddefnyddio cyfreithwyr locum ac allanol i bontio.

Mae perfformiad y Gwasanaeth yn cael ei fonitro drwy geisio adborth yr Adrannau sydd yn derbyn gwasanaeth. Ers hydref 2022 mae’r tim wedi creu trefn newydd a symlach ar gyfer ceisio adborth. Bellach fe gloriannir barn yn erbyn graddfa 1-5 ar ffurf e-bost syml ac mae’r trefn fonitro wedi gwella. (5 = Bodlon lawn lawr i 1 = Hollol Anfodlon). Eleni hyd yn hyn mae’r sgôr wedi bod yn 100% lefel 5 ar sail 12 ymateb gan gydnabod fod y sustem yn parhau i ddatblygu.

PRIODOLDEB

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23:

Cyfrannu at y gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Mae’r Swyddog Monitro yn gweithredu cyfrifoldebau statudol y Swyddog Monitro y Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd (“CBC”), sydd hefyd yn cynnwys dyletswyddau cyffelyb i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae hyn wedi golygu gweithredu a darparu cefnogaeth arbenigol ar faterion cyfansoddiadol a threfniadaeth y CBC. Paratowyd dogfennau cyfansoddiadol cychwynnol gwaith sydd yn parhau yn ogystal a mynychu cyfarfodydd i gynghori. Er fod elfennau cwblhau gwaith sefydlu y CBC yn parhau mae gwaith ar gychwyn i ddod a’r swyddogaethau yn weithredol . Rhan o’r gwaith nesaf fydd sicrhau fod y capasit yn cael ei ddatblygu i gefnogi’r gwaith yma a hynny mewn partneriaeth gyda’r Cynghorau cyfansoddol eraill.

Gweithio gyda’r Pwyllgor Safonau i ymdrin a’r adolygiad o’r fframwaith foesegol yn deillio o Adroddiad Mr Richard Penn ar y Framwaith Foesegol.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Richard Penn disgwylir am ymateb y Lywodraeth i’r argymhellion sydd yn cwmpasu materion megis trefniadau datrys lleol, hyfforddiant a chyd berthynas y gyfundrefn a chynghorau tref a chymuned. Mae pa gamau mae’r Llywodraeth am gymryd

mewn ymateb yn greiddiol i sefydlu sut i weithredu. Disgwylir fod ymgynghoriad ar y rheoliadau yn agor yn y yr wythnosau nesaf a bydd cyfle i'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad yma.

Yn y cyfamser mae'r Pwyllgor Safonau wedi derbyn adroddiad ymchwil a gynhaliwyd gan y Cadeirydd a Chynrychiolydd Cyngorau Tref a Chymuned ar anghenion yr gynghorau. Gofynnwyd i raglen weithgareddau gael ei pharatoi mewn ymateb.

Yn genedlaethol mae camau wedi eu cymryd gyda chymorth CLIC i sefydlu Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol yn seiliedig Yn helaeth ar y model a ddatblygwyd yng Ngogledd Cymru. Cyfarfu y Fforwm am y tro cyntaf ar 27ain o Ionawr.

Cynnal trefniadau anwytho a hyfforddi aelodau y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned ar y Cod Ymddygiad yn sgil yr etholiadau lleol.

Cynhaliwyd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fel rhan o'r sesiynau anwytho a llwyddwyd i ddarparu hyfforddiant i bron pob aelod bellach. Mae'r gwaith yma yn parhau gyda cwrs manylach wedi yn cael ei ddarparu ar 2 achlysur yn barod Bwriedir cynnal sesiynau pellach er cyfarch gofyn ychwanegol. Mae cwrs wedi ei baratoi ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned y gellir ei ddarparu yn rhithiol a bwriedir cychwyn rhaglen o sesiynau pan fydd adnoddau yn caniatáu. Mae hyn yn cyd glymu a gwaith y Pwyllgor Safonau ar sefydlu gwir anghenion y Cyngorau Tref a Chymuned.

ETHOLIADAU A CRWNER

Ein blaenoriaeth ar gyfer 2022/23:

Cefnogi y Swyddog Canlyniadau i ddarparu Etholiadau Lleol Mai 2022

Cynhaliwyd yr Etholiadau Lleol ym Mai 2022 a chafwyd adborth cadarnhaol gan y Comisiwn Etholiadau ynglŷn a'r trefniadau eleni . Bydd adolygiad o'r trefniadau a chynllun gwaith ar gyfer datblygu a gwella i'r dyfodol yn cael ei baratoi ac mae perfformiad yr etholiad yma wedi tanlinellu gwerth gweithredu yn y modd yma.

Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.

Yn ystod 2021 -2022 drwy fuddsoddiad mewn staff a rhaglen gyfathrebu uniongyrchol llwyddwyd i gael gofrestru o ddeutu 70% o etholwyr 16- 18 ar gyfer etholiadau Mis Mai. Roedd hyn wedi cynnwys gwaith gyda Ysgolion Colegau a'r Gwasanaeth Ieuenctid i hyrwyddo cofrestru ynghyd a ymgyrch gohebu uniongyrchol. Yn ogystal a hyn llwyddwyd i gael dealltwriaeth a gwybodaeth am yr hyn oedd yn llwyddo a'r dulliau o ymgysylltu ynghyd a

chreu cysylltiadau mewn sefydliadau y gellir eu datblygu a defnyddio i'r dyfodol. Mae'n anodd cael data cymharol ar gyfer hyn am y cyfnod hyd ddiwedd Ebrill 2022.

Rydym yn broses of greu swydd barhaol fydd yn ymysg y dyletswyddau yn parhau a'r gwaith hyrwyddo cofrestru yn benodol o amgylch y grŵp yma o etholwyr. Mae hyn yn dod ar gefn datblygiadau yn y maes etholiadol ar lefel DU megis angen cerdyn adnabod a threfniadau pleidleisiau post. Yn ogystal mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyn ar ddatblygu a diwygio etholiadau datganoledig. Bydd rhaglen waith yn cael ei pharatoi fydd yn rhan o Gynllun y Gwasanaeth i 2023/24

CRWNER

Ein blaenoriaeth ar gyfer 2022/23:

Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal a sefydlu yr ardal ar sail gynaliadwy.

Bellach mae'r cyfweiliad wedi ei gynnal a cyngor y panel wedi ei roi i'r Arglwydd Ganghellor . Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn cychwyn ar sail parhaol a bydd cyd weithio gyda'r Uwch Grwner i osod y trefniadau ar sail tymor hir.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

SYLWADAU - SWYDDOG MONITRO

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

SYLWADAU – PENNAETH CYLLID

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	14 Chwefror, 2023
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Craig ab Iago
Swyddog Cyswllt:	Carys Fôn Williams
Rhif Cyswllt:	01341 424368
Eitem:	ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI AC EIDDO

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas** yr adroddiad hwn yw diweddarau'r Cabinet ar yr hyn sydd wedi digwydd yn fy meysydd fel Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo. Yn gryno bydd yn cynnwys diweddiariad ar brosiectau Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion ariannol.
- 1.2 Rydym yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn y maes digartrefedd, fodd bynnag, ein nod fel Cyngor yw sicrhau nad oes unrhyw un yn ddigartref yng Ngwynedd, ac mae'r Adran yn gwneud cymaint â phosib i wneud y sefyllfa'n well i bobl Gwynedd. Gweler 2.1.1 i weld y cynlluniau hyn.
- 1.3 Rydym yn dal i wynebu argyfwng tai, ac yn parhau i weithio'n rhagweithiol i roi cymaint â phosib o gyfleoedd i bobl Gwynedd fyw yn lleol trwy'r Cynllun Gweithredu Tai. Mae nifer o gerrig milltir allweddol wedi'u cyrraedd ar y daith hon, er enghraifft mae datblygiadau cyffrous o safbwynt y rhaglen ddatblygu tai cymdeithasol, mae ein gwasanaeth ynni newydd yn helpu nifer o bobl Gwynedd gyda'u biliau ynni, ac mae nifer o dai wedi'u prynu.
- 1.4 Mewn ymgais i gynyddu'r stoc dai sydd ar gael i'r Cyngor symud unigolion o lety dros dro i lety parhaol, mae'r Adran wedi dechrau gweithredu Cynllun Lesu Cymru: Gwynedd. Cynllun yw hwn sy'n annog landlordiaid preifat i lesu eu heiddo i ni am rent gwarantedig am gyfnod o 5-20 mlynedd. Mae hyn yn ei dro yn ein helpu i leihau ein dibyniaeth ar lety dros dro. Mwy am Gynllun Lesu Cymru: Gwynedd yn 2.1 – 1ch.
- 1.5 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion a nodir yma yn cael eu trafod yn gyson, ac wedi'u craffu gennyf ar y cyd â'r Prif Weithredwr, Pennaeth a Rheolwyr Gwasanaeth yr Adran.
- 1.6 Yn gyffredinol rwy'n fodlon iawn gyda chynnydd y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran yn unol â Chynllun y Cyngor a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt. Nid oes dwywaith bod heriau digynsail yn ein hwynebu, rwy'n hyderus fod gan yr Adran gynlluniau addas i gyfarch y sefyllfa hyd eithaf ei gallu.**

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)

2.1 Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Gweithredu a gwireddu prosiectau ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartref addas o fewn eu cymunedau

Hoffwn dynnu'ch sylw at y prif gynlluniau y mae'r Adran yn eu blaenoriaethu ar hyn o bryd.

2.1.1 Cynlluniau digartrefedd

Ar hyn o bryd mae 669 o unigolion yn ddigartref yng Ngwynedd ac mae'n rhagolygon yn darogan y bydd y niferoedd sy'n cyflwyno'n ddigartref eleni yn gyson, os nad uwch â'r llynedd. Mae unigolion mewn llety dros dro yn parhau i fod yn uchel, gyda 211 o unigolion wedi eu lleoli mewn gwahanol safleoedd ar draws y Sir. ac eto, rydym yn darogan y bydd y nifer fydd wedi bod mewn llety dros dro dros y flwyddyn yn ei chyfanrwydd yn debyg i'r un nifer y llynedd.

Rydym wedi gweld cynnydd nodedig yn y niferoedd sy'n cyflwyno'n ddigartref o ganlyniad i landlordiaid yn rhoi "rhybudd adran 21" i denantiaid, sef rhybudd eu bod yn rhoi'r gorau i osod eu heiddo ac felly'n dod â'r denantiaeth i ben. Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2022, rhoddwyd 169 rhybudd – cyfartaledd o 14 y mis. Er mwyn monitro'r sefyllfa, dechreuwyd gasglu'r rhesymau a roddir dros roddi'r rhybuddion (os oedd y tenantiaid yn gwybod), ac roedd 78% o'r achosion oherwydd bod landlord yn gwerthu'r eiddo. Effeithiodd hyn gan fwyaf ar deuluoedd (51%) a phobl sengl (43%).

Mae'r Adran yn ymdrechu i wneud popeth o fewn ei rheolaeth i gynnig datrysiadau i'r sefyllfa hon, yn bennaf trwy'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys amrywiaeth o brosiectau o ddatblygu llety â chefnogaeth (prosiect 1a), i sefydlu cefnogaeth arbenigol iechyd meddwl (prosiect 1d). Dyma dynnu'ch sylw at ambell ddiweddariad:

1a: Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref

Mae Cynllun 1a y Cynllun Gweithredu Tai yn anelu i godi 38 o unedau llety â chefnogaeth i unigolion digartref mewn lleoliadau ar draws y sir.

Rhai o'r cynlluniau sydd ar y gweill yw:

Datblygiad	Unedau	Diweddariad
35 Ffordd y Coleg, Bangor	3	Datblygu hen adeilad segur yn llety â chefnogaeth Prif waith adnewyddu wedi gorffen gyda manion ar ôl Trafodaethau ar y gweill i sefydlu trefniadau rheoli safle
Glan Wnion, Dolgellau	5	Datblygu hen Ysgol Glan Wnion yn llety â chefnogaeth Mae to ar yr adeilad newydd ac mae gwaith yn mynd yn dda Mae tywydd garw wedi effeithio ar yr amserlen ychydig, ond nid oes achos i bryderu ar hyn o bryd
137 Stryd Fawr, Bangor	12	Llety â chefnogaeth tenantiaeth. Adra sy'n adeiladu, a bydd Tai Gogledd Cymru yn rheoli'r safle. Mae'r gwaith ar godi'r strwythur wedi dechrau fis Medi 2022 a rhagdybir cwblhau'r gwaith erbyn haf 2023 Trafodaethau ar y gweill i drafod les a chyfathrebu'r datblygiad
Llety ym Mhwlheli	2	<u>Trosi tŷ gwâg i fewn i ddwy Uned arwahân,</u> <u>Fflat 1 llofft i'r llawr gwaelod</u>

		Fflat 2 lofft l'r llawr cyntaf/ail Contractwyr ar safle, gwaith oddeutu 65% wedi ei gwblhau gobeithio gorffen erbyn Ebrill 2023.
Podiau, Caernarfon	4	Rydym wedi llwyddo i oresgyn materion yn ymwneud â dŵr gyda Dŵr Cymru ar y rhan fwyaf o'r podiau Byddwn yn eu dodrefnu dros yr wythnosau nesaf a gobeithir symud tenantiaid i mewn yn ystod yr wythnosau nesaf

1ch: Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat: Cynllun Lesu Cymru: Gwynedd

Y tro diwethaf, adroddwyd bod yr Adran wrthi'n gweithio ar gynlluniau i ddatblygu pecynnau cefnogaeth ar gyfer landlordiaid preifat er mwyn eu hannog i gynnig tenantiaeth i bobl leol sydd mewn angen am dai, yn hytrach na'u gosod am gyfnodau tymor byr neu fel llety gwyliau. Llwyddodd yr Adran i ddenu grant dros £2.7m ar gyfer y prosiect hwn ac mae'r cynllun bellach wedi'i lansio ers 8 Tachwedd, 2022. Ers hynny, rydym wedi derbyn sawl ffurflen fynegi diddordeb gan landlordiaid ar draws y sir, Rhoddwyd targed gwreiddiol gan Lywodraeth Cymru o 4 uned ar gyfer 2022/23, ond yn sgil diddordeb uchel sydd wedi'i ddenu i'r cynllun, rydym yn hyderus y byddwn yn pasio'r targed yn braf, a bellach yn anelu at ddod â 19 o unedau ychwanegol ar y cynllun.

1d: Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol

Mae atal digartrefedd yn rhan greiddiol o waith y Gwasanaeth Digartrefedd, ond mae canran y tenantiaethau sydd dan fygythiad oherwydd materion iechyd meddwl wedi bod ar gynydd. Er mwyn osgoi sefyllfa ble mae'r unigolion bregus hyn yn colli eu tenantiaeth, mae'r Adran wedi cynyddu ei chaptisiti i allu cynorthwyo a chefnogi unigolion i barhau yn eu cartref.

Ym Medi 2022, penodwyd Cydlynnydd Iechyd Meddwl i weithio fel pwynt cyswllt rhwng y tîm digartrefedd yma yn y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cyn y Nadolig, penodwyd Uwch Weithiwr Achos Iechyd Meddwl a dechreuodd ar ei swydd ddechrau Ionawr eleni, fydd yn atgyfnerthu'r cysylltiad a'r cydweithio rhwng y ddau sefydliad ymhellach.

Trwy hyn, bydd cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yng nghyd-destun digartrefedd yn broses fwy llyfn a rhwydd, sy'n golygu y gallwn fod yn fwy rhagweithiol i allu atal rhywun ddod yn ddigartref cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

2.1.2 Cynlluniau Prynu Tai a Phrynu Tir

Mae'n hysbys bellach fod y Cyngor yn bwriadu prynu tai i'w rhentu i drigolion Gwynedd, gan anelu ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Gweithredu Tai i fod yn berchen ar oddeutu 100 o dai er mwyn eu gosod i drigolion lleol. Bwriedir hefyd brynu tir datblygu addas er mwyn datblygu ein tai ein hunain, fel y nodir yng nghynllun 3ff y Cynllun Gweithredu Tai.

Hoffwn atgoffa fy nghyd-aelodau o'r gwaith dygn sydd wedi, ac yn parhau i ddiwydd ar y cynlluniau hyn ac sy'n aml yn gorfod digwydd y tu ôl i'r llenni oherwydd ei natur sensitif a chyfrinachol.

Ond rydw i'n falch iawn o adrodd bod 8 tŷ wedi'i brynu fel y dangosa'r map isod, gyda 5 arall naill ai'n agos i gwblhau neu â chytundeb i brynu ac yn nwylo'r cyfreithwyr. Ein bwriad yw gosod y tai ar rent canolraddol i berson â chysylltiad lleol ac sydd mewn angen am dŷ o'r fath.



2.1.3 Cynllun Cymorth Prynu Gwynedd

Mae'r Cynllun hwn – cynllun i brynwyr tro cyntaf, neu i unigolion a theuluoedd sy'n cael trafferth fforddio prynu cartref addas ar y farchnad agored – yn gallu cynnig benthyciad di-log i gau'r bwllch rhwng pris eiddo a'r hyn y gall unigolion ei gynnig ar ffurf morgais a blaendal. Y nod trwy hyn yw gwneud tai yn fforddiadwy i drigolion sy'n cael trafferth cael morgais digonol i brynu tŷ ar y farchnad agored yn eu hardal leol. Trwy gyfuno arian o Gronfa Premiwm Treth Cyngor Gwynedd, a chyllid ychwanegol gan y Llywodraeth fel rhan o Beilot Ail Gartrefi Dwyfor, mae gwerth £13m o fenthyciadau ecwiti ar gael er mwyn rhoi cyfle i fwy byth o bobl brynu cartref oddi ar y farchnad agored yn eu cymuned leol. Mae'r cyllid yn cynnwys buddsoddiad o £8.5m gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Beilot Ail Gartrefi Dwyfor.

Ers ei lansio ar 13 Medi mae 15 Uned wedi'i gymeradwyo ar draws Gwynedd, 6 eraill mewn amryw gamau yn ystod y broses. Daw'r ymgeiswyr o ardaloedd ar draws y sir gan gynnwys Llanystumdwy, Edern, Porthmadog, y Felinheli, Harlech a Llanrug.

2.1.4 **Datblygu ein tai ein hunain ar gyfer pobl leol**

Mae Cynllun 3a: *Datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai* yn gynllun cyffrous sy'n anelu i godi tai arloesol ar draws Gwynedd a fydd ar gael i'w prynu neu eu rhentu ar rent canolraddol. Bydd pob tŷ yn cael ei adeiladu yn seiliedig ar egwyddorion 'Tŷ Gwynedd', gan sicrhau eu bod yn hyblyg, yn wyrdd, yn ynni-effeithiol, ac wedi'u hadeiladu yn gynaliadwy.

Mae gwaith ar y datblygiad cyntaf, sef 10 o dai ar hen safle Ysgol Coed Mawr, Bangor, wedi dechrau gyda thendr prisiad cynlluniau rheolaeth adeiladu wedi digwydd. Gobeithir bod ar safle yn ail chwarter 2023.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio ar safleoedd eraill hefyd, megis Ty' Ysgol, Llanrug a safle hen lyfrgell Llanberis, sy'n destun cais am ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd. Mae safleoedd eraill hefyd ym Mhen Llŷn a De Meirionnydd dan ystyriaeth.

2.1.5 **Sefydlu Gwasanaeth Ynni newydd**

Mae Gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd wedi'i sefydlu er mwyn ymateb i'r lluo o geisiadau a ddaw gan grwpiau cymunedol yn gofyn am help i wireddu cynlluniau ynni adnewyddol a gwella gallu trigolion Gwynedd i osgoi tlodi tanwydd. Mae dwy brif ffrwd i'r gwaith ar hyn o bryd, sef Datgarboneiddio Tai, ac Ymgynghori gyda'r cyhoedd ar Dlodi Tanwydd. Mae costau byw ar flaen meddyliau llawer o drigolion Gwynedd, ac mae'r gwasanaeth yma ar y rheng flaen yn eu helpu gydag ymholiadau a rhoi cymorth ymarferol iddynt.

Darparu cymorth gyda biliau ynni

Hyd yma mae dros 570 o bobl wedi derbyn cymorth gyda'u biliau ynni gan y tîm cadwraeth ynni, trwy dderbyn talebau ynni i fynd tuag at dalu mesuryddion rhagdalau trydan a/neu nwy. Mae'r adborth y mae'r swyddogion wedi'i dderbyn yn profi bod y gwasanaeth yma yn gwneud gwir wahaniaeth i bobl Gwynedd. Dyma un enghraifft:

"Hoffem ddiolch o waelod calon i Ffion a Meilyr am eu gwaith di-ddiwedd o gynghori, a sicrhau bod trigolion bregus Dolgellau, yn elwa'n sylweddol o gael y cyfle i ymgeisio am dalebau tanwydd. Prysuraf i ganmol eich parodrwydd i weithio mor galed mewn cyfnod byr o amser – mae eich angerdd at y gwaith yn glod mawr i'r adran ac yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn derbyn y Cyngor a'r gofal gorau posib."

2.2 **Mynediad rhwydd a chilir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu ein drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai:**

Mae'r Adran yn parhau gyda'i nod o sefydlu drws ffrynt/desg gymorth ar gyfer gwasanaethau tai fydd yn hwyluso mynediad y cyhoedd at y gwasanaethau hynny ac yn eu helpu gyda phroblemau tai yn fwy effeithlon.

Ers i mi adrodd y tro diwethaf, mae nifer o ddatblygiadau cyffrous wedi digwydd neu ar y gweill.

System – Mae swyddogion wedi cynnal nifer o gyfarfodydd i drafod posibiladau ar gyfer system ar gyfer y Siop un Stop, gan gynnwys y Gwasanaeth TG mewnol. Bydd aelod o staff y gwasanaeth yn dangos y system i ni yn fuan er mwyn penderfynu a yw'n cyfarch ein hanghenion.

Staffio – Mae dau Swyddog SPOA wedi dechrau gyda'r gwasanaeth ac yn cynorthwyo gyda'r gwaith o drafod gyda phartneriaid. Bydd y swyddogion hyn yn chwarae rhan allweddol yng ngweithrediad y siop un stop unwaith bydd yn weithredol.

Ymchwil – Ar Ionawr 13, rhannwyd holiadur i ofyn barn y cyhoedd ynghylch gwasanaeth cwsmer a chynlluniau'r adran ar gyfer y siop un stop. Ar yr un pryd, mae swyddogion yn dal i

gynnal trafodaethau gyda phartneriaid a mudiadau trydydd sector mewn paratoad ar gyfer lansio'r gwasanaeth newydd. Yn ogystal â hynny, mae gwaith yn digwydd i adnabod llif gwaith a mapio prosesau er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r camau priodol yn eu lle yn amserol.

2.3 Risgiau eraill

Mae ambell risg i'r Adran sydd angen i mi eu hamlygu ar hyn o bryd.

2.3.1 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r galw am wasanaethau'r **Unedau Digartrefedd** yn parhau yn uchel gyda'r niferoedd digartref yn parhau ar yr un raddfa a welwyd y llynedd.

Mae'r diffyg addewid o gyllid gan y Llywodraeth i gyfarch y galw uwch fydd arnom yn sgil hyn yn destun pryder, ac rydym wedi amlygu hyn yn gorfforaethol ond bydd y risgiau'n ymwneud â Digartrefedd yn debygol o fod gyda ni nes bydd y cydbwysedd rhwng y galw am dai a'r cyflenwad yn gwella.

I fynd i'r afael â hyn, rydym yn ystyried nifer o opsiynau er mwyn lleihau ein defnydd o lety dros dro a chynyddu ein hopsiynau i ddarparu llety addas i'r rhai sy'n ddigartref yng Ngwynedd. Bydd hyn yn ei dro hefyd yn cyfarch peth o'r gorwariant £6.4m sydd eisoes wedi'i adrodd mewn perthynas â llety dros dro.

2.3.2 Mae'r **Uned Ailsefydlu Ffoaduriaid** wedi bod ar flaen y gad yn cefnogi ffoaduriaid sy'n cyrraedd Gwynedd o Wcrain yn y Ganolfan Groeso. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi datgan y bydd y Ganolfan yn cau yn y misoedd nesaf ac mae risg sylweddol y bydd y ffoaduriaid hyn yn cael eu gwneud yn ddigartref pe na bai modd dod o hyd i lety parhaol iddynt cyn hynny. Ynghyd â chynllun Noddwyr Wcrain, amcangyfrifir y gall dod â'r ddau gynllun hwn i ben, yn y senario waethaf, ychwanegu dros 200 o unigolion at ein niferoedd cyflwyniadau digartref.

2.3.3 Rhagwelir y bydd y **cynnydd aruthrol mewn costau ynni** yn cael effaith sylweddol ar y Cyngor. Tra bo prisiau nwy'r Cyngor wedi eu cloi am y cyfnod Ebrill 2020–Mawrth 2024 (ac felly wedi osgoi'r cynnydd byd-eang yng nghostau ynni ac arbed miliynau o bunnoedd i'r Cyngor), nid felly'r sefyllfa gyda thrydan.


Rhagwelwn rhwng y 1af o Hydref 2022 ar 31ain o Fawrth 2023 y bydd cynnydd sylweddol yng nghost uned o drydan. Er mwyn lleddfu'r ergyd ariannol hon, mae'r Adran yn pwysleisio'r angen i ddefnyddwyr adeiladau'r Cyngor (boed yn swyddfeydd, ysgolion ac eraill) fanteisio ar bob cyfle i wneud y defnydd mwyaf synhwyrol o'u hynni, er enghraifft, sicrhau eu bod yn diffodd goleuadau pan nad oes defnydd o ystafell a thros nos. I'r perwyl hwn, mae'r Adran wedi ymgynghori gyda'r Adran Addysg i hysbysu penaethiaid ysgolion o'r arferion da hyn a bydd y Gwasanaeth Ynni yn parhau i fonitro defnydd ynni ar draws ein safleoedd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ynni.

3. PERFFORMIAD


Mae'r Adran wedi bod yn un o'r cyntaf i weithredu trefn newydd herio perfformiad y Cyngor, lle gwahoddir rheolwyr gwasanaeth a Phennaeth yr Adran i drafod perfformiad mewn cyfarfodydd bob dau fis. Yn unol â'r drefn hon, cyflwynwyd yr adroddiad perfformiad diwethaf ar ddata Medi 2022, a chrynohir y prif faterion a godwyd o'r cyfarfod hwnnw isod. Hoffwn ddweud fy mod yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran mewn cyfnod mor heriol.

3.1 Mae cranran y newid mewn **allyriadau carbon o adeiladau'r Cyngor** wedi sefydlogi ers misoedd o gwmpas 10%. Mae'r Uned yn defnyddio system newydd o'r enw *Smartspaces* sy'n galluogi iddynt fonitro defnydd ynni ar draws ein safleoedd yn well ac yn fanylach, ac yn ymdrechu i annog newid ymddygiad trwy geisio annog pobl i fod yn rhagweithiol wrth ddiffodd goleuadau, offer sydd ddim yn cael ei ddefnyddio ac ati.


Canran y newid mewn allyriadau carbon o adeiladau o'i gymharu â'r un adeg yn 2019



Prosiectau'r Gwasnaeth Datblygu Eiddo sydd yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen wedi i'r briff llawn gael ei gytuno




Prosiectau'r Gwasanaeth yn ôl eu statws





3.2 Mae'n braf nodi bod 100% o brosiectau'r **Gwasanaeth Datblygu Tai ac Eiddo** symud ymlaen yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Mae'r Adran wedi addasu sut rydym yn dangos data mesurydd y Gwasanaeth hwn gan ddangos statws y prosiectau yn ogystal â chanran y prosiectau sy'n symud ymlaen yn unol â'r amserlen. Gobeithir bod hyn yn rhoi trosolwg gwell ac adlewyrchu'r sefyllfa'n fwy cywir.

Nifer o dai cymdeithasol wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd uchelgais y CGT



3.3 Fel y gwelir uchod, mae cynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl leol i fyw yn lleol yn un o flaenoriaethau'r Adran. Un ffordd o wneud hyn yw cydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai ar y Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol trwy ddarparu cyllid i'r cymdeithasau adeiladu unedau preswyl ar draws y sir yn unol ag anghenion lleol. Ers cychwyn y cynllun mae 173 o dai fforddiadwy wedi'u codi yma yng Ngwynedd. Bydd £12,304,577 o arian Grant Tai Cymdeithasol sydd wedi ei ddenu ar gyfer 22/23 yn darparu 123 o dai cymdeithasol a 21 o dai canolraddol. Yn ogystal, mae £13,535,035 o arian Grant Tai Cymdeithasol wedi'i glustnodi ar gyfer Rhaglen 2023/24 gyda dros £10,000,000 eisoes wedi ei ddyrannu ar gyfer gwahanol gynlluniau dros y Sir.



- 3.4 Mae'r cynnydd mewn **digartrefedd** y soniais amdano uchod yn cael ei adlewyrchu ym mesurau perfformiad yr Adran, gyda'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety argyfwng anaddas (e.e. gwely a brecwast), er yn sefydlogi, yn parhau yn uchel – **189** o ddiwrnodau, a'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mewn llety dros dro (tai preifat sy'n cael eu prydlesu gennym) yn **354** diwrnod. Er nad oes datrysiad hawdd a chyflym i'r broblem hon, mae cynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai i ddatblygu 38 o unedau llety â chefnogaeth i alluogi unigolion symud o lety argyfwng, ynghyd â chynlluniau i annog rhagor o landlordiaid osod eu heiddo er budd unigolion a theuluoedd digartref yn ceisio mynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae hyn yn ogystal â'r cynlluniau sydd gennym i ostwng ein gwariant ar lety dros dro.
- 3.4 Rhoi cymorth i bobl fyw mewn cartref o safon, sy'n fforddiadwy ac sydd yn gwella ansawdd eu bywyd yw nod pennaf y Cynllun Gweithredu Tai a mesurir hynny trwy gyfrifo sawl uned sydd wedi'i ddatblygu neu sawl person sydd wedi derbyn cymorth tuag at wireddu'r nod hwnnw. Mae'r ffigwr hwn ar hyn o bryd yn **2720**, sy'n deillio o waith rhagweithiol i alluogi i bobl aros yn eu tai a pharhau i fyw yn annibynnol e.e. trwy wneud addasiadau a gosod rampiau ac ati, a chynlluniau sy'n galluogi i bobl brynu neu rentu tai e.e. grantiau i brynwyr tro cyntaf adnewyddu tai gwag, prynu tai oddi ar y farchnad breifat ac ati. Rhagwelir y byddwn yn cyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

Yn dilyn adolygiad diweddar o sefyllfa cyllidebol yr adran a gyflwynwyd ir cabinet 24/01/2023 nodwyd fod oblygiadau newid deddfwriaethol yn ymwneud â Digartrefedd yn golygu pwysau ariannol sylweddol eleni. Er bod dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil covid y Cyngor wedi ei roi i gynorthwyo'r sefyllfa, rhagwelir gorwariant net o £2.7 miliwn eleni.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro: *“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb”*

Pennaeth Cyllid: *“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Tai ac Eiddo.”*